**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Gorffennaf 2022** |
| **Teitl:** | **Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-2027** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi gwybod i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol ynghylch gofal plant yng Ngheredigion.**<br><br>**Cyflwyno fersiwn derfynol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ceredigion 2022 – 2027 (yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus) a Chynllun Gweithredu 5 mlynedd i'w cymeradwyo.**<br><br>**Cyflwynwyd drafft i Lywodraeth Cymru ar gyfer argymhellion Gweinidogol erbyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin 2022.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.** |

- Mae Canllawiau Statudol Gofal Plant 2016 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i baratoi Asesiad llawn o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob 5 mlynedd, gan adolygu eu hasesiad bob blwyddyn fel rhan o'u hadroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.
- Mae Adran 22 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau i sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, bod yna ofal plant digonol i gwrdd â gofynion rhieni yn eu hardal er mwyn eu galluogi i:
    - fanteisio ar waith neu aros yn eu gwaith; neu gael addysg neu hyfforddiant
- Mae darparwyr gofal plant yn cynnwys Meithrinfeydd Dydd, Gwarchodwyr Plant, Gofal Dydd Sesiynol (Cylchoedd Meithrin a Grwpiau Chwarae) a Chlybiau ar ôl Ysgol / Clybiau Gwyliau. Cânt eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn dod yn **Ddarparwyr Gofal Plant Cofrestredig.** Mae rhai lleoliadau'n darparu addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 blwydd oed a chânt eu harolygu gan Estyn.
- Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol i asesu data ynghylch y galw am ddarpariaeth gofrestredig a chyflenwi'r ddarpariaeth gofrestredig, gan ddatblygu cynllun gweithredu pum mlynedd er mwyn cynorthwyo datblygiad gofal plant digonol ar draws Ceredigion. Mae angen i ofal plant ymateb i anghenion rhieni, gan fod yn hygyrch, yn fforddiadwy, yn hyblyg ac o ansawdd da.
- Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Uned Gofal Plant, Cyngor Sir Ceredigion a ddilynodd y rheoliadau rhagnodedig a'r canllawiau diweddaraf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wrth gwblhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

- Cyflwynwyd drafft o’r asesiad i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2022.
- Ystyriwyd yr adroddiad drafft gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar 2 Mawrth 2022, a dechreuodd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar 9 Mai 2022 am y 28 diwrnod statudol.
- Yr ychwanegiadau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon i'r Cabinet eu cymeradwyo yw’r ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc, canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r Cynllun Gweithredu 5 mlynedd.

Mae’r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi dwyn gwybodaeth ynghyd ar sail y ffynonellau canlynol:

- Data a ddarparwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru trwy eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, a gwblhawyd gan 95.9% o’r darparwyr gofal plant yng Ngheredigion. Mae’r holl leoliadau eraill wedi cwblhau’r wybodaeth gyda’r Uned Gofal Plant felly roeddem wedi gallu gweithio gyda data oddi wrth 100% o’n lleoliadau cofrestredig sy’n weithredol.
- Arolwg ar-lein i Rieni / Gofalwyr a gwblhawyd gan 633 o rieni.
- Arolwg ar gyfer cyflogwyr – derbyniwyd 8 ymateb.
- Yr adborth a gafwyd wrth ymgynghori ag asiantaethau sy’n rhanddeiliaid e.e. Canolfannau Teulu, Dechrau’n Deg, CWLWM – Sefydliadau Ambarél Gofal Plant, Coleg Ceredigion a meysydd gwasanaeth allweddol o fewn yr awdurdod.
- Cynhelir ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc yn ystod y gwyliau hanner tymor ym mis Chwefror 2022 mewn partneriaeth â’r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ac ar-lein gyda’r Clybiau ar ôl Ysgol (oherwydd y cyfyngiadau yn sgil COVID-19).
- Yn yr Asesiad cyntaf yn 2008, cofnodwyd bod 1,573 o leoedd gofal plant cofrestredig ar gael gyda 116 o ddarparwyr. Cynyddodd y lleoedd i’r nifer uchaf yn 2017 gyda 1,945 o leoedd. Fodd bynnag mae’r ffigyrau diweddaraf yn dangos bod nifer y lleoedd wedi cwympo i’w lefel isaf sef **1,570 o leoedd cofrestredig** gyda **91 o ddarparwyr gofal plant,** ynghyd â **42 lle** ychwanegol sydd ar gael yn y sesiynau yn y prynhawn.
- Mae’r tabl canlynol yn dangos y cwymp a fu yn nifer y lleoedd gofal plant yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

| Cyfanswm y lleoedd gofal plant | Gwarchodwyr Plant | Gofal Dydd Sesiynol | Gofal Dydd Llawn | Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | Crèche | Chwarae Mynediad Agored | Cyfanswm y lleoedd sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2017 | 369 | 474 | 516 | 418 | 112 | 56 | **1945** |
| 31/03/2018 | 420 | 355 | 468 | 428 | 142 | 56 | **1869** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2019 | 421 | 238 | 648 | 368 | 52 | 32 | **1759** |
| 31/03/2020 | 372 | 146 | 748 | 372 | 32 | 0 | **1670** |
| 31/03/2021 | 373 | 523 | 370 | 380 | 32 | 0 | **1624** |
| 31/12/2021 | 351 | 587 | 306 | 294 | 32 | 0 | **1570** |

- Mae gofal plant sy'n hygyrch, fforddiadwy ac o ansawdd da yn hanfodol i deuluoedd gan ei fod yn caniatáu i'r rhieni gael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae sicrhau bod yna ofal plant digonol yn bwysig i economi Ceredigion, gan ei fod yn caniatáu i rieni fod yn economaidd weithgar.
- Mae gweithwyr proffesiynol y sector gofal plant a chwarae wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r plant sydd yn eu gofal. Mae'r gweithlu yn un ymroddedig sy'n ymdrechu i wella'i sgiliau yn barhaus, ac mae mwyafrif y gweithlu'n derbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol / y Cyflog Byw yn unig. Mae'r pandemig wedi dangos bod y darparwyr yn ddyfeisgar ac yn gallu addasu i newid, ac maent bellach yn gweithio yn y 'normal newydd'. Fodd bynnag, mae gweithwyr proffesiynol cymwysedig, sy'n wynebu newidiadau (megis mwy o ofynion o ran cymwysterau ac ati), yn chwilio am waith mewn sectorau eraill am dâl ac amodau gwell.
- Mae'r sector yn wynebu heriau recriwtio a chadw. Parhaodd y sector ar agor i alluogi gweithwyr allweddol i weithio yn ystod y pandemig – ond ni chawsant eu cydnabod ar yr un lefel â'r sector addysg na'u gwobrwyo fel y sector iechyd a gofal. Felly, mae angen sicrhau cydraddoldeb y gweithlu Gofal Plant yn genedlaethol.

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

**Y bylchau a nodwyd:**

Mae Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ceredigion 2022 – 2027 wedi amlygu rhai bylchau arwyddocaol yn y farchnad gofal plant y mae angen mynd i'r afael â hwy:

- Nid oes gan Geredigion ddigon o ddarpariaeth gofal plant i ddiwallu'r galw am ddarpariaeth sy'n caniatáu i rieni gael mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth – yn enwedig o ran darpariaeth gofal plant ar ôl ysgol, yn ystod y gwyliau a gofal diwrnod llawn.
- Mae galw am warchodwyr plant ar draws y sir – yn enwedig gwarchodwyr plant sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Nid oes darpariaeth gofal dydd llawn ar gael o hyd yn ne'r sir – rhywbeth a amlygwyd yn yr Asesiad diwethaf o Ddigonolrwydd Gofal Plant.
- Nid oes cyfleuster gofal plant sesiynol yn Llanbedr Pont Steffan.
- Cost a lleoliad gofal plant yw'r rhwystr mwyaf i rieni.
- Mae angen cyllid ychwanegol i gynorthwyo plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol e.e. nid ydy oriau'r Cynllun Cyfeirio yn ddigonol i gynorthwyo pob plentyn.

- Mae'r darparwyr yn nodi eu bod yn cael anhawster recriwtio staff sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sy'n gallu siarad Cymraeg yn ddigon da er mwyn gallu gweithio mewn lleoliad gofal plant.
- Mae nifer uchel yn dal i ddibynnu ar deulu a ffrindiau i ddarparu gofal plant.
- Mae llawer o ddarparwyr Gofal Plant wedi gweithredu o dan fodel y Pwyllgor Gwirfoddol ers degawdau. Fodd bynnag, mae'r gofynion sy'n deillio o reoliadau cofrestru o dan AGC dros yr 20 mlynedd diwethaf a gofynion Estyn ar gyfer y rhai sy'n darparu addysg ar gyfer plant 3 oed, a rheolaeth busnes wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod hwn, ac mae angen ystyried a yw'r model yn addas i'r diben gan eu bod bellach yn fusnesau / mentrau cymdeithasol. Mae yna botensial i Sefydliadau Ambarél Gofal Plant ystyried cymryd rhai o'r cyfrifoldebau oddi ar y lleoliadau.
- Mae clybiau gweithgaredd sydd heb eu cofrestru yn gyrru Gofal Plant cofrestredig o'r farchnad. Mae angen i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ailedrych ar yr Adolygiad o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd. Mae angen i ofal cofleidiol (yn gynnar yn y bore / ar ôl ysgol) fod ar gael ymhob ysgol ardal.
- Gallai unrhyw gynigion ailstrwythuro effeithio ar ddarparwyr gofal plant yn y dyfodol, os yw'r cynigion hynny yn cyflwyno addysg ar gyfer plant 3 blwydd oed mewn ysgolion. Bydd angen ystyried cymryd camau priodol i leihau unrhyw ostyngiad yn nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael a fyddai'n golygu nad ydym yn cyflawni ein dyletswydd statudol i sicrhau bod gofal plant digonol ar gael.
- Mae'n aneglur beth yn union y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnig gofal plant wedi'i ariannu i blant 2 flwydd oed yn ei olygu.
- Ar hyn o bryd mae newidiadau i'r diwrnod ysgol yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymrwymiad rhwng Plaid Cymru a'r Llywodraeth Lafur. Efallai y bydd yn rhaid i'r sector addasu i newidiadau posibl o ganlyniad i hyn.

**Y camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau:**

- Mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth mewn ardaloedd penodol, e.e. Clybiau ar Ôl ysgol a chynyddu nifer y lleoedd gofal plant sy'n fforddiadwy, yn hyblyg ac o ansawdd da. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at yr anghenion a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant.
- Sicrhau bod Ceredigion yn barod ar gyfer yr adeg pan fydd Llywodraeth Cymru'n yn cyflwyno'r gofal plant estynedig ar gyfer plant 2 flwydd oed fel rhan o ymestyn Dechrau'n Deg. Gweithio mewn partneriaeth â'r darparwyr gofal plant presennol a rhai'r dyfodol er mwyn sicrhau bod digon o leoedd ar gael i ateb y galw.
- Mae rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio ffioedd atodol wrth gael mynediad i addysg gynnar ac mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd difreintiedig, gan arwain at lai o bresenoldeb, ac yn effeithio ar gyrhaeddiad a datblygiad plant.
- Nodi cyfleoedd i leoliadau sesiynol ddarparu gofal cofleidiol mewn ysgolion er mwyn cynorthwyo'r lleoliadau i fod yn fwy cynaliadwy.
- Sicrhau bod gofal plant yn cael ei ystyried wrth ddatblygu pob ysgol yr 21ain Ganrif yn unol â chanllawiau Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru.
- Gofyn i Wasanaethau'r Economi ac Adfywio, e.e. y gwasanaethau cynllunio ac eiddo, ystyried ceisiadau ar gyfer lleoliadau gofal plant ar frys.
- Mae amcanion Tyfu Canolbarth Cymru yn edrych ar ffyrdd o gefnogi cyflogau economi sylfaenol – angen sicrhau bod hyn yn cynnwys ymarferwyr gofal plant.

- Hyrwyddo Camau a hyfforddiant y Gymraeg mewn rhaglen hyfforddi dymhorol.
- Sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn bodloni ei ddyletswydd statudol.

| | | |
|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Na. Asesiad yw hwn o ddigonolrwydd Darpariaeth Gofal Plant yng Ngheredigion ac nid yw'n effeithio ar unrhyw newid i bolisi neu wasanaethau. |
| | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** | |

**Argymhelliad / Argymhellion:** Ystyried a chymeradwyo canfyddiadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-2027, a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ac unrhyw Grwpiau Gorchwyl a Gorffen dilynol i fynd i'r afael â'r meysydd annigonol a nodir yn yr adroddiad. Gan gynnwys:

- Cymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion Gofal Plant wrth ddatblygu adeiladau ysgol newydd neu bresennol.
- Cymryd darpariaeth Gofal Plant i ystyriaeth mewn unrhyw ddatblygiadau cynllunio presennol a newydd.
- Cydnabod bod darparwyr Gofal Plant yn rhan o economi sylfaenol Ceredigion.

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** Cyflawni ein dyletswydd fel Awdurdod Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn bob 5 mlynedd yn unol â Chanllawiau Gofal Plant Statudol 2016, a pharhau i adolygu'r asesiad trwy adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru.

**Trosolwg a Chraffu:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar 2 Mawrth 2022 – cymeradwywyd yr asesiad drafft i fynd i Ymgynghoriad Cyhoeddus a ddechreuodd ar 9 Mai 2022 am y 28 diwrnod statudol

**Fframwaith Polisi:**

**Blaenoriaethau Gorfforaethol:**

- Hybu'r Economi
- Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
- Galluogi Cydnerthedd Unigol a Theuluoedd

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** Defnyddio adnoddau presennol a chyllid grant i fynd i'r afael â'r bylchau a amlygwyd drwy'r ADGP a cheisio datblygu Gofal Plant ychwanegol yn y meysydd a nodwyd yn unol â'r Cynllun Gweithredu.

| | |
|---|---|
| | Efallai y bydd angen cyllid ychwanegol i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol os bydd cyllid grant yn cael ei leihau o fewn y 5 mlynedd nesaf. |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn ehangu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol.<br><br>Cyhoeddir Canllawiau Gofal Plant Statudol 2016 o dan adrannau 22(3), 23(3), 26(2)(b) a 27(7) o Ddeddf Gofal Plant 2006 ac adran 118(A)(2)(b) o'r Ddeddf. Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Gan eu bod yn ganllawiau statudol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt.<br>Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau, ac os ydynt yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, mae'n rhaid bod ganddynt resymau clir y gellir eu cyfiawnhau dros wneud hynny.<br><br>Bwriad y canllawiau yw cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod digon o ofal plant ar gael<br>• cynnal asesiadau digonolrwydd gofal plant; a<br>• darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â gofal plant i rieni, darpar rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal plentyn. |
| **Goblygiadau staffio:** | Ariennir staff yr Uned Gofal Plant drwy'r gyllideb graidd, Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru, Grant Datblygu Plant a grant Gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant. |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | |
| **Pwerau Statudol:** | Canllawiau Gofal Plant Statudol 2016 |
| **Papurau Cefndir:** | |
| **Atodiadau:** | Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA) 2022 – 2027<br>Crynodeb Gweithredol ADGP gan gynnwys Cynllun Gweithredu |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Meinir Ebbsworth – Gwasanaeth Ysgolion |
| **Swyddog Adrodd:** | Carys Davies – Rheolwr Strategol Gofal Plant |
| **Dyddiad:** | 14 Mehefin 2022 |

# Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

# 2022 – 2027

**DRAFFT**

DRAFT

**Uned Gofal Plant Mehefin 2022**
**Cyngor Sir Ceredigion County Council**

**Tudalen Cynnwys**

**Crynodeb Gweithredol**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) hwn wedi'i gynnal fel rhan o ddyletswydd statudol ein Hawdurdod Lleol o dan:

- y *Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016);* a
- y cylchlythyr WGC 003 2021/WG21-28 "*Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant*" a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth, 2021.

Cynhaliwyd asesiad 2022-2027 yn fewnol gan swyddogion yr Awdurdod Lleol a dilynodd y broses a nodwyd yn y Canllawiau Statudol Gofal Plant a'r canllawiau atodol. Mae gan yr Awdurdod Uned Gofal Plant bwrpasol o dan y Gwasanaethau Ysgolion a Diwylliant i gefnogi a chynghori'r sector Gofal Plant yng Ngheredigion.

Roedd y dull o gynnal yr asesiad yn gofyn am y canlynol:

- Asesu'r galw am Ofal Plant;
- Asesu'r cyflenwad o Ofal Plant;
- Dadansoddi'r bwlch rhwng y galw a'r cyflenwad;
- Nodi rhwystrau i gael darpariaeth Gofal Plant;
- Mae prosesau mewnol yn mynnu bod yr Asesiad Drafft yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus;
- Y Cabinet i gymeradwyo'r adroddiad terfynol cyn ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2022;
- Cyhoeddi'r Asesiad terfynol ar dudalen we Gofal Plant Cyngor Sir Ceredigion

**Methodoleg:**

- Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol fapio'r ddarpariaeth Gofal Plant leol gan ystyried y math o ddarpariaeth sydd ar gael, nifer y lleoedd, oriau agor, ffioedd, iaith y gwasanaeth, yr oedran y darperir gwasanaeth ar ei gyfer, lleoliad y gwasanaeth, lleoedd gwag ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r gwasanaeth er mwyn asesu cyflenwad.
- Darparwyd y wybodaeth hon i Awdurdodau Lleol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) trwy'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) a gynhaliwyd gyda darparwyr Gofal Plant ym mis Gorffennaf 2021.

DRAFT

- Cyfradd ymateb darparwyr Gofal Plant Ceredigion i'r SASS oedd 95.9%, a chasglwyd y data oedd yn weddill gan swyddogion yr Uned Gofal Plant. Roedd y data a ddefnyddiwyd felly yn gynrychioliadol o 100% o'r lleoliadau cofrestredig gweithredol yng Ngheredigion ym mis Gorffennaf 2021.
- Rhaid gosod cafeat ar yr holl ddata a'r canlyniadau dilynol a'r casgliadau y deuir iddynt, gan fod nifer o anghysondebau ac anghywirdebau yn y data a dderbyniwyd. Mae'r wybodaeth data presenoldeb a lleoedd gwag Darparwr Gofal Plant wedi'i nodi ar gyfer mis Mehefin 2021 pan oedd y lleoliadau'n cael problemau presenoldeb oherwydd amrywiol gyfyngiadau a rheoliadau COVID-19, ac nid oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir gan bob darparwr. Rhaid ystyried anghysondebau technegol yn y set ddata a geir o hyn ac Arolygon Rhieni/Gofalwyr. Cafodd y set ddata ei 'glanhau' i ddileu gwallau, ond rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r data a'r ystadegau a gyflwynir ac ar y cyd â'r wybodaeth gyfredol cyn dod i unrhyw gasgliadau.
- Aseswyd y galw am Ofal Plant o'r ymatebion a dderbyniwyd i Arolwg Rhieni/Gofalwyr ar-lein Llywodraeth Cymru a oedd yn agored i'r cyhoedd yn ystod mis Hydref 2021. Derbyniwyd cyfanswm o **633** o ymatebion rhieni/gofalwyr ar gyfer Ceredigion.
- Cynhaliwyd pob ymgynghoriad ar-lein oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19 a osodwyd ar lefel genedlaethol a lleol. Roedd y rhain yn atal ymgyngoriadau wyneb yn wyneb â rhieni/gofalwyr fel a gynhaliwyd mewn Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant blaenorol.
- Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgynghori â phobl sydd â diddordeb mewn Gofal Plant, a phersonau sy'n cynrychioli'r rhai sydd â diddordeb mewn Gofal Plant. Anfonwyd Arolwg Rhanddeiliaid at ystod eang o Wasanaethau Trydydd Sector, Gwasanaethau Iechyd, Asiantaethau Tai, Canolfan Teuluoedd a Phlant a Gwasanaethau Cyflogaeth.
- Yn unol â'r canllawiau statudol, ymgynghorwyd ag ysgolion a gwasanaethau amrywiol Awdurdodau Lleol sydd â diddordeb mewn plant a Gofal Plant ar ddigonolrwydd Gofal Plant.
- Ymgynghorwyd â phlant yn ystod hanner tymor mis Chwefror mewn partneriaeth â Swyddogion Chwarae a gwaith yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae’r adborth a’r canlyniadau wedi’u cynnwys yn yr adroddiad yma.
- Cysylltwyd â darparwyr Gofal Plant anghofrestredig i gasglu data am eu gwasanaeth a'r nifer oedd yn manteisio ar y gwasanaeth
- Rhoddwyd ystyriaeth i bolisïau, adolygiadau, a fframweithiau eraill ac ati sy'n debygol o effeithio ar y sector Gofal Plant yn y blynyddoedd i ddod.
- Yn unol ag Asesiad Llesiant Ceredigion, mae'r canlyniadau wedi'u dadansoddi ar gyfer naw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) Ceredigion, sef ardaloedd cymunedol a ddefnyddir i nodi asedau a heriau penodol sy'n ymwneud â llesiant.

| |
|---|
| Y Borth a Bont-goch |
| Aberystwyth – Gogledd |
| Aberystwyth – De |
| Aberaeron a Llanrhystud |
| Ceinewydd a Phenbryn |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad |
| Aberteifi ac Aber-porth |

| |
|---|
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Rheidol, Ystwyth a Charon |

**Casgliadau:**

- Ar ôl dadansoddi'r cyflenwad o ddarpariaeth Gofal Plant yng Ngheredigion a'i gymharu â'r galw am Ofal Plant, gallwn weld nad oes gennym ddigon o leoedd Gofal Plant ar gael i fodloni'r galw gan rieni. Mae rhai ardaloedd lle mae teuluoedd yn dweud eu bod yn cael anhawster i ddod o hyd i rai mathau o Ofal Plant, yn enwedig darpariaeth ar ôl ysgol, darpariaeth gwyliau a darpariaeth gofal dydd llawn. Ers yr asesiad diwethaf 2017-2022 rydym wedi colli 375 o leoedd Gofal Plant ar draws pob math o Ofal Plant.

- Mae Gofal Plant hygyrch o ansawdd uchel a fforddiadwy yn hanfodol i deuluoedd gan ei fod yn galluogi rhieni i fanteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth sy'n cyfrannu at economi Ceredigion wrth i rieni fod yn economaidd weithgar.

- Mae'r camau gweithredu a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u grwpio'n saith thema:
    - Cynnal / Gwella darpariaeth
    - Recriwtio
    - Economi / Cynaliadwyedd
    - Tai
    - Anghenion Dysgu Ychwanegol
    - Yr Iaith Gymraeg
    - Rhannu gwybodaeth

**Cynnal / gwella darpariaeth:**

- Elfen hanfodol yn y dasg o fynd i’r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yw cynnal y ddarpariaeth Gofal Plant gofrestredig bresennol sy’n cael ei rheoli a’i staffio gan ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol
- Mae angen gwneud gwaith pellach gan ymchwilio i’r potensial o gynyddu capasiti rhai o’r darparwyr presennol yn hytrach na chreu darpariaeth newydd
- Nodwyd diffyg lleoedd gofal plant mewn ardaloedd penodol yn y sir.  Mae angen i’r Awdurdod Lleol weithio gyda phartneriaid allweddol i fynd i’r afael â’r galw am ofal plant yn yr ardaloedd hyn
- Mae angen gwneud gwaith pellach i archwilio ymatebion i arolygon ar restrau aros a llefydd sydd ar gael, gan fod yr ymateb sampl yn yr arolwg hwn yn rhy fach i ddod i gasgliadau.  Sefydlu methodoleg i fonitro rhestrau aros ac argaeledd lle fesul math o ofal plant, gan wneud y cysylltiad ag unrhyw wybodaeth am ddatblygiad tai arfaethedig.
-



DRAFT

- Bydd angen i'r Awdurdod Lleol a Phartneriaid CWLWM dalu sylw i adolygiad Llywodraeth Cymru ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae angen i'r adolygiad ystyried yr effaith y mae'r ddarpariaeth anghofrestredig yn ei chael ar y ddarpariaeth gofal dydd gofrestredig.
- Nid yw rhieni yn gallu hawlio cymorth ariannol tuag at y ddarpariaeth anghofrestredig. Mae angen i Lywodraeth Cymru/Arolygiaeth Gofal Cymru ystyried proses gofrestru ysgafnach ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth, a fyddai'n caniatáu i rieni gael mynediad at gymorth ariannol.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o beilota clwb gwyliau cofrestredig o fewn canolfan hamdden mewn ardal lle mae galw. Byddai hynny'n caniatáu i rieni wneud cais am gymorth ariannol ar gyfer darpariaeth gwyliau ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni lefel o ddisgwyliad o fewn y gwasanaeth.
- Mae llawer o ddarparwyr gofal plant wedi gweithredu o dan fodel y Pwyllgor Gwirfoddol ers degawdau. Fodd bynnag, mae'r galw sy'n codi yn sgil rheoliadau cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf a gofynion Estyn ar gyfer y sawl sy'n darparu addysg i blant 3 oed a rheolaeth fusnes wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn ac mae angen ystyried a yw'r model yn addas i'r diben, gan eu bod bellach yn fusnesau/mentrau cymdeithasol. Gorddibyniaeth ar ddarpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan y Pwyllgor Gwirfoddol. Mae potensial i Sefydliadau Ambarél Gofal Plant ystyried cymryd rhai cyfrifoldebau oddi ar y lleoliadau.
- Mae angen gweithio gyda Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynllun peilot i gael strwythur cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Mae angen i'r Awdurdod Lleol gynllunio a chefnogi gofal plant digonol, er mwyn bodloni'r galw am ymestyn cynllun Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru i blant 2 oed.
- Oherwydd natur wledig Ceredigion, mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu'r nifer o warchodwyr plant sydd ar gael yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol y sir.

**Recriwtio:**

- Mae wedi dod i'r amlwg bod materion recriwtio a chadw yn faterion sy'n peri pryder mawr o fewn y sector. Mae angen i'r Awdurdod Lleol weithio gyda phartneriaid megis CWLWM, Gofal Cymdeithasol Cymru, colegau ac ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i weithio o fewn maes Gofal Plant.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r cyfleoedd o gynyddu statws a chyflogau'r Gweithlu Gofal Plant. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn archwilio ansawdd y gofal i blant, ond mae angen rhoi sylw i ansawdd tâl ac amodau gwaith y gweithlu Gofal Plant.
- Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i sicrhau bod y gweithlu gofal plant lleol yn dal i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi gorfodol priodol sydd wedi'u sybsideiddio, er mwyn cyflawni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Mae angen gwneud gwaith yn genedlaethol i edrych ar hyblygrwydd o ran cymwysterau ac iaith cyrsiau – mae angen gwneud mwy i alluogi myfyrwyr i gyflawni'r gwaith ysgrifenedig yn y Saesneg ond y gwaith llafar yn y Gymraeg.
- Mae gorfod nodi a yw myfyrwyr yn dilyn y cwrs yn y Saesneg neu'r Gymraeg yn peri nad yw unigolion am y cyfle i astudio yn y Gymraeg.
- Sicrhau bod CWLWM yn rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau Yr Asiantaeth Cynnal Plant ac yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi'r sector.



DRAFT

- Ymwelwyr Iechyd – Mae heriau recriwtio o fewn y sector Ymwelwyr Iechyd yn risg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Dechrau'n Deg ac fe'i nodwyd yn ffactor risg sylweddol o ran cyflwyno'r Rhaglen Plentyn Iach yng Nghymru. Adroddwyd ar hyn o fewn mecanwaith adrodd Grant Plant a Chymunedau. Mae'n effeithio hefyd ar y sector Gofal Plant lle mae'n rhaid i staff adnabod materion a mynd i'r afael â materion nas adnabuwyd cyn hyn yn sgil prinder ymweliadau gan Ymwelwyr Iechyd.

**Economi / Cynaliadwyedd:**

- Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i roi sylw gofalus i fonitro effaith y pandemig ar yr holl ddarparwyr gofal plant ac mae angen rhoi cymorth priodol ar waith i gynnal cynaliadwyedd y ddarpariaeth.
- Mae angen i Strategaeth Economaidd yr Awdurdod Lleol roi ystyriaeth i'r effaith sydd gan y ddarpariaeth Gofal Plant ar y gweithlu.
- Mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod cymorth priodol i ddarpariaeth gofal plant er mwyn galluogi rhieni i gael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, sydd yn eu tro yn cyfrannu at yr economi leol.

**Tai:**

- Mae angen ymchwil pellach i edrych ar yr effaith a fu/a fydd ar leoliadau lle bu/bydd datblygiad tai allweddol. Nid oes unrhyw leoedd Gofal Plant ychwanegol wedi'u creu mewn Meithrinfeydd Dydd sy'n bodoli eisoes na lleoedd ychwanegol wedi'u creu mewn rhai newydd; na chynnydd mewn Gofalwyr Plant cofrestredig yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond maent wedi nodi bod rhestrau aros i blant o dan 2 oed. Mae tystiolaeth lafar bod cynnydd yn nifer y plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn rhai lleoliadau a bydd angen ymchwilio i'r gydberthynas rhyngddynt er mwyn sicrhau bod cyllid a chymorth digonol ar gael.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):**

- Mae angen i'r Awdurdod Lleol fod yn ymwybodol bod nifer yr atgyfeiriadau am gymorth ychwanegol drwy'r Cynllun Cyfeirio yn cynyddu, yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig ac mae darparwyr yn dweud bod mwy o oedi yn natblygiad plant. Bydd angen gwaith parhaus i sicrhau bod cymorth ar gael i ddarparwyr i gael mynediad at hyfforddiant, adnoddau a chyfarpar priodol.
- Mae darparwyr gofal plant yn profi cynnydd yn yr anghenion y maent yn eu hadnabod a'r angen i sicrhau darpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion plant lle mae oedi o ran eu datblygiad ac anghenion ychwanegol neu anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r mater hwn yn fwy cymhleth oherwydd y tasgau ychwanegol y mae angen eu cyflawni er mwyn sicrhau diogelwch yn wyneb COVID, y gwaith papur ychwanegol y mae angen ei gyflawni yn sgil hyn ac wrth wneud cais am grantiau.
- Mae rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio ffioedd atodol wrth gael mynediad at addysg gynnar ac mae hyn yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd difreintiedig, sy'n arwain at lefelau presenoldeb is ac mae'n effeithio ar gyrhaeddiad a datblygiad plant.

DRAFT

**Yr Iaith Gymraeg:**

- Mae gan Geredigion lefel uchel o ddarpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.  Fodd bynnag, mae recriwtio staff cymwysedig sy'n siarad Cymraeg yn fwy o broblem y dyddiau hyn.  Mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod cymorth ar gael o ran hyfforddiant y Gymraeg yn y gweithle.  Mae angen i unrhyw ddatblygiad gofal plant yn yr awdurdod roi ystyriaeth i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) wrth i'r Awdurdod Lleol a'r partneriaid fynd i'r afael â chamau gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Rhannu Gwybodaeth:**

- Mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cael ei gynnal ac yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol . Mae angen gwaith pellach i godi proffil y gwasanaeth.  Mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd rôl allweddol i sicrhau bod rhieni'n ymwybodol pa ddewisiadau gofal plant sydd ar gael i'w helpu gyda chostau gofal plant.  Mae angen i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd nodi sut y gall hyrwyddo ei rôl ymhlith cyflogwyr lleol yn ogystal ag ymhlith eu cyflogeion.  Mae'r Uned Gofal Plant yn cyflawni dyletswyddau (y tu hwnt i'w chylch gwaith) i sicrhau bod y dyletswyddau statudol yn cael eu diwallu ac maent yn gwneud hynny heb unrhyw adnoddau ariannol.
- Mae angen i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid wneud gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Gofal Plant Ddi-Dreth.  Dylid meithrin cysylltiadau â'r Grŵp Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â chaledi sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi yn y gwaith yng Ngheredigion.
- Mae angen parhau i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cynllun ac yn gwybod sut i wneud cais amdano.
- Mae angen i'r Awdurdod Lleol ystyried y cyfleoedd i ymgysylltu â darparwyr Gofal Plant, rhieni a chyflogwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a mentrau eraill i helpu gyda chostau Gofal Plant, i liniaru tlodi mewn gwaith a lleihau canran y plant sy'n byw mewn tlodi, drwy ddatblygu llwyfan ar y Cyfryngau Cymdeithasol.
- Mae angen gwella'r ddeialog a'r gwaith partneriaeth rhwng yr Uned Gofal Plant a'r timau Gofal Cymdeithasol.
- Mae'n bosibl bod baich y llwyth gwaith ychwanegol yn effeithio'n waeth ar ofalwyr plant, gan eu bod yn weithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain ac yn gweithio o'u cartrefi eu hunain.  Maent yn darparu eu gwasanaethau dros oriau estynedig ac mae ganddynt eu hymrwymiadau teuluol eu hunain.  Mae hyn yn golygu bod eu holl waith gweinyddol yn cael ei gyflawni y tu allan i'r oriau y maent yn darparu Gofal Plant.   Felly, byddent yn elwa'n fawr o gymorth estynedig a chydnabyddiaeth pobl broffesiynol eraill o bwysigrwydd eu cyfraniad i fywydau plant.
-

**Cynllun Gweithredu**
Defnyddir yr argymhellion hyn i ddatblygu cynllun gweithredu pum mlynedd a fydd yn ceisio rhoi sylw i'r problemau a nodwyd. Y nod fydd i'r Awdurdod Lleol weithio mewn partneriaeth â'r sector Gofal Plant preifat, gwirfoddol, annibynnol ac a gynhelir i sicrhau Gofal Plant digonol,

DRAFT

| | |
|---|---|
| | cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion teuluoedd yn unol â chynigion a pholisïau Llywodraeth Cymru mewn cyfnod sy'n newid yn barhaus. Adroddir yn flynyddol i Lywodraeth Cymru am y cynnydd a wneir o ran y cynllun gweithredu. |

DRAFFT

**Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) 2022 – 2027 Themâu a Nodwyd:**

| MAES | THEMÂU | Cysylltiadau â Chynllunio Busnes CSC | Cynlluniau Busnes Ysgolion a Diwylliant |
|---|---|---|---|
| **Cynnal / Gwella Darpariaeth** | Mae angen i Adolygiad o Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ystyried yr effaith y mae darpariaeth anghofrestredig yn ei chael ar ddarpariaeth gofal dydd cofrestredig.<br><br>Ni all rhieni hawlio cymorth ariannol tuag at y ddarpariaeth anghofrestredig. Mae angen i LIC/AGC ystyried proses gofrestru ysgafnach ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth a fyddai'n galluogi rhieni i gael cymorth ariannol.<br><br>Ymchwilio i'r posibilrwydd o dreialu clwb gweithgareddau gwyliau cofrestredig o fewn canolfan hamdden yn yr ardal lle mae galw, gan ganiatáu i rieni wneud cais am gymorth ariannol ar gyfer darpariaeth gwyliau a sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni'r lefel a ddisgwylir o fewn y gwasanaeth. | 1. Model Gydol Oed a Llesiant / Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSA) | |
| **Cynnal / Gwella Darpariaeth** | Ystyried yr ymateb i'r arolwg ar restrau aros a'r lleoedd sydd ar gael gan fod yr ymateb sampl yn yr arolwg hwn yn rhy fach i ddod i gasgliadau. Sefydlu methodoleg i fonitro rhestrau aros ac argaeledd lleoedd yn ôl math o Ofal Plant, gan gysylltu ag unrhyw wybodaeth am ddatblygiadau tai arfaethedig.<br>Ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai rhai darparwyr presennol gynyddu capasiti yn hytrach na chreu darpariaeth newydd. | 3. Tyfu Canolbarth Cymru<br><br>2. Cynllun Tai Cymunedol | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnal / Gwella Darpariaeth** | Elfen hanfodol o fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth yw cynnal darpariaeth Gofal Plant sydd eisoes yn gweithredu ac yn cael ei rhedeg / staffio gan ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol. Mae pob math o leoliadau Gofal Plant yn profi morâl isel a blinder yn dilyn y pandemig, ac yn adrodd hyn i'r Uned Gofal Plant.<br><br>Oherwydd sefyllfa fregus lleoliadau, mae staff /ymarferwyr cymwysedig yn chwilio am swyddi mwy diogel mewn mannau eraill. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau hefyd yn sefydliadau gwirfoddol, gyda baich enfawr ar aelodau gwirfoddol/pwyllgor i reoli'r ddarpariaeth bresennol a darparu Gofal Plant cofrestredig, wedi'i reoleiddio, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i rieni sy'n gweithio yn y dyfodol.<br><br>Mae cynaliadwyedd y lleoliadau yn y dyfodol yn ymwneud mwy ag aelodaeth a rheolaeth pwyllgorau yn hytrach na'r galw gan rieni.<br>Angen gweithio gyda Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynllun peilot i gael strwythur cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.<br><br>Gorddibynnu ar ddarpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan y Pwyllgor Gwirfoddol. Mae yna botensial i sefydliadau ymbarél Gofal Plant ystyried cymryd rhai o'r cyfrifoldebau oddi wrth lleoliadau.<br><br>Mae llawer o ddarparwyr Gofal Plant wedi gweithredu o dan y model Pwyllgor Gwirfoddol ers degawdau. Fodd bynnag, mae'r galwadau a ddaeth yn sgil rheoliadau cofrestru o dan AGC yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf a gofynion Estyn i'r rhai sy'n darparu addysg i blant 3 oed, a rheoli busnes wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod hwn, ac mae angen ystyried a yw'r model yn addas at y diben oherwydd busnesau /mentrau cymdeithasol ydynt bellach. | | |
| **Cynnal / Gwella Darpariaeth** | Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth Gofal Dydd Sesiynol ar gyfer plant 2-3 oed heb effeithio ar y ddau Ddarparwr Gofal Dydd Llawn a Gwarchodwyr Plant yn Llanbedr Pont Steffan.<br>Ymchwil pellach i anghenion Gofal Plant teuluoedd sy'n byw yng nghymuned Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad. | 4. Ysgolion yr 21ain Ganrif | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnal / Gwella Darpariaeth** | Awdurdod Lleol Ceredigion i weithio gyda LIC ar sut i weithredu'r Gofal Plant a ariennir ar gyfer plant 2 oed ar draws Ceredigion a helpu gyda chynllunio unrhyw ddarpariaeth ychwanegol.<br>Ymchwilio i gyfleoedd cyllid grant cyfalaf posibl yn unol ag ehangu pellach y Cynnig Gofal Plant neu gyllid 2 flwydd oed. | 4. Ysgolion yr 21ain Ganrif | |
| **Cynnal / Gwella Darpariaeth** | Cyfrannu at ymgyngoriadau ac adolygiadau Diwygio Ysgolion Llywodraeth Cymru a rhoi unrhyw gamau gweithredu ar waith | 4. Ysgolion yr 21ain Ganrif | |
| **Recriwtio** | Sefydlu Grŵp Gorchwyl Cyflogaeth a Dysgu Gofal Plant i gynnwys Gwasanaethau Cyflogaeth a Hyfforddiant, Gwasanaethau Ysgolion, Coleg Addysg Bellach i gynnig cyrsiau priodol a recriwtio dysgwyr.<br>Gweithio gyda Chymunedau am Waith a Mwy a rhaglenni cyflogadwyedd i alinio'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a chyngor<br>Sicrhau bod mewnbwn yn cael ei roi i'r adolygiad addysg ôl-16 i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â chymwysterau. | 3. Tyfu Canolbarth Cymru | 3.6<br>Addysg Ôl-14 ac Ôl-16 |
| **Recriwtio** | Mae angen ymchwilio ymhellach i nodi pa gyfleoedd hyfforddi Gofal Plant a Chwarae sydd ar gael yng Ngheredigion. Mae angen gwneud mwy o waith yn lleol i hyrwyddo gyrfa ym maes Gofal Plant. | 3. Tyfu Canolbarth Cymru | 3.6<br>Addysg Ôl-14 ac Ôl-16 |
| **Recriwtio** | Sicrhau bod CWLWM yn nodi casgliadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi'r sector. | 3. Tyfu Canolbarth Cymru | |
| **Recriwtio** | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i statws a chyfleoedd cyflog gwell ar gyfer y gweithlu Gofal Plant. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn arolygu ansawdd y gofal i blant, ond mae angen ystyried ansawdd y tâl ac amodau gwaith ar gyfer y gweithlu Gofal Plant. | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Recriwtio** | Ymwelwyr iechyd – Mae heriau recriwtio o fewn y sector Ymwelwyr Iechyd yn risg sy'n gysylltiedig â rhaglen Dechrau'n Deg, ac wedi'i nodi fel ffactor risg sylweddol i gyflawni Rhaglen Plant Iach Cymru. Mae effaith hefyd ar y sector Gofal Plant lle mae'n rhaid i staff nodi a mynd i'r afael â materion sydd heb eu nodi o'r blaen oherwydd diffyg ymweliadau gan Ymwelwyr Iechyd. Mesurau Lliniaru: mae cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at bryderon. Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol (+ Darganfod Cymru) yn 2021, ond mae prinder o hyd.<br><br>Gweithio gyda Phartner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Prifysgol Aberystwyth sy'n lansio gradd nyrsio ac yn ymchwilio i'r opsiwn o ddatblygu cymhwyster Ymwelydd Iechyd er mwyn cadw'r dysgwyr sy'n mynd ar leoliad yng Ngheredigion tra byddant yn astudio yn Aberystwyth. | | |
| **Economi/Cynaliadwyedd** | Sicrhau bod unrhyw brosiectau Datblygu Ysgol yn cynnwys darpariaeth Gofal Plant gofleidiol (Clwb Ôl Ysgol, Clwb Gwyliau a Chylch Meithrin/Grwp Chwarae) yn gynnar yn y cam cynllunio a chysylltu â'r Uned Gofal Plant (neu'r cyfwerth) i sicrhau addasrwydd darpariaeth o'r fath. | 4. Ysgolion yr 21ain Ganrif | 2.2 Isadeiledd ac Adnoddau |
| **Economi/Cynaliadwyedd** | Sicrhau bod prosiectau datblygu Tyfu Canolbarth Cymru yn cynnwys darpariaeth Gofal Plant a Chwarae yn eu hasesiadau effaith a'u datblygiadau | 3. Tyfu Canolbarth Cymru | |
| **Economi/Cynaliadwyedd** | Cais bod Gwasanaethau Economi ac Adfywio e.e. gwasanaethau cynllunio ac eiddo yn ystyried ceisiadau lleoliadau Gofal Plant fel mater o frys. | | 2.2 Isadeiledd ac Adnoddau |
| **Tai** | Mae angen monitro'r galw y mae datblygiadau tai yn ei roi ar leoliadau Gofal Plant. | 2. Cynllun Tai Cymunedol | |
| **Tai** | Mae angen gwneud ymchwil pellach i edrych ar yr effaith hanesyddol a'r effaith yn y dyfodol ar leoliadau lle y bu / y bydd datblygiad tai sylweddol. Nid oes unrhyw leoedd Gofal Plant ychwanegol wedi'u creu mewn Meithrinfeydd Dydd presennol neu newydd, ac ni fu cynnydd mewn Gwarchodwyr Plant cofrestredig yn y blynyddoedd diwethaf, ond maent wedi cofnodi rhestrau aros ar gyfer plant o dan 2 oed. Mae tystiolaeth anecdotaidd hefyd o gynnydd yn nifer y plant sydd angen cymorth ychwanegol mewn rhai lleoliadau, a | 2. Cynllun Tai Cymunedol | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bydd angen ymchwilio i unrhyw gydberthynas er mwyn sicrhau bod cyllid a chymorth digonol ar gael. | | |
| **Tai** | Sicrhau bod ystyriaeth o ddarpariaeth Gofal Plant yn cael ei chynnwys yn Y Prosbectws (Dogfen Cyflenwi Strategol Tai Fforddiadwy). | 2. Cynllun Tai Cymunedol | |
| **ADY** | Ymchwilio i'r galw am gymorth Ymuno mewn lleoliadau allweddol a mynd i'r afael â darparu gwasanaethau. | 1. Model Gydol Oed a Llesiant | 3.10 ADY |
| **ADY** | Mae darparwyr Gofal Plant yn gweld cynnydd o ran nodi angen a rhoi darpariaeth ar waith i fynd i'r afael ag anghenion plant ag oedi datblygiadol ac anghenion ychwanegol neu ddatblygol. Caiff hyn ei gymhlethu gan y tasgau ychwanegol sydd angen eu cwblhau er mwyn sicrhau diogelwch rhag COVID, a'r gwaith papur ychwanegol sydd angen ei wneud mewn perthynas â hyn ac wrth wneud cais am grantiau.<br><br>Angen comisiynu ymchwil i'r galw a'r ddarpariaeth ADY, recriwtio a chadw staff cymwysedig, gan gynnwys dadansoddiad ardal a chyswllt â datblygu tai i fynd i'r afael â'r problemau a brofir gan leoliadau o ran cymorth ADY. | 1. Model Gydol Oed a Llesiant | 3.10 ADY |
| **ADY** | Mae angen sicrhau bod yr holl ddarparwyr Gofal Plant (arweinwyr a'r holl staff) yn cyflawni gofynion y cod ADY a bod hyfforddiant yn cael ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddi flynyddol oherwydd trosiant staff. | 1. Model Gydol Oed a Llesiant | 3.10 ADY |
| **ADY** | Parhau i fonitro effaith COVID-19 ar blant cyn oed ysgol, plant a staff mewn lleoliadau Gofal Plant.<br>Cyfeirio at Astudiaeth Delphi ac effaith COVID-19 ar blant o dan 5 oed \| LLYW.CYMRU<br>Yn ogystal, ystyried effaith COVID ar addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar<br>https://www.childreninwales.org.uk/news/ECECKeyfindings/ | 1. Model Gydol Oed a Llesiant | 3.10 ADY |
| **ADY** | Monitro cyllid y ddarpariaeth yn erbyn nifer y plant sydd angen cymorth ychwanegol mewn lleoliadau Gofal Plant. | 1. Model Gydol Oed a Llesiant | 3.10 ADY |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Sicrhau bod pob lleoliad yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg Arolygiaeth Gofal Cymru. | 8. Yr Iaith Gymraeg | 3.7<br>Cynllun Strategol Addysg Gymraeg |
| **Yr Iaith Gymraeg / Recriwtio** | Cefnogi'r sector gyda hyfforddiant iaith Gymraeg. Mae'r anawsterau o ran recriwtio gweithlu Gofal Plant a chwarae cymwysedig yn her i'r sector, a rhaid i ni sicrhau bod lefelau'r Gymraeg yn cael eu cefnogi. | 8. Yr Iaith Gymraeg | 3.7<br>Cynllun Strategol Addysg Gymraeg<br>3.6<br>Addysg Ôl-14 ac Ôl-16 |
| **Rhannu gwybodaeth** | Angen gwella deialog a gweithio mewn partneriaeth rhwng yr Uned Gofal Plant a'r timau Gofal Cymdeithasol. Angen gweithio'n agosach gyda thimau Gofal Cymdeithasol i sicrhau cydnabyddiaeth o statws proffesiynol pob darparwr Gofal Plant a'u rôl ym mywydau plant.<br><br>Efallai y bydd gwarchodwyr plant yn teimlo baich y llwyth gwaith ychwanegol yn fwy gan eu bod yn weithwyr unigol sy'n gweithio o'u cartrefi eu hunain, yn darparu eu gwasanaethau dros oriau estynedig yn aml, ac sydd â'u hymrwymiadau teuluol eu hunain. Mae hyn yn golygu bod eu holl waith gweinyddol yn cael ei wneud y tu allan i'r oriau y maent yn cynnig darpariaeth Gofal Plant. Felly, byddent yn elwa'n arbennig o gael cymorth estynedig a chydnabyddiaeth gan weithwyr proffesiynol eraill o'u pwysigrwydd ym mywydau plant. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Mae angen hyrwyddo cynlluniau cymorth Gofal Plant ymysg rhieni/gofalwyr a busnesau, a chynigiwn fynd â hyn i'r Grŵp Strategaeth Trechu Caledi sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith yng Ngheredigion. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhannu gwybodaeth** | Codi ymwybyddiaeth o'r fenter Gofal Plant Di-dreth ymysg darparwyr Gofal Plant a rhieni gan fod hyn yn cefnogi costau Gofal Plant i blant 0-12 oed. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Yr Uned Gofal Plant a phartneriaid i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant yn fwy lleol i fusnesau lleol. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Y tymor cyn bod y plentyn yn gymwys, trefnu sesiynau gwybodaeth i rieni â lleoliadau Gofal Plant er mwyn iddynt allu egluro'r Cynnig i rieni/gofalwyr. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Ymchwilio i weld a yw'r nifer isel sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn ganlyniad i awydd i beidio ag effeithio ar gael y cymorth elfen Gofal Plant trwy Gredyd Cynhwysol. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Monitro'r nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn lleol, cymharu tueddiadau cenedlaethol. Gweithredu ar unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau bod pob rhiant cymwysedig yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. Mae angen i Lywodraeth Cymru edrych ar gymhwystra i gefnogi rhieni sy'n gweithio ar incwm isel. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Gweithio gyda LIC i hyrwyddo'r canllawiau newydd sy'n cael eu datblygu i roi gwybod i deuluoedd amaethyddol pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Sicrhau bod pob darparwr Gofal Plant yn barod ar gyfer y platfform digidol newydd. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Mae angen hyrwyddo cynlluniau cymorth Gofal Plant ymysg rhieni/gofalwyr a busnesau, a chynigiwn fynd â hyn i'r Grŵp Strategaeth Trechu Caledi sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith yng Ngheredigion. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Mae angen mynediad i blatfform cyfryngau cymdeithasol ar yr Uned Gofal Plant, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Gofal Plant. Cyfle i ymgysylltu â darparwyr Gofal Plant, rhieni a chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a mentrau eraill i helpu gyda chostau Gofal Plant a lliniaru tlodi mewn gwaith a lleihau canran y plant sy'n byw mewn tlodi. | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhannu gwybodaeth** | Gweithio gyda'r Grŵp Trechu Caledi / sefydlu grŵp gorchwyl i wneud ymchwil pellach ar nodi materion neu ardaloedd lle mae fforddiadwyedd rhieni hefyd yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau Gofal Plant. Ymchwil i 20 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ac unrhyw gydberthynas â chynaliadwyedd lleoliadau, a chysylltiad â datblygiad tai arfaethedig. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Ymgyrch dymhorol ar gyfer staff y lleoliad/rhieni i esbonio'r Cynnig Gofal Plant. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Yr Uned Gofal Plant i rannu ymatebion o'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr gyda'r Tîm Dechrau'n Deg i'w defnyddio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. | | |
| **Rhannu gwybodaeth** | Mae angen cyllid ychwanegol ar yr Uned Gofal Plant gan ein bod yn ymgymryd â dyletswyddau (y tu allan i'n cylch gorchwyl) i sicrhau bod y dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni. | | |

DRAFT

| Adran | Tudalen Cynnwys | Rhif tudalen: |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | 2 |
| | Casgliadau - Themâu a Nodwyd | 6 |
| | Tudalen Cynnwys | 14 |
| 1 | Cyflwyniad / Cyd-destun | 17 |
| 2 | Ymgynghori | 21 |
| 2.1 | • Arolwg Rhanddeiliaid a Chanlyniadau | 23 |
| 2.2 | • Arolwg Cyflogwyr | 28 |
| 2.3 | • Ymgynghoriad Darparwyr Gofal Plant | 37 |
| 2.4 | • Arolwg Ysgolion | 48 |
| 2.5 | • Arolwg Plant | 55 |
| 3 | Gweithio mewn Partneriaeth | 59 |
| 3.1 | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | 59 |
| 3.2 | Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol | 62 |
| 3.3 | Bwrdd Diogelu Plant | 63 |
| 3.4 | Fframwaith Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar | 63 |
| 3.5 | Canolfan Waith / PaCE | 64 |
| 3.6 | Gweithffyrdd+ | 65 |
| 3.7 | Economi ac Adfywio; Tai a Chynllunio, Traffig a Thrafnidiaeth | 65 |
| 4 | Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | 73 |
| 5 | Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Anghenion Llesiant Lleol | 74 |
| 6 | Poblogaeth | 79 |
| 7 | Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd | 90 |
| 7.1 | Darpariaeth Gofrestredig | 92 |
| 7.2 | Darpariaeth Anghofrestredig | 93 |
| 7.3 | Darpariaeth Wedi'i Heithrio / Wedi'i Chymeradwyo | 94 |
| 7.4 | Dosbarthiad Daearyddol Darparwyr Gofal Plant a'r Gwasanaethau a Ddarperir (Wedi'u Heithrio / Wedi'u Cymeradwyo) | 94 |


DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Trosolwg – Cyfanswm y Mathau o Ofal Plant yn ystod y Tymor Ysgol a'r Gwyliau | |
| | Nifer y cofrestrwyd ar eu cyfer, Nifer ar y Gofrestr yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | |
| **8** | Lleoedd Gofal Plant – Cyflenwad a Galw yn ôl Math o Ofal Plant | 102 |
| **8.1** | Lleoedd gwag | 112 |
| **9** | Y Cyflenwad Gofal Plant | 116 |
| **9.1** | Gwarchodwyr plant | 137 |
| **9.2** | Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 138 |
| **9.3** | Gofal Dydd Sesiynol a Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 139 |
| **9.4** | Crèche | 140 |
| **9.5** | Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 140 |
| **9.6** | Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 143 |
| **9.7** | Nani | 143 |
| **10** | Darpariaeth Ar Ôl Ysgol / Gwyliau (Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol) Anghofrestredig | 147 |
| **11** | Darpariaeth Clwb Brecwast | 148 |
| **12** | Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr | 152 |
| **13** | Trosolwg o'r Ymgynghoriad â Rhieni/Gofalwyr | 159 |
| **14** | Defnydd Presennol o Ofal Plant | 174 |
| **15** | Gofal Plant Trwy Gyfrwng y Gymraeg | 191 |
| **16** | Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant | 196 |
| | i. Rhieni sy'n Gweithio | |
| | ii. Rhieni sy'n Chwilio am Waith neu Gyfleoedd Hyfforddi | |
| | iii. Aelwydydd Di-waith | |
| | iv. Teuluoedd Incwm Isel | |
| | v. Teuluoedd Rhieni Unigol | |
| | vi. Teuluoedd o Gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig | |
| | vii. Teuluoedd sydd â Phlant ag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anabledd | |
| | viii. Unrhyw Grwpiau Targed Penodol Eraill sy'n Berthnasol i Ardal yr Awdurdod Lleol | |
| **17** | Addysg Feithrin a Ariennir a Darpariaeth Dechrau'n Deg | 213 |
| **17.1** | Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 233 |
| | Cynllun Cyfeirio | |
| **17.2** | Dechrau'n Deg a Phrosiect Braenaru | 236 |


DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **18** | Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant â Chymorth gan y Cyflogwr / Gofal Plant Di-dreth / Cynnig Gofal Plant | 245 |
| **19** | Cynaliadwyedd | 259 |
| **20** | Trawsffiniol | 266 |
| **21** | Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu | 267 |
| **22** | Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg | 275 |
| **23** | Pandemig COVID-19 | 279 |
| **24** | Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella | 281 |
| **25** | Cynllun Gweithredu | 290 |
| **ATODIADAU** | ATODIADAU | |
| Atodiad 1: | Dechrau'n Deg – adborth i'r Arolwg Rhieni | 291 |
| Atodiad 2 | Sylwadau Ychwanegol yr Arolwg Rhieni/Gofalwyr | 296 |
| Atodiad 3 | Arolwg Plant | 308 |
| Atodiad 4 | Ymgynghoriad Cyhoeddus | 314 |


DRAFT

| 1 | **CYFLWYNIAD / CYD-DESTUN** |
|---|---|
| | Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn wedi'i gynnal fel rhan o'n dyletswydd statudol o dan y *Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016)* a'r cylchlythyr WGC 003 2021/WG21-28 "*Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau o Ddigonolrwydd Plant*" a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth, 2021.<br><br>Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru *"i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarpariaeth Gofal Plant sy'n ddigonol i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal er mwyn iddynt allu hyfforddi, gweithio neu baratoi ar gyfer gwaith."* Mae'r Ddeddf yn annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat, gwirfoddol, annibynnol ac a gynhelir i sicrhau Gofal Plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion teuluoedd.<br><br>Cynhaliwyd asesiad 2022 yn fewnol gan swyddogion yr Awdurdod Lleol a dilynodd y broses a nodwyd yn y Canllawiau Statudol Gofal Plant a'r canllawiau atodol. Mae gan yr Awdurdod Uned Gofal Plant benodol o dan y Gwasanaethau Ysgolion a Diwylliant i gefnogi a chynghori'r sector Gofal Plant yng Ngheredigion.<br><br>Wrth gynnal yr asesiad roedd angen gwneud y canlynol:<br>• Asesu'r galw am Ofal Plant;<br>• Asesu'r cyflenwad o Ofal Plant;<br>• Dadansoddi'r bwlch rhwng galw a chyflenwad;<br>• Nodi rhwystrau i ddarpariaeth Gofal Plant;<br>• Mae prosesau mewnol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Asesiad Drafft gael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus;<br>• Y Cabinet i gymeradwyo'r adroddiad terfynol cyn ei gyhoeddi;<br>• Cyhoeddi'r asesiad terfynol ar dudalen we Gofal Plant Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Yn ogystal â'r uchod, gofynnodd y canllawiau atodol i wybodaeth ychwanegol gael ei hystyried a oedd yn edrych ar yr heriau yr oedd y pandemig wedi'u gosod ar y sector Gofal Plant:<br>• COVID-19;<br>• Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg;<br>• Casglu ac adrodd ar ddata;<br>• Cynllun Nani. |

DRAFT

Defnyddiwyd dwy brif ffynhonnell data at ddiben yr adroddiad hwn:

**i) Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS)**

Roedd yn ofynnol i bob darparwr cofrestredig gwblhau'r SASS fel rhan o'u gofyniad cyfreithiol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Gorffennaf 2021 oni bai bod eu gwasanaeth wedi'i atal yn wirfoddol ar adeg coladu.

Roedd yn ofynnol i 98 o leoliadau Gofal Plant gwblhau'r SASS o 102 o ddarparwyr cofrestredig. Roedd y broses yn atgoffa darparwyr oedd wedi cau i atal neu ganslo eu cofrestriadau yn wirfoddol.

Yn ystod 2021, roedd gan AGC gyfradd ymateb o 90% ar gyfer yr holl ffurflenni SASS yng Nghymru. Cyfradd cwblhau Ceredigion oedd 95.9% ar gyfer y rhai yr oedd yn ofynnol iddynt gwblhau eu SASS. Ar ôl dadansoddi ymhellach y rhai oedd heb eu cwblhau, roedd un lleoliad Gofal Plant wedi newid ei endid cyfreithiol, ac roedd dau leoliad Gofal Plant yn newydd ac felly nid oedd yn ofynnol iddynt gwblhau'r SASS ar gyfer y cyfnod hwnnw (2021). Cwblhaodd pob lleoliad a oedd yn weddill y wybodaeth â llaw gyda'r Uned Gofal Plant ac felly roeddem yn gallu gweithio gyda data o 100% o'n lleoliadau cofrestredig gweithredol.

**Tabl 1.1**
**Nifer y Gwasanaethau sy'n gymwys i gyflwyno'r SASS yn ôl Math o Wasanaeth**

| **Awdurdod Lleol** | | **Ceredigion** |
|---|---|---|
| Math o Wasanaeth | Gwarchodwr Plant | 48 |
| | Crèche | 2 |
| | Gofal Dydd Llawn | 29 |
| | Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | - |
| | Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 11 |
| | Gofal Dydd Sesiynol | 8 |
| **Cyfanswm** | | **98** |

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru

**Tabl 1.2**
**% y Gwasanaethau Cymwys a gyflwynodd y SASS yn ôl Math o Wasanaeth**

| **Awdurdod Lleol** | | **Ceredigion** |
|---|---|---|
| Math o Wasanaeth | Gwarchodwr Plant | 95.8% |
| | Crèche | 100.0% |
| | Gofal Dydd Llawn | 93.1% |
| | Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | - |
| | Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 100.0% |
| | Gofal Dydd Sesiynol | 100.0% |
| **Cyfanswm** | | **95.9%** |


DRAFT

**ii)** Yr ail brif ffynhonnell ddata oedd yr **Arolwg Rhieni/Gofalwyr** ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Roedd hwn yn arolwg cenedlaethol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â chydweithwyr Arweinwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Awdurdodau Lleol Cymru Gyfan.

Lansiwyd yr '***Arolwg ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n defnyddio Gofal Plant yng Nghymru'*** ar 1 Hydref gyda dyddiad cau o 24 Hydref 2021. Estynnwyd hwn i 31 Hydref er mwyn ceisio cynyddu'r gyfradd ymateb ar draws Cymru. Dewiswyd y cyfnod hwn i gyd-fynd â diwedd cyfnod 'ffyrlo' y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Rhannodd Llywodraeth Cymru yr arolwg ar ei phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol. Gofynnwyd i'r Awdurdodau Lleol hyrwyddo a rhannu'r arolwg yn lleol gyda rhieni. Mae'r pandemig wedi arwain at ffyrdd newydd o weithio sy'n golygu ein bod wedi gorfod dibynnu ar arolygon ar-lein yn unig eleni. Derbyniwyd cyfanswm o **633** o ymatebion gan rieni/gofalwyr.


Yn unol ag Asesiad Llesiant Ceredigion, mae'r canlyniadau wedi cael eu dadansoddi ar gyfer y naw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Ceredigion, sef ardaloedd cymunedol a ddefnyddir i nodi asedau a heriau penodol sy'n ymwneud â llesiant. Mae'r manylion llawn ar gael yn adran Arolwg Rhieni/Gofalwyr yr Asesiad hwn (Adran 12 & 13)

**Ffigur 1.1: Map o Ardaloedd Cymunedol Ceredigion yn seiliedig ar Ddaearyddiaeth y 9 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol Ceredigion (AGEHG)**




**Ffynhonnell:** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

**Ffigur 1.2: Nifer yr ymatebwyr o'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr fesul ACEHG**




Rhaid i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gynnwys cynllun gweithredu gyda manylion am y camau gweithredu, blaenoriaethau a cherrig milltir i gynnal cryfderau a mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Rhaid cyflwyno'r adroddiad llawn i Lywodraeth Cymru (LIC) erbyn Mehefin 2022 wedi'i ddilyn gan adroddiad cynnydd blynyddol i LIC gyda manylion am y cynnydd a wnaed o ran y cynllun gweithredu. Bydd adroddiadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a osodwyd yn y cynllun hwn yn cael eu cyflwyno'n flynyddol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

Rydym hefyd wedi ystyried y polisïau, adolygiadau, fframweithiau ac ati a ganlyn sy'n debygol o effeithio ar y sector Gofal Plant yn y blynyddoedd i ddod fel rhan o'r asesiad hwn sy'n cynnwys (ond heb ei gyfyngu) i'r canlynol:

- Plant yng Nghymru | Casgliadau allweddol o effaith COVID-19 ar ddarpariaeth Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar
- Fframwaith Ansawdd Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar – ymgynghoriad i'w gynnal Gwanwyn 2022
- Cwricwlwm i Gymru a Chwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Prosiect y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru: Cynllun Adnewyddu a Diwygio
- Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Gorchymyn Eithriadau
- Adroddiad Gwarchod y Dyfodol
- Diwygio'r Diwrnod Ysgol
- Adolygiad annibynnol i lywio camau gweithredu Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf ar gyfer cofrestriad proffesiynol y gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar i'w adrodd ddiwedd Mai 2022
- Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a Reoleiddir yng Nghymru

| 2 | YMGYNGHORI |
|---|---|

Mae ceisio barn partneriaid yn rhan hanfodol o gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau, datblygwyd a dosbarthwyd amrywiaeth o arolygon yn ystod tymor yr hydref. Oherwydd pandemig COVID-19 nid oeddem yn gallu cynnal unrhyw ymgyngoriadau wyneb yn wyneb. Felly, mae pob arolwg wedi'i gwblhau trwy ddefnyddio Microsoft Forms.

Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgynghori â phobl sydd â budd mewn Gofal Plant, a phobl sy'n cynrychioli'r rhai sydd â budd mewn Gofal Plant. Anfonwyd arolwg rhanddeiliaid i ystod eang o Wasanaethau Trydydd Sector, Gwasanaethau Iechyd, Asiantaethau Tai, Canolfan Teuluoedd a Phlant a Gwasanaethau Cyflogaeth.

Er bod arolygon wedi'u dosbarthu'n eang mae'r gyfradd ymateb wedi bod yn gymharol wael ar gyfer y gwahanol gategorïau drwy gydol yr asesiad. Gallai fod sawl rheswm am hyn – ynghyd ag adfer yn dilyn pandemig COVID-19, roedd 'blinder ymgynghori' ymhlith sefydliadau partner a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ystod y cyfnod hwn gan fod llawer o ymgyngoriadau wedi'u cynnal yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r ymatebion i'r ymgyngoriadau i'w gweld drwy gydol yr adroddiad yn ogystal ag yn Adran 2: *'Ymgynghori'*. Fel yr amlinellir yn 'Atodlen 2 – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid' ymgynghorwyd â'r canlynol.

| **Rhanddeiliad:** | **Camau gweithredu i gydymffurfio â'r canllawiau:** |
|---|---|
| • plant; | • Arolwg ar-lein wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i'w ddosbarthu i'r Ddarparwyr Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol a'r rhai sy'n derbyn grantiau chwarae.<br>• Arbenigwr Gofal Plant a Chwarae wedi'i gomisiynu i gynnal digwyddiad chwarae wyneb yn wyneb gyda phlant yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2022<br>• Y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol wedi hyrwyddo'r arolwg trwy'r cyfryngau cymdeithasol. |
| • rhieni neu ofalwyr; | • Datblygodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein cenedlaethol ar gyfer rhieni/gofalwyr a gafodd ei hyrwyddo'n lleol gan bob Awdurdod Lleol ym mis Hydref 2021. Mae'r canlyniadau ar gael i'w gweld yn Adran 13 ac Atodiad 2. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Cyfeiriwyd hefyd at arolwg rhieni a gynhaliwyd gan Glybiau Plant Cymru Kids Clubs Wales (CPCKC) i gasglu eu barn ar gael mynediad at Ofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol yn Adran 12.<br>• Tystiolaeth ynghylch Gofal Plant a gasglwyd o'r Arolwg Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd ac ymgynghoriad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi'i defnyddio. |
| • darparwyr Gofal Plant; | • Data sylfaenol wedi'u casglu o Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Gorffennaf 2021<br>• Arolwg Darparwyr Gofal Plant Ionawr 2022. Canlyniadau ar gael yn Adran 2.3<br>• Adborth o Arolwg Darparwyr Gofal Plant Anghofrestredig ar gael yn Adran 7.2 |
| • pobl sy'n cynrychioli plant, rhieni neu ofalwyr a darparwyr Gofal Plant; | • Arolwg Rhanddeiliaid a CWLWM Hydref 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 2.1 |
| • pobl sydd â budd mewn Gofal Plant; | • Arolwg Rhanddeiliaid a CWLWM Hydref 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 2 a 3 |
| • pobl sy'n cynrychioli'r rhai sydd â budd mewn Gofal Plant; | • Arolwg Rhanddeiliaid a CWLWM Hydref 2021. Canlyniadau ar gael Adran 2 a 3<br>• Wedi'i rannu â phartneriaid CWLWM a'r gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| • pobl sy'n cynrychioli cyflogwyr lleol a sefydliadau cyflogwyr; | • Arolwg Rhanddeiliaid a CWLWM Hydref 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 2 a 3<br>• Arolwg Cyflogwyr Tachwedd 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 2 a 3 |
| • cyflogwyr lleol; | • Arolwg Cyflogwyr Tachwedd 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 2.2 |
| • awdurdodau lleol cyfagos; | • Gweler Trawsffiniol – gweler Adran 20 |
| • ysgolion; | • Arolwg Gofal Plant Ysgolion 2021. Tachwedd 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 2.4 |
| • colegau addysg bellach | • Arolwg Rhanddeiliaid a CWLWM Hydref 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 2.1 |

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ymgynghori â'r partneriaethau a'r sefydliadau canlynol wrth gynnal eu Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant:

| **Rhanddeiliad:** | **Camau gweithredu i gydymffurfio â'r canllawiau:** |
|---|---|
| • Bwrdd Diogelu Plant; | • Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion sy'n cael ei lywodraethu gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR). Adborth ar gael yr Adran 3.2 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg | • Mynychwyd cyfarfodydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan y Rheolwr Strategol Gofal Plant, a rhoddwyd mewnbwn ar gyfer datblygu'r Strategaeth |
| • Grŵp Monitro Chwarae | • Derbyniodd aelodau o Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Arolwg Rhanddeiliaid ac Arolwg CWLWM Hydref 2021. |
| • Canolfan Byd Gwaith | • Arolwg Rhanddeiliaid ac Arolwg CWLWM Hydref 2021. Canlyniadau ar gael yn Adran 3.5<br>• Swyddogion prosiect yr Adran Gwaith a Phensiynau – PaCE (Rhieni a Gofal Plant mewn Cyflogaeth) yn aelodau o Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae |

Yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau partner, ymgynghorwyd â meysydd gwasanaeth eraill o fewn yr Awdurdod Lleol, a oedd yn cynnwys Adran yr Economi (Adran 3.7), Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar (Adran 17), Dechrau'n Deg (Adran 17.2), Tai a Datblygu Tai (Adran 3.7), Trafnidiaeth (Adran 3.7), a Gofal Cymdeithasol (Adran 3.2). Gofynnwyd iddynt adrodd ar *'unrhyw faterion neu newidiadau arwyddocaol sydd wedi digwydd dros y cyfnod sydd wedi effeithio neu wedi dylanwadu ar y farchnad Gofal Plant mewn unrhyw fodd e.e. datblygiad tai, datblygiad cyflogaeth ac ati, neu newidiadau yn y dyfodol a fydd yn cael effaith ar y farchnad Gofal Plant'*.

Mae'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil o dan y Gwasanaeth Partneriaethau a Pherfformiad wedi cynorthwyo gyda data a gwybodaeth ddemograffig (Adran 6) a gwybodaeth Asesiad Anghenion Llesiant Lleol (Adran 5).

## 2.1 CANLYNIADAU'R AROLWG RHANDDEILIAID

O'r arolwg rhanddeiliaid cafwyd 15 o ymatebion a oedd yn cynnwys 9 gan wasanaethau allanol a 6 gan wasanaethau'r Cyngor.
Y gyfradd ymateb oedd 21% adborth gan 43 o asiantaethau allanol (gan gynnwys holl bartneriaid CWLWM) o'i gymharu â 50% yn Asesiad 2017.

| **Rhanddeiliaid / Partneriaid** | **Partneriaid CWLWM** | **Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|---|
| Coleg Ceredigion | Clybiau Plant Cymru Kids Club Wales | Cyngor Ceredigion – tîm partneriaethau y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Cyngor Cymuned | Blynyddoedd Cynnar Cymru | Cynghorydd Sir |

| | | |
|---|---|---|
| DASH Ceredigion | Mudiad Meithrin | Tîm Blynyddoedd Cynnar |
| Canolfan i'r Teulu Llanbedr Pont Steffan | NDNA Cymru | Dechrau'n Deg Ceredigion |
| Plant Dewi | PACEY Cymru | Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan |

Cafwyd ymatebion ar wahân gan y Grŵp Gweithredu Lleol Diogelu o dan CYSUR, ac felly nid yw gwasanaethau Cynllunio a Thai wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r Arolwg Rhanddeiliaid:

Gofynnwyd i bartneriaid raddio'r datganiadau canlynol fel gwael, boddhaol, da, ardderchog neu ddim yn gwybod:

- Ansawdd y ddarpariaeth
- Amrywiaeth y darparwyr
- Nifer y lleoedd
- Fforddiadwyedd
- Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau
- Addasrwydd amserau agor
- Lleoliad a hygyrchedd Gofal Plant
- Darpariaeth ddwyieithog / Gymraeg


Mae'r tabl canlynol yn dangos sut oedd rhanddeiliaid wedi graddio'r datganiadau uchod o wael i ardderchog. Nid oedd pob asiantaeth bartner yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth i roi ymateb i bob cwestiwn.

| | **Gwael** | **Boddhaol** | **Da** | **Ardderchog** | **Ddim yn Gwybod** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd y ddarpariaeth | | 2 | 6 | 3 | 4 |
| Amrywiaeth y darparwyr | 1 | 4 | 5 | 1 | 4 |
| Nifer y lleoedd | | 6 | 4 | 1 | 4 |
| Fforddiadwyedd | 1 | 7 | 4 | 1 | 3 |
| Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau | 4 | 2 | 5 | | 4 |
| Addasrwydd amserau agor | 3 | 3 | 3 | 1 | 5 |
| Lleoliad a hygyrchedd Gofal Plant | 3 | 5 | 2 | 1 | 4 |
| Darpariaeth Gymraeg | | 2 | 7 | 2 | 4 |


DRAFT

1. O ran yr amrywiaeth o Ofal Plant cofrestredig sydd ar gael i rieni a gofalwyr yng Ngheredigion, beth yw eich barn am y canlynol?

**Ffigur 2.1.1**





**Ffigur 2.1.2**





- Dywedodd 40% o randdeiliaid fod ansawdd y ddarpariaeth yn dda a dywedodd 20% ei fod yn ardderchog.
- Dywedodd 33% fod yr amrywiaeth o ddarparwyr yn dda ond nododd 27% fod amrywiaeth y darparwyr yn foddhaol.

**Ffigur 2.1.3**





**Ffigur 2.1.4**




- Dywedodd 40% fod nifer y lleoedd sydd ar gael yn foddhaol gyda 27% yn nodi ei fod yn dda.
- Dywedodd 47% fod fforddiadwyedd yn foddhaol.

**Ffigur 2.1.5**





**Ffigur 2.1.6**





- Dywedodd 33% fod hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau yn dda ond dywedodd 27% ei fod yn wael.
- Roedd yr ymatebion yn gyfartal o ran addasrwydd oriau agor rhwng da, gwael a boddhaol.

**Ffigur 2.1.7**





**Ffigur 2.1.8**



Nid oedd pob asiantaeth bartner yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth i roi ymateb ar gyfer pob cwestiwn, felly dilëwyd yr ymateb ar gyfer 'Ddim yn Gwybod' o'r graff cryno isod er eglurder.

**Ffigur 2.1.9: Barn rhanddeiliaid ar y ddarpariaeth gyfredol**



## 2.2 AROLWG CYFLOGWYR

**Methodoleg**
Anfonwyd yr Arolwg Cyflogwyr yn electronig i fusnesau yng Ngheredigion gan y Gwasanaeth Economi ac Adfywio o fewn Cyngor Sir Ceredigion, ac i bob Cyngor Tref a Chymuned, Clybiau Busnes Trefi a CAVO yn gofyn iddynt ei ddosbarthu i'w haelodau. Rhannwyd yr arolwg hefyd gyda meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor Sir i'w ddosbarthu e.e. y tîm Gofal Cartref gyda chais i'w rannu gyda'r asiantaethau gofal a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau. Anfonwyd yr arolwg yn uniongyrchol hefyd at oddeutu 40 o gyflogwyr bach, canolig a mawr sydd wedi ymgysylltu â'r Asesiad o'r blaen.

**CANLYNIADAU**
Cawsom 8 ymateb ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector/sector gwirfoddol. Roedd 75% o'r sector preifat, gyda 12.5% o ymatebion gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector/sector gwirfoddol. Cwblhawyd 25% yn Gymraeg a 75% yn Saesneg. Mae angen ystyried y nifer isel o ymatebion ac nid ydynt yn gynrychioliadol o'r ardal. Gweler y tabl am gymhariaeth.

**Tabl 2.2.1 Ymateb Arolwg Cyflogwyr**

| Categori Busnes | Cyfradd ymateb i'r arolwg | Busnesau Ceredigion |
|---|---|---|
| Mentrau micro (0-9 o weithwyr) | 37.5% | 91.9% |
| Mentrau bach (10-49) | 50% | 7.3% |
| Busnesau canolig 50 – 249 o weithwyr | 0 | 0.6% |
| Mentrau mawr (250+ o weithwyr) | 12.5% | 0.1% |


**Cynrychiolwyd y sectorau canlynol yn yr ymatebion:**
- Gwasanaethau Llety a Bwyd
- Celfyddydau, Diwylliant a Thwristiaeth, Chwaraeon a Hamdden
- Adeiladu; Mwyngloddio a Chwarela
- Cyllid, Bancio, Gwybodaeth a Chyfathrebu; Yswiriant, Cyfreithiol neu wasanaethau Cymorth Busnes eraill
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gweinyddiaeth gyhoeddus
- Gwasanaethau eraill (Gwasanaethau argraffu a chyhoeddi a glanhau)

Dywedodd 88% o gyflogwyr fod 61% neu fwy o'u gweithwyr yn byw o fewn ardal yr awdurdod lleol.
Cynrychiolwyd tua 2302 o weithwyr yn y canlyniadau, gyda 60% yn gweithio 30 awr neu fwy; neu 77% sy'n gweithio 16 awr neu fwy.

DRAFT

Roedd cyfanswm o 40% yn gweithio llai na 30 awr yr wythnos.

**Ffigur 2.2.1: % o staff sydd yn byw yng Ngheredigion**




**Tabl 2.2.2 Oriau gwaith Staff**

| **Canran y staff yn fras** | **Gweithio llai nag 16 awr yr wythnos** | **Gweithio rhwng 16 awr a 30 awr yr wythnos** | **Gweithio 30 awr neu fwy** |
|---|---|---|---|
| **%** | 23 | 17 | 60 |
| % ar draws Ceredigion (Cyfrifiad 2011)* | 12.4% | 20.8% | 66.8% |


*ffigurau o Gyfrifiad 2011, felly mae angen bod yn ofalus wrth eu defnyddio.
Mae'r gyfran sy'n gweithio 16 i 30 awr a 30 awr neu fwy ychydig yn is na ffigurau Ceredigion yn natganiadau'r arolwg. Mae'r gyfran sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos bron ddwywaith yn uwch yn y canlyniadau arolwg nag ar draws Ceredigion gyfan.

Roedd gan 50% o ymatebwyr weithlu benywaidd o dros 61%. O'i gymharu â'r gweithlu yn gyffredinol yng Ngheredigion, mae 46.9% yn fenywod a 53.1% yn ddynion.

**Oriau busnes a threfniadau gwaith:**
Roedd 50% o ymatebwyr yn gweithredu y tu allan i oriau swyddfa 8:00am – 6:00pm ac yn cynnwys sifftiau bore cynnar, gyda'r nos, dros nos ac ar y penwythnos yn ystod oriau anghymdeithasol.


**Trefniadau gwaith**
Cynigiwyd y trefniadau gwaith canlynol i weithwyr:
Cynigiwyd oriau gwaith rhan-amser gan bob cyflogwr, ac roedd 75% yn cynnig gweithio oriau hyblyg. Cynigiwyd y dewis mwyaf o opsiynau ar gyfer trefniadau gweithio amrywiol i weithwyr gan y sector cyhoeddus a gwirfoddol.

**Ffigur 2.2.2: Trefniadau gwaith**




**Mae trefniadau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd a gynigir gan gyflogwyr i'w gweld isod.**
Unwaith eto, cynigiwyd yr amrywiaeth fwyaf o opsiynau gan y sector cyhoeddus a gwirfoddol i'w gweithwyr, gyda'r rhan fwyaf o'r sector preifat yn ymateb *'Na'* neu *'Ddim yn gwybod'* i'r opsiynau canlynol:

**Ffigur 2.2.3: Trefniadau cyfeillgar i deuluoedd**



**Effaith COVID-19 ar gyflogwyr**

Cafodd cyflogwyr eu holi ynghylch effaith COVID-19 ar y gweithlu a newidiadau yn y ffordd yr oedd y gweithlu'n cael mynediad at drefniadau gweithio hyblyg. Dywedodd pob sector fod *"Mwy o staff yn gweithio / yn parhau i weithio gartref"* gydag un ymateb yn nodi, *"Mae mwyafrif sylweddol o'r gweithlu a arferai weithio mewn swyddfa wedi bod yn gweithio gartref ers dechrau'r pandemig, a byddant yn parhau i wneud hynny am y misoedd nesaf o leiaf"*

Nododd y sector preifat yn arbennig golled o 38% o'i weithlu, "*ac analluu i ddod o hyd i weithlu medrus o safon",* tra dywedodd un arall, *"nid yw staff am weithio cymaint o oriau!"* Un rheswm am hyn a nodwyd oedd, *"mae llai o bobl ar gael neu'n fodlon gweithio oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyfyngiadau/cau ysgolion ac ati. Mae'n ymddangos eu bod wedi dechrau dibynnu ar un incwm yn fwy ac yn amharod neu'n methu â chynnig yr oriau sydd eu hangen arnom."*


Mae'r materion hyn yn effeithio ar barhad busnes a gweithwyr unigol a allai gael eu cyfyngu o ran eu horiau gwaith oherwydd problemau Gofal Plant. Ond mae'r newidiadau hyn hefyd yn effeithio ar y darparwyr Gofal Plant, sydd wedi adrodd am leoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio – yn enwedig mewn darpariaeth ar ôl oriau ysgol. (Gweler Tabl 7.4.4)

Pan ofynnwyd a oedd COVID-19 wedi newid y patrymau gwaith ac anghenion y gweithlu, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- *Shifft cynnar/hwyr yn lle bod pawb yn dechrau ac yn gorffen ar yr un pryd*
- *I'r rhai a arferai weithio yn y swyddfa, roedd yr angen am fwy o hyblygrwydd mewn patrymau gwaith yn amlwg o'r dechrau gan fod llawer hefyd yn gorfod delio â phroblemau Gofal Plant yn dilyn cau ysgolion neu yn ystod gwyliau ysgol. Bu'n anodd cydbwyso'r anghenion hyn yn erbyn darpariaeth y gwasanaeth mewn rhai ardaloedd, ond mae lefel o hyblygrwydd angenrheidiol yn parhau sy'n debygol o fod yn ofynnol o hyd wrth i ni symud i ffyrdd hybrid newydd o weithio yn y dyfodol.*
- *Caniatáu gweithio mwy hyblyg (oriau cynnar, gweithio'n hwyr – er mwyn i staff allu gofalu am eu plant tra bo’r ysgol ar gau).*
- *Ydy, methu dod o hyd i ddynion medrus o safon, mae'n debyg bod hyn yn digwydd cyn effaith Covid ond mae i'w weld yn waeth nawr.*

Pan ofynnwyd a oedd Gofal Plant yn cael effaith ar recriwtio neu gadw staff, dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr ei fod wedi cael effaith.

**Ffigur 2.2.4: Effaith Gofal Plant ar recriwtio a chadw staff**




Mae Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) yn aelodau o grŵp ambarél CWLWM ac yn rheoli rhwydwaith Powys a Cheredigion. Nodwyd mai recriwtio oedd y broblem fwyaf sy'n wynebu aelodau ar hyn o bryd, yn enwedig staff cymwysedig ar lefel 3.
*"Mae aelodau hefyd yn wynebu problemau staffio tymor byr oherwydd bod staff yn gorfod ynysu pan fyddant yn profi'n bositif. Mae canllawiau sy'n caniatáu i blant fynychu'r feithrinfa heb brofi wedi arwain at fwy o staff yn profi'n bositif. Yn ogystal mae gan rai meithrinfeydd staff heb eu brechu y mae angen gwneud asesiad risg ar eu cyfer ac mae'n rhaid iddynt ynysu os ydynt yn dod i gysylltiad ag achos positif. Er bod cyllid grant yn mynd i'r afael â hyn i raddau, ni all meithrinfeydd ddibynnu y bydd yr arian hwn ar gael yn y dyfodol, ac ni allant gynllunio ymlaen llaw."*

Roedd y sylwadau ynghylch argaeledd Gofal Plant a'i effaith ar recriwtio neu gadw staff (cyn ac ar ôl pandemig COVID-19) yn cynnwys:

*"Rydym yn gweithredu trwy'r flwyddyn ac ni allwn gynnig gwaith yn ystod y tymor yn unig, felly mae angen i bobl fod ar gael i weithio yn ystod y gwyliau ysgol. Ychydig iawn sydd ar gael o ran Gofal Plant ar gyfer hyn. Hefyd mae cost Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol yn enfawr ac yn ei wneud yn anymarferol i rywun fynd allan i weithio"*

*"Mae diffyg Gofal Plant mewn rhai ardaloedd o'r sir neu ar gyfer y rhai sy'n dechrau'n gynharach neu'n gorffen yn hwyrach wedi arwain at orfod gwrthod cynigion swyddi neu staff yn gadael eu rolau mewn rhai sefyllfaoedd."*

**Tynnwyd sylw at yr effaith ar barhad busnes:**

*"Ie, problemau cyson gyda chlybiau ar ôl ysgol a chlybiau brecwast yn cael eu canslo heb fawr o rybudd, os o gwbl, dim darpariaeth ar gyfer clybiau gwyliau am bris fforddiadwy. Mae'r holl bethau 'ma yn golygu bod mamau â phlant yn cael eu cau allan o'r gweithlu mewn gwirionedd os nad oes ganddyn nhw deulu estynedig i helpu"*

Fodd bynnag, mae gan y sir gyfran fawr o fentrau micro (0-9 o weithwyr) sy'n ffurfio 91.9% o'r holl fusnesau, ac yn ystod y pandemig bu'n rhaid i lawer o bobl jyglo Gofal Plant a rhedeg eu busnes bach/teuluol:

*"Fel busnes teuluol, roedden ni wedi gallu defnyddio ein Gofal Plant ein hunain, diolch byth."*

**Effaith Gofal Plant ar weithwyr:**

Nododd adborth o'r arolwg fod 75% o gyflogwyr wedi profi absenoldeb staff oherwydd problemau Gofal Plant


Cafodd argaeledd Gofal Plant effaith ar bresenoldeb neu batrymau gweithio hefyd:

*Roedd y sylwadau ar y ffordd y cafodd argaeledd Gofal Plant effaith yn cynnwys:*

*"Staff yn methu dod i'r gwaith pan fydd plant yn sâl neu'n gorfod ynysu. Teulu a ffrindiau'n methu helpu (os ydyn nhw yng nghylch y ddarpariaeth i ddechrau)".*


*"Mae absenoldeb llwyr unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol y dyddiau 'ma mewn ysgolion. Mae hyn i gyd yn golygu bod y mamau sy'n gweithio i mi yn gorfod canslo shifftiau ar fyr rybudd neu heb unrhyw rybudd o gwbl sy'n ypsetio cleientiaid oherwydd does gen i ddim pobl eraill y galla i eu hanfon yn eu lle. Rydym ni wedi colli rhai cleientiaid oherwydd y broblem hon."*

**Ffigur 2.2.5: Effaith argaeledd Gofal Plant ar bresenoldeb neu batrymau gwaith**





Nid oedd pob ymatebydd yn cyflogi rhieni gyda phlant ifanc, ond roedd y rhan fwyaf yn cynnig opsiynau gweithio'n hyblyg i helpu rhieni i ddelio ag argyfyngau Gofal Plant ar fyr rybudd e.e. i ofalu am blentyn sâl neu oherwydd anawsterau gyda Gofal Plant. Mae gweithwyr yn y sector preifat yn fwyaf tebygol o ddefnyddio gwyliau blynyddol neu arbennig neu gymryd gwyliau di-dâl, ac mae cyflogwyr yn ymwybodol bod hyn yn effeithio ar y telerau ac amodau gwaith. Mae mwy o opsiynau ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus neu wirfoddol. Nid oedd y sector preifat a ymatebodd yn cynnig llawer o gyfleoedd i weithio gartref oherwydd natur eu busnes.

**Ffigur 2.2.6: Sut mae staff yn defnyddio amser i ffwrdd ar gyfer materion Gofal Plant fyr rybudd**





Nid oedd cyflogwyr yn hyderus a oedd digon o ddarpariaeth Gofal Plant yng Ngheredigion i fodloni gofynion eu gweithlu. Mae'r ddarpariaeth Gofal Plant yn amrywio'n gyson o ran gwarchodwyr plant, tra bod darpariaeth Meithrinfeydd Dydd a'r Cylch Chwarae yn parhau'n gymharol sefydlog. Fodd bynnag, mae rhai lleoliadau wedi cau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf – yn enwedig yn y sector Ar Ôl Ysgol, ac felly mae'n hollbwysig fod darparwyr yn parhau i ddiweddaru'r wybodaeth am eu gwasanaeth ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd /Dewis Cymru er mwyn hysbysu rhieni a chyflogwyr.

**Ffigur 2.2.7: Digonolrwydd Gofal Plant i fodloni gofynion y gweithlu**



Nododd ymatebwyr i'r arolwg fod angen gwneud y gwelliannau a nodir isod yn y ddarpariaeth Gofal Plant i helpu i wella recriwtio a chadw staff:

**Ffigur 2.2.8: Gwelliannau sydd angen ar Ofal Plant i helpu i wella recriwtio a chadw gweithwyr:**




Roedd ymatebwyr a ofynnodd am Ofal Plant 'Ar gael ar adegau gwahanol' uchod wedi nodi'n bennaf bod ei angen arnynt rhwng yr oriau 7am a 9am, ar ôl ysgol (tan 6pm), ar ôl 6pm ac ar y penwythnos.

Nodwyd y byddai'n well gan ymatebwyr gael lleoliad sy'n agosach at y cartref ac yn agosach at ysgol y plentyn, a gofynnodd y mwyafrif am fwy o ddarpariaeth Crèche (Gofal Plant achlysurol), Clwb Ar Ôl Ysgol a darpariaeth yn ystod y Gwyliau. Dywedodd rhai bod angen darpariaeth clwb brecwast arnynt, yn ogystal â gofal dydd llawn (e.e. Gwarchodwr Plant a Meithrinfeydd Dydd).

Ni ddadansoddwyd y canlyniadau yn ôl rhanbarth Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol oherwydd y nifer isel o ymatebion, ond mae'r heriau a wynebir gan gyflogwyr hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau Rhieni/Gofalwyr a darparwyr Gofal Plant sy'n dangos bylchau daearyddol mewn rhai mathau o ddarpariaeth (Gweler map yn **Ffigur 8.5: Holl Ddarparwyr Gofal Plant**).

Er mwyn i ddarparwyr Gofal Plant gynnig darpariaeth sy'n cychwyn yn gynnar / gorffen yn hwyr ac ar y penwythnos, mae angen i'r galw fod yno i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth. Oherwydd poblogaeth gymharol isel a natur wledig yr ardal, mae'r galw isel ynghyd â phroblemau recriwtio staff yn golygu nad yw nifer o ddarparwyr yn gallu cynnig yr oriau/gwasanaethau ychwanegol hyn.

Fodd bynnag, gall gwarchodwyr plant unigol ddarparu hyblygrwydd fel y gwelir yn eu gwasanaethau. Dylai rhieni bob amser gysylltu â darparwyr Gofal Plant yn uniongyrchol ynghylch eu gofynion a chychwyn y deialog gyda nhw.


**Budd-daliadau sy'n Gysylltiedig â Gofal Plant ar gyfer y Gweithlu**

O'r ymateb bach a gawsom roedd yn amlwg mai ychydig o wybodaeth yn unig sy'n cael ei rhannu â chyflogwyr o ran hyrwyddo budd-daliadau sy'n gysylltiedig â Gofal Plant i'r gweithlu. Ni wyddys a yw hyn yr un peth ar draws cyflogwyr eraill yn y sir. Roedd data'n dangos bod nifer isel i ganolig yn manteisio ar y cynllun talebau Gofal Plant (sy'n dod i ben yn raddol / nid yw unrhyw geisiadau newydd wedi'u derbyn ers mis Hydref 2018), a bod nifer canolig yn manteisio ar elfen Gofal Plant y credydau treth gwaith / credyd cynhwysol ar gyfer Gofal Plant a chynlluniau eraill. Dangosodd cyflogwyr y byddent yn croesawu'r cyfle i gael mwy o wybodaeth am y gwahanol gynlluniau sydd ar gael. *"Angen mwy o wybodaeth – dylid ei hanfon i bob busnes". "Ymwybyddiaeth o'u bodolaeth neu ddiffyg dealltwriaeth o ran pwy i gysylltu ag ef."*

**CAM GWEITHREDU: Mae angen hyrwyddo cynlluniau cymorth Gofal Plant i rieni/gofalwyr a busnesau e.e. Cynllun Gofal Plant Di-dreth, a chynigiwn fynd â hyn i'r Grŵp Strategaeth Trechu Caledi sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi yn y gwaith yng Ngheredigion.**

**Y Cynnig Gofal Plant Cymru:**
Nid oedd 50% o gyflogwyr yn ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant. Teimlai 12.5% o ymatebwyr fod y Cynnig wedi helpu teuluoedd di-waith sydd â phlant 3-4 oed i gael neu gynyddu cyflogaeth.
**CAM GWEITHREDU: Yr Uned Gofal Plant a phartneriaid i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant yn fwy lleol gyda busnesau lleol.**

**Ffigur 2.2.9: Gwybodaeth cyflogwyr am Gynnig Gofal Plant Cymru**



| | |
|---|---|
| | |
| **2.3** | **YMGYNGHORIAD DARPARWYR GOFAL PLANT** |

**Methodoleg**
Ffurfiodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) y llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r cyflenwad o Ofal Plant sydd ar gael yng Ngheredigion. Roedd yn ofynnol i ddarparwyr Gofal Plant Cofrestredig gwblhau'r SASS fel dyletswydd o dan eu cofrestriad. Gweler y wybodaeth am y gyfradd ymateb i'r SASS yn y cyflwyniad. Ceir dadansoddiad o'r SASS yn Adran 7. Cysylltodd yr Uned Gofal Plant â darparwyr anghofrestredig ar wahân. Er mwyn cael mewnwelediad pellach i farn darparwyr am y farchnad Gofal Plant yng Ngheredigion, yr effaith y mae COVID wedi'i chael ar eu darpariaeth, a beth yw eu cynlluniau hirdymor ar gyfer y ddarpariaeth, anfonwyd arolwg ar-lein i ofyn cwestiynau pellach.

**Crynodeb:**
Derbyniwyd 32 o ymatebion a oedd yn cynrychioli 35% o ddarparwyr cofrestredig (o gyfanswm o 91 o ddarparwyr cofrestredig). Ymatebodd 2 yn Gymraeg a 30 yn Saesneg. Derbyniwyd 8 ymateb dienw a oedd yn cynrychioli'r gwahanol fathau o Ofal Plant.

Mae'r cwestiynau a'r ymatebion wedi'u coladu isod. Nid ydym wedi dadansoddi'r adborth neu'r data ansoddol fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol oherwydd y gallu i nodi lleoliadau. Fodd bynnag, cafwyd ymateb gan bob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol ac felly mae pob ardal wedi'i chynrychioli. Efallai nad yw'r sampl ymateb cymharol fach yn gwbl gynrychioliadol o farn pob lleoliad Gofal Plant.

**Canlyniadau:**
**Math o Ddarparwr Gofal Plant –** roedd lleoliadau'n gallu ticio'r holl wasanaethau a oedd yn berthnasol iddynt o'r rhestr ganlynol:
- Gwarchodwr plant
- Meithrinfa Ddydd
- Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae
- Clwb Ar Ôl Ysgol/Cynllun Chwarae Gwyliau
- Clwb Brecwast
- Arall

DRAFT

**Tabl 2.3.1: Ymatebion Darparwyr Gofal Plant i'r Ymgynghoriad**

| Math o Ddarparwr Gofal Plant – pob un sy'n berthnasol | Gwarchodwr plant; | Cylch Meithrin / Grwp Chwarae; | Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae; Clwb Ar Ôl Ysgol / Cynllun Chwarae Gwyliau; | Meithrinfa Ddydd; | Meithrinfa Ddydd; Cylch Meithrin / GrwpChwarae; | Meithrinfa Ddydd; Clwb Ar Ôl Ysgol / Cynllun Chwarae Gwyliau; | Clwb Ar Ôl Ysgol / Cynllun Chwarae Gwyliau; | Clwb Brecwast | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **13** | **8** | **2** | **3** | **1** | **2** | **3** | **0** | **32** |

**Ystod o Ofal Plant cofrestredig sydd ar gael i rieni a gofalwyr:**
Gofynnwyd i ddarparwyr Gofal Plant raddio o wael i ragorol yr ystod o ddarpariaeth Gofal Plant cofrestredig sydd ar gael i rieni/gofalwyr yn eu hardal. Barnwyd bod ansawdd y ddarpariaeth yn dda neu'n rhagorol, ond roedd ystod y darparwyr a nifer y lleoedd yn bryder, sy'n dangos bod darparwyr yn ymwybodol o'r bylchau yn y dewis o ran math a chyflenwad Gofal Plant mewn rhai ardaloedd ar gyfer plant o bob oed. Graddiwyd lleoliad a hygyrchedd Gofal Plant yn dda ar y cyfan, ac mae hyn yn adlewyrchu gwasgariad daearyddol da Cylchoedd Chwarae ar draws y sir, sydd yn bennaf yn darparu Gofal Plant Cymraeg i blant 2-4 oed. Dangosir y dadansoddiad manwl isod.

**Tabl 2.3.2:**
**O ran yr ystod o Ofal Plant cofrestredig sydd ar gael i rieni a gofalwyr yn eich ardal, beth yw eich barn am y canlynol?**


| | Gwael | Boddhaol | Da | Ardderchog | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd y ddarpariaeth | | 3 | 13 | 13 | 3 |
| Ystod o ddarparwyr | 4 | 9 | 11 | 6 | 2 |
| Nifer y lleoedd | 8 | 6 | 9 | 3 | 6 |
| Fforddiadwyedd | 1 | 5 | 12 | 7 | 7 |
| Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau | 1 | 5 | 13 | 7 | 6 |
| Addasrwydd oriau agor | 1 | 4 | 13 | 9 | 5 |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliad a hygyrchedd Gofal Plant | 2 | 3 | 16 | 7 | 4 |
| Darpariaeth Gymraeg | 2 | 5 | 14 | 9 | 2 |

**Ffigur 2.3.1: Graddfa Gofal Plant cofrestredig sydd ar gael i rieni:**

**:**





**Problemau a brofir gan Ddarparwyr Gofal Plant:**

| **Tabl 2.3.3: A yw'ch lleoliad yn cael y problemau canlynol ar hyn o bryd?** | **Ydy** | **Yn aml** | **Weithiau** | **Nac ydy/ byth** |
|---|---|---|---|---|
| Rhestr aros | 11 | 1 | 14 | 6 |
| Lleoedd ar gael | 16 | | 9 | 7 |
| Rhieni yn methu talu ffioedd | 1 | 1 | 17 | 13 |
| Dyledion rhieni heb eu talu/ffioedd hwyr o dros 4 wythnos | 2 | 2 | 18 | 10 |
| Digon o incwm i dalu costau staff a rhent/gorbenion | 14 | 5 | 7 | 6 |
| Digon o gyllid ar gyfer adnoddau | 14 | 2 | 14 | 2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Angen cymorth ar gyfer staff ychwanegol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol | 6 | 6 | 12 | 8 |
| Adnoddau, offer a hyfforddiant i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 5 | 3 | 18 | 6 |

**Ffigur 2.3.2: Pob mater a brofir gan leoliadau**





Mae pob un o'r problemau a restrir uchod yn cael eu harchwilio ymhellach yma:

| **Tabl 2.3.4: Rhestr aros a lle sydd ar gael** | **Ydy** | **Weithiau** | **Yn aml** | **Nac ydy/byth** |
|---|---|---|---|---|
| Rhestr aros | 11 | 14 | 1 | 6 |
| Lleoedd ar gael | 16 | 9 | | 7 |

**Ffigur 2.3.3: Rhestr aros a lle sydd ar gael**

DRAFT




Mae 'Nifer y lleoedd sydd ar gael' fel problem yma yn gwrth-ddweud yr ymateb i'r cwestiwn blaenorol. Mae'n bosibl y bydd angen ymchwilio ymhellach i'r ffactorau sy'n amrywio – gan y gallai fod yn lleoedd yn ôl oedran y plentyn neu'r math o leoliad. Ni ofynnodd yr arolwg am fanylion yn ôl oedran y plentyn, ac nid ydym wedi dadansoddi'r canlyniadau yn ôl y math o leoliad ar gyfer pob cwestiwn.

Rydym yn ymwybodol bod lleoedd heb eu defnyddio mewn rhai cylchoedd chwarae, a'r rhan fwyaf o leoliadau clybiau ar ôl ysgol, ond mae lleoedd ar gyfer plant o dan 2 oed neu ar gyfer gofal dydd llawn yn brin ac yn creu rhestrau aros ar gyfer rhai darparwyr.

**CAM GWEITHREDU: Archwilio'r ymateb i'r arolwg ar restrau aros a lleoedd sydd ar gael gan fod yr ymateb sampl yn yr arolwg hwn yn rhy fach i ddod i gasgliadau. Sefydlu methodoleg i fonitro rhestrau aros ac argaeledd lleoedd yn ôl math o Ofal Plant, gan gysylltu ag unrhyw wybodaeth am ddatblygiadau tai arfaethedig**

**Ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai rhai darparwyr presennol gynyddu capasiti yn hytrach na chreu darpariaeth newydd.**

Gwahoddwyd Darparwyr Gofal Plant i ychwanegu sylwadau pellach am y problemau yr oeddent yn eu cael. Mae rhai wedi eu cynnwys yma:

| |
|---|
| *Rwy'n cael trafferth llenwi lleoedd – (Gwarchodwr plant)* |
| *Mae gen i restr aros ar gyfer plant o dan 5 oed hyd at 2023. Gan fod gen i 2 [o blant] fy hun yn yr ystod oedran yma mae'n golygu fy mod i'n gallu gofalu am un plentyn arall o dan 5 oed yn unig gan ddilyn y cymarebau. Dwi heb gael unrhyw ddiddordeb/ymholiadau ar gyfer plant dros 5 oed. Mae llawer mwy o angen am leoedd Gofal Plant i blant iau – (Gwarchodwr Plant)* |
| *Allwn ni ddim cael staff i weithio gyda phlant ag anghenion arbennig sy'n mynychu ein meithrinfa er ein bod wedi hysbysebu ddwywaith yn ystod y ddau fis diwethaf, ac mae'n rhaid i'r staff presennol rannu'r baich rhyngddynt. Dyn ni'n cael galwadau ffôn* |

| |
|---|
| *cyson am leoedd yn ein meithrinfa ac rydym yn llawn ac mae gennym restr aros. Mae rhieni sy'n methu cael lleoedd yn mynd yn grac iawn ar y ffôn gan fod Gofal Plant yn broblem – (Meithrinfa Ddydd)* |
| *Mae lleoedd ar gael yn ein clwb ar ôl ysgol ers y pandemig a gyda rhieni yn gweithio gartref mae gennym lai o blant sydd angen gofal ar hyn o bryd. Yna mae'n anodd cadw cydbwysedd rhwng paru niferoedd staff â chymarebau plant a cheisio peidio â cholli arian ar bob sesiwn. Mae'n ymddangos hefyd ei fod yn costio mwy i'r busnes ddarparu Gofal Plant 1 i 1 – (Y Tu Allan i Oriau Ysgol)* |

**A yw recriwtio a chadw staff yn broblem i'ch lleoliad chi?** Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

| |
|---|
| *Problem enfawr! Mae gennym hysbyseb allan am gynorthwyydd ar hyn o bryd – dyma'r 6ed tro i ni hysbysebu! – (Cylch Meithrin / Grwp Chwarae)* |
| *Byddai staff ychwanegol yn ein gwneud ni'n ddeniadol ac yn fanteisiol iawn a byddem yn gallu cyflawni popeth sy'n rhaid i ni i safon uchel a chyson, fodd bynnag, ni fyddai ariannu'r adnodd ychwanegol hwnnw yn ymarferol yn ariannol.*<br><br>*Mae gweithio gyda phlant ifanc yn waith caled ac yn llawn straen, a dyw hyn ddim yn cael ei adlewyrchu yn y cyflog/cyfradd fesul awr a gynigir i'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn.*<br><br>*Nid yw galwadau a disgwyliadau'r rhai sy'n gweithio mewn rôl arweinyddiaeth yn cael eu gwerthfawrogi na'u deall gan fod lleoliadau Meithrin wedi newid yn llwyr.*<br><br>*Mae llawer o staff yn gadael y proffesiwn hwn i weithio rhywle arall, gan sicrhau cyfradd cyflog well fesul awr heb y straen – (Cylch Meithrin / Grwp Chwarae)* |
| *Ydy. Dros y 2 flynedd diwethaf mae 5 aelod o staff wedi ein gadael i ddechrau swyddi mewn sectorau hollol wahanol sy'n golled i'r sector Gofal Plant oherwydd roedden nhw'n aelodau staff da iawn. Nid yw'r sector Gofal Plant yn gallu cynnig cyflogau llawer uwch na'r isafswm cyflog / cyflog byw a hefyd yn y sector preifat does ddim budd-daliadau tâl salwch na thâl mamolaeth.*<br><br>*Mae darparu Gofal Plant fforddiadwy a bod yn fusnes hyfyw ar yr un pryd yn her.*<br><br>*Ar hyn o bryd dyw'r swydd ddim yn un sy'n apelio – gweithio o gartref yw'r norm bellach! – (Meithrinfa Ddydd)* |

DRAFT

**A yw cymwysterau staff yn broblem?** Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

| |
|---|
| *Gall fod yn her i gynnal cymarebau staff cymwysedig o 50%, mae'n debyg y bydd hyn yn cynyddu wrth i'r cymhwyster Gwaith Chwarae gael ei gyflwyno hefyd – (Y Tu Allan i Oriau Ysgol)* |
| *Dyw contractau byr ac oriau isel ddim yn denu staff o safon dda i'r swydd ac mae'r cyflog yn isel iawn o'i gymharu â gwaith arall yn yr ardal sy'n gofyn am lai o gymwysterau a chyfrifoldeb – (Cylch Meithrin / Grwp Chwarae)* |
| *Ydy. Mae'r nifer sy'n astudio cyrsiau Gofal Plant yn y coleg wedi gostwng yn sylweddol. Nid yw ysgolion uwchradd yn yr ardal yn cynnig y cwrs bellach.*<br><br>*Fel meithrinfa Gymraeg mae angen siaradwyr Cymraeg rhugl arnom ni hefyd. Felly mae argaeledd gweithwyr cymwysedig Cymraeg eu hiaith hyd yn oed yn fwy o broblem – (Meithrinfa Ddydd)* |

**A oes gennych chi unrhyw sylwadau / awgrymiadau ar gyfer gwelliannau o ran y farchnad Gofal Plant yn eich ardal?** Dywedodd darparwyr wrthym am ddigonolrwydd, ansawdd, fforddiadwyedd, neu'r rhwystrau rhag cael mynediad i bob math o Ofal Plant sydd ar gael.


| |
|---|
| *Mae nifer y Gwarchodwyr Plant yn [fy mhentref] a'r ardal leol wedi lleihau dros y cyfnod rwyf wedi bod yn gwarchod plant. Rwy'n meddwl bod hyn oherwydd llawer o newidiadau bach dros amser sydd wedi cael effaith andwyol fawr ar y sector. Mae rhai o'r newidiadau yn cynnwys y gwaith papur sydd yn bendant wedi cynyddu dros amser. Mae disgwyl i ni redeg fel Meithrinfa neu Ysgol Feithrin ond gyda dim ond un person yn gyfrifol am bopeth sy'n golygu bod gwaith papur yn cymryd drosodd ar y penwythnos a gyda'r nos. Yr oriau anghymdeithasol, hir. Y ffi gyfartalog y mae Gwarchodwyr Plant yn ei chodi fesul plentyn, mae'n rhaid i ni barhau i fod yn fforddiadwy i rieni ond mae angen i ni wneud arian. Mae Covid wedi lleihau faint o gymorth corfforol, help a chyngor rydym yn eu cael. Dyn ni ddim yn cael sesiynau dal i fyny rheolaidd fel o'r blaen a gall hyn arwain at ynysu a llai o Warchodwyr Plant yn y gymuned – (Gwarchodwr Plant)* |
| *Cyllid ar gyfer plant 2-3 oed nid yn unig ar gyfer plant Dechrau'n Deg – (Cylch Meithrin / Grwp Chwarae)* |
| *Mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Mae diffyg lleoedd yn broblem yn yr ardal i blant o dan 4 oed – (Meithrinfa Ddydd)* |
| *Mae ein lleoliad hanner awr o'r feithrinfa agosaf a hyd yn oed mwy na hynny mewn rhai cyfeiriadau. Er enghraifft mae un rhiant yn teithio 40 munud i'r cyfeiriad arall i'w leoliad gwaith i gael Gofal Plant gyda ni oherwydd does dim byd arall ar gael yn* |

DRAFT


*agosach. Gan nad yw pellter o'r feithrinfa yn rhan o'n polisi derbyn, mae derbyn plant o ymhellach i ffwrdd wedi golygu ein bod wedi gorfod siomi pobl sy'n lleol iawn i'r feithrinfa – (Meithrinfa Ddydd)*

**Cynlluniau cymorth ariannol Gofal Plant –** dywedodd darparwyr eu bod yn derbyn Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth a chynlluniau talebau amrywiol neu addysg gynnar a ariennir.

**Ffigur 2.3.4: Darparwyr Gofal Plant wedi cofrestru ar gynlluniau amrywiol**





**Ffigur 2.3.5: Darparwyr Gofal Plant yn hyrwyddo cynlluniau**




**Ydych chi'n meddwl bod Cynnig Gofal Plant Cymru wedi helpu teuluoedd di-waith sydd â phlant 3 – 4 oed i gael cyflogaeth?**

**Ffigur 2.3.6: Cynnig Gofal Plant Cymru wedi helpu teuluoedd i gael cyflogaeth**





**Ydych chi'n ymwybodol o gynlluniau cymorth ychwanegol ar gyfer y plant yn eich gofal?**

**Tabl 2.3.5: Ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth ychwanegol**

| **Cynllun Cyfeirio** | **Cronfa Datblygiad Plant** | **Ymuno (cymorth i blant ag ADY fynychu Clybiau Ar Ôl Ysgol);** | **Grant Gofal Plant neu Lwfans Dysgu i Rieni ar gyfer myfyrwyr;** | **Ddim yn ymwybodol / ddim yn berthnasol;** |
|---|---|---|---|---|
| 13 | 2 | 8 | 9 | 13 |

**Ffigur 2.3.7: Ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth ychwanegol**

DRAFT




Gwahoddwyd darparwyr i rannu unrhyw bryderon neu ba newidiadau yr hoffent eu gweld wrth symud ymlaen ers i bandemig COVID-19 ddechrau sydd wedi newid y modd y darperir gwasanaethau yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

| |
|---|
| *Mae patrwm gweithio pobl yn y gwaith yn dal i amrywio ond bydd angen y math hwn o ofal arnoch – er y bydd ar gyfer niferoedd bach – (Y tu allan i oriau ysgol)* |
| *Nid yw cael y llywodraeth i ddweud wrth gyflogwyr ei fod yn fater i'r sefydliadau neu'r Awdurdodau Rheoleiddio ac ati yn unrhyw help – rydym ni'n fudiad sy'n cael ei redeg yn wirfoddol ac mae llawer o waith papur – mae'n golygu bod llawer gan bobl i'w wneud – (Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae).* |
| *Yn ariannol, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr – (Meithrinfa Ddydd)* |
| *Ailadrodd yr effaith ar staffio – mae pobl wedi newid gyrfa ac am gael bywyd gwahanol. Mae Gofal Plant yn broffesiwn blinedig ac mae pobl wedi gweld bod swyddi gweinyddol ar gael sy'n llai heriol yn gorfforol – (Meithrinfa Ddydd)* |

**Oes gennych chi unrhyw bryderon eraill wrth symud ymlaen?** Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Rwy'n meddwl bod darparwyr Gofal Plant yn gweld bod cael eu talu mor hwyr gan y Cynnig Gofal Plant yn broblem fawr.
- Mae angen adolygu'r gyfradd tâl bresennol ar gyfer y cynllun Gofal Plant 30 awr yn unol â'r cynnydd yn yr isafswm cyflog a'r cyflog byw ym mis Ebrill.
- Gallai plant gweithwyr o gartref fod yn colli allan ar weithgareddau chwarae grŵp a rhyngweithio ac efallai na fydd y plant yn cael gofal llawn yn yr amgylchedd cartref gan fod rhieni yn canolbwyntio ar weithio o gartref.

DRAFT

| Tabl 2.3.6: Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth berthnasol gan y canlynol: | Ydw | Weithiau | Nac ydw | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Uned Gofal Plant – Cyngor Sir Ceredigion | 29 | 2 | 0 | 1 |
| Gwasanaeth Ysgolion (ar gyfer y rhai sy'n darparu Addysg Gynnar) – Cyngor Sir Ceredigion* | 10 | 3 | 2 | 17 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 | 10 | 4 | 0 |
| Estyn (ar gyfer y rhai sy'n darparu Addysg Gynnar) | 8 | 4 | 0 | 20 |

** Rhybudd – nododd rhai eu bod yn darparu Addysg Gynnar ond nad ydynt yn cael eu hariannu gan Wasanaeth Ysgolion yr ALl felly ni fyddent yn gymwys i dderbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ysgolion.*

**Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth berthnasol gan y sefydliadau ambarél CWLWM canlynol?**
Mae'r Uned Gofal Plant yn darparu cyllid ar gyfer rhai o'r rhain i gefnogi darparwyr yn lleol, ac mae ganddynt eu hymgyrchoedd cenedlaethol a phrosiectau a ariennir hefyd rydym yn eu rhannu'n rheolaidd gyda'n lleoliadau.

**Tabl 2.3.7: Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael digon o gefnogaeth berthnasol gan y sefydliadau ambarél CWLWM canlynol?**

| | Ydw | Weithiau | Nac ydw | Hoffwn i gael mwy o gefnogaeth | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Mudiad Meithrin | 12 | 8 | 2 | | 10 |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru | 6 | 9 | 2 | | 15 |
| PACEY Cymru | 11 | 8 | 1 | 2 | 10 |
| Clybiau Plant Cymru Kids Clubs Wales | 7 | 11 | 4 | | 10 |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) | 2 | 4 | 3 | | 23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhybudd – rhai wedi ateb Nac ydw/weithiau yn lle amherthnasol e.e. gwarchodwyr plant | | | | |
| Rhybudd – rhai wedi ateb ydw yn lle amherthnasol e.e. Cylch | | | | |

Mae'r ymatebion yn dangos bod sefydliadau CWLWM yn dda o ran rhoi gwybodaeth i ddarparwyr. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn comisiynu Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru i ddarparu cymorth Swyddog Datblygu i ddarparwyr gofal sesiynol; a thalu Aelodaeth ac Yswiriant i bob gwarchodwr plant trwy PACEY Cymru.

***Roedd sylwadau pellach a nodwyd gan ddarparwyr yn cynnwys:***

- *Hoffwn i weld y gyfradd fesul awr i warchodwyr plant o'r Cynnig Gofal Plant yn cynyddu ochr yn ochr â'r cyfraddau cyfredol ar gyfer Gofal Plant. Pan ddechreuodd e 5 mlynedd yn ôl roeddwn i'n codi £4 yr awr ar gyfer teuluoedd preifat. Nawr rwy'n meddwl codi £5 yr awr oherwydd y codiad yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, sy'n golygu fy mod i'n colli 50c yr awr fesul plentyn ar y Cynnig!*
- *Mae'r tâl ar gyfer ymarferwyr cofrestredig a chymwysedig yn y sector Gofal Plant yn eithriadol o wael gan olygu bod staff yn teimlo'n fwyfwy nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ac yn chwilio am waith mewn sectorau gwahanol er mwyn cael ansawdd bywyd gwell.*
- *Recriwtio staff sector Gofal Plant sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau iaith cywir.*
  *Cydbwyso cost Gofal Plant i rieni â chostau rhedeg meithrinfa*
- *Mae rheoliadau AGC yn ei gwneud hi'n anodd iawn creu darpariaeth Gofal Plant newydd oherwydd y broses gofrestru hir*
- *Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r gofynion cymwysterau hefyd yn feichus iawn ar gyfer yr hyn sydd yn aml yn gyflogaeth ansicr gyda chyflog isel.*
- *Rydym ni wedi mynd tuag yn ôl ers 2000 pan gefais fy nghyflogi gyntaf fel swyddog datblygu Gofal Plant ac mae llai o ddarpariaeth ar gyfer rhieni wrth i amser fynd yn ei flaen sy'n cael effaith negyddol ar allu menywod yn enwedig i gael swydd, ac effaith wedyn ar gyflogaeth a nifer y plant sy'n byw mewn tlodi*

## 2.4 AROLWG YSGOLION

### METHODOLEG

Anfonwyd yr Arolwg Ysgolion i bob ysgol gynradd (40) ac uwchradd (7) (gan gynnwys ysgolion 3-16 a 3-19) trwy arolwg ar-lein. Rhoddwyd cyflwyniad i bob Pennaeth gan egluro proses yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Derbyniwyd 11 o ymatebion gan 9 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd (23% o'r holl ysgolion), 5 yn Gymraeg, 6 yn Saesneg. Dim ond ysgolion o 6 o'r 9 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol oedd wedi ymateb i'r arolwg.

**Tabl 2.4.1: Ysgolion Cynradd fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** (gan gynnwys ysgolion 3-16 a 3-19)**:**

| **Y Borth & Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Craig yr Wylfa (Y Borth) | Comins Coch | Llwyn yr Eos (Penparcau) | Aberaeron | Ceinewydd | Ysgol 3-19 Bro Pedr | Aber-porth | Bro Teifi (3-19 Llandysul) | Ysgol Henry Richard (3-16 Tregaron) |
| Penrhyn-coch | St Padarn | Plascrug | Ciliau Parc (Ciliau Aeron) | Bro Sion Cwilt (Synod Inn) | Dihewyd | Aberteifi | Cenarth | Llanfarian |
| Rhydypennau | | Ysgol Gymraeg Aberystwyth | Llangwyryfon | Llanarth | Dyffryn Cledlyn (Drefach) | Llechryd | | Llanfihangel y Creuddyn |
| Tal-y-bont | | | Llannon | T. Llew Jones (Brynhoffnant) | Felinfach | Penparc | | Llanilar |
| | | | Myfenydd Llanrhystud | Talgarreg | Y Dderi (Llangybi) | | | Mynach (Pontarfynach) |
| | | | | | | | | Penllwyn (Capel Bangor) |
| | | | | | | | | Pontrhydfendigaid |
| | | | | | | | | Rhos Helyg (Llangeitho) |
| | | | | | | | | Rhos y Wlad (Bronant) |
| | | | | | | | | Syr John Rhys (Ponterwyd) |

DRAFT

**Tabl 2.4.2: Ysgolion Uwchradd fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** (gan gynnwys ysgolion 3-16 a 3-19)**:**

| **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ysgol Gyfun Penweddig | Ysgol Gyfun Aberaeron | | Ysgol Bro Pedr (3-19) | Ysgol Gyfun Aberteifi | Ysgol Bro Teifi (3-19) | Ysgol Henry Richard (3-16) |
| | | | | | | | | Ysgol Gyfun Penglais |


**Tabl 2.4.3: Ymateb ysgol fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol**

| | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr ysgolion a ymatebodd | 0 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 3 | 1 | 2 | 11 |

DRAFT

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion cynradd | 4 | 2 | 3 | 5 | 5 | 5 | 4 | 2 | 10 | 40 |
| Nifer yr ysgolion uwchradd | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 7 |
| **% cyfradd ymateb** | **0** | **0** | **50** | **33** | **20** | **0** | **60** | **33** | **18** | **Cyfanswm 23%** |

**Ffigur 2.4.1: % yr ysgolion a ymatebodd**




**CANLYNIADAU**

Mae'r canlyniadau wedi'u coladu isod, ond oherwydd y nifer isel o ymatebion nid ydynt wedi cael eu hadrodd yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.

**Tabl 2.4.4: Math o ofal yn yr ysgol – Cofrestredig neu Anghofrestredig**

| ***Oes gennych chi unrhyw un o'r mathau canlynol o Ofal Plant ar hyn o bryd*** | **Wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gweithredu o safle eich Ysgol?** | **Heb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gweithredu o safle eich Ysgol?** |
|---|---|---|

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| *Gofal Plant ar ôl Ysgol* | 2 | |
| *Gofal Plant Cofleidiol* | | |
| *Grwp Chwarae/Cylch Meithrin* | 1 | |
| *Gofal Plant Gwyliau* | | |
| *Clwb Brecwast – (Am Ddim)* | 0 | 6 |
| *Clwb Brecwast (y telir amdano gan ddefnyddwyr gwasanaeth)* | 0 | 3 |
| *Clwb Brecwast – Dim bwyd, gofal yn unig* | 0 | 2 |

O ran y wybodaeth a oedd gan ymatebwyr am ddarparwyr Gofal Plant a digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr ardal, yr ateb oedd 'ansicr' gan mwyaf. Dywedodd llai na 45% fod rhieni wedi cysylltu â'r ysgol ynglŷn â materion Gofal Plant. Roedd yn amlwg bod galw yn Aberteifi ac Aberystwyth am Ofal ar ôl Ysgol, gan staff a rhieni sengl, a gallai hyn fod o ganlyniad i gau'r ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol yn ddiweddar yn y ddwy ardal.

*"Mae'r clwb ar ôl ysgol oedd yn Aberteifi wedi gorffen ac mae rhai rhieni wedi holi am hyn – er nad yw'n rhan o'r ysgol."*
*"Yn y gorffennol mae rhai rhieni wedi holi ynglŷn â'r ddarpariaeth ar ôl ysgol ond oherwydd costau / diffyg staff doedd hwn ddim yn opsiwn y gallai ysgol fach wledig fel un ni ystyried ei ddarparu"*

Darparwyd Clybiau Brecwast gan yr holl ymatebwyr, a dywedodd 2 ysgol fod ganddynt gytundebau rhentu ar gyfer y ddarpariaeth Gofal Plant a leolir ar y safle.
Roedd 63% yn trefnu clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol, yr Urdd yn bennaf rhwng 1 a 4 noson yr wythnos, o dan ddwy awr, ond nid oedd llawer wedi ailddechrau ers y pandemig.

Cafwyd ymatebion cymysg ynghylch a fyddai teuluoedd yn manteisio ar Ofal Plant pe bai'r ysgolion yn ei gynnig. Credai'r rhan fwyaf y byddai diddordeb ond mynegwyd pryder ynghylch fforddiadwyedd. Mae gan rieni drefniadau gyda'r teulu estynedig, felly efallai na fydd llawer yn manteisio ar ddarpariaeth sy'n codi tâl.

*"Rwy'n meddwl y gallai fod yn debygol gyda lleiafrif o deuluoedd. Fodd bynnag, rydym ni mewn ardal gyda chyflogau isel sy'n dymhorol. Dwi ddim yn siŵr faint o rieni fydd yn manteisio ar glwb ar ôl ysgol sy'n codi tâl. Byddai rhieni proffesiynol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd i'w darparu yn yr ysgol."*

DRAFT

Dywedodd 80% fod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y gallu i Ofal Plant weithredu ar eu safle ysgol, gyda 60% yn ansicr a fyddai'r pandemig yn effeithio ar y defnydd o Ofal Plant ar safle'r ysgol yn y dyfodol.

Roedd 60% yn ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant, gyda 40% yn nodi ei fod wedi bod o fudd i rieni sy'n gweithio ac sydd wedi cofrestru gyda'u darpariaeth / ysgol.

**Tabl 2.4.5: Gofal Plant sy'n casglu plant o'r Ysgol:**

| **Ydych chi'n ymwybodol o ddarparwyr Gofal Plant lleol sy'n casglu plant o'ch Ysgol?** | | |
|---|---|---|
| a) | Gwarchodwr(wyr) plant | 5 |
| b) | Meithrinfa Ddydd | |
| c) | Clwb ar ôl Ysgol | |
| d) | Cylch Meithrin/Grwp Chwarae | 1 |
| e) | Ddim yn siŵr | 4 |
| f) | Arall | |

**Tabl 2.4.6: Digonolrwydd Gofal Plant:**

| **Yn eich barn chi, oes digon o Ofal Plant ar gael yn lleol i ddarparu ar gyfer anghenion Gofal Plant y teuluoedd â phlant sy'n mynychu eich Ysgol?** | |
|---|---|
| Oes | 1 |
| Nac oes | 4 |
| Ddim yn Gwybod | 6 |

**Tabl 2.4.7: Materion Gofal Plant Rhieni:**

| **A yw rhieni wedi cysylltu â chi ynglŷn â materion Gofal Plant?** | |
|---|---|
| Ydynt | 5 |
| Nac ydynt | 6 |

**Tabl 2.4.8:Materion Gofal Plant Staff:**

| **Yn eich barn chi, oes digon o Ofal Plant ar gael yn lleol i ddarparu ar gyfer anghenion Gofal Plant y staff (gan gynnwys chi eich anghenion chi) sy'n gweithio yn eich Ysgol?** | |
|---|---|
| Oes | 3 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Nac oes | 3 |
| Ddim yn Gwybod | 5 |
| **Ydy aelodau staff wedi cysylltu â chi ynghylch materion Gofal Plant?** | |
| Ydynt | 3 |
| Nac ydynt | 8 |

**Tabl 2.4.9: Cynnig Gofal Plant ar safle'r ysgol:**

| | **Oes unrhyw le ar gael yn eich Ysgol lle gellid datblygu darpariaeth Gofal Plant newydd?** | **Os oes, a fyddech chi'n fodlon i'r Uned Gofal Plant gysylltu â chi i drafod hyn ymhellach?** | **Ydych chi'n credu y bydd cynnig Gofal Plant ar safle eich Ysgol o fudd i'ch Ysgol?** |
|---|---|---|---|
| Oes | 2 | 2 | 7 |
| Nac oes | 6 | | 1 |
| Ddim yn Gwybod / ansicr | 3 | | 1 |
| Amherthnasol | | | 1 |

**Tabl 2.4.10: Clybiau Gweithgareddau ysgolion:**

| **Os ydych chi'n trefnu clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol yn eich Ysgol, sawl noson yr wythnos ydyn nhw'n rhedeg?** | **1 noson** | **2 noson** | **3 noson** | **4 noson** | **5 noson** | **amh** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | | 1 | 2 | | 3 |

*Cyn Covid – roeddem ni'n cynnig: clwb rhedeg, clwb coginio, clwb codio, yr Urdd, pêl-droed/rygbi, clwb celf ac ati. Yn anffodus oherwydd achosion Covid dydyn ni ddim wedi ailddechrau'r rhain eto. Dyn ni'n gobeithio gwneud hynny yn y Gwanwyn.*

**O ran fforddiadwyedd Gofal Plant, beth yw'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn manteisio ar Ofal Plant pe bai'n cael ei gynnig? (Wrth feddwl am eich ateb dylech ystyried natur economaidd eich poblogaeth ysgol, y defnydd tebygol o deuluoedd a ffrindiau fel opsiwn Gofal Plant ac ati)**

DRAFT

| |
|---|
| *Rwy'n meddwl y gallai fod yn debygol gyda lleiafrif o deuluoedd. Fodd bynnag, rydym mewn ardal lle ceir cyflogau isel sy'n dymhorol. Dwi ddim yn siŵr faint o rieni fydd yn manteisio ar glwb ar ôl ysgol sy'n codi tâl. Byddai rhieni proffesiynol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir yn yr ysgol.* |
| *Mae'r cyfan yn dibynnu ar y gost.* |

**Tabl 2.4.11: Effaith COVID-19 ar darpariaeth Gofal Plant ar safle'r ysgol:**

| | **Ydy pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu Gofal Plant i weithredu ar safle eich Ysgol?** | **Ydych chi'n meddwl y bydd pandemig COVID-19 yn effeithio ar y defnydd o Ofal Plant ar safle eich Ysgol yn y dyfodol?** |
|---|---|---|
| Ydy | 8 | |
| Nac ydw | | 1 |
| Ddim yn siŵr | | 6 |
| Amherthnasol | 2 | 3 |

| **Os ydy, rhowch sylwadau:** |
|---|
| *Does gennym ni ddim digon o staff i redeg clybiau ar ôl ysgol gan fod 3 swigen gennym ni – cyn i ni ddechrau, roeddwn i'n gallu rhedeg un clwb ar gyfer yr ysgol gyfan.* |
| *Oherwydd cyfyngiadau Covid nid ydym wedi gallu cynnig ein clybiau ar ôl ysgol arferol sy'n cael eu rhedeg gan ein staff addysgu o 3.30-4.30 4 diwrnod yr wythnos.* |

**Tabl 2.4.12: Ymwybyddiaeth o'r Cynnig Gofal Plant:**

| | **Ydych chi'n ymwybodol o Gynnig Gofal Plant Cymru?** | **Ydych chi'n meddwl bod Cynnig Gofal Plant Cymru wedi bod o fudd i rieni sy'n gweithio ac sydd wedi cofrestru gyda'ch darpariaeth / Ysgol?** |
|---|---|---|
| Ydw | 6 | 4 |
| Nac ydw | 3 | |
| Ddim yn siŵr | 1 | 2 |
| Amherthnasol | | 4 |

## 2.5 AROLWG PLANT

Datblygodd yr Uned Gofal Plant Arolwg Plant ar-lein gyda'r Swyddogion Chwarae i'w rannu gyda darparwyr Gofal Plant a Chwarae, wrth i ymweliadau â darpariaeth y Tu Allan i Oriau Ysgol gael eu cwtogi oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Rhannwyd yr Arolwg trwy e-bost i bob Darparwr y Tu Allan i Oriau Ysgol, derbynwyr Grant Chwarae ac ar y llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol corfforaethol. Defnyddiwyd y canlyniadau i lywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. (Gweler Atodiad 3 am gopi o'r Arolwg)

Roedd cwestiynau am Chwarae yn cynnwys pa mor aml roedd plant yn cyfarfod â'u ffrindiau, a ble a gyda phwy roedden nhw'n chwarae.
Roedd cwestiynau ynglŷn â Gofal Plant yn ymwneud â ble roedden nhw'n mynd ar ôl i'r ysgol orffen, pa mor aml, ac a oedden nhw'n hoffi'r clwb neu'r gofal plant roedden nhw'n mynd iddo. Y dewisiadau ymateb oedd naill ai Cartref; Aelodau teulu; Ffrindiau; Clwb e.e. chwaraeon, cerddoriaeth ac ati a Gofal Plant e.e. Gwarchodwr Plant, Clwb Ar Ôl Ysgol ac ati.
Gofynnwyd iddynt hefyd a oedd y pandemig wedi newid yr hyn yr oeddent yn ei wneud ac i ble yr oeddent yn mynd i chwarae.
Cwblhawyd rhai ymatebion yn nigwyddiadau Ceredigion Actif a oedd wedi ailddechrau.

**Sesiynau Chwarae Mynediad Agored:**


Yn ystod gwyliau ysgol hanner tymor mis Chwefror, comisiynwyd arbenigwr Gofal Plant a Chwarae i gynnal digwyddiadau chwarae mynediad agored mewn 8 lleoliad mewn 5 pentref/tref ledled Ceredigion.
Mynychodd cyfanswm o 167 o blant sesiynau hanner tymor mis Chwefror – o 7 mis i 16 oed. Wnaeth 79% gwblhau, neu cawsant eu cefnogi i gwblhau'r ffurflenni papur gan rieni neu weithwyr Chwarae. Ychwanegwyd y data at y ffurflen ar-lein i'w ddadansoddi a'i lanhau i eithrio adborth gan blant o dan 17 mis oed.

**Tabl 2.5.1: Sesiynau Chwarae Mynediad Agored:**

| Dyddiad | Lleoliad | Nifer o blant | Oedran |
|---|---|---|---|
| 21.02.2022 | Penparcau - Hwb | 24 | 7 mis – 12 blwydd oed |
| 22.02.2022 | Llandysul - Parc Goffa | 8 | 19 mis – 6 blwydd oed |
| 22.02.2022 | Llandysul - The Beeches | 17 | 1 – 13 blwydd oed |
| 23.02.2022 | Llanon | 11 | 1 - 8 blwydd oed |
| 24.02.2022 | Lampeter - Parc y Felin | 19 | 9 mis – 16 blwydd oed |
| 24.02.2022 | Lampeter – Parc yr Orsedd | 29 | 3 – 11 blwydd oed |
| 25.02.2022 | Cardigan - Pentop | 20 | 0 – 14 blwydd oed |
| 25.02.2022 | Cardigan - George V | 39 | 1 – 10 blwydd oed |
| | | **167 o blant wedi mynychu** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **132 wedi cwblhau arolwg papur** | |

**Ffigur 2.5.1: Mynychwyr mewn Sesiynau Chwarae Mynediad Agored**





**Canlyniadau:**


Cwblhaodd cyfanswm o 227 o blant yr Arolwg Plant – 95 ar-lein trwy MS Forms, a 132 ar bapur yn nigwyddiadau Chwarae mis Chwefror.
Cefnogwyd rhai i lenwi'r ffurflen gan rieni neu weithwyr Chwarae.
Yr ystod oedran ar gyfer cwblhau arolwg oedd 17 mis – i 15 mlwydd oed.

DRAFT

**Ffigur 2.5.2: Oedran y plant a gwblhaodd yr Arolwg Plant**




**Ffigur 2.5.3: Ymatebwyr fesul AGEHG**




**Cyfunwyd niferoedd yr ymatebwyr a nododd eu bod yn byw yn 'Aberystwyth' i ardaloedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) Gogledd Aberystwyth a De Aberystwyth.*

**Defnydd o Ofal Plant:**

Allan o 227 o ymatebion, nododd 13% eu bod yn defnyddio Gofal Plant (30), ac aeth cyfanswm o 27% (61) i Glwb ar ôl ysgol neu i ddarparwr Gofal Plant. Roedd 'Clwb' yn cynnwys unrhyw weithgaredd ar ôl ysgol, e.e. chwaraeon neu gerddoriaeth, a Gofal Plant e.e. Gwarchodwr Plant, Clwb ar ôl Ysgol ac ati.

Dim ond 26 o'r 30 oedd yn byw yng Ngheredigion, gyda 3 yn dod o bentrefi/trefi ar y ffin yn Sir Gaerfyrddin (Cwmann a Chastell-newydd Emlyn) ac 1 o dde Sir Benfro (Hwlffordd).

O'r 30 a nododd eu bod yn defnyddio Gofal Plant, roedd 10% yn mynd bob dydd ar ôl ysgol, tra bod 87% yn mynd weithiau. Dywedodd 63% fod y pandemig wedi newid yr hyn yr oeddent yn ei wneud ar ôl ysgol.

> *"Mam yn gweithio o gartref felly gall fynd adref fwy ar ôl ysgol"*

Roedd 79% yn hoffi neu'n hoff iawn o fynd i Ofal Plant ar ôl ysgol; dywedodd 17% ei fod yn "iawn"; a nododd 3% nad oeddent yn ei hoffi.

| **Tabl 2.5.2:** | **Sawl diwrnod ydych chi'n mynd i Glwb / Gofal Plant?** |
|---|---|
| Ambell waith | 26 |
| Bob dydd | 3 |

| **Tabl 2.5.3** | **Beth ydych chi'n ei feddwl o'r clwb ar ôl ysgol / gweithgaredd / gofal plant rydych chi'n mynd iddo?** |
|---|---|
| Rwy'n ei hoffi | 22 |
| Mae'n iawn | 5 |
| Dwi ddim yn ei hoffi | 1 |
| Arall | 1 – Dwi'n caru fe |

| **Tabl 2.5.4** | **A yw'r Coronafeirws (COVID-19) wedi newid beth ti'n gwneud a ble ti'n chwarae / cwrdd?** |
|---|---|
| Ydy | 19 |
| Nac ydy | 7 |
| Dim yn gwybod | 4 |

| | |
|---|---|
| | **Os ydy, sut?** Sampl o sylwadau ychwanegol<br><br>• *Mae rhai lleoedd wedi cau oherwydd COVID*<br>• *Mae clybiau newydd ddechrau agor, felly mae'n rhaid aros nes bod popeth yn gweithio. Mae pethau'n gwella'n raddol*<br>• *Roedd gofal plant a stopiwyd yn ystod cyfnodau clo yn ei gwneud hi'n anodd mynd i'r gwaith*<br>• *Mam yn gweithio o gartref felly gall fynd adref mwy ar ôl ysgol*<br>• *Gorfod archebu ymhell ymlaen llaw. Nid yw rhai pobl eisiau cyfarfod*<br><br>**Casgliad:**<br><br>Roedd y plant a gwblhaodd yr Arolwg Plant yn dod o 42 o bentrefi a threfi Ceredigion ar draws pob un o'r 9 ardal AGEHG. Roedd 5% o'r ymatebwyr (12) wedi'u lleoli y tu allan i Geredigion neu leoliadau anhysbys.<br>O'r 5 lleoliad lle cynhaliwyd y sesiynau Chwarae, nid oes gan 4 ohonynt Glybiau Ar Ôl Ysgol gweithredol. Mae gan un lleoliad wasanaeth casglu ar ôl ysgol o ddwy Feithrinfa Ddydd leol, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gael yn yr ysgol a allai gyfrif am y defnydd isel o ofal plant (13%) o gymharu â chyfartaledd o 22.4% o blant Ceredigion sy'n defnyddio rhyw fath o ofal plant yng Ngheredigion yn 2021 (Gweler Tabl 24.4). |
| **3** | **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH** |
| **3.1** | **GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD:** |
| | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) ar gyfer teuluoedd a darpar rieni. Anogir Awdurdodau Lleol yn gryf i ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth integredig fel canolbwynt y ddarpariaeth hon. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu gwybodaeth o ddisgrifiad rhagnodedig a all ddod o dan ddau gategori:<br>• Gofal plant<br>• Gwasanaeth arall neu gyfleusterau eraill a allai fod o fudd i rieni, darpar rieni, plant neu bobl ifanc<br><br>Mae'r GGD yn cynnig cyngor a gwybodaeth ddiduedd am ddim ar Ofal Plant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i rieni a gofalwyr; gwybodaeth am gymorth gyda chostau gofal plant gan gynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru, a gall ddarparu gwybodaeth i gyflogwyr ar faterion Gofal Plant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith fel yr amlinellir yn y Canllawiau Statudol Gofal Plant. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **Strwythur Staffio:** Ym mis Ebrill 2018 o dan agenda trawsnewid Awdurdodau Lleol trosglwyddwyd dyletswyddau GGD o reolaeth yr Uned Gofal Plant i Borth Cymorth Cynnar/Porth y Gymuned. Arweiniodd hyn at drosglwyddo'r Swyddog GGD a chyllid cysylltiedig i adran wahanol ac roedd Uned Gofal Plant wedi trosglwyddo o'r Tîm Cefnogi Polisi i Wasanaethau Ysgolion.<br><br>**Darparu:** Sefydlwyd Porth y Gymuned i ddarparu gwasanaeth gydol oed gyda 4 Cysylltydd Cymunedol wedi'u penodi (gan gynnwys y Swyddog GGD) i ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys y GGD. Roedd y gwasanaeth hwn yn un gydol oed ac felly nid oedd gan y swyddog a ariannwyd y gallu i neilltuo ei amser i reoli'r GGD o ran Gofal Plant a chymorth i deuluoedd. Arweiniodd y newid yn y gwasanaeth at ddiwedd gwefan benodol y GGD a'r cylchlythyrau wythnosol a gynhyrchwyd gan y GGD. Trosglwyddwyd peth gwybodaeth i wefan Gorfforaethol y Cyngor. Cofrestrodd Ceredigion i ddefnyddio cyfeiriadur adnoddau Cymru Gyfan Dewis Cymru. Roedd hyn yn golygu diwedd y cyfleuster chwilio Gofal Plant mewnol, a chafodd ei ddisodli gan gyfeiriadur Dewis Cymru ar gyfer darparwyr Gofal Plant.<br><br>**Cydweithio:** Er bod y cyfrifoldeb ar gyfer GGD wedi'i leoli o fewn Porth Cymorth Cynnar/ Porth y Gymuned, mae'r Uned Gofal Plant wedi bod yn cyflawni'r dyletswyddau canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Canllawiau Statudol drwy:<br>• sicrhau bod darparwyr Gofal Plant newydd yn ymwybodol o beth yw'r GGD.<br>• eu hannog i gofrestru i ddefnyddio eu gwasanaeth i beiriant chwilio ar-lein cenedlaethol Dewis Cymru.<br>• annog darparwyr i ddefnyddio Dewis a diweddaru eu manylion, gan y bydd hwn yn ddull i deuluoedd ddod o hyd i Ofal Plant cofrestredig lleol.<br>• ymateb i ymholiadau gan deuluoedd.<br>• diweddaru modiwl Hyfforddiant Dewis Cymru ar gyfer darparwyr Gofal Plant Ceredigion<br><br>**CAM GWEITHREDU: Mae angen cyllid ychwanegol ar yr Uned Gofal Plant gan ein bod yn ymgymryd â dyletswyddau (y tu allan i'n cylch gorchwyl) i sicrhau bod y dyletswyddau statudol yn cael eu bodloni.**<br><br>Yn ystod 2021 cafodd y maes gwasanaeth ei effeithio unwaith eto gan ad-drefnu o dan yr Agenda Drawsnewid, gyda'r canlyniad heb ei benderfynu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ond mae'n bosibl y caiff y gwasanaeth ei reoli gan wasanaethau Clic Corfforaethol. Mae ymwybyddiaeth bod GGD yn ofyniad statudol yn y Model Gydol Oed a Llesiant newydd, ac mae swyddogion yn parhau i weithio gyda darparwyr lleol.<br><br>**Pryderon:** Er bod GGD wedi trosglwyddo i Borth y Gymuned roedd disgwyl y byddai pob Cysylltydd Cymunedol yn ymgymryd ag elfen o GGD yn ei rôl. Mewn gwirionedd, oherwydd maint y llwythi achosion a roddir i bob Cysylltydd Cymunedol, ni fu'n bosibl ymgymryd â chyfrifoldebau GGD. Mae hyn wedi arwain at oedi wrth ddiweddaru gwybodaeth Dewis, rheoli data a gwybodaeth ar gyfer adrodd. Mae'n rhaid i GGD ddibynnu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Corfforaethol y Cyngor sy'n golygu ei fod yn gyfyngedig o ran nifer y postiadau y gallant eu rhannu a pha mor aml. Mae Dechrau'n Deg yn gallu cael mynediad at dudalennau cyfryngau cymdeithasol Teuluoedd Ceredigion Families gyda mwy o hyblygrwydd o ran postiadau. |

DRAFT


**CAM GWEITHREDU: Yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu bodloni ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.**

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD Ceredigion) (adborth o'r Arolwg Cyflogwyr)**

Nid oedd bron i ddwy ran o dair o ymatebwyr i'r Arolwg Cyflogwyr yn ymwybodol o GGD, a gofynnodd chwarter yr ymatebwyr am ragor o wybodaeth sydd wedi'i rhannu â swyddogion y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

*"Rwyf wedi gofyn dro ar ôl tro am gymorth a chyngor yn y gorffennol gan wahanol sefydliadau sy'n ymwneud â darpariaeth Gofal Plant yng Ngheredigion ac wedi cael gwybod bod y cyfan gennym ni ac er eu bod yn gwerthfawrogi bod diffyg darpariaeth does dim byd y gallan nhw ei wneud amdano fe, felly mae'n teimlo bod dim pwynt gwastraffu amser yn siarad am y peth."*

**Ffigur 3.1.1: Graff o ganlyniadau Arolwg Cyflogwyr yn dangos ymwybyddiaeth o GGD:**





Roedd y mwyafrif o'r darparwyr a ymatebodd i'r Arolwg Darparwyr yn diweddaru eu manylion yn rheolaidd ar DEWIS Cymru,


**Tabl 3.1.1: Defnydd Darparwr Gofal Plant o DEWIS Cymru a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**

| Arolwg Darparwyr | Ydych chi'n diweddaru eich manylion yn rheolaidd ar DEWIS Cymru? Mae'r wybodaeth hon yn bwydo i mewn i gronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i helpu teuluoedd i ddod o hyd i Ofal Plant. | Ydych chi'n defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael mynediad at wybodaeth am opsiynau Gofal Plant ar gyfer eich defnyddwyr gwasanaeth? |
|---|---|---|
| Ydw | 97% | 69% |
| Nac ydw | 3% | 31% |

**Ffigur 3.1.2: Defnydd o DEWIS Cymru gan Darparwyr Gofal Plant**




**Ffigur 3.1.3: Defnydd o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gan Ddarparwyr Gofal Plant**




**GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL**

3.2 Bydd y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol yn defnyddio'r Uned Gofal Plant i godi unrhyw ymholiadau ynglŷn â dod o hyd i Ofal Plant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn ystod y pandemig roeddent wedi cydweithio'n agos. Nid oedd Gofal Cymdeithasol wedi tynnu sylw at unrhyw faterion o'r arolwg rhanddeiliaid, ond roedd adborth gan ddarparwyr wedi nodi gwendidau o ran cyfathrebu a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol.

| | |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU: Angen gwella deialog a gweithio mewn partneriaeth rhwng yr Uned Gofal Plant a'r timau Gofal Cymdeithasol. Angen gweithio'n agosach gyda thimau Gofal Cymdeithasol i sicrhau cydnabyddiaeth o statws proffesiynol pob darparwr Gofal Plant a'i rôl ym mywydau plant.**<br><br>Mae'n bosib bod gwarchodwyr plant yn teimlo baich y llwyth gwaith ychwanegol yn fwy gan eu bod yn unig weithwyr sy'n gweithio o'u cartrefi eu hunain, yn darparu eu gwasanaethau dros oriau estynedig yn aml, ac mae ganddynt eu hymrwymiadau teulu eu hunain. Mae hyn yn golygu bod eu holl waith gweinyddol yn cael ei wneud y tu allan i'r oriau y maent yn cynnig darpariaeth Gofal Plant. Felly, bydden nhw'n arbennig yn elwa o gael cefnogaeth estynedig a chydnabyddiaeth gan weithwyr proffesiynol eraill o'u pwysigrwydd ym mywydau plant. |
| **3.3** | **BWRDD DIOGELU PLANT**<br><br>Ymatebodd Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion sy'n gweithredu o dan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) i'r ymgynghoriad ac yn dymuno pwysleisio bod sicrhau digonolrwydd lleoliadau a gofal sy'n gallu cefnogi plant agored i niwed yn hollbwysig wrth ddiogelu plant. Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn aml yn cynnwys Gofal Plant fel rhan o gynllun diogelu neu ofal a chymorth.<br><br>Mae'r atgyfeiriad diogelu hefyd yn bwysig iawn ac ymdrinnir â'r broses ar gyfer hyn yn y cwrs Lefel 2 Diogelu Plant a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion.<br><br>Gall holl ddarparwyr Gofal Plant Ceredigion fynychu'r cwrs hwn (ar-lein ar hyn o bryd) yn ogystal â chwblhau rhaglen e-ddysgu Lefel 1 Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl. Rhennir dyddiadau hyfforddiant a manylion cofrestru gyda'r sector bob tymor gan yr Uned Gofal Plant. |
| **3.4** | **FFRAMWAITH INTEGREIDDIO'R BLYNYDDOEDD CYNNAR**<br><br>Mae Fframwaith Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn gydweithrediad rhwng Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda er mwyn integreiddio'n well wasanaethau ar gyfer plant rhwng sero a saith oed a'u teuluoedd. Y nod oedd creu system ddi-dor o wasanaethau sy'n darparu cyngor, cefnogaeth a chymorth ymatebol ac effeithiol i deuluoedd ar draws Ceredigion gan ddefnyddio'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael iddynt – rhai statudol ac anstatudol.<br><br>Gwnaethpwyd newidiadau gan Gyngor Sir Ceredigion i gael integreiddio gwell a oedd yn cynnwys cyflogi Cydlynydd i sefydlu Grwpiau Gweithredol a Llywio gyda chynrychiolaeth o'r holl asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant rhwng sero a saith oed a'u teuluoedd ar draws Ceredigion – o Iechyd, yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector, gan gynnwys darparwyr Gofal Plant, a gweithredu'r model mewn ardaloedd Braenaru. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Datblygwyd a rhannwyd Cynllun Gweithredu, Protocol Rhannu Gwybodaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cronfa Ddata a Ffurflenni Cofrestru yn ogystal â llyfrynnau gwybodaeth i deuluoedd a gafodd groeso cadarnhaol gan weithwyr proffesiynol a theuluoedd. Fodd bynnag, nodwyd rhai gwendidau yn y gwasanaeth, e.e. cymorth mewn cyflogaeth. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar y gwasanaeth a ddarperir yng Ngheredigion trwy leihau'r cyswllt rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Gwnaethpwyd addasiadau i ddarparu gwasanaethau ar-lein lle bo'n bosibl, a oedd o fudd cadarnhaol i deuluoedd mewn ardaloedd anghysbell, gan symud rhai rhwystrau megis trafnidiaeth a Gofal Plant gyda mwy o bobl yn gallu mynychu cyrsiau a sesiynau ar-lein.<br>***Ffynhonnell:*** *Gwerthusiad o Ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar Integredig yng Ngheredigion – Adroddiad Terfynol Mai 2021* |
| **3.5** | **CANOLFAN WAITH**<br><br>Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n yn rheoli PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) a ariennir gan brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop sydd wedi cael estyniad hyd at fis Mawrth 2023. Mae'r prosiect yn darparu cymorth Gofal Plant i rieni sy'n hyfforddi neu'n chwilio am waith. Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) \| LLYW.CYMRU<br><br>Mae swyddogion **PaCE** yn aelodau o Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac yn rhoi diweddariadau chwarterol ar nifer y rhieni sy'n hyfforddi ac yn dychwelyd i gyflogaeth. Yn 2020-2021 cefnogodd y prosiect 20 o deuluoedd i gael gwaith amser llawn a 5 teulu i gael gwaith rhan-amser ar draws Ceredigion. Ariannwyd cleientiaid a gafodd eu cefnogi i ymuno â'r gweithlu Gofal Plant i gwblhau cwrs Lefel 3 Gwaith Chwarae a chwrs gwarchod plant.<br><br>Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, cafodd cyrsiau wyneb yn wyneb eu canslo, ac effeithiodd hyn ar ddarparwyr Gofal Plant a ariannwyd i ddarparu'r Gofal Plant tra oedd eu rhieni'n astudio neu'n hyfforddi. Gan nad oedd y lleoedd gwag yn cael eu defnyddio ac nid oedd y rheolau ariannu yn caniatáu talu am y lle oni bai bod y plentyn yn mynychu, gwelodd rhai lleoliadau ostyngiad sylweddol yn eu hincwm disgwyliedig ac nid oedd modd eu had-dalu. |
| **3.6** | **GWEITHFFYRDD+**<br><br>Mae Gweithffyrdd+ Ceredigion yn cynnig hyfforddiant, cymwysterau, lleoliadau gwirfoddoli, cyfleoedd profiad gwaith â thâl a gwasanaeth mentora personol i helpu pobl i gael eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn. Mae cymorth yn gallu helpu pobl a effeithir gan gyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; gofalwyr; y rhai â chymwysterau isel neu ddim cymwysterau; pobl â chyfrifoldebau Gofal Plant; pobl dros 54 oed; pobl mewn aelwyd un oedolyn neu ddi-waith neu unrhyw un o'r grŵp Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae Gweithffyrdd+ yn cynnig |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | cymorth mentora un-i-un gyda chwilio am waith, ysgrifennu'r cais am swydd a CV perffaith, sgiliau cyfweliad a magu hyder. Gall dalu am gymwysterau a hyfforddiant, ac i rai cyfranogwyr, swydd gyflogedig dros dro gyda chyflogwr lleol. [www.workways.wales](http://www.workways.wales)<br><br>Mae'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant o fewn Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r prosiect Gweithffyrdd+ yn ogystal â'r rhaglen Cymunedau am Waith sy'n cael ei ariannu gan y Grant Plant a Chymunedau, ac mae deialog barhaus gyda'r gwasanaeth ynglŷn â chymwysterau Gofal Plant a recriwtio. Mae angen gwneud gwaith i ddatblygu hyn ymhellach.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Sefydlu grŵp Gorchwyl Gofal Plant Cyflogaeth a Dysgu i gynnwys Gwasanaethau Cyflogaeth a Hyfforddiant, Gwasanaethau Ysgolion, Coleg Addysg Bellach i gynnig cyrsiau priodol a recriwtio dysgwyr.**<br>**Gweithio gyda Cymunedau am Waith a Mwy a rhaglenni cyflogadwyedd i alinio'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a chyngor.**<br>**Sicrhau bod mewnbwn yn cael ei roi i'r adolygiad addysg Ôl-16 i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â chymwysterau.** |
| **3.7** | **ECONOMI AC ADFYWIO; TAI A CHYNLLUNIO, TRAFFIG A THRAFNIDIAETH**<br><br>**Y GWASANAETH ECONOMI AC ADFYWIO**<br><br>Mae Gofal Plant yn chwarae rôl aml-genhedlaeth ym mywydau teuluoedd a phlant ifanc. Mae Gofal Plant yn rhan o'r economi sylfaenol sy'n darparu cyflogaeth yn y sector preifat a'r trydydd sector/sector gwirfoddol, er ei fod yn talu'n wael, yn ogystal â darparu gwasanaeth hanfodol er mwyn i deuluoedd allu parhau i weithio neu fynychu addysg neu hyfforddiant, ond mae hefyd yn cynnig modd i blant fod mewn lleoliad sy'n hybu eu datblygiad iach a'u paratoi ar gyfer yr ysgol (tra bod eu rhieni'n gweithio).<br><br>Bydd y cam adfer yn dilyn y pandemig unwaith eto yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector Gofal Plant wrth iddo addasu ei wasanaethau i gefnogi plant yr effeithiwyd ar eu datblygiad oherwydd diffyg cyfleoedd cymdeithasu, diffyg darpariaeth addysg wyneb yn wyneb ac ati.<br><br>Mae Gofal Plant nid yn unig yn cael effaith uniongyrchol ar yr economi heddiw ond mae hefyd yn effeithio ar economi'r dyfodol.<br><br>" *Mae gofal* (sy'n cynnwys Gofal Plant) *a gwasanaethau iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol. Y diwydiannau a'r cwmnïau sydd yno oherwydd bod pobl yno. Mae amcangyfrifon yn awgrymu eu bod yn cyfrif am bedair o bob deg swydd a £1 ym mhob tair a wariwn."* [https://businesswales.gov.wales/sylfaenol - economi](https://businesswales.gov.wales/sylfaenol-economi)<br><br>Mae effaith Gofal Plant yn eang:<br>• Effaith uniongyrchol gweithgarwch economaidd neu'r refeniw a gynhyrchir gan y rhai yn y diwydiant Gofal Plant (canolfannau a darparwyr yn y cartref), |

- Effaith anuniongyrchol neu'r sgil-effaith o fewn cymunedau trwy weithredu'r busnesau hyn,
- Effaith ar gyflogaeth trwy swyddi o fewn y diwydiant a swyddi eraill sy'n deillio yn sgil y diwydiant,
- Effaith ar gyflogwyr oherwydd gall rhieni sydd â mynediad at Ofal Plant dibynadwy ddod i'r gwaith yn gyson a bod yn fwy cynhyrchiol tra eu bod yn y gwaith,
- Effaith ar blant sy'n cael mynediad at Ofal Plant o safon sy'n cefnogi eu datblygiad iach.

Nid yw Gofal Plant yn cael ei gydnabod fel gwasanaeth sy'n cefnogi'r economi leol. Fodd bynnag, mae'n darparu cyflogaeth mewn pentrefi a threfi bach ac yn cefnogi rhieni sy'n gweithio i gael mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg.

Mae effaith economaidd Gofal Plant yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu i ysgogi economïau lleol. Pan fydd rhieni'n gallu cael mynediad at Ofal Plant maent yn fwy tebygol o ymuno â'r gweithlu a pharhau'n gyflogedig. Mae llawer o'r gweithlu Gofal Plant yn fenywod yn ôl y rhai sy'n cofrestru ar gyfer hyfforddiant yr Uned Gofal Plant a rhestrau darparwyr Gofal Plant.

**Tabl 3.7.1: Gweithlu Gwryw / Benyw**

| Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020 Ffynhonnell: StatsCymru | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| 72,895 | 36,262 | 36,633 |
| | 49.7% | 50.3% |
| Gweithlu | 53.1% | 46.9% |

Mae'r sector Gofal Plant yn llafurddwys ac felly mae buddsoddi yn y sector hwn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth. Yn ei dro mae'r rhai sy'n gyflogedig yn gwario eu hincwm sy'n cael effaith lluosydd, gan greu galw am allbwn mewn sectorau eraill ac ysgogi creu mwy o swyddi. Mae Gofal Plant yn uchel ar agenda Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn yr hinsawdd sydd ohoni, wrth inni geisio adfywio'r economi ac adfer yn dilyn COVID-19.

Mae darparu Gofal Plant o safon uchel, fforddiadwy a hygyrch yn ganolog i strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru. Ac eto, mae Gofal Plant fel proffesiwn yn cael ei danbrisio. Mae'r galwedigaethau mwyaf gwerthfawr i gymdeithas ymhlith y rhai sy'n talu'r cyflogau isaf, tra bod y rhai a all fod yn niweidiol i gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi ymhlith y swyddi sy'n talu'r cyflogau uchaf. Mewn termau economaidd, mae cyflog gweithwyr Gofal Plant yn gymaint o fuddsoddiad â chyflog gweithwyr adeiladu, yn yr ystyr bod un yn creu cyfalaf ffisegol a'r llall yn creu cyfalaf dynol.

Mae'r sector Gofal Plant yn un sy'n talu cyflogau isel gyda throsiant staff uchel, heriau recriwtio staff cymwysedig, ac mae cyllid ansicr yn creu heriau i gynaliadwyedd y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Dyfernir grantiau cynaliadwyedd yn flynyddol drwy gyllid Llywodraeth Cymru sy'n

cydnabod pa mor fregus yw'r sector, ac mae argaeledd grantiau yn allweddol i sicrhau nad yw costau Gofal Plant yn cael eu trosglwyddo i deuluoedd.

> *"Cytuno'n gryf â'r angen i ddenu pobl ifanc i aros yn yr ardal. Mae angen gwobrwyo'r sgiliau gyda chyfraddau tâl gwell mewn rhai sectorau, er enghraifft gofal cymdeithasol a Gofal Plant."*

Nod y fargen Tyfu Canolbarth Cymru sydd newydd ei llofnodi gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys (Rhagfyr 2021) yw creu swyddi newydd a chefnogi buddsoddiad yn economi canolbarth Cymru. Mae Gofal Plant yn chwarae rôl bwysig fel rhan o'r sylfaen ar gyfer llesiant economaidd ac adfer yn dilyn y pandemig yn yr ardal, a hoffem godi ymwybyddiaeth o'r angen i ystyried Gofal Plant lle bynnag y bo unrhyw ddatblygiadau mawr.

Os yw Ceredigion am gyrraedd ei nod o gyflawni ei blaenoriaethau a nodwyd o dan flaenoriaeth 2 (*Strategaeth Economaidd*) mae angen iddi sicrhau bod gan Geredigion y seilwaith hefyd i gynnig Gofal Plant sy'n cefnogi teuluoedd. Dylai pob ysgol newydd sicrhau bod Gofal Plant cofleidiol yn cael ei gynnwys yn ei darpariaeth er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Mae darparwyr Gofal Plant yn fusnesau ac felly mae angen iddynt allu cael mynediad at yr un cymorth busnes â holl fusnesau bach a chanolig eraill Ceredigion.

Cofnododd data SASS a gasglwyd gan AGC ym mis Gorffennaf 2021 gyfanswm o 345 o unigolion a oedd yn gyflogedig/hunangyflogedig fel ymarferwyr Gofal Plant ar draws 91 o leoliadau Gofal Plant cofrestredig. Mae'r lleoliadau hyn i gyd yn cael eu harolygu gan y corff rheoleiddio Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

**Tabl 3.7.2: Endid Cyfreithiol y Darparwr Gofal Plant**

| Endid Cyfreithiol y Darparwr Gofal Plant | CYFANSWM |
|---|---|
| Cwmni Elusennol | 3 |
| Sefydliad Corfforedig Elusennol | 7 |
| Ymddiriedolaeth Elusennol | 2 |
| Darparwr Unigol | 11 |
| Personau Cofrestredig ar y Cyd | 7 |
| Cwmni Cyfyngedig | 11 |
| Corff Corfforaethol Arall | 1 |
| Corff Anghorfforedig Arall | 4 |
| Unig Fasnachwr | 45 |
| **CYFANSWM** | **91** |

DRAFT

Mae busnesau preifat yn cynnwys 6 Meithrinfa Gofal Dydd Llawn a 45 o Warchodwyr Plant sy'n hunangyflogedig ac yn gweithio o'u cartrefi eu hunain. Mae lleoliadau eraill yn cynnwys y trydydd sector/mentrau cymdeithasol sy'n cynnwys 29 o leoliadau Gofal Sesiynol (cylchoedd chwarae/Cylchoedd Meithrin) ac 11 lleoliad sy'n cynnig darpariaeth y Tu Allan i Oriau Ysgol, Gwyliau neu Crèche.

Roedd pandemig y Coronafeirws wedi tynnu sylw at rôl bwysig gweithwyr allweddol a rôl y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, megis Gofal Plant. Mae angen cydnabod y sector Gofal Plant am y rôl y mae'n ei chwarae yn yr economi bresennol ac y bydd yn ei chwarae yn nhwf economaidd Ceredigion yn y dyfodol.

Mae'r *'Strategaeth Economaidd – Blaenoriaeth 3: Menter'* yn nodi bod cyfleoedd ym maes gofal. Er y cyfeirir at 'Gofal' yn y strategaeth, nid yw Gofal Plant wedi'i gynnwys yn y pennawd hwn gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill. Mae gan Ofal Plant ei statws, ei reoliadau, ei lwybr hyfforddiant/gyrfa a meini prawf ei hun y mae angen eu hadlewyrchu yn y strategaeth.

Mae'r Gwasanaeth Economi ac Adfywio hefyd wedi nodi bod safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u lleoli yn Aberystwyth, Aberteifi, Horeb, Llandysul a Felin-fach. Mae gweithgareddau datblygu yn y dyfodol wedi'u nodi fel rhai sy'n digwydd ar safle Prifysgol Aberystwyth ym Mhenrhyn-coch

**CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod prosiectau datblygu Tyfu Canolbarth Cymru yn cynnwys darpariaeth Gofal Plant a Chwarae yn eu hasesiadau effaith a'u datblygiadau.**

**CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod unrhyw brosiectau Datblygu Ysgol yn cynnwys darpariaeth Gofal Plant cofleidiol (Clwb Ôl-Ysgol, Clwb Gwyliau a Chylch Meithrin/Grŵp Chwarae) yn gynnar yn y cyfnod cynllunio, a bod cydgysylltu â'r Uned Gofal Plant (neu'r cyfwerth) i sicrhau addasrwydd darpariaeth o'r fath tra'n ystyried peidio â disodli darpariaeth Gofal Plant bresennol.**

**CAM GWEITHREDU: Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i gynnydd mewn statws a chyfleoedd cyflog ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn arolygu ansawdd y gofal i blant, ond mae angen ystyried ansawdd y tâl ac amodau gwaith ar gyfer y gweithlu Gofal Plant.**

## GWASANAETH TAI A CHYNLLUNIO

### Polisi Cynllunio


Roedd y datblygiadau tai ar gyfer 2016-2021 yn dangos bod **693** o dai wedi'u cwblhau yn y cyfnod hwn o 5 mlynedd. Ar ôl craffu ymhellach, daeth patrwm i'r amlwg ynghylch materion capasiti mewn lleoliadau Gofal Plant lleol mewn perthynas â datblygiadau tai yn yr ardaloedd hynny.

DRAFT


| | |
|---|---|
| | Cyfanswm y datblygiadau tai a ragwelir ar gyfer 2021-2026 yw **1810** o unedau – mwy na 60% o gynnydd ar y datblygiad pum mlynedd flaenorol. Fodd bynnag, mae cyfraddau cwblhau tai yn debygol o fod ychydig yn uwch yn unig na'r 5 mlynedd flaenorol. Mae'r nifer hwn yn cynnwys tai Disgownt wrth Werthu – math o ddeiliadaeth tai fforddiadwy Perchentyaeth Cost Isel (mae Polisi Cynllunio S05 yn gofyn am 20% o dai fforddiadwy) a all gynnwys Disgownt wrth Werthu, sy'n cael eu lleihau 30% o'r gwerth ar y farchnad agored a rhaid i'r prynwr fod yn gymwys o dan feini prawf penodol. Mae'r unedau a ragwelir hefyd yn cynnwys Tai Cymdeithasol sydd i'w datblygu gan Landlordiaid Tai Cymdeithasol Cofrestredig.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Mae angen monitro'r galw y mae datblygiadau tai yn ei roi ar leoliadau Gofal Plant.**<br><br>**Tai: Gwasanaethau Tai Fforddiadwy ac Arbenigol**<br><br>O dan y Rhaglen Datblygu Grant Tai Cymdeithasol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig: cwblhawyd 83 o gartrefi yn 2020-2021 (Anghenion Cyffredinol) mewn 3 lleoliad.<br><br>Y nifer y disgwylir eu cyflenwi ar gyfer 2021-2023 yw 167 o gartrefi (97 ar gyfer Anghenion Cyffredinol) ar draws 6 lleoliad.<br><br>Nid oes unrhyw Feithrinfeydd Dydd cofrestredig mewn un o'r lleoliadau lle bu datblygiad sylweddol, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth cyn ysgol / Grwp Chwarae mewn un lleoliad arall. Mae hyn yn peri pryder i'r arbenigwyr addysg a blynyddoedd cynnar gan nad yw problemau datblygiadol yn dod i'r amlwg nes bod y plant yn dechrau'r ysgol yn 3 oed, gan arwain at golli cyfle i ymyrryd yn gynnar.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Mae angen ymchwil pellach i edrych ar effaith hanesyddol a'r effaith yn y dyfodol ar leoliadau lle bu / bydd datblygiad tai mawr. Nid yw unrhyw leoedd Gofal Plant ychwanegol wedi'u creu mewn Meithrinfeydd Dydd presennol neu newydd; neu gynnydd mewn Gwarchodwyr Plant cofrestredig yn y blynyddoedd diwethaf, ond maent wedi cofnodi rhestrau aros ar gyfer plant o dan 2 oed. Mae tystiolaeth anecdotaidd hefyd o gynnydd yn nifer y plant sydd angen cymorth ychwanegol mewn rhai lleoliadau, a bydd angen ymchwilio i unrhyw gydberthynas er mwyn sicrhau bod cyllid a chymorth digonol ar gael.**<br><br>Mae'r Gwasanaeth Tai hefyd wedi drafftio Dogfen Cyflenwi Strategol Tai Fforddiadwy a elwir y "Prosbectws" sy'n cefnogi Rhaglen Datblygu Arfaethedig y Grant Tai Cymdeithasol. Mae hwn yn amlinelliad lefel uchel o nodau ac uchelgeisiau strategol eang yr Awdurdod mewn perthynas â darparu Tai Fforddiadwy, ac mae'n cynnwys cartrefi fforddiadwy Perchentyaeth Cost Isel yn seiliedig ar raglen dreigl 3 blynedd.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod ystyriaeth o ddarpariaeth Gofal Plant yn cael ei chynnwys yn y Prosbectws (Dogfen Cyflenwi Strategol Tai Fforddiadwy).** |

DRAFT

**Ffigur 3.7.1: Unedau Preswyl a gwblhawyd 2016 - 2021**




**Ffigur 3.7.2: Rhagamcan o unedau preswyl 2021-2026**



**Y GWASANAETH TRAFFIG A THRAFNIDIAETH:**

Nododd y Tîm Strategaeth a Diogelwch Trafnidiaeth a'r Uned Trafnidiaeth Teithwyr Corfforaethol, o dan y Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, fod y Cyngor Sir yn parhau i ddatblygu a darparu mwy o lwybrau teithio llesol gwell lle mae adnoddau'n caniatáu – yn enwedig o fewn y tair Canolfan Teithio Llesol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Daeth adolygiad o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol i ben ym mis Tachwedd 2021 a oedd yn cynnwys ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid (gan gynnwys ysgolion). Mae'r Cyngor hefyd yn paratoi ar gyfer cyflwyno terfyn cyflymder 20mya diofyn Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar ffyrdd cyfyngedig/gyda goleuadau stryd presennol a fydd yn dod i rym o fis Mai 2023. Bydd y newidiadau yn helpu i greu amgylchedd ffyrdd mwy diogel y tu allan i brif safleoedd ysgolion uwchradd presennol yn y Sir. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Lleol presennol yn cael ei ddisodli gan Gynllun newydd a ddatblygwyd gyda Chyngor Sir Powys fel un o swyddogaethau Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru newydd arfaethedig. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn aros am ragor o wybodaeth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Heblaw am y datblygiadau preswyl amrywiol a rhai datblygiadau masnachol ar draws y Sir y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn eu hystyried a'u cymeradwyo neu eu gwrthod yn unol â'r polisïau cynllun datblygu lleol amrywiol a mewnbwn gan ymgyngoreion statudol (megis yr Awdurdod Priffyrdd Lleol), y datblygiad newydd mwyaf perthnasol sydd ar y gweill o bosib yw'r ysgol bro newydd sy'n parhau i gael mewnbwn gan gydweithwyr Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.

Adeiladwyd ysgol 3-19 oed Ysgol Bro Teifi ar gyrion tref Llandysul a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i deuluoedd heb fynediad at gludiant i gyrraedd y ddarpariaeth cyn ysgol a ariannwyd gan Ddechrau'n Deg. Er mwyn helpu'r teuluoedd hyn, prynodd Dechrau'n Deg fws mini sy'n golygu y gall teuluoedd deithio i ac o'r lleoliad.

Ni ddarperir cludiant plant i blant cyn oed ysgol gan nad ydynt wedi cyrraedd oedran statudol cymwys ar gyfer cludiant, sef 5-18 oed. Y polisi cludiant ysgol yw darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unig, sef ar gyfer yr oriau ysgol arferol 9.00am i 3.30pm, ac ni fydd unrhyw blentyn yn gymwys i gael cludiant o unrhyw Glwb ar ôl Ysgol.

Gyda'r cynnydd mewn ysgolion bro, mae plant yn cael cludiant ysgol os yw eu hysgol bentref leol wedi'i chau a'i chynnwys yn yr ysgol bro. Ni ddarperir cludiant os oes angen i blant aros yn y Clybiau Ar Ôl Ysgol, a rhaid i rieni/gofalwyr drefnu i'w casglu.

Mae natur wledig Ceredigion yn golygu bod rhaid i deuluoedd yn gyffredinol deithio mewn car er mwyn cael mynediad at Ofal Plant. Gall hyn fod yn broblem i rai teuluoedd os nad oes ganddynt gar ac nid yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael. Mae angen ystyried yr effaith a gaiff hyn ar deuluoedd sy'n gweithio ac sy'n profi tlodi mewn gwaith, a chostau cynyddol tanwydd a thrafnidiaeth, gyda thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig.

DRAFT

**Ymateb rhieni:**
*"Mae diffyg trafnidiaeth yn ei gwneud hi'n anodd i mi fynd â'r plant i rai gwarchodwyr plant/Meithrinfeydd/Gofal Plant"* (Rheidol, Ystwyth a Charon)

Dywedodd un Meithrinfa Ddydd: *"Mae ein lleoliad hanner awr o'r feithrinfa agosaf a hyd yn oed ymhellach i ffwrdd i rai cyfeiriadau. Er enghraifft, mae un rhiant yn teithio 40 munud i'r cyfeiriad arall i'w leoliad gwaith i gael Gofal Plant gyda ni oherwydd does dim byd arall ar gael. Nid yw pellter o'r feithrinfa yn rhan o'n polisi derbyn felly mae derbyn plant o ymhellach i ffwrdd wedi golygu ein bod wedi gorfod siomi pobl sy'n lleol iawn i'r feithrinfa."*

Dywedodd un rhiant a gwblhaodd arolwg y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd:
*"Does dim gofal dydd/meithrinfeydd yn Aberteifi, mae'n rhaid i ni deithio i Gastell-newydd Emlyn i fynd â'n mab i'r feithrinfa er mwyn i ni allu gweithio!"*

Dywedodd ymateb arall i'r arolwg Rhieni/Gofalwyr: *"Mae'n rhaid i ni yrru i Gastell-newydd Emlyn ddwywaith y dydd i ddefnyddio meithrinfa, sy'n cymryd cyfanswm o tua 2 awr y dydd. Mae'n hollol hurt bod Aberteifi yn methu darparu Gofal Plant heblaw gwarchodwyr plant sydd heb unrhyw leoedd gwag beth bynnag. Mae'r Ysgol Feithrin ar gyfer plant 2+ oed yn unig a dim ond am ychydig oriau y dydd. Ar gyfer 2 riant sy'n gweithio'n amser llawn ac sydd heb gymorth teulu, mae'n anodd iawn ac yn ddrud! Dyw'r llywodraeth ddim yn gwneud unrhyw beth i helpu mamau sydd am fynd yn ôl i'r gwaith. "*

**Tabl 3.7.3: Amser teithio dwyffordd yn y car ar gyfartaledd i gael mynediad at wasanaethau allweddol yn ôl Ardal Gymunedol 2019 (munudau)**

| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | Amser teithio dwyffordd yn y car ar gyfartaledd i gael mynediad at wasanaethau allweddol yn ôl Ardal Gymunedol 2019 (munudau) |
|---|---|
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 18 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 15 |
| Y Borth a Bont-goch | 13 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 13 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 12 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 12 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 9 |
| Aberystwyth – De | 6 |
| Aberystwyth – Gogledd | 4 |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.*

DRAFT

**Tabl 3.7.4: Amser teithio dwyffordd ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfartaledd i gael mynediad at wasanaethau allweddol yn ôl Ardal Gymunedol – 2019**

| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | Amser teithio dwyffordd ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfartaledd i gael mynediad at wasanaethau allweddol yn ôl Ardal Gymunedol – 2019 |
|---|---|
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 119 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 107 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 105 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 93 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 90 |
| Y Borth a Bont-goch | 63 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 55 |
| Aberystwyth – De | 37 |
| Aberystwyth – Gogledd | 26 |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.*

## 4 ASESIAD O DDIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE


Roedd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Cyngor Sir Ceredigion yn cael ei baratoi ar yr un pryd â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn, a chyfrannodd yr Uned Gofal Plant at yr adborth a'r camau gweithredu o fewn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Hefyd datblygwyd Arolwg Plant ar y cyd â'r Gwasanaeth Chwarae a gomisiynodd ymarferwr chwarae i gynnal yr arolwg yn ystod gwyliau hanner tymor Chwefror 2022.

Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn hefyd yn helpu i lywio a chefnogi'r broses o ddyfarnu grantiau ar gyfer y dyraniad grant chwarae e.e. bydd nodi datblygiadau tai a darpariaeth chwarae yn yr ardaloedd hynny yn cael ei graffu. Mae gan Geredigion nifer fawr o glybiau gweithgareddau gwyliau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru gydag AGC o dan y canllawiau presennol gan mai dim ond 1 neu 2 o weithgareddau y maent yn eu darparu. Clybiau chwaraeon yw'r rhain yn bennaf. Fodd bynnag, mae darparu'r rhain yn tanseilio'r ddarpariaeth gwyliau gofrestredig gan fod y costau fesul diwrnod yn is yn gyffredinol. Bydd rhieni'n defnyddio'r clybiau hyn i ddarparu

| | |
|---|---|
| | gofal gwyliau yn hytrach na'r ddarpariaeth gofrestredig. Mae hyn wedi bod yn un o'r rhesymau dros y gostyngiad yn y ddarpariaeth gwyliau cofrestredig yng Ngheredigion.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Mae angen i adolygiad LIC o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ystyried yr effaith y mae darpariaeth anghofrestredig yn ei chael ar ddarpariaeth gofal dydd gofrestredig.**<br><br>**Ni all rhieni hawlio cymorth ariannol tuag at y ddarpariaeth anghofrestredig. Mae angen i LIC/AGC ystyried proses gofrestru ysgafnach ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth a fyddai'n galluogi rhieni i gael cymorth ariannol.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Ymchwilio i'r posibilrwydd o dreialu clwb gweithgareddau gwyliau cofrestredig o fewn canolfan hamdden yn yr ardal lle mae galw amdano, gan ganiatáu i rieni wneud cais am gymorth ariannol ar gyfer darpariaeth gwyliau a sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni lefel disgwyliad o fewn y gwasanaeth.** |
| **5** | **ASESIAD O DDIGONOLRWYDD GOFAL PLANT A'R ASESIAD O ANGHENION LLESIANT LLEOL** |
| | Gall sawl ffactor economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau. Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Nghymru gynhyrchu Asesiad o Lesiant Lleol unwaith bob pum mlynedd. Cwblhaodd BGC Ceredigion y drafft o'i Asesiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2021, yn dilyn dadansoddi data ac ymgysylltu helaeth yn ystod haf 2021. Mae Asesiad Ceredigion yn seiliedig ar y naw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, a dyma'r ardaloedd cymunedol a ddefnyddiwyd i nodi asedau a'r heriau penodol sy'n ymwneud â llesiant. |

DRAFT

**Ffigur 5.1: Map o Ardaloedd Cymunedol neu Ardaloedd Cynnyrch Haen Ehangach Ganol Ceredigion**




**Ffynhonnell:** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Yn ystod haf 2021, cynhaliwyd ymgynghoriad mawr i gefnogi'r Asesiad o Lesiant Lleol ar draws Ceredigion i geisio barn preswylwyr ar lesiant. Fe'i cynhaliwyd trwy Arolwg Llesiant Rhanbarthol ac yna cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a gweithdai gyda grwpiau lleol amrywiol. Mae canlyniadau'r digwyddiadau hyn wedi cael eu defnyddio gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i gynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol drafft, gan gynnig mewnwelediad i'r ffactorau sydd o bwys i bobl leol ynghyd â'r asedau a'r heriau sy'n ein hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Defnyddir yr Asesiad i ddatblygu Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Ceredigion, gan nodi'r camau gweithredu a'r blaenoriaethau i wella llesiant cymunedau Ceredigion. Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cysylltu'n uniongyrchol ag Asesiad o Lesiant Lleol y BGC.

Cynhaliwyd yr Asesiad o Lesiant Lleol ar yr un pryd â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan greu heriau o ran defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd fel y nodwyd yn y Canllawiau. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried amrywio'r terfynau amser er mwyn cael dadansoddiad data a chasgliadau mwy ystyrlon.

Cychwynnodd yr ymgynghoriad ar yr Asesiad o Lesiant Lleol drafft ym mis Ionawr 2022, a bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn adlewyrchu unrhyw newidiadau cyn ei gyhoeddi'n derfynol (adroddiad drafft yw hwn).

Mae Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion wedi'i gynhyrchu trwy roi pobl wrth ei wraidd a chael ei arwain gan ymgysylltu, a thrwy ddefnyddio'r model 'camau bywyd' i asesu cyflwr llesiant. Mae'r dull hwn yn rhoi cipolwg unigryw ar y gwahaniaeth a'r tebygrwydd o ran profiadau o lesiant trwy gydol bywyd rhywun. Mae'r asesiad wedi'i strwythuro o dan y pum cam bywyd hyn, sef Dechreuadau Newydd, Plentyndod, Ieuenctid, Oedolion a Phobl Hŷn. Bydd cynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn gosod targedau penodol a fydd yn helpu'r awdurdod lleol a phartneriaethau ehangach i fynd i'r afael ag anghenion llesiant pobl Ceredigion.

Mae'r Asesiad o Lesiant drafft (Tachwedd 2021) wedi nodi'r anghenion canlynol a chaiff ei ystyried gan y BGC wrth flaenoriaethu ei Gynllun Llesiant Lleol pum mlynedd.

**Plentyndod**

Amcangyfrifir mai cyfran y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith yw 9.9%, sy'n amlwg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru (13.5%). Mae hyn, ynghyd â'r enillion is na'r cyfartaledd ar draws y Sir, yn awgrymu bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu ac yn parhau i fod yn her allweddol i aelwydydd. Yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf yng Ngheredigion, ac sydd â'r gyfran fwyaf o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi, yw Gogledd Aberystwyth, Aberteifi ac Aber-porth a De Aberystwyth. Yn gyffredinol, mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd ac wedi gweld y cynnydd ail uchaf yn genedlaethol ers 2014/15. Yng Ngheredigion, mae 3,459 o blant yn byw mewn tlodi. Mae hwn yn fater rhanbarthol allweddol sy'n effeithio ar Orllewin Cymru gyfan.

Mae dysgu'r iaith yn gynnar yn gynyddol bwysig. Mewn byd sy'n globaleiddio, gall cael ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn, er enghraifft, bod yn Gymro/yn Gymraes, gyfoethogi rhywun yn emosiynol ac yn ddiwylliannol. Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y sir yn dda ar gyfer plant cyn oed ysgol oherwydd nifer y 'Cylchoedd Meithrin' sy'n gweithredu.
Yn ôl Data Digonolrwydd Gofal Plant 2022 – 2027, mae 853 o leoedd cyn ysgol/meithrinfa/'Cylch Meithrin' ar gyfer plant 3 oed yng Ngheredigion, ac mae 83% mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg (i fyny o 81% yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf).

Mae Dechrau'n Deg yn darparu cymorth Gofal Plant, gwasanaeth iechyd y blynyddoedd cynnar a chymorth lleferydd ac iaith cynnar i deuluoedd â phlant o dan 4 oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Ceredigion, ac mae hefyd yn cefnogi teuluoedd mewn ardaloedd eraill trwy eu rhaglen Allgymorth. Mae'r mentrau hyn wedi bod yn hynod effeithiol i deuluoedd sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.

**Ieuenctid**

Mae'r amgylchedd heriol ir Addysg Uwch wedi golygu bod poblogaeth myfyrwyr y sir yn gostwng hefyd. Mae poblogaeth 18 a 24 oed Ceredigion yn fyfyrwyr yn bennaf sy'n mynychu'r ddwy brifysgol, sef Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Campws Llanbedr Pont Steffan). Yn y gorffennol mae bod hyd at 9,000 o fyfyrwyr wedi cofrestru yn y ddwy brifysgol gyda'i gilydd, ond mae tueddiadau'n dangos bod y nifer sy'n cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi bod yn gostwng ers 2014/15, gan gyrraedd 7,720 erbyn 2019/20.

Fel tref brifysgol lewyrchus, mae ganddi lawer o weithgareddau i bobl ifanc hŷn ac oedolion ifanc. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig i bobl iau sy'n ceisio meithrin eu hannibyniaeth gynyddol, yn enwedig mewn perthynas â chyflogaeth, gyrfaoedd a thai fforddiadwy. Mae'r rhain yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro drwy gydol yr Asesiad o Lesiant Lleol ac yn rhai o'r problemau sy'n cael eu priodoli'n aml i'r bobl ifanc sy'n allfudo o'r Sir pan fyddant yn gorffen yr ysgol neu'r coleg.

Mae'r Asesiad yn dangos bod pobl iau yng Ngheredigion yn teimlo mai cysylltedd, cyfleoedd cyflogaeth a fforddiadwyedd tai sy'n allweddol i wneud gwahaniaeth i'w dyfodol.

**Oedolion**

Cyn i fabanod gael eu geni, gall ffactorau effeithio ar eu disgwyliad oes. Mae mamau sy'n ordew, yn ysmygu, yn cymryd cyffuriau neu'n yfed alcohol trwy gydol y beichiogrwydd yn cynyddu'r risg y bydd eu plentyn yn datblygu cyflyrau cronig difrifol, a fydd yn effeithio ar ansawdd a hyd eu bywyd.

Mae'n beth naturiol iawn i deimlo nifer o emosiynau gwahanol yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Weithiau gall fod yn anodd iawn ymdopi â'r teimladau emosiynol hyn a gallant hyd yn oed effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd. Mae astudiaethau'n awgrymu bod rhwng 10% ac 20% o ferched yn datblygu salwch meddwl yn ystod beichiogrwydd neu yn y flwyddyn gyntaf ar ôl rhoi genedigaeth.

Nododd yr Asesiad o Lesiant fod cael swydd neu alwedigaeth â thâl, i'r rhan fwyaf o bobl, yn rhan hanfodol o lesiant oedolyn. Mae cyflogaeth yn darparu'r modd ariannol angenrheidiol i bobl fyw bywydau iach a chymdeithasol, ond gall hefyd roi ymdeimlad gwych o foddhad. Mae cysylltiad cryf rhwng tlodi ac iechyd mwy hirdymor – mae babi sy'n cael ei eni mewn tlodi yn fwy tebygol o dyfu fyny gyda lefelau is o iechyd a llesiant, a gwelir hyn yn y gwahaniaeth rhwng y disgwyliad oes iach yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig Ceredigion o'i gymharu â'r lleiaf difreintiedig. Er enghraifft, mae'r bwlch o ran disgwyliad oes iach rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn uwch i ddynion (9.3 mlynedd) na merched (6.7 mlynedd).

Mae'r Asesiad o Lesiant Lleol wedi nodi'r prif themâu canlynol mewn perthynas â Gofal Plant, a bydd Cynllun Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a'r Awdurdod Lleol wrth iddynt fynd i'r afael â'r heriau hyn.

DRAFT

**Crynodeb:**

**Ystyriaethau Ariannol:** Gall statws economaidd-gymdeithasol isel effeithio ar hunan-barch a hunanhyder rhieni. Mae'r lefelau incwm cyfartalog yng Ngheredigion yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru ac felly mae'r gost o fagu plant yn heriol i rai rhieni. Aberteifi ac Aber-porth yw'r ardal gymunedol sydd â'r gyfran uchaf o'i phoblogaeth mewn amddifadedd incwm, sef 19%.

**Dechrau Da:**
Mae sylfaen gryf ym mlynyddoedd cynnar plentyndod yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llesiant cadarnhaol. Gall cefnogaeth gymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ar draws y sir wrthweithio'r effeithiau gwaethaf a difrod hirdymor. Mae astudiaethau'n dangos bod y rhai sy'n cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod 4.7 gwaith yn fwy tebygol o fod â llesiant meddwl is a risg uwch o ddatblygu salwch meddwl fel oedolyn. Mae plant dan anfantais a phlant sy'n cael eu magu mewn tlodi'n fwy tebygol o gael nifer o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae lleoliadau Dechrau'n Deg yn darparu Gofal Plant o'r ansawdd uchaf ac maent wedi bod yn hynod effeithiol yng Ngheredigion ar gyfer teuluoedd yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae mamau yng Ngheredigion yn llawer mwy tebygol o fwydo eu babanod ar y fron 10 diwrnod ar ôl genedigaeth, ac mae cyfradd y rhai sy'n bwydo ar y fron sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg Ceredigion yr uchaf yng Nghymru.

**Tlodi:** Mae amgylchiadau cymdeithasol-economaidd plant yn ffactor sy'n pennu eu llesiant ac yn cael effaith mwy hirdymor gydol eu hoes. Mae data gan y Glymblaid Dileu Tlodi Plant yn dangos bod 31.8% o blant (neu 3,459) yn byw mewn tlodi yng Ngheredigion yn 2019/20. Mae hyn nid yn unig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond mae Ceredigion hefyd wedi gweld y cynnydd uchaf ond un yn genedlaethol, sef 2.7 pwynt canran dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae tlodi yn parhau i fod yn un o heriau mwyaf y sir. Enillion ac incwm isel, Gofal Plant fforddiadwy, gostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a chostau tai uchel/fforddiadwyedd tai sy'n ysgogi tlodi yng Ngheredigion.

**Chwarae:** Mae darparu ac annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn hanfodol yn ystod y cyfnod adfer yn dilyn COVID-19. Mae'r ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol yn dangos bod agweddau plant tuag at chwarae awyr agored yng Ngheredigion yn gadarnhaol, ond mae hefyd wedi dangos eu hawydd i gael mwy o fannau chwarae a chyfleusterau hamdden yn y Sir. Er bod Ceredigion yn sir wledig yn bennaf gyda'r dwysedd poblogaeth isaf ond un yng Nghymru, dim ond 88% o eiddo sydd â man awyr agored preifat (gardd). Mae hyn yn is na Sir Gaerfyrddin (92%) a Sir Benfro (90%) yn rhanbarth Gorllewin Cymru, ond hefyd yr ail isaf yn genedlaethol y tu ôl i Gaerdydd (85%). Yn ôl Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ceredigion 2019 roedd 74 o fannau chwarae yn y sir. Gan ystyried bod 151 o drefi a phentrefi ar draws Ceredigion, mae'n amlwg nad oes gan bawb fynediad i'r mannau gwyrdd sydd eu hangen i gynnal iechyd corfforol a llesiant.

**Rhagolygon Gyrfa:**
Mae diweithdra yn y sir wedi bod yn is na'r cyfartaledd yn y blynyddoedd diwethaf, gyda thua 1,400 o bobl (3.7% o'r rhai sy'n economaidd weithgar) yn adrodd eu bod yn ddi-waith ar hyn o bryd. Er bod y gyfradd diweithdra wedi cynyddu yn ystod pandemig COVID-19 o 2.6% i 3.7%,

| | |
|---|---|
| | mae'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae dilyniant gyrfa yn fwy anodd mewn economïau fel Ceredigion lle mae nifer gyfyngedig iawn o fusnesau canolig a mwy a all ddarparu llwybrau gyrfa, ac mae mynd i'r afael â hyn yn un o flaenoriaethau Strategaeth Economaidd Ceredigion ar gyfer y pymtheng mlynedd nesaf.<br><br>**Tlodi mewn gwaith:** Nid yw mesurau economaidd yn amlygu'r broblem o dlodi mewn gwaith yn syth. Er enghraifft, mae'r gyfradd Gweithgarwch Economaidd, y gyfradd cyflogaeth a chyfran yr aelwydydd di-waith yng Ngheredigion i gyd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Eto i gyd, mae 32.4% o aelwydydd yn byw mewn tlodi yng Ngheredigion o hyd. Mae'r ffigurau hyn, ynghyd ag enillion cyfartalog isel ac incwm yn y sir, yn awgrymu'n gryf bod tlodi mewn gwaith yn parhau i fod yn broblem fawr yng Ngheredigion.<br><br>**Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith / iechyd meddwl:** Mae'n hanfodol bod rhieni'n gallu cael mynediad at y cymorth cywir y mae ei angen arnynt ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant meddwl a chydnabod cyflyrau iechyd meddwl amenedigol. Mae sicrhau bod gan rieni ddigon o absenoldeb â thâl adeg geni plentyn yn bwysig i lesiant y baban a'r rhieni. |
| **6** | **POBLOGAETH** |
| | Mae Ceredigion yn cwmpasu ardal ddaearyddol eithaf mawr (1,900$km^2$) ond mae ganddi un o'r poblogaethau lleiaf yng Nghymru (72,900) a dim ond 14.7% o'r boblogaeth sy'n blant 0-15 oed (sy'n cyfateb i 10,800 o blant). Ar y cyfan, nid yw Ceredigion yn cael ei hystyried yn ddifreintiedig o'i chymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru o ran incwm, cyflogaeth, iechyd neu addysg, er bod pocedi bach o amddifadedd mawr. Fodd bynnag, bydd gallu pobl i gael mynediad at wasanaethau ac ansawdd a fforddiadwyedd tai yn gallu cael effaith ar gymunedau ar draws y sir.<br><br>Mae lefelau cyflogaeth Ceredigion ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn cael eu gwyro tuag at i lawr gan nifer y myfyrwyr Addysg Uwch nad ydynt yn gweithio sy'n cyfrif am 10% o'r boblogaeth. I'r gwrthwyneb, mae'r cyflog wythnosol canolrifol yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (£549 o'i gymharu â £563). Fodd bynnag, mae'n dda gweld bod hyn wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf (cynnydd o 21% ers 2020).<br><br>Mae economi Ceredigion yn dibynnu'n helaeth ar y sector cyhoeddus (Prifysgolion, Ysgolion, Iechyd a Llywodraeth Leol); fodd bynnag, mae swyddi wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd toriadau mewn gwasanaethau a chyllid. Mae llai nag 1% o gyflogwyr Ceredigion yn 'ganolig eu maint' ac yn cyflogi rhwng 50 a 249 o bobl. Mae cyfran uchel o weithlu Ceredigion yn parhau i fod yn hunangyflogedig (mae tua 3 o bob 20 yn hunangyflogedig), er bod nifer yr hunangyflogedig wedi gostwng ers dechrau pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Yn ystod 2020, roedd ychydig llai nag un rhan o dair o breswylwyr (31%) yn gweithio o gartref mewn rhyw fodd. |

DRAFT

Mae tlodi plant yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd (mae tua 1 o bob 3 o blant yn byw mewn tlodi) ac mae'r sir wedi gweld y cynnydd uchaf ond un yn genedlaethol ers 2014/15. Ar y llaw arall, amcangyfrifir bod cyfran y plant mewn aelwydydd di-waith yng Ngheredigion yn 9.9%, sy'n amlwg yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (13.5%). Mae hyn, a thystiolaeth arall fel y gyfradd cyflogaeth well na'r cyfartaledd a'r gyfradd gweithgarwch economaidd, yn awgrymu bod tlodi mewn gwaith yn bryder arbennig ar gyfer aelwydydd.

Mae gan Geredigion lefelau is na'r cyfartaledd o ordewdra plant (21.9%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (26.9%), yn seiliedig ar y data diweddaraf o Raglen Mesur Plant 4-5 oed Cymru (2018/19). Cyn hyn, roedd gordewdra plant wedi bod yn cynyddu yng Ngheredigion, ac mae'n parhau i gynyddu'n genedlaethol.

Ar adeg y Cyfrifiad diwethaf a gyhoeddwyd yn 2011, roedd 47% o'r trigolion yn siarad Cymraeg. Er bod hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%), dyma'r tro cyntaf erioed i gyfran siaradwyr Cymraeg y sir ddisgyn o dan 50%. Fodd bynnag, mae arolygon dilynol yn y blynyddoedd ers y Cyfrifiad diwethaf yn rhoi darlun mwy cadarnhaol, er ei fod yn seiliedig ar arolygon yn hytrach na'r boblogaeth gyfan. Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, er enghraifft, yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg Ceredigion wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2011, dywedodd 55.1% o ymatebwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gan gynyddu i 62.3% yn 2021.

Mae ymchwil wedi dangos bod y statws economaidd-gymdeithasol a'r math o gyflogaeth yn effeithio ar rianta. Mae incwm cyflogaeth yn tueddu i fod yn isel yng Ngheredigion. Mae Dechrau'n Deg wedi bod yn hynod o effeithiol yng Ngheredigion i deuluoedd sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, gan gynnig dosbarthiadau a chyrsiau rhianta, Gofal Plant wedi'i ariannu yn ogystal â darparu rhwydwaith o gymorth i rieni a theuluoedd newydd.

**Ffigurau'r boblogaeth (cyfredol ac amcanestyniadau) yn ôl oedran plant**

**Tabl 6.1: Poblogaeth gyfredol yn ôl blwyddyn oedran sengl**

| Amcangyfrif Canol-blwyddyn 2020 | |
|---|---|
| 0 oed | 501 |
| 1 oed | 539 |
| 2 oed | 606 |
| 3 oed | 592 |
| 4 oed | 639 |
| 5 oed | 715 |
| 6 oed | 670 |

**Tabl 6.2: Amcanestyniad o'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran y plentyn**

| | 2020 | 2025 | 2030 |
|---|---|---|---|
| 0-11 oed | 7,903 | 7,468 | 6,978 |
| 12-16 oed | 3,619 | 3,841 | 3,614 |
| | 11,522 | 11,492 | 11,611 |
| | | | |
| 3 a 4 oed | 1,231 | 1,180 | 1,103 |

*Ffynhonnell: ONS 2020 Amcangyfrif Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth a phrif amcanestyniad seiliedig ar ddata 2018 Llywodraeth Cymru*

| | |
|---|---|
| 7 oed | 670 |
| 8 oed | 713 |
| 9 oed | 807 |
| 10 oed | 757 |
| 11 oed | 694 |
| 12 oed | 709 |
| 13 oed | 714 |
| 14 oed | 730 |
| 15 oed | 718 |
| 16 oed | 748 |
| | 11, 522 |

*Ffynhonnell: Amcangyfrif Canol-blwyddyn ONS 2020*


Amcangyfrif Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth 2020: 72,900
Amcangyfrif o'r Boblogaeth Cyfrifiad 2011: 75,900

**Tabl 6.3: Amcanestyniad o'r boblogaeth:**

| Amcanestyniad | Grŵp oedran | 2021 | 2026 | 2031 | 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Prif* | *Pob oed* | *71,491* | *70,629* | *70,445* | *69,731* |
| | 15 ac iau | 10,868 | 10,418 | 9,704 | 9,362 |
| | 16 i 64 | 41,824 | 40,311 | 39,466 | 38,038 |
| | 65 a hŷn | 18,798 | 19,900 | 21,274 | 22,331 |
| *Amrywiad uwch* | *Pob oed* | *71,570* | *71,062* | *71,372* | *71,300* |
| | 15 ac iau | 10,900 | 10,617 | 10,116 | 10,019 |
| | 16 i 64 | 41,844 | 40,443 | 39,777 | 38,590 |
| | 65 a hŷn | 18,827 | 20,001 | 21,479 | 22,690 |

DRAFT

**Ffigur 6.1: Cymharu'r prif amcanestyniadau seiliedig ar ddata 2018 a'r amcanestyniadau amrywiol**




Mae'r amcangyfrif diweddaraf o boblogaeth Ceredigion (2020) yn is na ffigur Cyfrifiad 2011 (72,900 o'i gymharu â 75,900). Mae nifer fawr o fyfyrwyr Addysg Uwch (AU) wedi'u cofrestru yn y ddwy brifysgol yn y sir, sef Prifysgol Aberystwyth a champws Llanbedr Pont Steffan Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sy'n cyfrif am tua 10% o boblogaeth y sir. Mae'r gyfran uchel o fyfyrwyr yn y sir yn golygu bod amrywiadau mewn recriwtio myfyrwyr yn cael effaith anarferol o uchel ar faint y boblogaeth. Er enghraifft, bu gostyngiad o bron i hanner nifer y myfyrwyr AU a gofrestrodd ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 2011 a 2020 (11,705 yn 2011 o'i gymharu â 6,265 yn 2020), sydd wedi cael effaith sylweddol ar ffigurau poblogaeth Ceredigion.

Mae amcanestyniadau seiliedig ar ddata 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i gymharu â'r data ar gyfer 2014 a oedd yn awgrymu twf o tua 5,400 o bobl a 2,800 o aelwydydd rhwng 2017 a 2037 o 76,000 i 81,500. Mae'r duedd ar i lawr ddiweddar hon yn amcanestyniadau seiliedig ar ddata 2018 i'w briodoli i newidiadau demograffig (e.e. gostyngiad mewn ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo) ond hefyd newidiadau i'r fethodoleg. Fel y nodwyd uchod, mae'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr mewn Addysg Uwch yn y sir hefyd yn ysgogi'r gostyngiad a ragwelir yn y boblogaeth. Mae prif amcanestyniad 2018 yn rhagweld y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng gan 5.8% dros y

cyfnod o 25 mlynedd i 68,745 yn 2043. Hyd yn oed pan fydd yr amrywiad uchaf (yn seiliedig ar ffrwythlondeb uchel, disgwyliad oes a chyfraddau mudo) yn cael ei ystyried, disgwylir i boblogaeth y sir ostwng o hyd, er yn llai sylweddol.

**Tabl 6.4: Ffigurau amcanestyniad o'r boblogaeth:**
**Nifer cyfartalog y genedigaethau yn y sir rhwng 1992 a 2015 oedd 638. Mae'r prif amcanestyniad yn rhoi'r ffigurau isod:**

| | **Nifer cyfartalog y genedigaethau** |
|---|---|
| *2018-19* | 572 |
| *2019-20* | 573 |
| *2020-21* | 560 |
| *2021-22* | 545 |
| *2022-23* | 533 |
| *2023-24* | 524 |
| *2024-25* | 516 |
| *2025-26* | 509 |
| *2026-27* | 503 |

**Cyfraddau geni byw**
Dros yr ugain mlynedd diwethaf ar gyfartaledd cafwyd tua 612 o enedigaethau bob blwyddyn yng Ngheredigion, babanod sengl yn bennaf. Yn 2020 roedd 2,900 o blant o dan 5 oed, 500 o blant o dan 1 oed, 540 o blant 1 oed, 600 o blant 2 oed, 590 o blant 3 oed a 640 o blant 4 oed.

Cyfradd geni Ceredigion yw'r isaf yng Nghymru gyda chyfradd ffrwythlondeb gyffredinol o 41.4 o enedigaethau fesul 1,000 o fenywod 15 – 44 oed. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r gyfran uchel o fenywod ifanc mewn addysg uwch sy'n annhebygol o gael plant pan fyddant yn astudio.


DRAFT

**Tabl 6.5: Genedigaethau byw**

| Ffynhonnell | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Nomis 18 Hydref 2021 |
|---|---|---|
| | **Plant a anwyd rhwng: 01-Ionawr a 31-Rhagfyr i famau sy'n byw yng Ngheredigion: Cyfanswm y genedigaethau byw i famau sy'n byw yn yr ardal** | **Genedigaethau byw yng Nghymru a Lloegr: cyfraddau geni yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol (Ceredigion)** |
| 2017 | 696 | 553 |
| 2018 | 677 | 538 |
| 2019 | 639* | 521 |
| 2020 | 622 | 499** |
| 2021 | 671 | |

*2019 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi newid y system gofnodi
** Gohiriwyd cofrestriadau genedigaethau ONS 2020 yng Nghymru a Lloegr oherwydd pandemig y Coronafeirws (COVID-19).

**Ffigur 6.2: Cyfraddau Geni Byw - Preswylydd Ceredigion**




Mae'r ffigurau'n amrywio rhwng data'r ONS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – ond mae'r duedd yn debyg ac wedi gweld gostyngiad ers 2017. Fodd bynnag, mae cynnydd bach o'i gymharu â 2020 mewn cyfraddau geni, sy'n cefnogi gwybodaeth leol anecdotaidd.

**Nifer yr aelwydydd sy'n gweithio gyda phlant dibynnol**
Ar ddyddiad Cyfrifiad 2011 roedd 845 o aelwydydd gyda phlant dibynnol lle nad oedd unrhyw oedolion yn gweithio. Mae hyn yn cynrychioli tua 11% o'r 7,203 o aelwydydd gyda phlant dibynnol a gofnodwyd yn y Cyfrifiad.

**Nifer y teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig**
O'r oddeutu 5,700 o aelwydydd gyda phlant dibynnol yng Nghyfrifiad 2011, roedd Person Cyswllt y Cartref yn wyn 96% (gan gynnwys 3% 'Gwyn Arall'). Y categori uchaf nesaf oedd Asiaidd/Asiaidd Prydeinig mewn 2% o achosion, gyda llai nag 1% yn unrhyw un o'r grwpiau ethnig eraill a ddiffinnir yn y Cyfrifiad.

DRAFT

**Nifer y plant dibynnol sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol ac absoliwt**
Yn ystod 2020, roedd 2,368 (22%) o blant (o dan 16 oed) yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol a 1,741 (16%) o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt ar draws Ceredigion. Ers 2015, mae nifer y plant mewn teuluoedd incwm isel cymharol wedi cynyddu gan 24%, tra bod y nifer sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt wedi gostwng gan 13%, yn ôl ystadegau plant mewn teuluoedd incwm isel yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM. Mae'r set ddata hon wedi disodli aelwydydd budd-dal di-waith yr Adran Gwaith a Phensiynau a mesur lleol Plant mewn teuluoedd incwm isel: Credyd Treth Personol CThEM.

*Diffinnir teulu incwm isel cymharol fel teulu ar incwm isel cyn costau tai yn y flwyddyn gyfeirio. Rhaid i deulu fod wedi hawlio Budd-dal Plant ac o leiaf un budd-dal aelwyd rywbryd yn y flwyddyn i gael ei ddosbarthu fel teulu incwm isel. Diffinnir teuluoedd incwm isel absoliwt fel teulu incwm isel cyn costau tai yn y flwyddyn gyfeirio o'i gymharu ag incwm yn y flwyddyn ariannol yn diweddu 2011.*

**Tabl 6.6: Nifer y teuluoedd unig riant gyda phlant dibynnol**

| Math o Deulu | |
|---|---|
| Yr holl aelwydydd unig riant gyda phlant dibynnol | 1,514 |
| Unig riant mewn cyflogaeth ran-amser: Cyfanswm | 549 |
| Unig riant mewn cyflogaeth amser llawn: Cyfanswm | 454 |
| Unig riant heb fod mewn cyflogaeth: Cyfanswm | 511 |

*Ffynhonnell: ONS Tabl Cyfrifiad 2011 KS207UK*

**Nifer y siaradwyr Cymraeg a dysgwyr**
Roedd tua 47% o'r boblogaeth 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011. Er bod cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ers y Cyfrifiad blaenorol (2001), nid oedd y gostyngiad hwn yn gyson ar draws pob grŵp oedran. Cynyddodd canran y plant 3-15 oed yng Ngheredigion sy'n gallu siarad Cymraeg o 77.2% yn 2001 i 78.4% yn 2011, cynnydd o 1.2 pwynt canran. Mae hyn yn dangos bod y system addysg cyfrwng Cymraeg yn effeithiol o ran cynyddu defnydd plant y Sir o'r Gymraeg.
Mae'n anodd iawn meintioli nifer y dysgwyr Cymraeg yn y Sir, fodd bynnag, gwyddom yn ystod 2020/21 fod 5,444 o'n plant ysgol ym mlynyddoedd 1-11 wedi dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (cyfanswm y disgyblion oedd 9,700).

**Cyfrifiad 2021 –** Ymatebodd 97% o aelwydydd ar draws Cymru a Lloegr i Gyfrifiad 2021. Disgwylir i'r canlyniadau fod ar gael canol 2022 a chânt eu cynnwys yn y ffigurau ar gyfer cynllun gweithredu blynyddol dilynol.

**Tabl 6.7: Amcangyfrif Canol Blwyddyn Plant 0-17 mlwydd oed yn 2020**

| **Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2020** | **Nifer y plant** | **Nifer y plant yn yr ysgol** |
|---|---|---|
| 0-3 | 2,238 | |
| 4-11 | 5,665 | 4700 |
| 11-17 | 5,025 | |
| **CYFANSWM** | **12,928** | |

**Tabl 6.8: Amcangyfrif Canol Blwyddyn Plant 0-16 mlwydd oed yn 2015 a 2020**

| **Amcangyfrif Canol Blwyddyn** | **2020** | **2015** |
|---|---|---|
| 0 oed | 501 | 648 |
| 1 oed | 539 | 631 |
| 2 oed | 606 | 651 |
| 3 oed | 592 | 658 |
| 4 oed | 639 | 777 |
| 5 oed | 715 | 711 |
| 6 oed | 670 | 654 |
| 7 oed | 670 | 681 |
| 8 oed | 713 | 703 |
| 9 oed | 807 | 685 |
| 10 oed | 757 | 671 |
| 11 oed | 694 | 696 |
| 12 oed | 709 | 689 |
| 13 oed | 714 | 659 |
| 14 oed | 730 | 710 |
| 15 oed | 718 | 729 |
| 16 oed | 748 | 770 |
| **CYFANSWM** | **11522** | **11723** |

**Tabl 6.9: Amcangyfrif Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth**

| **Amcangyfrif Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth** | |
|---|---|
| 2011 (Amcangyfrif y Cyfrifiad) | 75,900 |
| 2015 | 74,600 |
| 2020 | 72,895 |

DRAFT

| Tabl 6.10: Amcanestyniad o'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran y plentyn | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2015** | **2020** | **Gwir 2020** | **2025** |
| 0-11 oed | 8200 | 8000 | **7903** | 8000 |
| 12-16 oed | 3600 | 3600 | **3619** | 3600 |
| **CYFANSWM** | **11800** | **11600** | **11522** | **11600** |
| | | | | |
| 3 a 4 oed | 1400 | 1300 | **1231** | 1400 |
| Ffynhonnell: ONS 2015 Amcangyfrif Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth a'r prif amcanestyniad seiliedig ar ddata 2014 Llywodraeth Cymru | | | | |

**PLANT AG ANABLEDDAU**

**Nifer y plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd**
Yn 2020/21, dangosodd Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgybl (PLASC) bod 2,433 o ddisgyblion yng Ngheredigion ag anghenion addysgol arbennig.

**Gwybodaeth am nifer y plant ag anableddau**

**Tabl 6.11:: Nifer y plant ag anableddau gyda'r Tîm Plant Anabl (TPA)**

| Ystod Oedran | Nifer y plant 2017 | Nifer y plant 2021 – i'w gadarnhau |
|---|---|---|
| 0 | 2 | 3 |
| 1 | 1 | 0 |
| 2 | 2 | 1 |
| 3 | 3 | 5 |
| 4 | 11 | 5 |
| 5 | 6 | 11 |
| 6 | 10 | 10 |
| 7 | 13 | 12 |
| 8 | 9 | 11 |
| 9 | 2 | 14 |
| 10 | 12 | 12 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 11 | 20 | 16 |
| 12 | 11 | 17 |
| 13 | 12 | 15 |
| 14 | 17 | 14 |
| 15 | 12 | 23 |
| 16 | 17 | 22 |
| 17 | 13 | 14 |
| 18 | 4 | 7 |
| **Cyfanswm y plant o dan y TPA** | **177** | **212** |

**Tabl 6.12: Plant mewn angen ar 31 Mawrth yn ôl oedran, rhyw, statws derbyn gofal ac ethnigrwydd, gan gynnwys plant heb eu geni**

| *Blwyddyn* | Pob plentyn mewn angen | | | Pob plentyn mewn angen |
|---|---|---|---|---|
| | Plant ag anabledd | Plant heb anabledd | Amherthnasol | |
| 2010 | 165 | 265 | * | 435 |
| 2011 | 170 | 300 | * | 470 |
| 2012 | 120 | 320 | * | 445 |
| 2013 | 95 | 315 | * | 410 |
| 2014 | 80 | 335 | * | 420 |
| 2015 | 95 | 350 | * | 450 |
| 2016 | 80 | 385 | * | 465 |

*Ffynhonnell: StatsCymru, Cyfrifiad Plant mewn Angen*

**Tabl 6.13: Pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth 31 Mawrth 2020 yn ôl oedran, statws derbyn gofal, ethnigrwydd ac ar y gofrestr amddiffyn plant** (newid yn y dull cofnodi)

| *Blwyddyn* | Pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth | | | Pob plentyn mewn angen |
|---|---|---|---|---|
| | Plant ag anabledd | Plant heb anabledd | Amherthnasol | |
| 2017 | 180 | 250 | * | 430 |
| 2018 | 140 | 255 | * | 390 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2019 | 160 | 205 | * | 360 |
| 2020 | 195 | 220 | * | 410 |
| | | | * | |

**Tabl 6.14: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran**

| Pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth | O dan 1 | 1-4 | 5-9 | 10-15 | 16 a hŷn |
|---|---|---|---|---|---|
| 2020 | 5 | 55 | 120 | 185 | 45 |
| 2019 | 10 | 55 | 95 | 155 | 45 |
| 2018 | 15 | 55 | 115 | 150 | 55 |
| 2017 | 15 | 65 | 110 | 170 | 65 |

**Tabl 6.15: Plant ag anabledd**

| Plant ag anabledd | O dan 1 | 1-4 | 5-9 | 10-15 | 16 a hŷn |
|---|---|---|---|---|---|
| 2020 | | 20 | 50 | 100 | 25 |
| 2019 | | 20 | 40 | 70 | 25 |
| 2018 | | 10 | 40 | 65 | 20 |
| 2017 | * | 15 | 40 | 90 | 30 |


* *Mae'r eitem data yn datgelu gwybodaeth neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi*

Ffynhonnell StatsCymru [Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran (llyw.cymru)]
**StatsCymru** [StatsCymru (llyw.cymru)]

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiadau o wasanaethau plant anabl mewn 4 ardal Awdurdod Lleol gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion a nododd fod ystyriaeth wedi'i rhoi i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r Gwasanaethau Ysgolion wedi penodi Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i fod yn gyfrifol am bob plentyn y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

DRAFT

**Ffigur 6.3: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2020 yn ôl ALl ac anabledd:**




Ffynhonnell: Adolygiad Cenedlaethol AGC o gymorth cynnar, gofal a chymorth a phontio i blant anabl yng Nghymru

## 7 TROSOLWG – MATHAU O OFAL PLANT, GWASANAETHAU A LLEOEDD

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru o dan y categori Gofal Dydd neu Warchodwr Plant. Fodd bynnag, o dan y cofrestriad gofal dydd mae pum is-gategori sef Gofal Dydd Sesiynol; Gofal Dydd Llawn; Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol; Chwarae

Mynediad Agored; neu Crèche. Ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, roedd llawer o ddarparwyr Gofal Dydd Sesiynol a oedd yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn wedi cynyddu eu horiau agor a newid eu cofrestriad i Ofal Dydd Llawn. Mae hyn yn achosi dryswch i rieni sy'n chwilio am Ofal Plant gan eu bod ar agor ar gyfer oriau ysgol, yn ystod y tymor yn unig, ac i blant 2-4 oed fel rheol. Y darparwyr Gofal Dydd Llawn traddodiadol yw Meithrinfeydd Dydd ac maent yn cynnig Gofal Plant i blant 0-12 oed, 10 awr y dydd, trwy gydol y flwyddyn. Mae'r meithrinfeydd gofal dydd llawn mewn sefyllfa well i gynnig Gofal Plant ar gyfer diwrnod gwaith llawn.

Er mwyn gwahaniaethu rhwng Gofal Dydd Llawn a'r darparwyr Sesiynol sy'n darparu Gofal Dydd Llawn, rydym wedi defnyddio ein meini prawf ein hunain ar gyfer math o wasanaeth at ddiben yr adroddiad hwn. Rydym wedi dadansoddi'r data ar gyfer **Gofal Dydd Llawn (Meithrinfeydd Dydd)** a **Gofal Dydd Llawn (Sesiynol**). Mae hefyd wedi'i rannu'n ddarpariaeth yn ystod y tymor ysgol a'r gwyliau gan ein bod yn credu y bydd hyn yn helpu rhieni i ddod o hyd i'r Gofal Plant sydd ei angen arnynt.

**Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS)**

Cafodd y wybodaeth ddienw a gasglwyd gan yr holl ddarparwyr Gofal Plant cofrestredig gan AGC ym mis Gorffennaf 2021 trwy'r **Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth** (SASS) ei rhannu â phob Awdurdod Lleol yn nhymor yr hydref. Dadansoddwyd, diweddarwyd a 'glanhawyd' y data ar gyfer tymor yr hydref (h.y. diystyrwyd gwasanaethau a ataliwyd yn wirfoddol os cawsant eu hatal am fwy na blwyddyn) er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir nifer y lleoliadau Gofal Plant gweithredol yng Ngheredigion.

*(Rhaid gosod cafeat ar yr holl ddata a'r canlyniadau dilynol a'r casgliadau a wneir. Rhaid ystyried anghysondebau technegol yn y set ddata a dderbyniwyd a rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r data a'r ystadegau a gyflwynir, a'i ddefnyddio ar y cyd â'r wybodaeth gyfredol cyn dod i unrhyw gasgliadau)*

**Felly, mae nifer y darparwyr wedi newid o 102 o leoliadau a gofnodwyd yn y SASS i 91 o leoliadau Gofal Plant cofrestredig gweithredol yng Ngheredigion, a bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer yr Asesiad hwn.**

Mae darparwyr Gofal Plant Ceredigion yn ffurfio tua 2.5% o holl leoliadau cofrestredig AGC Cymru gyfan. Mae poblogaeth Ceredigion yn 2.3% o boblogaeth Cymru gyfan o ffigurau canol-blwyddyn 2020 ONS. Felly mae cyfran y lleoliadau cofrestredig yn debyg i ganran poblogaeth Cymru y mae'r sir yn ei chynrychioli mewn cymhariaeth fras, ond nid yw'n ffactor yng nghyfran y plant yn yr ardal lle mae canran uwch na chyfartaledd Cymru o'r boblogaeth economaidd anweithgar sydd wedi ymddeol.

| 7.1 | DARPARIAETH GOFRESTREDIG |
|---|---|

**Tabl 7.1: Pob Darpariaeth Gofal Plant**

| Math o Ofal Plant | Cofrestredig | Anghofrestredig/ Wedi'i gymeradwyo | Gwasanaethau Gofal Plant a gynigir | Cofrestredig | Anghofrestredig / Wedi'i gymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 8 | 1 | Tymor Ysgol yn unig | 8 | 1 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 21 | | Tymor Ysgol yn unig | 18 | |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | | | Tymor ysgol a gwyliau | 3 | |
| | | | | | |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 6 | | Tymor ysgol a gwyliau | 6 | |
| | | | | | |
| Gwarchodwr plant | 45 | | Tymor Ysgol yn unig | 1 | |
| Gwarchodwr plant | | | Tymor Ysgol yn unig / Ar ôl ysgol | 1 | |
| Gwarchodwr plant* | | | Tymor ysgol a gwyliau | 43 | |
| | | | | | |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 5 | 3 | Tymor Ysgol yn unig | 5 | 3 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 2 | 1 | Tymor ysgol a gwyliau | 2 | 1 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 2 | | Gwyliau yn unig | 2 | |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 1 | | Tymor ysgol a gwyliau | 1 | |
| | | | | | |
| Crèche | 1 | | Tymor Ysgol yn unig | 1 | |
| | | | | | |
| Nani | 0 | | | 0 | |
| **CYFANSWM** | **91** | | | **91** | |

**Darpariaeth Gofal Plant sy'n Datblygu a Newydd:**

Agorodd un lleoliad Gofal Dydd Sesiynol Anghofrestredig (Cylch Meithrin) newydd ym mis Medi 2021. Mae'n gwneud cais am gofrestriadau Gofal Dydd Llawn Sesiynol ar gyfer 19 o leoedd. Derbyniodd y lleoliad hwn gyllid Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant ar gyfer datblygu safle newydd o fewn adeilad yr ysgol, ac mae wedi agor fel lleoliad anghofrestredig tra ei fod yn aros am gofrestriad AGC (yn aros am gymeradwyaeth Gwanwyn 2022).

Yn ogystal â'r uchod, mae un gwarchodwr plant sydd newydd gofrestru ers mis Ionawr 2022 ac un gwarchodwr plant (yn aros am ymweliad safle) sy'n gweithio tuag at gael ei gofrestru erbyn mis Ebrill 2022. Nid yw'r ystadegau ar gyfer y lleoliadau hyn felly wedi'u cynnwys yn yr Asesiad hwn, ond adroddir ar eu cynnydd yn y dyfodol.

Roedd un Clwb Ar Ôl Ysgol wedi atal ei wasanaeth dros dro oherwydd cyfyngiadau COVID-19 i gychwyn, ond ers i'r ysgolion ailagor nid yw'r clwb wedi gallu ailagor oherwydd problemau staffio. Mae'r Ysgolion a'r Uned Gofal Plant wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer ailagor a oedd yn cynnwys cylchredeg Ffurflen Mynegi Diddordeb i'r sector Gofal Plant yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau. Yn anffodus ni fynegwyd unrhyw ddiddordeb. Mae hwn yn brosiect parhaus a bydd mwy o drafod a mwy o opsiynau yn cael eu hystyried.

Yn anffodus, caeodd tri Chlwb Ar Ôl Ysgol yn barhaol oherwydd y pandemig a phroblemau recriwtio gwirfoddolwyr Pwyllgor, a diddymwyd eu helusennau wedi hynny. Mae'r Uned Gofal Plant yn gweithio gyda'r darparwr gofal dydd llawn sesiynol presennol i ehangu ei wasanaethau a'r ystod oedran i gymryd lle'r gwasanaethau blaenorol nad oeddent ar gael mewn dwy o'r ardaloedd a oedd hefyd yn darparu cymorth i blant ag ADY.

## 7.2 LLEOLIADAU GOFAL ANGHOFRESTREDIG:

Rhoddir cymorth i 4 lleoliad Clwb Ar Ôl Ysgol anghofrestredig a chyngor ar sut i fod yn lleoliadau cofrestredig.
Mae 3 ar safleoedd ysgol gyda sefydliad annibynnol arall yn darparu cyfleuster ar ôl ysgol i blant oedran ysgol.

Mae rhai lleoliadau, ond nid pob un, wedi rhoi manylion am y lleoedd plant, oriau a ffioedd a godir yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, maent yn parhau i dderbyn gwybodaeth a chylchlythyrau gan yr Uned Gofal Plant, ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael os ydynt yn dymuno ystyried bod yn ddarparwyr cofrestredig.

**Tabl 7.2: Darpariaeth Ôl Ysgol Anghofrestredig:**

| Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | Lleoliad / Ysgol | Ar agor nawr? (Ionawr 2022) | Os na – pryd? | Nifer y plant sy'n gallu mynychu pob sesiwn | Presenoldeb gwirioneddol y dydd | Sesiynau yr wythnos |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Cenarth | Treialu am fis | Ar ôl ysgol tan 5:15pm | 16 | 2 -3 | 4<br>(Llun-Iau) |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth – De | Plascrug | Ydy | Amh | 50 | 40 – Wedi'i rannu rhwng 2 neuadd | 5 (Llun-Gwener) |
| Y Borth a Bont-goch | Tal-y-bont | Ydy | Amh | 16 | 5 -6 | 3 – Llun-Iau fel arfer ond ar hyn o bryd dim ond Mawrth-Iau |
| Ceinewydd a Phenbryn | Sefydliad annibynnol nad yw ar safle ysgol | | Ailagor diwedd Chwefror / dechrau Mawrth | | | Darpariaeth ar ôl Ysgol ac yn y Gwyliau |

Mae Ysgol T Llew Jones yn gobeithio ailddechrau ei gwasanaeth ar ôl ysgol y flwyddyn academaidd nesaf yn dibynnu ar gyfyngiadau COVID-19 a'r galw gan rieni, tra bod Ysgol Penparc yn awyddus i ailagor cyn gynted â phosibl. Mae'r holl leoliadau anghofrestredig eraill y gwyddys amdanynt yn cael eu cefnogi gan yr Uned Gofal Plant gyda gwybodaeth a chyngor rheolaidd.

**7.3 DARPARIAETH WEDI'I HEITHRIO / WEDI'I CHYMERADWYO:**


Nid oedd unrhyw Nanis yn gweithredu o dan y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) yng Ngheredigion ers mis Hydref 2021 – felly nid oes gennym unrhyw wasanaethau wedi'u heithrio/wedi'u cymeradwyo i'w hadrodd arnynt yn yr Asesiad hwn.

**7.4 Dosbarthiad Daearyddol Darparwyr Gofal Plant a'r Gwasanaethau a'r Ddarperir (Cofrestredig ac Wedi'u Heithrio / Cymeradwyo)**

Mae Asesiad o Lesiant Ceredigion a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn seiliedig ar y naw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, a dyma'r ardaloedd cymunedol a ddefnyddir i nodi asedau a heriau penodol sy'n ymwneud â llesiant:

1. Y Borth a Bont-goch
2. Aberystwyth – Gogledd
3. Aberystwyth – De
4. Aberaeron a Llanrhystud
5. Ceinewydd a Phenbryn
6. Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad
7. Aberteifi ac Aber-porth
8. Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul
9. Rheidol, Ystwyth a Charon

**Ffigur 7.4.1: Map o Ardaloedd Cymunedol neu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol Ceredigion**




**Ffynhonnell:** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion


**Tabl 7.4.1: Cyfanswm y darparwyr Darpariaeth Tymor Ysgol a Gwyliau yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol:**

| **Math o ofal:** **Cyfanswm y darparwyr Darpariaeth Tymor Ysgol a Gwyliau yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 1 | | | 2 | 1 | 1 | 2 | | 1 | 8 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 3 | 1 | 5 | 18 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol a Gwyliau | | 1 | | | 2 | | | | | 3 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn – Tymor Ysgol a Gwyliau | 1 | 1 | 1 | 1 | | 2 | | | | 6 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol a Gwyliau | 5 | | 5 | 6 | 3 | 3 | 12 | 7 | 2 | 43 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol yn unig | | | 1 | | | | | 1 | | 2 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol yn unig | | | 1 | | | 1 | | 1 | 2 | 5 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol a Gwyliau | 1 | | | 1 | | | | | | 2 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Gwyliau yn unig | | | 1 | | 1 | | | | | 2 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau – Tymor Ysgol a Gwyliau | | | | 1 | | | | | | 1 |
| Crèche – Tymor Ysgol yn unig | | | | | | | 1 | | | 1 |
| Nani | | | | | | | | | | 0 |
| Cyfanswm y lleoliadau yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | 10 | 3 | 11 | 12 | 9 | 8 | 18 | 10 | 10 | **91** |
| Nifer y Plant sydd wedi'u Cofrestru i'w Gofalu Amdanynt ar hyn o bryd | 199 | 120 | 215 | 198 | 132 | 180 | 201 | 157 | 168 | **1570** |

DRAFT

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliad Sesiynol yn gweithio tuag at gofrestru | | | | | | | | 1 | | **1** |
| Gofal y tu allan i Oriau Ysgol heb ei gofrestru – Tymor Ysgol yn unig | 1 | | 1 | | 1 | | | 1 | | **4** |

**Tabl 7.4.2: Math o Ofal Plant fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG)**



**Tabl 7.4.2: Nifer y plant sydd wedi cofrestru ar gyfer:**

| Nifer y plant sydd wedi'u cofrestru i ofalu amdanynt ar hyn o bryd | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 20 | | | 31 | 14 | 12 | 35 | | 19 | 131 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 34 | 63 | 38 | 19 | 31 | 19 | 70 | 50 | 93 | 417 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol a Gwyliau | | | | | 39 | | | | | 39 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn – Tymor Ysgol a Gwyliau | 54 | 57 | 75 | 33 | | 87 | | | | 306 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol a Gwyliau | 41 | | 34 | 60 | 18 | 22 | 87 | 59 | 16 | 337 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol yn unig | | | 6 | | | | | | | 6 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol yn unig/Ar ôl ysgol | | | | | | | | 8 | | 8 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol yn unig | | | 32 | | | 40 | | 40 | 40 | 152 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol a Gwyliau | 50 | | | 32 | | | | | | 82 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Gwyliau yn unig | | | 30 | | 30 | | | | | 60 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau – Tymor Ysgol a Gwyliau | | | | 23 | | | | | | 23 |
| Crèche – Tymor Ysgol yn unig | | | | | | | 9 | | | 9 |
| **CYFANSWM** | **199** | **120** | **215** | **198** | **132** | **180** | **201** | **157** | **168** | **1570** |

DRAFT

**Tabl 7.4.3: Cyfanswm y Plant ar y Gofrestr:**

| **Cyfanswm y plant ar eich llyfrau** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 16 | | | 37 | 19 | 29 | 34 | | 13 | 148 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 41 | 15 | 59 | 21 | 38 | 17 | 92 | 66 | 86 | 435 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol a Gwyliau | | 60 | | | 17 | | | | | 77 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn – Tymor Ysgol a Gwyliau | 97 | 75 | 78 | 72 | | 115 | | | | 437 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol a Gwyliau | 42 | | 37 | 31 | 14 | 23 | 75 | 61 | 6 | 289 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol yn unig | | | 2 | | | | | | | 2 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol yn unig/Ar ôl ysgol | | | | | | | | 2 | | 2 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol yn unig | | | 28 | | | 19 | | 0 | 46 | 93 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol a Gwyliau | 179 | | | 31 | | | | | | 210 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Gwyliau yn unig | | | 15 | | 0 | | | | | 15 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau – Tymor Ysgol a Gwyliau | | | | 26 | | | | | | 26 |
| Crèche – Tymor Ysgol yn unig | | | | | | | 0 | | | 0 |
| **CYFANSWM** | **375** | **150** | **219** | **218** | **88** | **203** | **201** | **129** | **151** | **1734** |

DRAFT

O ran ffigurau lleoedd gwag a rhestrau aros, rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r rhain fel data sylfaenol. Nid oedd rhai lleoliadau ar agor yn ystod y cyfnod hwn, ac nid yw rhai wedi ailagor eu gwasanaeth o hyd oherwydd prinder staff yn bennaf.

Roedd rhai lleoliadau e.e. Clybiau Ar Ôl Ysgol ar agor i ychydig iawn o blant wrth i rieni ddychwelyd yn araf i arferion gwaith. Mae hyn wedi gwyro'r ffigurau o ran lleoedd gwag a gofnodwyd, ac nid yw'n adlewyrchiad cywir o bresenoldeb arferol yn y lleoliadau hyn (*plant ar restr aros i gael lle ar unwaith / lleoedd heb eu llenwi ar gyfer y gwasanaeth*).


**Tabl 7.4.4: Rhestrau aros a lleoedd heb eu llenwi:**

| **Cyfanswm y plant ar eich llyfrau** | **Faint o blant sydd ar y rhestr aros i gael lle ar unwaith?** | **CYFANSWM lleoedd heb eu llenwi** |
|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 24 | 17 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol yn unig | 43 | 1458 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol – Tymor Ysgol a Gwyliau | 6 | 206 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn – Tymor Ysgol a Gwyliau | 26 | 59 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol a Gwyliau | 28 | 119 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol yn unig | 0 | 1 |
| Gwarchodwr Plant – Tymor Ysgol yn unig/Ar ôl ysgol | 0 | 0 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol yn unig | 0 | 56 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Tymor Ysgol a Gwyliau | 12 | 4 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol – Gwyliau yn unig | 0 | 0 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau – Tymor Ysgol a Gwyliau | 0 | 23 |
| Crèche – Tymor Ysgol yn unig | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **139** | **1943** |

DRAFT

**Patrwm Presenoldeb:**

**Ffigur 7.4.3: Patrwm Presenoldeb:**





**Tabl 7.4.5: Patrwm presenoldeb – llawn amser, rhan amser neu ad-hoc:**

| Patrwm presenoldeb: | Cyfanswm y plant ar y gofrestr | Mynychu'n amser llawn % | Mynychu'n amser llawn | Mynychu'n rhan-amser % | Mynychu'n rhan-amser | Mynychu ad hoc % | Mynychu ad hoc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 148 | 38 | 56 | 62 | 92 | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 512 | 23 | 116 | 76 | 391 | 1 | 5 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 437 | 14 | 60 | 83 | 362 | 2 | 9 |
| Gwarchodwr plant | 293 | 14 | 41 | 78 | 228 | 8 | 24 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 318 | 12 | 37 | 24 | 77 | 64 | 204 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 26 | 100 | 26 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1734** | **19%** | **336** | **66%** | **1150** | **14%** | **242** |

**Tabl 7.4.6: llawn amser, rhan amser neu ad-hoc %:**

| Patrwm presenoldeb | Mynychu'n amser llawn % | Mynychu'n rhan-amser % | Mynychu ad hoc % |
|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 19 | 66 | 14 |


**Ffigur 7.4.4: Patrwm presenoldeb %**





Mae dwy ran o dair o'r holl blant yn mynychu Gofal Plant yn rhan-amser (66%) gyda 19% yn mynychu Gofal Plant amser llawn.
Nid yw'r ffigurau presenoldeb 'rhan-amser' yn y SASS yn nodi a yw'r Gofal Plant yn cael ei rannu rhwng darparwyr Gofal Plant gwahanol a bod y plentyn yn mynychu rhyw fath o Ofal Plant amser llawn e.e. Gofal Sesiynol Cylch Meithrin a Gwarchodwr Plant. Nid yw'n gwahaniaethu ychwaith rhwng grwpiau oedran. Byddai llawer o blant 3-4 oed yn derbyn gofal sesiynol rhan-amser ac addysg ran-amser, ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn arolwg SASS.
Fodd bynnag, rydym wedi gweld tystiolaeth o'r arolygon rhieni bod rhieni'n defnyddio cyfuniad o ddarpariaeth Gofal Plant wahanol a theulu/ffrindiau.

**8 LLEOEDD GOFAL PLANT – CYFLENWAD A GALW YN ÔL MATH O OFAL PLANT**


**Ffigur 8.1: Gwarchodwyr Plant fesul AGEHG**





**Ffigur 8.1: Meithrinfeydd Dydd Llawn fesul AGEHG**





**Ffigur 8.3: Gofal Dydd Sesiynol Llawn a Gofal Dydd Sesiynol fesul AGEHG**




**Ffigur 8.4: Gofal y tu allan i oriau ysgol, Crèche a Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau a Crèche fesul AGEHG**




**Ffigur 8.5: Pob Darparwr Gofal Plant Cofrestredig**




Mae'r map cyntaf yn dangos bod darpariaeth Ar Ôl Ysgol ac yn ystod y Gwyliau ar gael ym mhob math o Ofal Plant:

**Ffigur 8.6:**




**Ffigur 8.7:**




Mae'r ail fap yn dangos y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru fel darpariaeth 'Y Tu Allan i Oriau Ysgol' a'r Crèche gyda Chynllun Chwarae Gwyliau sy'n darparu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau ar sail 'ad-hoc' (nid pob wythnos o'r gwyliau ysgol).


DRAFT

## NIFER Y LLEOEDD SYDD AR GAEL:


**Tabl 8.1: Nifer y lleoedd fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG)**

| Nifer y lleoedd sydd ar gael: | Nifer y plant wedi'u cofrestru i'w gofalu amdanynt ar hyn o bryd | Cyfanswm y plant ar eich llyfrau |
|---|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 199 | 375 |
| Aberystwyth – Gogledd | 120 | 150 |
| Aberystwyth – De | 215 | 219 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 198 | 218 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 132 | 88 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 180 | 203 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 201 | 201 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 157 | 129 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 168 | 151 |
| **CYFANSWM** | **1570** | **1734** |

**Ffigur 8.8: : Nifer y lleoedd fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG)**




**Ffigur 8.9: Cymhariaeth o Nifer wedi cofrestru am / Plant ar y llyfrau fesul AGEHG**



Isod mae'r data i gymharu nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth a hefyd fesul 1,000 o boblogaethau plant 0-12 oed.

**Tabl 8.2: Poblogaeth a lleoedd fesul 1,000 o'r boblogaeth ac fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed:**


| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | Pob Oed | Nifer y lleoedd cofrestredig | Nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth | % o'r boblogaeth | 0-12 oed | Nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 7,466 | 199 | 26.7 | 2.7 | 973 | 204.5 |
| Aberystwyth – Gogledd | 9,001 | 120 | 13.3 | 1.3 | 479 | 250.5 |
| Aberystwyth – De | 6,629 | 215 | 32.4 | 3.2 | 932 | 230.7 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 7,113 | 198 | 27.8 | 2.8 | 776 | 255.2 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 6,579 | 117 | 17.8 | 1.8 | 740 | 158.1 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 8,191 | 180 | 22 | 2.2 | 1170 | 153.8 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 8,873 | 201 | 22.7 | 2.3 | 1174 | 171.2 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 7,420 | 157 | 21.2 | 2.1 | 887 | 177 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 11,623 | 183 | 15.7 | 1.6 | 1481 | 123.6 |
| *Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.* | **72,895** | **1570** | **21.5** | **2.2** | **8612** | **182.3** |

Ar ôl dadansoddi ymhellach, yn Llanbedr Pont Steffan sydd ar y ffin rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin mae dwy Feithrinfa Gofal Dydd Llawn preifat a Gwarchodwyr Plant sy'n gwasanaethu ardal ddaearyddol fawr. Fodd bynnag, mae gan Lanbedr Pont Steffan lai o leoedd fesul 1000 o blant 0-12 oed na rhai ardaloedd eraill a all fod yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y cartrefi sydd wedi cael eu hadeiladu yno dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae gwasanaethau lleferydd ac iaith hefyd wedi nodi Llanbedr Pont Steffan fel ardal lle nad yw plant ifanc yn cael cymorth – a hefyd lle nad oes lleoliad Gofal Plant Sesiynol.

**Tabl 8.3: Lleoedd fesul 1,000 o'r boblogaeth a fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed:**

| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | Nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth | Nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed |
|---|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 26.7 | 204.5 |
| Aberystwyth – Gogledd | 13.3 | 250.5 |
| Aberystwyth – De | 32.4 | 230.7 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 27.8 | 255.2 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 17.8 | 158.1 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 22 | 153.8 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 22.7 | 171.2 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 21.2 | 177 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 15.7 | 123.6 |

**Ffigur 8.10: Lleoedd fesul 1,000 o'r boblogaeth a fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed:**




DRAFT

**Tabl 8.4: Darpariaeth Gofrestredig – Tymor Ysgol**

| Math o Ofal Plant | Lleoedd yn ôl cofrestriad | Tymor Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Uchafswm capasiti lleoedd Gofal Plant ar gael bob dydd | Nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth | Nifer y lleoedd gwag | Nifer y plant ar y rhestr aros | Nifer y lleoedd Gofal Plant sydd eu hangen |
| Gwarchodwr plant | 351 | 351 | 293 | 120 | 28 | 0 |
| Gofal Dydd | | | | | | |
| Meithrinfa Gofal Dydd Lawn | 306 | 306 | 437 | 59 | 26 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 131 | 131 | 148 | 17 | 24 | 7 |
| Gofal Dydd Sesiynol Llawn | 456 | 456 | 512 | 1664 | 49 | |
| Crèche | 9 | 9 | | | | |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 234 | 234303 | 303 | 60 | 12 | |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | Dim wedi ei gofnodi yng Ngheredigion | | | | | |
| Nani | Dim wedi ei gofnodi yng Ngheredigion | | | | | |


**Tabl 8.5: Darpariaeth Gofrestredig – Gwyliau Ysgol**

| Math o Ofal Plant | Lleoedd yn ôl cofrestriad | Tymor Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Uchafswm capasiti lleoedd Gofal Plant ar gael bob dydd | Nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth | Nifer y lleoedd gwag | Nifer y plant ar y rhestr aros | Nifer y lleoedd Gofal Plant sydd eu hangen |
| Gwarchodwr plant | 337 | 337 | 289 | 119 | 28 | 0 |
| Gofal Dydd | | | | | | |

DRAFT


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 306 | 306 | 437 | 59 | 26 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 0 | | | | | 0 |
| Gofal Dydd Sesiynol Llawn | 39 | 39 | 77 | 206 | 6 | 0 |
| Crèche | 9 | 9 | | | | 0 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 142 | 142 | 225 | 4 | 12 | 8 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | Dim wedi ei gofnodi yng Ngheredigion | | | | | |
| Nani | Dim wedi ei gofnodi yng Ngheredigion | | | | | |

**Ffigur 8.11: Dosbarthiad Daearyddol Lleoedd Gofal Plant yn ôl Math o Ofal Plant – Cyflenwad a Galw – Tymor Ysgol**




DRAFT

**Ffigur 8.12: Dosbarthiad Daearyddol Lleoedd Gofal Plant yn ôl Math o Ofal Plant – Cyflenwad a Galw – Gwyliau Ysgol**




**CAM GWEITHREDU: Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth Gofal Dydd Sesiynol ar gyfer plant 2-3 oed heb effeithio ar y ddau Ddarparwr Gofal Dydd Llawn a Gwarchodwyr Plant yn Llanbedr Pont Steffan.**
**Ymchwil pellach i anghenion Gofal Plant teuluoedd sy'n byw yng nghymuned Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad.**

| 8.1 | LLEOEDD GWAG |
|---|---|
| | Roedd y SASS yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofnodi'r lleoedd Gofal Plant oedd ganddynt yn eu lleoliad yn ogystal â'r rhestr aros yn ystod y 4 wythnos ym mis Mehefin 2021. Roedd lleoliadau newydd ailagor ar gyfer Tymor yr Haf ac roedd hyder rhieni'n cynyddu'n raddol o ran anfon plant yn ôl i leoliadau Gofal Plant a dychwelyd i batrymau gwaith.<br><br>Isod mae'r canlyniadau ond rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Roedd presenoldeb yn y Clybiau Ar Ôl Ysgol yn arbennig yn isel yn y cyfnod adrodd, fodd bynnag, mae presenoldeb a gwneud defnydd o'r rhain yn gwella'n araf wrth i'r flwyddyn ysgol barhau ac wrth i'r cyfyngiadau godi. |

**Tabl 8.1.1.: Nifer y lleoedd heb eu llenwi ar gyfer y rhan hon o'r gwasanaeth:**

| **Sesiwn Gofal Plant: Lleoedd heb eu llenwi** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ar ôl Ysgol | 92 | 146 | 14 | 11 | 5 | 0 | 9 | 40 | 17 | **334** |
| Cyn Ysgol | 70 | 0 | 4 | 3 | 11 | 0 | 8 | 2 | 51 | **149** |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 5 | 12 | 1 | 0 | 2 | 0 | 13 | 35 | 1 | **69** |
| Yn yr hwyr ar ôl 6:00pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gofal Dydd Llawn/Meithrinfa Gofal Dydd Lawn | 2 | 12 | 10 | 27 | 13 | 12 | 102 | 17 | 1 | **196** |
| Gofal hanner diwrnod yn y bore | 0 | 13 | 4 | 2 | 2 | 9 | 8 | 2 | 3 | **43** |

DRAFT

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrinfa hanner diwrnod yn y prynhawn | 0 | 15 | 8 | 13 | 5 | 9 | 12 | 0 | 39 | **101** |
| Cinio | 250 | 47 | 5 | 1 | 4 | 8 | 12 | 41 | 46 | **414** |
| Bore | 4 | 0 | 0 | 5 | 2 | 0 | 0 | 0 | 6 | **17** |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Grŵp Chwarae neu Gylch Meithrin yn y bore | 156 | 25 | 0 | 0 | 3 | 10 | 5 | 12 | 25 | **236** |
| Grwp Chwarae neu Gylch Meithrin yn y prynhawn | 267 | 48 | 0 | 0 | 9 | 8 | 0 | 35 | 17 | **384** |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ar y penwythnos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **CYFANSWM** | **846** | **318** | **46** | **62** | **56** | **56** | **169** | **184** | **206** | **1943** |

**Tabl 8.1.2: Nifer y plant ar y rhestr sydd angen lle ar unwaith:**

| **Sesiwn Gofal Plant: Rhestr aros** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | **5** |
| Ar ôl Ysgol | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | **13** |
| Cyn Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | **4** |
| Yn yr hwyr ar ôl 6:00pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |

DRAFT

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn/Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 0 | 5 | 2 | 15 | 0 | 4 | 6 | 5 | 5 | **42** |
| Gofal hanner diwrnod yn y bore | 0 | 5 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | **12** |
| Meithrinfa hanner diwrnod yn y prynhawn | 0 | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | **10** |
| Cinio | 0 | 0 | 18 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | **23** |
| Bore | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 9 | 10 | 0 | 0 | **20** |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Grwp Chwarae neu Gylch Meithrin yn y bore | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| Grwp Chwarae neu Gylch Meithrin yn y prynhawn | 0 | 0 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **9** |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ar y penwythnos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **CYFANSWM** | **12** | **14** | **20** | **28** | **6** | **18** | **20** | **6** | **15** | **139** |

**Tabl 8.1.3: Nifer y lleoedd heb eu llenwi – nifer y plant ar y rhestr aros sydd angen lle ar unwaith yn ôl math o wasanaeth.**

| **Sesiwn Gofal Plant: Lleoedd o'i gymharu â'r rhestr aros** | **Y Borth a Bont-Goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **CYFANSWM lleoedd sydd ar gael** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -5 | 0 | 0 | 0 | **-5** |
| Ar ôl Ysgol | 80 | 146 | 14 | 11 | 5 | 0 | 9 | 39 | 17 | **321** |

DRAFT

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyn Ysgol | 70 | 0 | 4 | 3 | 11 | 0 | 8 | 2 | 51 | **149** |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 5 | 12 | 1 | 0 | 2 | 0 | 9 | 35 | 1 | **65** |
| Yn yr hwyr ar ôl 6:00pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gofal Dydd Llawn/Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 2 | 7 | 8 | 12 | 13 | 8 | 96 | 12 | -4 | **154** |
| Gofal hanner diwrnod yn y bore | 0 | 8 | 4 | 0 | 2 | 9 | 8 | 2 | -2 | **31** |
| Meithrinfa hanner diwrnod yn y prynhawn | 0 | 11 | 8 | 12 | 5 | 9 | 12 | 0 | 34 | **91** |
| Cinio | 250 | 47 | -13 | 1 | -1 | 8 | 12 | 41 | 46 | **391** |
| Bore | 4 | 0 | 0 | 5 | 1 | -9 | -10 | 0 | 6 | **-3** |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Grwp Chwarae neu Gylch Meithrin yn y bore | 156 | 25 | 0 | -1 | 3 | 10 | 5 | 12 | 25 | **235** |
| Grwp Chwarae neu Gylch Meithrin yn y prynhawn | 267 | 48 | 0 | -9 | 9 | 8 | 0 | 35 | 17 | **375** |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ar y penwythnos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **CYFANSWM** | **834** | **304** | **26** | **34** | **50** | **38** | **149** | **178** | **191** | **1804** |

Dyma'r sefyllfa ym mis Mehefin 2021 pan nad oedd rhai lleoliadau ar agor neu newydd ailagor, ac nid oedd teuluoedd wedi dychwelyd i ddefnyddio patrymau Gofal Plant cyn-bandemig. Roedd y ffurflen SASS hefyd yn caniatáu ar gyfer nodi sesiynau dwywaith (e.e. bore a diwrnod llawn). Felly, rhaid bod yn ofalus wrth bennu nifer y lleoedd gwag wrth gymharu'r lleoedd sydd ar gael a'r rhestrau aros.

DRAFT


## 9 Y CYFLENWAD GOFAL PLANT

Ar hyn o bryd mae 1,570 (Rhagfyr 2021) o leoedd Gofal Plant cofrestredig ar gael yng Ngheredigion. Mae hyn wedi gostwng 375 o leoedd ers cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf pan oedd 1,945 o leoedd (Mawrth 2017).

**Tabl 9.1: Cyfanswm nifer y lleoedd cofrestredig fesul math o Ofal Plant**

| | Nifer y lleoliadau | Nifer y plant wedi'u cofrestru i'w gofalu amdanynt ar hyn o bryd |
|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 8 | 131 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 21 | 456 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 6 | 306 |
| Gwarchodwr plant | 45 | 351 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 9 | 294 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 1 | 23 |
| Crèche | 1 | 9 |
| **CYFANSWM** | **91** | **1570** |

**Ffigur 9.1: Cyfanswm nifer y lleoedd cofrestredig fesul math o Ofal Plant**




Ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf rydym wedi newid ein methodoleg adrodd ar nifer y lleoedd ar gyfer y categori gofal dydd llawn. Roeddem wedi adrodd ar 8 lleoliad gofal dydd llawn yn y gorffennol. Fodd bynnag, dim ond sesiynau bore a phrynhawn a gynigiwyd gan 2 ohonynt mewn gwirionedd, ond oherwydd eu bod ar agor trwy'r dydd roedd ganddynt gofrestriad gofal dydd llawn gydag AGC. Wrth symud ymlaen a sicrhau cysondeb yn ein hadroddiadau rydym yn cofnodi'r ddau hyn fel gofal dydd llawn (sesiynol). Mae'r rhain yn unol â'r Cylchoedd

DRAFT

sydd bellach wedi cynyddu eu horiau agor o ganlyniad i'r Cynnig Gofal Plant. Nid oedd hyn yn eu gwahaniaethu oddi wrth Feithrinfeydd Dydd a oedd ar agor am ddiwrnodau llawn i blant 0-12 oed (fel yr amlinellir ym mharagraff cyntaf Adran 7).

**Tabl 9.2: Nifer y lleoedd cofrestredig 2017 – 2021:**

| Cyfanswm nifer y lleoedd Gofal Plant | Gwarchodwyr plant | Gofal Dydd Sesiynol | Gofal Dydd Llawn | Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | Crèche | Chwarae Mynediad Agored | Cyfanswm Lleoedd ar gael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2017 | 369 | 474 | 516 | 418 | 112 | 56 | **1945** |
| 31/03/2018 | 420 | 355 | 468 | 428 | 142 | 56 | **1869** |
| 31/03/2019 | 421 | 238 | 648 | 368 | 52 | 32 | **1759** |
| 31/03/2020 | 372 | 146 | 748 | 372 | 32 | 0 | **1670** |
| 31/03/2021 | 373 | 523 | 370 | 380 | 32 | 0 | **1624** |
| 31/12/2021 | 351 | 587 | 306 | 294 | 32 | 0 | **1570** |


Er bod nifer y lleoedd Gofal Plant wedi gostwng gan 375 o leoedd, mae'r tabl uchod yn dangos bod y golled fwyaf o leoedd wedi bod o fewn y categori Crèche a Chwarae Mynediad Agored. Er eu bod wedi'u cofrestru ag AGC, nid oedd y naill na'r llall o'r mathau hyn o Ofal Plant yn cynnig Gofal Plant a fyddai'n galluogi rhieni i fynd allan i weithio. Cofrestrwyd pob crèche gan RAY Ceredigion i redeg ochr yn ochr â chyrsiau rhianta Dechrau'n Deg. Mae'r rhain i gyd wedi'u dadgofrestru gan fod Dechrau'n Deg yn cynnig pob Crèche yn fewnol ac nid oes angen iddynt gofrestru gan eu bod yn gweithredu am lai na 2 awr. Nid oes unrhyw sesiynau Chwarae Mynediad Agored cofrestredig yng Ngheredigion ychwaith felly collwyd 56 o leoedd ers yr asesiad diwethaf.

Mae'r ffigurau y Tu Allan i Oriau Ysgol yn cynnwys un darparwr cofrestredig o Gynllun Chwarae Gwyliau Arbenigol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol sy'n darparu eu gwasanaethau o ddau leoliad i gefnogi teuluoedd yng Ngogledd a De'r sir.

Mae nifer y Gwarchodwyr Plant wedi parhau'n weddol sefydlog dros y ddwy flynedd ddiwethaf a thrwy gydol y pandemig, gyda Gwarchodwyr Plant newydd yn llenwi gofod gwarchodwyr plant sydd wedi dadgofrestru (ond nid o reidrwydd yn yr un lleoliadau). Fodd bynnag, ers 2017 mae'r niferoedd wedi gostwng o gyfartaledd o 55 i 45 yn 2021. Mae carfan fawr o Warchodwyr Plant sydd wedi bod yn darparu gwasanaeth i

deuluoedd Ceredigion ers blynyddoedd lawer, ac rydym yn parhau i recriwtio ac annog unigolion newydd i gael hyfforddiant a chofrestru mewn diwydiant hunangyflogedig, gwerth chweil a sefydlog. Oherwydd natur wledig Ceredigion rydym yn dibynnu mwy ar gael gwarchodwyr plant sydd ar gael ar draws y sir i ddarparu'r gofal gan fod hyn yn fwy cynaliadwy o'i gymharu ag agor darpariaeth gofal dydd llawn.

**Ffigur 9.2: Cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant fesul math o ofal plant Mawrth 2017 - Rhagfyr 2021**




Gyda chyflwyniad y Cynnig Gofal Plant, bu cynnydd mewn 'Gofal Dydd Llawn' ar ffurf lleoliadau sesiynol yn cofrestru fel Gofal Dydd Llawn fel y gwelir yn y graff yn 31/03/2020. Mae hyn yn dangos y cynnydd ar gyfer y cyfnod hwnnw mewn cofrestriadau Gofal Dydd Llawn, a'n bod ni'n adrodd yn hanesyddol ar 8 Meithrinfa Gofal Dydd. Ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, agorodd a chaeodd Meithrinfa Gofal Dydd Llawn mewn ardal a nodwyd yn y gorffennol fel ardal o angen.

Mae un Cylch Meithrin newydd yn cael ei gofrestru gydag AGC ar gyfer 19 o leoedd mewn uned newydd a ariennir gan arian Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ymchwilio i'r posibilrwydd o ailagor dau glwb ar ôl ysgol newydd a gaeodd yn ystod y pandemig oherwydd diffyg aelodau pwyllgor i reoli'r ddarpariaeth. Bydd y ddau glwb newydd yn cael eu rhedeg gan Fudiad Meithrin trwy'r cofrestriad Dechrau'n Deg.

Oherwydd y ddarpariaeth o adeilad Dechrau'n Deg newydd mwy o faint i gymryd lle'r caban (a ariennir gan Ddechrau'n Deg a Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant) mae posibilrwydd o gynyddu'r lleoliad o 19 o leoedd cofrestredig yn y dyfodol.

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth am nifer y lleoedd ym mhob Clwb Ar Ôl Ysgol anghofrestredig.

**Tabl 9.3: Gwahaniaeth canrannol mewn lleoedd Gofal Plant o gymharu â nifer y plant**

| Cyfanswm nifer y lleoedd Gofal Plant | Cyfanswm Lleoedd ar gael | Cyfanswm nifer y plant 0-12 oed | Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol Seiliedig ar 2018 - | % y lleoedd sydd ar gael | Nifer y lleoedd sydd ar gael fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| **2017** | 1,945 | 8,812 | - | 22 | 220.7 |
| **2018** | 1,869 | 8,815 | 8,815 | 21 | 212.0 |
| **2019** | 1,759 | 8,732 | 8,786 | 20 | 201.4 |
| **2020** | 1,670 | 8,612 | 8,745 | 19 | 193.9 |
| **2020-2021** | 1,624 | - | 8,692 | - | - |
| **2021- 2022** | 1,570 | - | 8,631 | - | - |
| **% Newid o 2017-2020** | -14.1 | -2.3 | | | |

Yn Mehefin 2021 - roedd 22.44% o'r holl blant 0-12 oed yn mynychu gofal plant.

Mae cyfran y lleoedd sydd ar gael i blant 0-12 oed wedi gostwng o 22% yn 2017 i 19% yn 2020, ac mae'n parhau i ostwng.
Mae angen bod yn ofalus wrth edrych ar y gostyngiad mewn lleoedd gofal plant oherwydd dadgofrestru darpariaeth Chwarae Mynediad Agored a Crèche yn 2019. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn 2020-2021 oherwydd cau lleoliadau ar ôl ysgol a gofal dydd llawn yn peri pryder.

Er bod y boblogaeth 0-12 oed a chyfanswm y lleoedd sydd ar gael wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfanswm y lleoedd sydd ar gael wedi gostwng yn gyflymach na'r boblogaeth 0-12 oed. Mae hyn i'w weld yn y % o newid yng nghyfanswm y lleoedd sydd ar gael a'r boblogaeth 0-12 rhwng 2017 a 2020. Mae'r gostyngiad hefyd i'w weld yn nifer y lleoedd sydd ar gael fesul 1,000 o'r boblogaeth.

Mae’r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf ar sail 2018 yn dangos y rhagwelir y bydd y boblogaeth 0-12 oed yn parhau i ostwng. (Mae’r rhagamcanion yn seiliedig ar ragdybiaethau a thueddiadau cyn 2020, sy’n esbonio’r cynnydd ymddangosiadol rhwng gwir 2020 a rhagamcan 2021).

Gofynnodd y SASS i ddarparwyr gofnodi a oeddent yn derbyn Gofal Plant di-dreth neu dalebau Gofal Plant, ac nid y manylion am nifer y lleoedd y gellid eu defnyddio, felly nid yw'n cael ei nodi yma. Ceir rhagor o fanylion am gymorth ariannol i rieni yn Adran 18.

**Tabl 9.4: Nifer y darparwyr sy'n derbyn talebau Gofal Plant neu Ofal Plant di-dreth**

| **Nifer y darparwyr sy'n derbyn talebau Gofal Plant neu Ofal Plant di-dreth** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | | | | 1 | 1 | 1 | 2 | | 1 | 6 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 2 | 2 | 2 | | 3 | 1 | 2 | 1 | 4 | 17 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 1 | 1 | 1 | 1 | | 2 | | | | 6 |
| Gwarchodwr plant | 4 | | 5 | 5 | 1 | 2 | 6 | 4 | 2 | 29 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 1 | | 1 | 1 | | 1 | | | 1 | 5 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | | | | 0 | | | | | | 0 |
| Crèche | | | | | | | 0 | | | 0 |
| **CYFANSWM** | **8** | **3** | **9** | **8** | **5** | **7** | **10** | **5** | **8** | **63** |

**DARPARIAETH IAITH**

Newidiodd AGC y modd y cofnodir darpariaeth iaith o 4 categori: *Cymraeg; Cymraeg a Saesneg; Saesneg gyda pheth elfen ddwyieithog; Saesneg*; i 3 chategori sef*: Cymraeg; y ddwy iaith; neu Saesneg.*


Mae'r Gwarchodwyr Plant a'r Meithrinfeydd Dydd fel darparwyr preifat yn hysbysebu eu gwasanaethau fel rhai sy'n cael eu darparu yn y ddwy iaith i fod yn gynhwysol i bob teulu. Nododd 1 gwarchodwr plant hefyd ei fod yn cynnig Iaith Arwyddion yn ei ddarpariaeth iaith.

**Tabl 9.5: Prif iaith/ieithoedd eich gwasanaeth**

DRAFT

| Prif iaith/ieithoedd eich gwasanaeth | Y Borth a Bont-goch | | Aberystwyth – Gogledd | | Aberystwyth – De | | Aberaeron a Llanrhystud | | Ceinewydd a Phenbryn | | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | | Aberteifi ac Aber-porth | | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | | Rheidol, Ystwyth a Charon | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ieithoedd eraill a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth** | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | Cymraeg / Y ddau | Saesneg | **CYFANSWM** |
| Gofal Dydd Sesiynol | 1 | | | | | | 2 | | 1 | | 1 | | 2 | | | | 1 | | **8** |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 2 | | 1 | 1 | 2 | | 1 | | 3 | 1 | 1 | | 3 | | 1 | | 5 | | **21** |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 1 | | 1 | 1 | | | 1 | | | | 2 | | | | | | | | **6** |
| Gwarchodwr plant | 2 | 3 | | | 3 | 3 | 2 | 4 | | 3 | 3 | | 7 | 5 | 5 | 3 | 1 | 1 | **45** |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 1 | | | | 2 | | 1 | | 1 | | 1 | | | | 1 | | 2 | | **9** |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | | | | | | | 1 | | | | | | | | | | | | **1** |
| Crèche | | | | | | | | | | | | | 1 | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **7** | **3** | **2** | **2** | **7** | **3** | **8** | **4** | **5** | **4** | **8** | **0** | **13** | **5** | **7** | **3** | **9** | **1** | **91** |

**Ffigur 9.3: Prif iaith/ieithoedd eich gwasanaeth fesul AGEHG**




- O gyfanswm o 345 o staff dim ond 41 oedd yn siarad ychydig neu ddim Cymraeg (17%).

| **Tabl 9.6: Iaith Staff<br>Gallu staff i siarad Cymraeg** | **Nifer y lleoliadau** | **Faint o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg?** | **Faint o staff sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg?** | **Faint o staff sy'n gallu siarad ychydig neu ddim Cymraeg?** |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 8 | 25 | 7 | 0 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 21 | 85 | 24 | 6 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 6 | 69 | 17 | 25 |
| Gwarchodwr plant | 45 | 19 | 10 | 8 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 9 | 33 | 5 | 2 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 1 | 3 | 2 | 0 |
| Crèche | 1 | 3 | 2 | 0 |
| **CYFANSWM** | **91** | **237** | **67** | **41** |

**ORIAU AGOR:**

Mae pob lleoliad yn gosod ei amser dechrau a gorffen ei hun yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae rhai gwasanaethau Gofal Dydd Sesiynol a Gofal Dydd Llawn Sesiynol yn darparu 'clwb brecwast' o 8.30am, ond mae'r rhan fwyaf yn agor am 9.00am. Yr amseroedd gorffen yw 12:00pm os yw'n sesiwn bore yn unig, neu 15:15 os yw'n darparu dwy sesiwn neu 'ofal dydd llawn'. Yn gyffredinol mae Meithrinfeydd Gofal Dydd Llawn a Gwarchodwyr Plant ar agor o 8.00am tan 18:00.

**Tabl 9.7: Oriau agor**
Rhestrir yr amseroedd dechrau a gorffen mwyaf cyffredin isod ar gyfer pob math o leoliad

| Math o ofal | CYFANSWM y darparwyr | Math o ofal | Amser dechrau | Amser gorffen | ORIAU AGOR DYDDIOL AR GYFARTALEDD |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Dydd Sesiynol** | 8 | Tymor ysgol yn unig | 09:00 | 12:00 neu 15:15 | 3:50 |
| **Gofal Dydd Llawn Sesiynol** | 18 | Tymor ysgol yn unig | 08:30 | 15:15 | 6:00 |
| **Gofal Dydd Llawn Sesiynol** | 3 | Tymor ysgol a gwyliau | 09:00 | 17:00 | 8:00 |
| **Meithrinfa Gofal Dydd Llawn** | 6 | Tymor ysgol a gwyliau | 08:00 | 18:00 | 10:00 |
| **Gwarchodwr plant** | 1 | Tymor ysgol yn unig | 08:00 | 16:00 | 8:00 |
| **Gwarchodwr plant** | 1 | Tymor ysgol yn unig / Ar ôl ysgol | 15:00 | 17:00 | 2:00 |
| **Gwarchodwr plant** | 43 | Tymor ysgol a gwyliau | 08:00 | 17:30 | 9:00 |
| **Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol** | 5 | Tymor ysgol yn unig | 15:30 | 18:00 | 2:30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol** | 2 | Tymor ysgol a gwyliau | 15:20 | 17:45 | 2:30 awr gofal ar ôl oriau ysgol a 9:00 awr yn ystod y gwyliau |
| **Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol** | 2 | Gwyliau yn unig | 09:30 | 15:30 | 6:00 |
| **Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau** | 1 | Tymor ysgol a gwyliau | 08:30 | 17:30 | 9:00 |
| **Crèche** | 1 | Tymor ysgol yn unig | 09:30 | 13:30 | 4:00 |

Mae'r rhan fwyaf o Ofal Dydd Sesiynol, Gofal Dydd Llawn Sesiynol, a Chlybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol ar agor o leiaf 3 diwrnod yr wythnos hyd at 5 diwrnod yr wythnos
Mae Meithrinfeydd Gofal Dydd Llawn ar agor 5 diwrnod yr wythnos, ac mae diwrnodau Gwarchodwyr Plant yn amrywio o 2 i 7 diwrnod yr wythnos.
Rhaid i rieni wirio'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** i gysylltu â'r darparwr Gofal Plant yn uniongyrchol ar gyfer ei oriau a'i ddiwrnodau agor.
Nid yw unrhyw ddarparwr yn cynnig gofal dros nos. Dim ond 3 gwarchodwr plant sy'n cynnig gofal ar ddydd Sadwrn ac un gofal ar ddydd Sul.
Nid oes digon o alw am Ofal Plant yng Ngheredigion y tu allan i'r oriau arferol.

**Tabl 9.8: Oriau Dyddiol Ar Gyfartaledd**

| | | ORIAU AGOR DYDDIOL AR GYFARTALEDD | Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener | Sadwrn | Sul | Gofal dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | Tymor ysgol yn unig | 03:50 | 7 | 8 | 8 | 8 | 7 | 0 | 0 | na |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | Tymor ysgol yn unig | 06:00 | 17 | 18 | 18 | 18 | 16 | 0 | 0 | na |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | Tymor ysgol a gwyliau | 08:00 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | na |

DRAFT

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | Tymor ysgol a gwyliau | 10:00 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 0 | 0 | na |
| Gwarchodwr plant | Tymor ysgol yn unig | 08:00 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | na |
| Gwarchodwr plant | Tymor ysgol yn unig / Ar ôl ysgol | 02:00 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | na |
| Gwarchodwr plant | Tymor ysgol a gwyliau | 09:00 | 34 | 40 | 42 | 40 | 32 | 3 | 1 | na |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | Tymor ysgol yn unig | 02:30 | 3 | 3 | 4 | 4 | 1 | 0 | 0 | na |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | Tymor ysgol a gwyliau | 02:20 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | na |
| Oriau gwyliau Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | Tymor ysgol a gwyliau | 09:00 | | | | | | | | |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | Gwyliau yn unig | 06:00 | | | | | | | | |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | Tymor ysgol a gwyliau | 09:00 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | na |
| Crèche | Tymor ysgol yn unig | 04:00 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | |

**FFIOEDD:**
Mae'r ffioedd a godir yn amrywio rhwng pob lleoliad. Codir rhai fesul awr neu fesul sesiwn / dydd. Cyfrifwyd y cyfartaledd gan bob darparwr: Mae'r wybodaeth isod i gyd yn seiliedig ar y SASS o fis Mehefin 2021. Fodd bynnag, mae llawer o ddarparwyr yn adrodd y byddant yn cynyddu eu ffioedd ym mis Ebrill oherwydd y cynnydd yng nghyflogau staff, cyfraniadau YG a chostau pensiwn.

**Tabl 9.9: Ffioedd Cyfartalog a godir fesul oedran:**

| Ffioedd a godir | Swm a godir fesul awr | Swm a godir fesul sesiwn | Swm a godir y dydd | Swm a godir yr wythnos |
|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £4.40 | £34.35 | £41.40 | £227.50 |

DRAFT


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| plant 1 oed | £4.49 | £28.86 | £42.88 | £227.50 |
| plant 2 oed | £4.16 | £19.67 | £31.58 | £84.50 |
| plant 3 oed | £4.25 | £19.52 | £36.36 | £125.00 |
| plant 4 oed | £4.45 | £13.64 | £31.87 | £42.50 |
| plant 5-7 oed | £4.25 | £12.92 | £26.88 | £60.00 |
| 8-11 oed | £4.41 | £12.85 | £24.88 | £85.00 |
| CYFARTALEDD plant 0-11 oed | 4.34 | 20.26 | 33.69 | 121.71 |

**Tabl 9.10: Ffioedd a godir fesul grŵp oedran**

| | plant 2 oed | | plant 3 oed | | plant 4 oed | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ystod o ffioedd a godir gan leoliadau** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** |
| Gofal Dydd Sesiynol | £6.50 – £34.50 | £10.00 – £25.00 | £4.00 – £24.50 | £3.50 | £7.00 – £24.50 | £3.50 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | £5.00 – £16.00 | £20.00 – £32.50 | £1.00 – £16.00 | £14.25 – £32.50 | £1.00 – £16.00 | £19.50 – £32.50 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | £27.00 – £45.50 | £37.00 – £51.75 | £25.25- £45.50 | £45.00 – £51.75 | £12.00 – £45.00 | £12.00 – £51.75 |
| Gwarchodwr plant | £22.50 | £32.00 – £45.00 | £20.00 – £22.50 | £32.00 – £45.00 | £10.00 | £32.00 – £36.00 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | | | | | £6.50 – £14.00 | £28.00 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | | | £12.50 | | £12.50 | |
| Crèche | | | | | | |

DRAFT

**Ffigur 9.4: Ffioedd a godir ar blant 0-11 oed**




**Tabl 9.11: Ffioedd a godir fesul math o Ddarparwr: Sesiynol**

| Gofal Dydd Sesiynol | | | | | | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffioedd a godir** | **Swm a godir fesul awr** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir yr wythnos** | | **Ffioedd a godir** | **Swm a godir fesul awr** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir yr wythnos** |
| **O dan 1 oed** | £0.00 | | | | | **O dan 1 oed** | | | | |
| **plant 1 oed** | £0.00 | | | | | **plant 1 oed** | | | | |
| **plant 2 oed** | | £12.29 | £17.50 | £16.00 | | **plant 2 oed** | £3.50 | £9.54 | £25.19 | £10.00 |
| **plant 3 oed** | | | | | | **plant 3 oed** | £3.83 | £9.43 | £23.81 | £22.50 |
| **plant 4 oed** | | | | | | **plant 4 oed** | | | | |
| **plant 5-7 oed** | | | | | | **plant 5-7 oed** | | | | |
| **8-11 oed** | | | | | | **8-11 oed** | | | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFARTALEDD plant 0-3 oed** | **£0.00** | **£12.29** | **£17.50** | **£16.00** | | **CYFARTALEDD plant 0-3 oed** | **£3.90** | **£9.92** | **£24.48** | **£19.17** |
| | | | | | | | | | | |
| **plant 4 oed** | | | | | | **plant 4 oed** | £4.26 | £9.64 | £26.40 | £25.00 |
| **plant 5-7 oed** | | | | | | **plant 5-7 oed** | £4.00 | £12.50 | £25.00 | |
| **8-11 oed** | | | | | | **8-11 oed** | | £8.50 | £22.00 | |
| **CYFARTALEDD plant 0-11 oed** | **£0.00** | **£0.00** | **£0.00** | **£0.00** | | **CYFARTALEDD – plant 4-11 oed** | **£4.13** | **£10.21** | **£24.47** | **£25.00** |

**Tabl 9.12: Ffioedd a godir fesul math o Ddarparwr: Meithrinfa Gofal Dydd Llawn/Gwarchodwr Plant:**


| **Meithrinfa Gofal Dydd Llawn** | | | | | | **Gwarchodwr plant** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd a godir | **Swm a godir fesul awr** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir yr wythnos** | | Ffioedd a godir | **Swm a godir fesul awr** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir yr wythnos** |
| **O dan 1 oed** | £4.50 | £34.35 | £46.79 | £227.50 | | **O dan 1 oed** | £4.30 | | £36.00 | |
| **plant 1 oed** | £4.50 | £35.22 | £47.75 | £227.50 | | **plant 1 oed** | £4.47 | £22.50 | £38.00 | |
| **plant 2 oed** | £4.50 | £34.35 | £45.96 | £227.50 | | **plant 2 oed** | £4.49 | £22.50 | £37.67 | |
| **plant 3 oed** | £4.50 | £34.47 | £47.60 | £227.50 | | **plant 3 oed** | £4.43 | £21.67 | £37.67 | |
| **plant 4 oed** | | | | | | **plant 4 oed** | £4.58 | £10.00 | £34.00 | |
| **plant 5-7 oed** | | | | | | | | | | |
| **8-11 oed** | | | | | | | | | | |

DRAFT

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFARTALEDD plant 0-3 oed** | **£4.50** | **£34.60** | **£47.03** | **£227.50** | | **CYFARTALEDD plant 0-3 oed** | **£4.45** | **£19.17** | **£36.67** | **£0.00** |
| | | | | | | | | | | |
| **plant 4 oed** | £4.50 | £27.32 | £39.06 | £60.00 | | **plant 4 oed** | £4.58 | £10.00 | £34.00 | |
| **plant 5-7 oed** | | £12.00 | £12.00 | £60.00 | | **plant 5-7 oed** | £4.49 | £18.83 | £42.50 | |
| **8-11 oed** | | £12.00 | £12.00 | £60.00 | | **8-11 oed** | £4.41 | £22.50 | £37.50 | £110.00 |
| **CYFARTALEDD – plant 4-11 oed** | **£4.50** | **£17.11** | **£21.02** | **£60.00** | | **12-14 oed** | £4.25 | £22.50 | £45.00 | |
| | | | | | | **15-17 oed** | £9.50 | | | |
| | | | | | | **CYFARTALEDD – plant 4-17 oed** | **£5.45** | **£18.46** | **£39.75** | £110.00 |

DRAFT

**Ffigur 9.5: Cymharu ffioedd Meithrinfa Ddydd : Gwarchodwr plant 0-3 oed**




**Tabl 9.13: Ffioedd a godir fesul math o Ddarparwr: Cynllun Chwarae y Tu Allan i Oriau Ysgol / Crèche a Gwyliau**

| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | | | | | | Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd a godir | **Swm a godir fesul awr** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir yr wythnos** | | Ffioedd a godir<br>Gofal Dydd Sesiynol | **Swm a godir fesul awr** | **Swm a godir fesul sesiwn** | **Swm a godir y dydd** | **Swm a godir yr wythnos** |
| **O dan 1 oed** | | | | | | **O dan 1 oed** | | | | |
| **plant 1 oed** | | | | | | **plant 1 oed** | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **plant 2 oed** | | | | | | **plant 2 oed** | | | | |
| **plant 3 oed** | | | | | | **plant 3 oed** | | £12.50 | | |
| **plant 4 oed** | | £8.75 | £28.00 | | | **plant 4 oed** | | £12.50 | | |
| **plant 5-7 oed** | | £8.75 | £28.00 | | | **plant 5-7 oed** | | £12.50 | | |
| **8-11 oed** | | £8.75 | £28.00 | | | **8-11 oed** | | £12.50 | | |
| **CYFARTALEDD plant 4 – 11 oed** | **£0.00** | **£8.75** | **£28.00** | **£0.00** | | **CYFARTALEDD plant 3-11 oed** | **£0.00** | **£12.50** | **£0.00** | **£0.00** |

**ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)** (Gweler Adran 6 ar gyfer data ADY)

**Lleoedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anghenion Addysgol Arbennig neu lle mae angen gofal arbenigol oherwydd anabledd**

Mae lleoliadau gofal sesiynol a gofal dydd llawn yn deall y system atgyfeirio i'r Cynllun Cyfeirio. Mae pob darparwr Gofal Plant wedi cael gwybodaeth a mynediad i hyfforddiant am y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cafodd modiwlau hyfforddi pwrpasol eu datblygu a'u cyflwyno'n rhithiol gan Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys Anghenion Datblygol a Sut i Ysgrifennu Proffil 1 Tudalen, a bwriedir i hyfforddiant cyfartal ar draws y sector ddarparu dull cyson o nodi'r anghenion datblygol ac anghenion ychwanegol a theilwra darpariaeth ar gyfer yr anghenion hyn. Mae gwarchodwyr plant wedi rhoi adborth cadarnhaol ac yn ddiolchgar am y cyfle i fanteisio ar yr un cyfleoedd hyfforddi ag eraill yn y sector.

**Tabl 9.14: Nifer y plant ag anawsterau dysgu neu anableddau:**

| Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anghenion Addysgol Arbennig | Cyfanswm y plant (pob oed) y nodwyd yn ffurfiol bod ganddynt anawsterau neu anableddau dysgu |
|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 21 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 47 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 8 |
| Gwarchodwr plant | 5 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 20 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 0 |
| Crèche | 0 |
| **CYFANSWM** | **101** |

**Cymorth ariannol ar gyfer lleoliadau sydd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae prosesau ADY y Blynyddoedd Cynnar wedi'u datblygu i fodloni gofynion y Cod ADY. Mae holl ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn unol â'r Cod. Mae hyfforddiant ac adnoddau wedi'u darparu i bob ymarferydd a lleoliad. Mae Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a chyfarfodydd adolygu wedi'i sefydlu gyda theuluoedd a phlant yn ganolog i'r broses.

Gall plant cyn ysgol sy'n mynychu lleoliadau nas cynhelir y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt gael hyd at 10 awr o gymorth ychwanegol trwy'r cynllun atgyfeirio Dwylo Ychwanegol o'r enw **Cynllun Cyfeirio.** Mae hyn yn dibynnu ar anghenion y plentyn, a gall ariannu staff ac adnoddau ychwanegol i weithredu strategaethau ymyrraeth gynnar megis cymorth Lleferydd ac Iaith. Ariennir y cynllun hwn gan Ddechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Ysgolion.

Mae panel amlasiantaethol yn cwrdd (gan gynnwys cynrychiolwyr o'r cyllidwyr ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Tîm o Amgylch y Teulu, Mudiad Meithrin a rhiant) i drafod atgyfeiriadau i'r cynllun bob hanner tymor. Mae'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r Cynllun yn cydweithio i gefnogi gofynion y cod ADY.

Fodd bynnag, dim ond i blant 2-4 oed yn ystod y tymor ysgol y mae'r Cynllun Atgyfeirio ar gael. Nid oes unrhyw gymorth ariannol i blant o dan 2 oed ac yn ystod y gwyliau. Gyda mwy a mwy o blant yn cael eu nodi fel rhai â phroblemau lleferydd ac iaith, mae hyn yn creu mwy o alw am gymorth tra bo gwasanaethau yn cael eu gorfodi i wneud toriadau i'r gyllideb.

Er mwyn sicrhau bod y staff priodol yn cael eu hyfforddi i ddarparu'r cymorth ychwanegol, mae staff yn y lleoliadau yn derbyn hyfforddiant Elklan i gefnogi'r plant yn y lleoliad. Yna gall y staff cymorth 1:1 helpu'r plant eraill a gall y staff hyfforddedig ddarparu'r cymorth arbenigol. Mae hyn wedi lleihau'r angen i hyfforddi'r trosiant uchel o staff 1:1 gydag Elklan. Mae hyn i'w weld yn fwy cost-effeithiol.

DRAFT

Gall lleoliadau Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol sy'n gofalu am blant oed ysgol ag anghenion ychwanegol gael cymorth ychwanegol trwy'r Cynllun Ymuno a weinyddir gan sefydliad trydydd sector DASH. Ariennir y cymorth gan y Rhaglen Gofal Plant a Chwarae o fewn Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae'r cymorth hwn wedi'i gyfyngu i 200 awr y plentyn y flwyddyn. Pan fydd y plentyn yn cyrraedd y trothwy 200 awr, mae angen i'r teulu neu'r lleoliad dalu costau'r staff cymorth 1:1. Oherwydd y toriadau cyllid a'r cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol ac argostau, mae'r cymorth a gynigir gan DASH wedi golygu mai dim ond £8.25 yr awr y gallant ei dalu yn 2021-2022 (i fyny o £7.00 yn 2017). Mae hyn yn golygu nad yw'r cymorth yn bodloni'r gofyniad isafswm cyflog. Felly mae'n rhaid i leoliadau wneud iawn am y diffyg i dalu cyflogau staff. Unwaith eto mae hyn yn cael effaith ar gynaliadwyedd lleoliad.

Yn ogystal, mae recriwtio staff cymorth / Dwylo Ychwanegol yn broblem i leoliadau:

| Adborth o'r Ymgynghoriad Darparwyr |
| --- |
| *"Fel arfer dim ond uchafswm o 10 awr o gymorth un-i-un y mae plentyn ag anghenion ychwanegol yn ei gael. Mae hyn yn profi'n anodd wrth geisio cyflogi person gan nad yw 10 awr o waith yr wythnos yn ddigon i dalu biliau/Gofal Plant ac ati. Nid yw hyn yn ddigon o oriau ar gyfer y plentyn hwnnw fel arfer hefyd. Os yw'r plentyn hwnnw'n mynychu mwy na 10 awr yr wythnos (a dyna sy'n digwydd fel arfer) yna nid yw'r plentyn hwnnw'n cael digon o gymorth un-i-un. Os yw'r plentyn hwnnw yn mynychu 15 awr yr wythnos, mae hynny'n gadael 5 awr yr wythnos heb unrhyw gymorth."* |

**Tabl 9.15: Nifer yn derbyn Cefnogaeth Cynllun Cyfeirio 2018-2021:**

| Blwyddyn | Nifer sy'n derbyn cymorth Cynllun Cyfeirio |
| --- | --- |
| 2016 | |
| 2017 | |
| 2018 | 131 |
| 2019 | 130 |
| 2020 | 102 |
| 2021 | 155 |
| 2022 | Ddim ar gael eto |

**CAM GWEITHREDU: Monitro cyllid y ddarpariaeth yn erbyn nifer y plant sydd angen cymorth ychwanegol mewn lleoliadau Gofal Plant.**

I gael gwybodaeth a data ar nifer y plant ag anableddau gweler Adran 6 (poblogaeth):

**Nifer y plant ag ADY neu sy'n aros am asesiad ffurfiol sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Anabledd – Dosbarthiad Daearyddol**


Dywedodd lleoliadau fod 101 o blant (o bob oed) wedi'u nodi'n ffurfiol fel rhai ag anawsterau dysgu neu anableddau.
Nid yw'r tabl wedi'i gynnwys ar gyfer y 9 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol oherwydd y niferoedd isel iawn, ac mae'n bosibl y bydd modd adnabod rhai plant o fewn y lleoliadau. Nid yw mathau o anghenion ADY (Gwybyddol; Ymddygiad; Cyfathrebu; Synhwyraidd neu Gorfforol) wedi'u dadansoddi ychwaith yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol oherwydd y niferoedd isel.

Fodd bynnag, cyfrifwyd canran y plant ADY o'i gymharu â chofrestri'r lleoliadau yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol isod:

**Tabl 9.16: Canran y plant ag anawsterau dysgu neu anableddau fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol**

| | **% y plant (pob oed) y nodwyd yn ffurfiol bod ganddynt anawsterau dysgu neu anableddau** |
|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 2.7 |
| Aberystwyth – Gogledd | 2.7 |
| Aberystwyth – De | 8.7 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 3.2 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 8 |

**Ffigur 9.6: Canran y plant ag anawsterau dysgu neu anableddau fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol**




*Mae De Aberystwyth yn cynnal y Cynllun Chwarae Gwyliau Arbenigol ar gyfer gogledd y sir yn y ffigur hwn felly nid yw'n gynrychioliadol o anghenion ADY yr ardal.


| | |
|---|---|
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 7.9 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 6.5 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 10.1 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 7.9 |

Ffigurau wedi diwygio i eithrio Cynllun Chwarae Gwyliau Arbenigol

**Tabl 9.17: Canran y plant ag anawsterau dysgu neu anableddau fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol - ac eithrio Cynllun Chwarae Gwyliau Arbenigol**

| Heb ddata Cynllun Chwarae Gwyliau Arbenigol: | % y plant (pob oed) y nodwyd yn ffurfiol bod ganddynt anawsterau dysgu neu anableddau |
|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 2.7 |
| Aberystwyth – Gogledd | 2.7 |
| Aberystwyth – De | 1.8 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 3.2 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 8 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 7.9 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 6.5 |

**Ffigur 9.7: Canran y plant ag anawsterau dysgu neu anableddau fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol - ac eithrio Cynllun Chwarae Gwyliau Arbenigol**




DRAFT

| | |
|---|---|
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 10.1 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 7.9 |

**Nifer y plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd mewn ysgolion**

Yn 2020-2021 dangosodd y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) fod 2433 o ddisgyblion oedran ysgol yng Ngheredigion ag Anghenion Addysgol Arbennig a bod y ffigurau wedi gostwng ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf.

Mae'r rhaglen Gofal Plant a Chwarae yn ariannu cymorth 'Ymuno' ychwanegol i alluogi plant ag anghenion ychwanegol i fynychu darpariaeth ar ôl ysgol. Yng Ngheredigion nid yw plant yn derbyn cymorth 1:1 mewn ysgolion, ond gallai cronfa Ymuno ariannu cymorth ychwanegol – naill ai staff ychwanegol neu adnoddau i alluogi'r plentyn i fynychu darpariaeth Gofal Plant prif ffrwd.

Nid yw dau o'r Clybiau Ar Ôl Ysgol a dderbyniodd gymorth Ymuno i blant yn eu gofal wedi ailagor ers i gyfyngiadau'r pandemig gael eu codi, ac felly nid oes galw am y cyllid hwn. Mae hwn yn bryder sydd wedi'i drafod â'r sefydliad dan gontract DASH sy'n rheoli'r gwasanaeth ar ran Cyngor Sir Ceredigion a'r Uned Gofal Plant.

**CAM GWEITHREDU: Ymchwilio i'r galw am gymorth Ymuno mewn lleoliadau allweddol a darparu gwasanaeth.**
**Tabl 9.18: Nifer y disgyblion ag anghenion ychwanegol arbennig 2015-2021**

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ag anghenion ychwanegol arbennig |
|---|---|
| 2015 – 2016 | 2739 |
| 2016 – 2017 | 2,765 |
| 2017 – 2018 | 2,705 |
| 2018 – 2019 | 2,661 |
| 2019 – 2020 | 2,617 |
| 2020 – 2021 | 2,433 |
| 2021 – 2022 | Ddim ar gael eto |

DRAFT

## 9.1 GWARCHODWYR PLANT

**Mae dadansoddiad llawn o ddata gwarchodwyr plant ar gael uchod yn yr Adran 7 - Trosolwg.**

**Lleoedd Gwag Gwarchodwyr Plant**

Mae gwarchodwyr plant yn gweithredu o'u cartrefi ac mae'r nifer y maent wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn cael ei bennu gan y lle sydd ar gael yn y cartref. Er bod llawer o warchodwyr plant wedi'u cofrestru ar gyfer 10, mae rhai yn derbyn llai o blant nag y maent wedi'u cofrestru ar eu cyfer am sawl rheswm yn dibynnu ar y sefyllfa bersonol sy'n cynnwys: dewis personol i gadw niferoedd yn isel; sydd newydd gofrestru ac yn cynyddu eu niferoedd yn raddol; capasiti ceir ar gyfer teithiau ysgol mewn ardal wledig; cymarebau sy'n pennu oedran y plant e.e. dim ond 2 blentyn o dan 18 mis a ganiateir, a rhaid iddynt gynnwys eu plant eu hunain o fewn y cymarebau. Felly, nid yw dadansoddi'r bwlch mor syml â chymharu'r niferoedd y cofrestrwyd ar eu cyfer yn erbyn nifer y plant ar eu cofrestr. Mae gan rai gwarchodwyr plant lawer o blant rhan-amser ac felly mae ganddynt fwy ar eu cofrestr nag sydd wedi'u cofrestru ar eu cyfer, ac maent yn cynnig gofal ar ôl ysgol i blant ychwanegol.


Ymatebodd un darparwr gan ddweud fod plant cymwys, ers y Cynnig Gofal Plant, yn manteisio ar y Gofal Plant mewn lleoliad sesiynol, ond plant o dan 2 oed oedd y prif grŵp oedran gyda gwarchodwr plant.

> *"Mae niferoedd gwarchodwyr plant yn cael eu heffeithio gan y Cylch Meithrin lleol sy'n derbyn plant o 2 oed ymlaen. Mae rhieni'n aml yn ceisio gofal cofleidiol ar gyfer y plant hyn sy'n effeithio ar y cymarebau plant.*"

DRAFT

Mae'r graff yn dangos bod gan rai Gwarchodwyr Plant bron i ddwbl nifer y plant ar eu cofrestr na'r hyn y maent wedi'u cofrestru ar eu cyfer. Mae hyn yn aml oherwydd y galw rhan-amser am ddarpariaeth Gofal Plant, a natur hyblyg Gwarchodwyr Plant i gynnig lleoedd ar ôl ysgol o fewn eu cymarebau oedran.

**Ffigur 9.1.1: Lleoedd gwag gyda Gwarchodwyr Plant**




## 9.2 MEITHRINFA GOFAL DYDD LLAWN

**Mae dadansoddiad llawn o ddata Meithrinfa Gofal Dydd Llawn ar gael yn yr 'Adran Trosolwg':**

Dim ond 6 Meithrinfa Gofal Dydd Llawn gofrestredig sydd yn y sir. Mae diffyg gofal dydd llawn yn parhau i fod yn broblem yn ne'r sir oherwydd nid yw darpariaeth wedi datblygu ers yr asesiad diwethaf. Mae un cais wedi'i gyflwyno am ganiatâd cynllunio i agor meithrinfa newydd, ond oherwydd pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â lefelau ffosffad ar lan afon Teifi, mae prosesu ceisiadau cynllunio wedi'i ohirio dros dro. Mae hon yn broblem fawr gan ei bod yn effeithio ar ddatblygiad busnes preifat newydd a allai fod wedi mynd i'r afael â'r bwlch ar gyfer darpariaeth gofal dydd llawn yn ne'r sir.

| | |
|---|---|
| | Agorodd Meithrinfa Gofal Dydd Llawn ychwanegol yn ystod cyfnod adrodd diwethaf yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan gynnig 19 o leoedd yng nghanolbarth Ceredigion. Yn anffodus, caeodd y lleoliad hwn yn 2021 gan arwain at golli lleoliad Gofal Dydd Llawn a oedd hefyd yn cynnig Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal.<br><br>Mae galw mawr o hyd am ddarpariaeth gofal dydd llawn gan fod y meithrinfeydd dydd yn adrodd bod ganddynt restrau aros i'r rhai sydd am ddechrau ar unwaith mewn rhai ardaloedd. Ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, agorodd un Feithrinfa Gofal Dydd Llawn yng nghanol y sir, ond yn anffodus caeodd o fewn dwy flynedd, sy'n dangos yr heriau a wynebir gan ddarparwyr i gynnal eu busnes.<br><br>Mae cyfraddau ariannu a ffioedd hefyd yn parhau i fod yn broblem. Mae cynnydd yn yr isafswm cyflog, YG a phensiynau yn mynd i gael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd rhai lleoliadau (hyd yn oed heb ystyried costau byw uwch). Mae pryder na fydd rhieni'n gallu talu ffioedd uwch ac na fydd cyfraddau ariannu'r Cynnig Gofal Plant newydd yn talu'r costau.<br><br>Mae pryder cynyddol fod ysgolion yn cystadlu am y plant 3 a 4 oed. Gyda'r cymarebau staffio uchel sydd eu hangen ar gyfer plant iau, mae meithrinfeydd yn ei chael hi'n anodd bod yn gynaliadwy pan fydd ganddynt lawer o fabanod a phlant o dan 2 oed os nad yw'r plant hyn yn aros ar gyfer Addysg Gynnar. |
| **9.3** | **GOFAL DYDD SESIYNOL A GOFAL DYDD LLAWN SESIYNOL** |
| | Mae dadansoddiad llawn o ddata Gofal Dydd Sesiynol a Gofal Dydd Llawn Sesiynol ar gael yn yr Adran Trosolwg yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd yn y SASS a'r data a gasglwyd gan yr Uned Gofal Plant, wedi'u dadansoddi yn ôl y gwasanaethau a ddarperir yn ystod y tymor ysgol, y gwyliau ac ar ôl ysgol ym mhob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.<br><br>Roedd gwybodaeth AGC yn nodi bod gan Geredigion 28 o leoliadau cofrestredig Gofal Dydd Sesiynol neu Ofal Dydd Llawn Sesiynol pan gynhaliwyd y SASS. Roedd hyn yn cyfateb i 571 o leoedd Gofal Plant i blant 2-4 oed.<br><br>Mae lleoliad Gofal Dydd Llawn Sesiynol newydd ychwanegol wedi'i gofrestru hefyd ar gyfer 16 o leoedd sy'n cynnig darpariaeth gwyliau o fewn Ysgol Goedwig / amgylchedd awyr agored i blant 5+ oed. Cwblhaodd pob lleoliad y SASS gyda chyfradd cwblhau 100%.<br><br>Mae **1 Cylch Meithrin newydd anghofrestredig** yn mynd trwy'r broses gofrestru ac yn gobeithio cael ei gofrestru fel lleoliad sesiynol erbyn Gwanwyn 2022 (yn cynnig 19 lle). |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, mae llawer o'r lleoliadau sesiynol a oedd yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn bellach wedi cofrestru fel Gofal Dydd Llawn Sesiynol. O'r **17 lleoliad** sydd bellach yn cynnal sesiwn prynhawn, mae 3 yn darparu cyfle ar gyfer **42 o leoedd Gofal Plant ychwanegol.**<br><br>**<u>Iaith</u>**<br><br>• Mae 27 o'r 28 o'r lleoliadau sesiynol cofrestredig yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg,<br>• Mae gan 1 lleoliad sesiynol nad yw wedi'i gynnwys yn y niferoedd uchod gofrestriad gofal dydd llawn sesiynol Ysgol Goedwig ac yn gobeithio cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg<br>• Mae 1 lleoliad anghofrestredig newydd yn lleoliad cyfrwng Cymraeg. |
| **9.4** | **CRÈCHE** |
| | Mae un ddarpariaeth Crèche gofrestredig yn ne'r sir sydd wedi'i chofrestru ar gyfer gweithgareddau yn y Ganolfan Plant. Ni chyflwynwyd data ar y SASS o ran niferoedd, ffioedd ac ati gan fod y ddarpariaeth ar gyfer y teuluoedd sy'n mynychu ac yn defnyddio'r gwasanaethau yn y Ganolfan ar sail ad-hoc.<br><br>Mae darparwr Crèche hefyd wedi'i gofrestru yng nghanol y Sir. Yn hanesyddol mae'r ddarpariaeth hon wedi cynnig gwasanaethau pan fydd angen i gyflwyno hyfforddiant, Cynllun Chwarae Gwyliau a darpariaeth chwarae mynediad agored. Cyn y pandemig roedd y darparwr yn gallu cynnig darpariaeth Cynllun Chwarae Gwyliau, sef ein sail resymegol dros ail-gategoreiddio fel *'Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau'*. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r gwasanaeth hwn wedi ailgychwyn darparu ei wasanaethau ers y pandemig oherwydd ymrwymiadau eraill ar safle'r Ganolfan i Deuluoedd.<br><br>Rydym yn ymwybodol bod Dechrau'n Deg a Chanolfannau i Deuluoedd yn cynnig gwasanaethau Crèche anghofrestredig sy'n rhedeg o dan 2 awr er mwyn i gyrsiau rhianta ac ati gael eu darparu ar eu safle.<br><br>Nid oes gennym unrhyw wasanaethau Crèche sy'n cynnig Gofal Plant ar sail ad-hoc. |
| **9.5** | **GOFAL TU ALLAN I ORIAU YSGOL** |
| | O fis Medi 2021, roedd Clybiau Ar Ôl Ysgol yn gallu ailagor a gweithredu fel arfer. Fodd bynnag, o fis Rhagfyr 2021, gosodwyd rhai cyfyngiadau gan yr Awdurdod Lleol yn ogystal â Phenaethiaid unigol yn sgil amrywiolyn Omicron COVID-19. Mae'r galw am y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn |

DRAFT

llai na'r cyfnod cyn-bandemig, fodd bynnag, mae Clybiau Ar Ôl Ysgol yn dechrau gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu oherwydd ymwybyddiaeth bod y sesiwn yn gallu rhedeg eto. Ffactor arall y mae angen ei ystyried sy'n dylanwadu ar Glybiau Ar Ôl Ysgol yw'r ffordd newydd o weithio lle mae'n bosibl bod gan lawer o deuluoedd riant sy'n gweithio gartref ac felly'n gallu casglu'r plant o'r ysgol heb fod angen defnyddio'r ddarpariaeth Clwb Ar Ôl Ysgol.

Cyhoeddodd Clybiau Plant Cymru Kids Club (CPCKC), sy'n aelodau o sefydliadau ambarél CWLWM, adroddiad '**Cyflwr y Sector Clybiau Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol'** a gynhaliwyd yn Haf 2021 gyda chasgliadau ac argymhellion i "*gefnogi'r rhan hon o adfywiad economi sylfaenol Cymru a mynd ymlaen i ffynnu a chefnogi eu cymunedau ar ôl Covid-19".*

Yn ôl ei gasgliadau ni fyddai 33% o rieni a holwyd ledled Cymru yn defnyddio Gofal Plant mwyach neu'n defnyddio llai na chyn y pandemig, gyda 7% arall yn ansicr faint y byddant yn ei ddefnyddio, yn bennaf oherwydd yr ansicrwydd ynghylch gweithio gartref.

Nid oedd 30% o'r rhieni a holwyd yn deall manteision cofrestriad AGC, ac felly nid oeddent yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu dewisiadau Gofal Plant a chymorth gyda chostau Gofal Plant. Dywedwyd hefyd fod dros 19% o glybiau Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol Cymraeg wedi cau'n barhaol, a chyfeiriodd 33% o'r clybiau hynny a holwyd at fynediad i leoliadau fel y rheswm pam nad ydynt wedi gallu ailagor, gyda 35% o'r rhai a gaewyd dros dro yn ansicr a fyddent yn ailagor yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Erbyn mis Medi, roedd 20% o glybiau yn dal i fod ar gau ledled Cymru, gyda'r rhesymau'n cael eu nodi fel mynediad i leoliadau, dim digon o leoedd, a recriwtio staff cymwysedig.

Parhaodd yr ansicrwydd hwn yn yr hydref, yn enwedig yng Ngheredigion, lle roedd cyfyngiadau wedi parhau tan ddiwedd Medi 2022. Mae tri chlwb ar ôl ysgol wedi cau'n barhaol yn ystod y 18 mis diwethaf, gyda dau ohonynt hefyd yn darparu clwb gwyliau. Mae hyn wedi bod yn golled o **96 o leoedd** yn y sector y tu allan i oriau ysgol.

Mae'r rhesymau a roddir dros gau yn ymwneud yn bennaf â'r anhawster i gael pwyllgorau gwirfoddol i redeg y ddarpariaeth ac anawsterau o ran recriwtio staff. Mae un clwb ar ôl ysgol a chlwb gwyliau hefyd ar gau ar hyn o bryd mewn ysgol 3-19. Mae hyn oherwydd diffyg staff i redeg y pwyllgor a recriwtio staff cymwysedig i redeg y ddarpariaeth. Mae'r Uned Gofal Plant a'r ysgol yn ystyried dulliau eraill o ailagor y ddarpariaeth. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae gwaith ar y gweill i gydweithio â Mudiad Meithrin gyda'r nod o ailagor Clwb ar ôl Ysgol yn Aberteifi a Llwyn yr Eos.

Mae patrymau gwaith wedi cael effaith fawr ar nifer y plant sy'n mynychu'r clybiau sydd ar agor. Fodd bynnag, mae rhieni sy'n dibynnu ar y gwasanaeth hwn yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth sydd ar gael. Ond mae angen cyllid cynaliadwyedd ar y clybiau os ydynt am barhau i weithredu gyda niferoedd is.

**CANLYNIADAU AROLWG DARPARWYR CPCKC**

DRAFT

Ymatebodd 6 lleoliad o Geredigion i'r arolwg Darparwyr. Roedd 5 ar agor gydag 1 ar gau dros dro oherwydd mynediad i'r lleoliad/Awdurdod Lleol wedi'i orfodi i gau. Dywedodd pob un o'r 5 a oedd ar agor fod presenoldeb wedi gostwng ers mis Mawrth 2020, gyda 2 yn nodi efallai y bydd rhaid iddynt gau'n barhaol, neu leihau oriau/diwrnodau. Byddai'n rhaid i 1 lleoliad ddiswyddo staff.

**Y canlyniadau a nodir oedd:**
*Nid yw'r pwyllgor am gynyddu'r ffioedd gan ei fod yn elusen a dyw hi ddim yn deg ar y rhieni sy'n defnyddio'r clwb, ond mae'n ennill jyst digon i dalu costau oherwydd y gostyngiad yn nifer y plant.*

**Dywedwch wrthym am unrhyw ganlyniadau cadarnhaol y mae Covid-19 wedi'u cael ar gyfer eich lleoliad/plant/teuluoedd?**
*Mae staff yn ffodus i allu parhau i weithio a chael oriau yn y feithrinfa. Oni bai am y shifftiau meithrin bydden nhw wedi gorfod colli staff.*

*Cafodd arolygiad AGC yn ddiweddar. Roedd AGC yn falch iawn sut y maen nhw wedi addasu i reoliadau, polisïau a gweithdrefnau newydd oherwydd Covid19. Mae'r arweinydd yn hapus iawn ac yn falch o'r lleoliad a'r ffordd y maen nhw wedi ymdopi trwy'r cyfan.*

**Sylwadau Darparwr:**

| |
|---|
| *Yn wreiddiol cafodd y clwb ei gynnal yn Ysgol x ond oherwydd cyfyngiadau mae wedi symud i'r feithrinfa lle mae'r staff yn gweithio. Mae niferoedd wedi bod yn isel iawn ac mae'r lleoliad wedi lleihau nifer y diwrnodau roedd y clwb yn rhedeg ond mae'r niferoedd yn dechrau codi ac yn ôl i hyd at 5 diwrnod yr wythnos.* |
| *Ar hyn o bryd mae'r lleoliad ar agor ar gyfer un plentyn 3 noson yr wythnos. Mae'r lleoliad eisoes wedi lleihau nifer y diwrnodau y mae'n rhedeg ac yn ceisio ei orau glas i hysbysebu trwy'r ysgol, ond nid yw plant yn mynychu fel yr oedden nhw cyn Covid. Mae'r arweinydd yn bryderus iawn am ddyfodol y clwb ac wedi trafod gyda'r staff a'r pwyllgor a byddan nhw'n dal ati tan y Nadolig, ond os na fydd y niferoedd plant yn codi byddan nhw'n cau. Mae'r lleoliad yn colli arian ac yn talu dau aelod o staff a dim ond un plentyn sy'n mynychu.* |
| *Mae'r lleoliad ar agor ond mae'r niferoedd wedi gostwng cymaint a dim ond jyst 'cael dau ben llinyn ynghyd' maen nhw.* |
| *Mae'r clwb ar ôl ysgol wedi parhau ar gau oherwydd bod yr ysgol ar dir yr ysgol ac roedd yr awdurdod lleol am iddyn nhw gadw'r plant yn yr un swigod â'r ysgolion. 'Roedd hyn yn anymarferol i'r lleoliad ac yn annheg ar y plant.' Mae'n gobeithio ailagor ym mis Medi.* |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | *Mae'r clwb ar agor ond wedi gorfod symud lleoliad. Fel arfer mae'n cael ei gynnal yn Ysgol X ond mae'n cael ei gynnal yn y feithrinfa nawr oherwydd dyw'r ysgol ddim am 'gymysgu swigod'. Mae niferoedd y plant wedi gostwng oherwydd hynny. Dyw'r lleoliad ddim yn siŵr pryd y byddan nhw'n gallu symud yn ôl i'r ysgol. Fydd yr ysgol ddim yn caniatáu i'r clwb haf arferol redeg yn yr ysgol eleni.*<br>*Mae'r clwb ar ôl ysgol ar gau (dros dro), clwb gwyliau yn ailagor yn yr haf.* |
| **9.6** | **DARPARIAETH CHWARAE MYNEDIAD AGORED** |
| | Nid oes unrhyw ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored cofrestredig yng Ngheredigion. Mae'r holl ddarpariaeth wedi dadgofrestru ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf.<br>Mae chwarae wedi symud adrannau o fewn Cyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar. Mae chwarae bellach yn rhan o Wasanaeth Canolfan Llesiant Porth Cymorth Cynnar yn y Model Llesiant Gydol Oed, a'r gobaith yw y bydd hyn yn gwella'r cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid allweddol mewnol a grwpiau targed yn ogystal â'r trydydd sector.<br><br>Ariannwyd RAY Ceredigion gan Deuluoedd yn Gyntaf i gynnig sesiynau chwarae mynediad agored fel modd o ymgysylltu â theuluoedd 'anodd eu cyrraedd'. O 2023, bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio yn lle hynny i gynnig mwy o gyfleoedd o ddarpariaeth yn y lleoliad mewn Canolfannau i Deuluoedd, Canolfan RAY Ceredigion, Canolfannau Plant Integredig a Chanolfannau Plant.<br><br>O fewn y tîm Gweithgaredd Corfforol a Chwarae Gydol Oed, bydd Swyddog Datblygu Chwarae yn cael ei gyflogi er mwyn i'r Cyngor allu cynnig sesiynau chwarae mynediad agored ochr yn ochr â gweithgareddau chwaraeon a hamdden mwy traddodiadol i bobl ifanc. |
| **9.7** | **NANI** |
| | Nid yw'n ofynnol i nanis gwblhau'r SASS. Felly nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar gyfer nanis sydd wedi'u cofrestru ar y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru).<br><br>Roedd y rhestr fisol y mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ei dderbyn gan AGC yn nodi bod gennym 2 nani wedi'u cofrestru ar y 'Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref' ym mis Rhagfyr 2020, a bod hyn wedi gostwng i 1 erbyn Gorffennaf 2021. Fodd bynnag, erbyn hyn nid oes unrhyw Nani yng Ngheredigion ers iddynt ddod oddi ar y cynllun ym mis Hydref 2021. |

DRAFT

| | CRYFDERAU A GWENDIDAU |
|---|---|
| | **Gwarchodwyr plant:**<br><br>**Cryfderau**<br>• Mae gwarchodwyr plant wedi'u dosbarthu'n gyfartal yn ddaearyddol ar draws yr awdurdod.<br>• Mae gwarchodwyr plant yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran cynnig gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig gan fod ganddynt gostau gorbenion is na darpariaeth gofal dydd llawn.<br>• Gofal o ansawdd da – arolygiadau ar gael ar-lein AGC.<br><br>**Gwendidau**<br>• Nodwyd rhai ardaloedd lle mae angen mwy o warchodwyr plant.<br>• Dywedodd rhai gwarchodwyr plant fod ganddynt leoedd gwag. Ond, ar y cyfan, adroddodd llawer bod ganddynt restrau aros.<br>• Nodwyd rhai ardaloedd lle mae angen mwy o warchodwyr plant.<br>• Angen cydnabyddiaeth gan weithwyr iechyd ac addysg proffesiynol o'r gwasanaeth a gwerth y gofal a roddir i blant.<br><br>**Gofal dydd llawn:**<br><br>**Cryfderau**<br>• Darpariaeth o'r ansawdd da fel y nodir yn adroddiadau arolygu AGC (ar gael yn gyhoeddus).<br>• 83% o'r ddarpariaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br><br>**Gwendidau**<br>• Mae de'r sir yn parhau i fod yn ardal heb unrhyw ddarpariaeth gofal dydd llawn.<br>• Mae materion cynllunio ar lan afon Teifi wedi atal datblygiad un busnes preifat sydd am agor meithrinfa ddydd.<br>• Mae costau cynyddol ar gyfer cyflogau, cyfraniadau YG, pensiwn, costau cyfleustodau ac ati yn effeithio ar y costau gorbenion a gallai arwain at ffioedd uwch yn cael eu trosglwyddo i rieni.<br>• Mae recriwtio wedi'i nodi fel problem gan nad yw darparwyr yn gallu cael staff cymwysedig.<br><br>**Gofal Sesiynol:**<br><br>**Cryfderau** |

DRAFT

- Canran uchel o Ofal Plant cyfrwng Cymraeg ar gael (93%).
- Mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod o fudd i leoliadau sydd wedi arwain at newid oriau agor i gofrestru fel darparwyr gofal dydd llawn.
- Cefnogaeth dda gan swyddogion datblygu cyrff ambarél CWLWM

**Gwendidau**

- Mae cynaliadwyedd lleoliadau sy'n cael eu harwain gan Bwyllgorau (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig llai lle nad ydynt yn gweithredu i'r eithaf) yn bryder. Gallai cyllid ar gyfer plant 2 oed yn y dyfodol fod yn gadarnhaol iawn ar gyfer y lleoliadau hyn.

**Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol:**

**Cryfderau**

- Darparu gwasanaeth gwerthfawr i rieni sy'n gweithio
- Darparu cyfleoedd chwarae gwerthfawr i blant
- Cymorth ariannol ar gael i deuluoedd sy'n gweithio e.e. Gofal Plant Di-dreth, Cynnig Gofal Plant Cymru, Talebau Gofal Plant
- Ar gael fel arfer ar dir yr ysgol felly nid oes angen teithio i ddarparwr arall

**Gwendidau**

- Rhieni sy'n gweithio o gartref yn golygu ychydig llai o alw am Ddarparwyr
- Efallai na fydd yr oriau yn addas ar gyfer rhieni sy'n gweithio shifftiau
- Anallu i gael mynediad at gludiant ysgol ar ôl 3:30pm yn rhwystr i ddefnyddio'r ddarpariaeth
- Anhawster o ran recriwtio staff cymwysedig oherwydd nid yw'r oriau'n amser llawn neu'n cyrraedd y trothwy gofynnol o 16 awr yr wythnos i gael cymorth

**HERIAU PRESENNOL SY'N WYNEBU'R SECTOR:**

**Staffio**

- Mae'r rhan fwyaf o staff ar y Cyflog Byw Cenedlaethol, dim cyfraniad pensiwn – ddim yn opsiwn gyrfa deniadol
- Gosod arweinwyr ar gyfradd ychydig yn uwch – ond nid yw'n cyfateb i gyfradd athrawon sydd hefyd yn cwblhau arolygiadau Estyn (oes angen i ni gynnwys y graff hwnnw ar gymharu cyflogau'r sector gofal/athro/Gofal Plant?)
- Heriau staffio oherwydd hunanynysu staff (Covid-19)
- Cadw staff – colli staff i sectorau eraill (manwerthu, ysgolion)
- Recriwtio staff – diffyg staff â chymwysterau addas – yn enwedig sgiliau Cymraeg

DRAFT

- Morâl isel – mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio. Dim llawer o gydnabyddiaeth, dim bonysau fel y rhai a roddir i'r sectorau gofal
- Problemau recriwtio staff sy'n gallu darparu cymorth ADY oherwydd oriau contract isel ac adolygiadau tymhorol o'r Cynllun Cyfeirio i blant
- Oriau dan gontract – ddim yn addas – yn effeithio ar Gredyd Cynhwysol, contractau tymor byr / dim oriau
- Galw cynyddol am gymwysterau – ond cyflogau ddim yn adlewyrchu hyn

**Cynaliadwyedd**

- Cynnydd mewn costau rhent a chyfleustodau
- Cynyddu costau ICC / CBC ac YG – cyfraniadau pensiwn a gwyliau ac ati a bod yn 'fforddiadwy' i rieni/gofalwyr yr un pryd
- Pryder parhaus gan rai ysgolion yn atal dychwelyd / cyfyngu ar niferoedd / gorfodi grwpiau anghynaliadwy sy'n cael effaith andwyol ar glybiau ar ôl ysgol
- Costau uwch oherwydd bod angen mwy o lanhau sgil y pandemig
- Mae hyfforddiant yn fuddiol ond gyda staff cyfyngedig ni all y rhan fwyaf o leoliadau ryddhau staff i fynychu oherwydd bod rhaid iddynt gadw at gymarebau staff cymwysedig: plant bob amser (canllawiau SGC) a staff banc cyfyngedig yn unig sydd ar gael. Mae angen i leoliadau ddod o hyd i gyllid ychwanegol i dalu staff am eu hamser i fynychu hyfforddiant yn eu hamser eu hunain.
- Mae'n anodd sicrhau gweledigaeth hirdymor gyda chronfeydd ariannu tymor byr – ac ystyried cyllid ar gyfer cymorth refeniw ac nid adnoddau cyfalaf yn unig
- Mae angen gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cynifer o leoliadau â phosibl yn gallu elwa ar unrhyw gyllid sydd ar gael, ac i atal mwy o leoliadau rhag cau
- Mae posibilrwydd y gallai lleoliadau bartneru mewn ffyrdd arloesol i ateb y galw mewn ffordd gynaliadwy a/neu 'amrywio' eu darpariaeth bresennol
- Nid yw rhai lleoliadau yn agor dros y gwyliau (neu dros y cyfnod gwyliau llawn) gan effeithio ar deuluoedd ac o bosibl golli cyfle gwerthfawr i wneud incwm.

DRAFT

| 10 | DARPARIAETH AR ÔL YSGOL / GWYLIAU (GOFAL Y TU ALLAN I ORIAU YSGOL) ANGHOFRESTREDIG |
|---|---|

**Tabl 10.1: Darpariaeth anghofrestredig – Manteision ac Anfanteision:**

| Darpariaeth Ar Ôl Ysgol / Gwyliau (Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol) Anghofrestredig | |
|---|---|
| **Manteision i deuluoedd:** | **Anfanteision i deuluoedd:** |
| • Darpariaeth ar gael i deuluoedd – ar ôl ysgol ar safleoedd ysgol<br>• Gweithgareddau anghofrestredig yn ystod y gwyliau – rhatach i deuluoedd | • Ni all rhieni gael mynediad at gynlluniau cymorth ariannol<br>• Terfyn amser – wedi'i gyfyngu i 2 awr neu lai y dydd – a all gynnwys clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol ar y cyd – ond nid yw hyn yn cael ei fonitro gan AGC<br>• Heb ei arolygu gan AGC – ni all rhieni weld tystiolaeth o ansawdd y Gofal Plant a ddarperir<br>• Dim ymarferwyr Chwarae cymwysedig – dim monitro'r ddarpariaeth chwarae<br>• Darpariaeth gwyliau – nid yw ar gael yn ystod y diwrnod gwaith llawn (e.e. 8 – 6) – sesiynau byrrach yn gyffredinol |
| **Manteision i leoliadau:** | **Anfanteision i leoliadau:** |
| • Nid oes angen bodloni safonau neu reoliadau SGC e.e. cymwysterau<br>• Cymarebau staff yn 1:8 ar gyfer lleoliadau Gofal Plant, ond mewn lleoliadau addysg y cymarebau ar gyfer plant 3 oed a hŷn os oes gan staff statws addysgu yw 1:13 o blant. Cymarebau hamdden/chwaraeon (i'w gadarnhau)<br>• Dim arolygiadau AGC (ymweliadau dirybudd) felly dim angen polisïau ac ati na straen arolygiadau | • Dim mynediad i gymorth grant gan LIC/CSC<br>• Nid mentrau elusennol – ond wedi'u rheoli gan yr ysgol. Gall fod yn gymwys ar gyfer rhai grantiau eraill<br>• Graddfa gyflog staff addysgu o'i gymharu â staff Gofal Plant |

## 11 DARPARIAETH CLWB BRECWAST

Mae clybiau brecwast yn parhau i fod yn wasanaeth pwysig i rieni pan gânt eu hystyried yn fath o Ofal Plant. Er nad ydynt yn ddarpariaeth gofrestredig AGC mae llawer o rieni yn dibynnu ar y gwasanaeth er mwyn gallu cyrraedd y gwaith mewn pryd. Roedd y pandemig yn golygu bod rhaid i lawer o ysgolion roi'r gorau i ddarparu'r clwb brecwast neu ddarparu gwasanaeth llai, ac roedd rhaid i ysgolion flaenoriaethu pa deuluoedd allai ei ddefnyddio gan nad oedd dewis arall ganddynt. Roedd hyn oherwydd bod rhaid iddynt gadw plant yn eu swigod ac yn golygu na allent gymysgu plant yn ystod clwb brecwast.

Dangosodd yr arolwg rhieni/gofalwyr fod 27% yn defnyddio clwb brecwast. Dywedodd 26% arall y byddent yn defnyddio clybiau brecwast yn y dyfodol.

Roedd adborth rhieni hefyd wedi nodi:

- *"Yr hyn sydd ei angen arna i fwyaf yw Gofal Plant ar ôl ysgol lle gall y darparwr gofal ei gasglu o'r ysgol er mwyn i mi allu gweithio yn ystod amser codi plant o'r ysgol. Hefyd byddai'n helpu i gael clwb brecwast yn yr ysgol (mae e ym mlwyddyn 5 a does byth wedi bod clwb brecwast, ond roedd 'clwb' cyn ysgol ar un adeg)"*

- *"Amser casglu'r clwb ar ôl ysgol – hyd at 6pm. Nid yw'r ieuengaf yn gallu mynd i'r clwb brecwast nes y bydd yn 4 oed er ei fod yn yr ysgol ar gyfer sesiwn y bore"*

- *"Dyw'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd Ceredigion ddim yn darparu ar gyfer rhieni sy'n gweithio, dim clwb brecwast neu glwb ar ôl ysgol."*

- *"Does dim clwb brecwast neu glwb ar ôl ysgol yn ysgol gynradd fy mhlant. Mae hyn yn golygu alla i ddim gweithio unrhyw shifftiau dydd yn yr ysbyty ac alla i ddim cymryd unrhyw oriau dan gontract. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio gyda'r nos tra bod fy mhartner yn gweithio yn y dydd."*

- *"Y broblem sydd gen i yw'r clwb brecwast yn yr ysgol, mae'n dechrau am 8.20am, mae'n rhaid i mi ddechrau gwaith am 8:30am. Byddai 8am yn llawer mwy addas o ystyried y ras yn y bore i gyrraedd fy ngwaith a chael lle i barcio. Rwy'n rhiant sengl sy'n gweithio 48 awr yr wythnos."*

Mae cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant hefyd wedi arwain at lawer o leoliadau gofal sesiynol yn newid eu cofrestriad i ddarpariaeth gofal dydd llawn. Arweiniodd hyn at rai o'r lleoliadau yn agor gynharach o 8:30am a oedd hyn yn golygu y gallai rhieni adael eu plant yn gynharach a chyrraedd y gwaith.

DRAFT

Amharwyd ar y ddarpariaeth frecwast gan bandemig COVID-19, ond dyma'r data sydd ar gael yn hydref 2021, ac mae wedi'i groesgyfeirio ag adborth o'r Arolwg Ysgolion.

**Tabl 11.1: Crynodeb o ddarpariaeth Clwb Brecwast fesul AGEHG:**

| | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast – Bwyd (ariennir gan CSC) | | 1 | 3 | 1 | 3 | 3 | 3 | 1 | | **15** |
| Clwb Brecwast – Bwyd (ariennir gan yr Ysgol) | | 1 | | 1 | 1 | | | | 1 | **4** |
| Clwb Brecwast – Bwyd (defnyddiwr gwasanaeth yn talu amdano) | | | | | | | | 1 | | **1** |
| Dim gwasanaeth clwb brecwast | 1 | | | | | 2 | 1 | | 3 | **7** |
| Clwb Brecwast – Gofal Plant yn unig | 3 | | | 3 | 1 | | | | 3 | **10** |
| **CYFANSWM** | **4** | **2** | **3** | **5** | **5** | **5** | **4** | **2** | **7** | **37** |

DRAFT

**Tabl 11.2: Darpariaeth Clwb Brecwast mewn ysgolion fesul AGEHG:**

| | Ysgol* wedi'i groesgyfeirio â'r Arolwg Ysgolion | Clwb Brecwast – Bwyd (ariennir gan CSC) (Tach 2021) | Clwb Brecwast – Bwyd (ariennir gan yr Ysgol) (Tach 2021) | Clwb Brecwast – Bwyd (defnyddiwr gwasanaeth yn talu amdano) | Dim gwasanaeth Clwb Brecwast | Clwb Brecwast – Gofal Plant yn unig (Tach 2021) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberaeron a Llanrhystud | Aberaeron | Ie | | | | |
| | Ciliau Parc (Ciliau Aeron) | | | | | Gofal yn unig |
| | Llangwyryfon | | Ie | | | |
| | Llan-non | | | | | Gofal yn unig |
| | Myfenydd Llanrhystud | | | | | Gofal yn unig |
| Aberystwyth – Gogledd | Comins Coch | | Ie | | | |
| | St Padarn | Ie | | | | |
| Aberystwyth – De | Llwyn yr Eos (Penparcau) | Ie | | | | |
| | Plascrug | Ie | | | | |
| | Ysgol Gymraeg Aberystwyth | Ie | | | | |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Bro Teifi (Llandysul) | | | Ie | | |
| | Cenarth | Ie | | | | |
| Y Borth a Bont-goch | Craig yr Wylfa (Y Borth) | | | | Na | |
| | Penrhyn-coch | | | | | Gofal yn unig |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rhydypennau | | | | | Gofal yn unig | |
| | | | Tal-y-bont | | | | | Gofal yn unig | |
| | | Aberteifi ac Aber-porth | Aber-porth | Ie | | | | | |
| | | | Aberteifi | Ie | | | | | |
| | | | Llechryd | | | | Na | | |
| | | | Penparc | Ie | | | | | |
| | | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Bro Pedr (Llanbedr Pont Steffan) | Ie | | | | | |
| | | | Dihewyd | | | | Na | | |
| | | | Dyffryn Cledlyn (Drefach) | Ie | | | | | |
| | | | Felinfach | | | | Na | | |
| | | | Y Dderi (Llangybi) | Ie | | | | | |
| | | Ceinewydd a Phenbryn | Bro Sion Cwilt (Synod Inn) | | | | | Gofal yn unig | |
| | | | Ceinewydd | Ie | | | | | |
| | | | Llanarth | Ie | | | | | |
| | | | T. Llew Jones (Brynhoffnant) | | Ie | | | | |
| | | | Talgarreg | Ie | | | | | |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Henry Richard (Tregaron) | | | | Anhysbys | | |
| | | | Llanfarian | | | | Anhysbys | | |
| | | | Llanfihangel y Creuddyn | | | | Anhysbys | | |
| | | | Llanilar | | Ie | | | | |
| | | | Mynach (Pontarfynach) | | | | Na | | |
| | | | Penllwyn (Capel Bangor) | | | | | Gofal yn unig | |
| | | | Pontrhydfendigaid | | | | Na | | |
| | | | Rhos Helyg (Llangeitho) | | | | | Gofal yn unig | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhos y Wlad (Bronant) | | | | | Gofal yn unig |
| | Syr John Rhys (Ponterwyd) | | | | Na | |
| **CYFANSWM** | **40 ysgol** | 15 | 4 | 1 | 7 Na + 3 Anhysbys | 10 |

## 12 DEALL ANGHENION RHIENI/GOFALWYR

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, defnyddiwyd yr arolwg rhieni/gofalwyr cenedlaethol i gasglu barn ar y defnydd o Ofal Plant yng Ngheredigion. Datblygwyd Cynllun Cyfathrebu mewn partneriaeth â Thîm Cyfathrebu'r Cyngor i hyrwyddo'r arolwg yn eang ar draws platfformau gwahanol.

Rhannwyd yr arolwg â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys yr holl Ddarparwyr Gofal Plant, partneriaid CWLWM, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgolion, aelodau'r Fforwm, Plant a Phobl Ifanc, a chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan ofyn i bawb ei rannu gyda'u gweithwyr, cleientiaid a rhwydweithiau i gyrraedd cynifer o rieni/gofalwyr â phosibl gyda negeseuon cyfryngau cymdeithasol wedi'u paratoi ymlaen llaw a delweddau Llywodraeth Cymru i'w defnyddio ar eu platfformau cyfryngau cymdeithasol eu hunain.

Mynychodd staff yr Uned Gofal Plant dri chyfarfod Penaethiaid Rhanbarthol a gofynnwyd i Benaethiaid Ysgol rannu'r arolwg trwy eu dulliau cyfathrebu, megis Parent Mail, safleoedd cyfryngau cymdeithasol Ysgolion, e-byst, llythyrau ac ati gyda theuluoedd. Yn anffodus nid oedd pob ysgol wedi rhannu'r arolwg gyda'i rhieni. Er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb, anfonwyd e-byst yn uniongyrchol trwy'r system cronfa ddata addysg at bob rhiant/gofalwr a ddarparodd e-byst mewn 40 o ysgolion cynradd.

Roedd Rhanddeiliaid Allweddol sydd â mynediad i'w safleoedd cyfryngau cymdeithasol eu hunain hefyd wedi helpu i hyrwyddo'r arolwg, megis Canolfannau i Deuluoedd, Ceredigion Actif, Cered, Dechrau'n Deg a RAY Ceredigion.

**AROLYGON RHIENI AC YMGYNGHORIADAU ERAILL**

Yn ogystal ag Arolwg Rhieni / Gofalwyr Llywodraeth Cymru, roedd nifer o ymgynghoriadau eraill ar agor i rieni fynegi eu barn ynghylch darpariaeth Gofal Plant yn ystod hydref 2021, gan gynnwys:

- Asesiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
- Arolwg Iechyd a Llesiant Gweithwyr Cyngor Sir Ceredigion

DRAFT

- Arolwg Cymorth i Deuluoedd Cyngor Sir Ceredigion – ymgynghorwyd â rhieni ynghylch y cymorth a gânt gan wasanaethau
- Arolwg Cenedlaethol Clybiau Plant Cymru Kids Clubs Mehefin 2021- 10% o ymatebion gan rieni/gofalwyr Ceredigion
- Arolwg Rhieni yr Urdd ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro – tua 60% o ymatebion gan rieni/gofalwyr Ceredigion

Mae'r canlyniadau i'w gweld isod:

**ASESIAD O LESIANT LLEOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION**
Mae'r Uned Gofal Plant wedi ystyried y sylwadau a godwyd yn Asesiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer Hydref 2021, ac mae'n gweithio gyda'r tîm BGC i fireinio'r camau gweithredu ymhellach.

Roedd ymgynghoriad Asesiad o Lesiant Ceredigion hefyd wedi gofyn i ddinasyddion Ceredigion, gan gynnwys plant, beth oedd yn bwysig iddyn nhw, a chymerwyd y sylwadau canlynol mewn perthynas â darpariaeth Gofal Plant o'r Arolwg Llesiant:

- *"Mae angen mwy o gefnogaeth, adnoddau a chyllid ar gyfer sectorau/lleoliadau Gofal Plant"*
- *"Mae angen Gofal Plant fforddiadwy arna i y tu allan i oriau ysgol. Fel arall, opsiwn i leihau oriau gwaith."*
- *"Er mwyn gallu gwella fy llesiant corfforol a/neu feddyliol fy hun, mae angen Gofal Plant mwy fforddiadwy arna i."*
- *"Gofal Plant ar gael (fforddiadwy hefyd os oes modd, ond gadewch i ni ddechrau gyda chael unrhyw fath o gwbl!)"*
- *"Mynediad i Ofal Plant fforddiadwy y tu allan i oriau ysgol craidd. Fel arall, opsiwn i leihau oriau gwaith. Does dim llawer o gyfle i gael gwaith rhan-amser yn y sector hwn gyda chyflog da. Mae cyflogau yng Ngheredigion yn isel, ond mae costau byw yn uchel. Mae angen mynd i'r afael â hyn."*

Nododd yr Asesiad fod tlodi yn parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf i'r sir a nododd mai enillion ac incwm isel, Gofal Plant fforddiadwy, gostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a chostau tai uchel/fforddiadwyedd tai sy'n ysgogi tlodi yng Ngheredigion.

Ers 2020, cynhelir **AROLWG O IECHYD A LLESIANT GWEITHWYR** blynyddol Cyngor Sir Ceredigion blynyddol gan y Swyddog Iechyd a Llesiant Gweithwyr, a chanfuwyd bod problemau Gofal Plant yn cael effaith ar lesiant a chynhyrchiant staff sy'n gweithio gartref ac sydd angen jyglo eu holl gyfrifoldebau fel rhiant, sef gofal plant, addysg gartref, ymrwymiadau gofal eraill, a chyfrifoldebau gwaith mewn amgylchedd sy'n newid yn gyson. Cafodd gweithdrefnau a chau ysgolion effaith ar glybiau brecwast a gofal ar ôl ysgol gyda sgil-effaith ar rieni sy'n gweithio.


**Tabl 12.1: Canlyniadau Arolwg Iechyd a Lles Gweithwyr Cyngor Sir Ceredigion**

| | |
|---|---|
| 2020 | Roedd 10.93% o'r ymatebwyr yn ystyried Gofal Plant fel un o'u 3 phrif her o ran gweithio gartref.<br>Roedd 9.79% o'r rhai yn y gweithle yn rhoi Gofal Plant yn eu 3 phrif her. |
| 2021 | Roedd 11.62% yn cyfrif Gofal Plant fel un o'u 3 phrif her o ran gweithio gartref. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Roedd 8.59% o'r rhai yn y gweithle yn ystyried Gofal Plant yn un o'u 3 phrif her. |
| Data ansoddol:<br><br>Adborth ynghylch trefniadau oriau hyblyg | *"Er bod mwy o hyblygrwydd, dyw'r tîm ddim yn cael ei gefnogi'n llawn os ydym yn defnyddio'r gallu i gamu i ffwrdd am ychydig oriau, ac mae wedi cael ei ddefnyddio mwy ar gyfer pobl sydd angen darparu Gofal Plant tra na fu disgwyl i eraill ei ddefnyddio mewn gwirionedd".*<br><br>*"Hoffwn i weld yr amserau yma yn para – mae'n helpu cymaint gyda'r llwyth gwaith ychwanegol a gorfod gweithio yn ôl amserau codi plant o'r ysgol, Gofal Plant, tasgau eraill".*<br><br>*"Gyda theulu a dim Gofal Plant ar ôl ysgol a gofalu am rieni oedrannus mae bod yn hyblyg yn hanfodol".* |

**Ffigur 12.1: Canlyniadau Arolwg Iechyd a Lles Gweithwyr Cyngor Sir Ceredigion**




## GWASANAETHAU CYMORTH I DEULUOEDD YNG NGHEREDIGION

Cynhaliwyd arolwg Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd ar-lein yn ystod Gorffennaf-Medi 2021 a dderbyniwyd 295 o ymatebion. Gofynnodd yr arolwg a ydynt yn defnyddio neu wedi defnyddio gwasanaethau cymorth i deuluoedd ataliol ar gyfer plant 0-11 oed yng Ngheredigion (rhestrwyd y gwasanaethau). Gofynnwyd i'r rhai a atebodd 'Na' pam nad ydynt yn eu defnyddio. Gofynnwyd i'r rhai a atebodd 'Ie', 'Beth sy'n dda am y gwasanaethau?' 'Beth sydd ddim cystal?' a 'Sut gallwn ni wella eich gwasanaethau cymorth i deuluoedd lleol?'

O'r ymatebion roedd 90% gan famau, 6% gan dadau a 4% gan 'arall'. Ymatebodd 93% yn Saesneg a 7% yn Gymraeg. Roedd 47% yn defnyddio'r gwasanaethau ac nid oedd 53% yn defnyddio'r gwasanaethau. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai nad oeddent yn defnyddio'r gwasanaethau mai'r rheswm am hynny oedd oherwydd nad oeddent yn gwybod amdanynt.

Roedd rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd yn gwneud sylwadau am y defnydd o ddarpariaeth Gofal Plant neu ddiffyg darpariaeth Gofal Plant. Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd:

**Beth sy'n dda am y gwasanaethau rydych chi wedi'u defnyddio?**

- *Gofal Plant blynyddoedd cynnar am ddim ym Mhenparcau.*
- *Wedi defnyddio Dechrau'n Deg ar gyfer Gofal Plant cyn ysgol rhad ac am ddim ar gyfer fy mab yng Nghylch Meithrin Aberystwyth a oedd yn cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg gyda staff gwych.*
- *Cymorth gyda Gofal Plant a chostau.*
- *Mae cyllid ar gyfer Gofal Plant cyn ysgol wedi helpu fy mhlentyn i gynnal cysylltiadau cymdeithasol â phlant eraill a pharhau i ddatblygu yn ystod y pandemig.*
- *Mae'r cynllun chwarae yn golygu bod fy mab yn cael mynediad i'w adeilad ysgol arferol. Llai o straen iddo fe ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.*

**Sut gallwn ni wella eich gwasanaethau cymorth i deuluoedd lleol?**

- *Mwy i blant iau yn ystod y gwyliau.*
- *Bydd clwb ar ôl ysgol fforddiadwy ym Mhenparcau yn helpu mwy o rieni i gael gwaith.*
- *Darpariaeth ar ôl ysgol a mwy yn ystod y gwyliau i blant ag anghenion ychwanegol. Cynyddu'r cyflog i Gynorthwywyr Personol a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt er mwyn cynyddu'r cymhelliant iddynt wneud cais am swyddi*
- *Byddwn wrth fy modd yn cael cynllun chwarae yn Aberteifi ar gyfer gwyliau'r haf neu unrhyw Ofal Plant hyblyg a fforddiadwy tebyg lle rydych chi'n gwybod bod eich plant yn ddiogel ac yn cael hwyl tra'ch bod chi yn y gwaith.*
- *Mae gan Geredigion wasanaethau cymorth i deuluoedd sylfaenol da ond mae diffyg gofal dydd a lleoliadau blynyddoedd cynnar blaengar ar gyfer rhieni sy'n gweithio yn y sir.*
- *Hefyd mae'r ddarpariaeth Gofal Plant yn y Borth yn wael iawn ar gyfer rhieni sy'n gweithio – does dim clwb ar ôl ysgol neu glwb gwyliau a dim gwarchodwr plant bellach.*
- *Yn sicr mae angen clwb ar ôl ysgol (Aberteifi).*
- *Mae angen mwy o ddarparwyr Gofal Plant ar ôl ysgol er mwyn i deuluoedd allu gweithio. Byddai hefyd yn dda gweld mwy o weithgareddau fforddiadwy ar ôl ysgol i'r teuluoedd lleol (Penparcau).*

DRAFT

**Beth sydd ddim cystal am y gwasanaethau rydych chi wedi'u defnyddio?**

- *Nid yw Dash wedi ailgychwyn eto.*
- *Diffyg cefnogaeth i blant hŷn o ran Gofal Plant.*
- *Dim llawer o weithgareddau i blant eu gwneud ar ôl y Meithrin sy'n gorffen am 12 o'r gloch (Llanbedr Pont Steffan) ar gyfer fy mhlentyn i.*
- *Dim cymaint i blant ei wneud ar ôl iddynt orffen yn y Meithrin am hanner dydd (Llanbedr Pont Steffan).*
- *Dim byd ar agor ar ôl oriau ysgol (Tregaron).*
- *Dim llawer o ddewis o leoliadau Gofal Plant – dim ond Ysgol Penparcau nawr rwy'n credu.*

**AROLWG RHIENI YR URDD:**

Datblygodd Chwaraeon yr Urdd Ceredigion a Sir Benfro arolwg ar-lein ym mis Medi 2021 o'r enw *'Chwaraeon Cymunedol ar gyfer Plant Cynradd'* i dargedu rhieni lleol er mwyn datblygu ei raglen gymunedol o weithgareddau chwaraeon i blant.
O'r 100 o ymatebion roedd tua 60% yn deuluoedd o Geredigion/yn mynychu ysgol yng Ngheredigion.
Ymatebodd 46% yn Gymraeg, 54% yn Saesneg.
Ysgolion yr oedd y plant yn eu mynychu:

**Tabl 12.2: Urdd - Ymateb rhieni fesul sir**

| Cyfanswm yr ymatebion | Ceredigion | Sir Benfro | Sir Gaerfyrddin | Arall (ysgol gartref) |
|---|---|---|---|---|
| **100** | **60** | **32** | **7** | **1** |

Faint o'r gloch fyddai'n fwyaf cyfleus i'ch plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon?

| Yn syth ar ôl ysgol | 4pm | 5pm – 7pm | Unrhyw bryd | Dydd Sadwrn | Sul | Amser Cinio | Gwyliau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 37 | 41 | 25 | 7 | 8 | 6 | 1 | 1 |

**Tabl 12.3 - Urdd – Yr amser mwyaf cyfleus ar gyfer gweithgareddau**

**Faint o'r gloch fyddai'n fwyaf cyfleus i'ch plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon?**


| Yn syth ar ôl ysgol | 4pm | 5pm – 7pm | Unrhyw bryd | Dydd Sadwrn | Dydd Sul | Amser Cinio | Gwyliau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 37 | 41 | 25 | 7 | 8 | 6 | 1 | 1 |

**Tabl 12.4 - Urdd – Gweithgareddau gwyliau**


Fyddech chi'n hoffi gweld gweithgareddau hanner tymor ac yn y gwyliau ysgol yn cael eu darparu ar gyfer eich plentyn/plant?

| Byddwn | Na fyddwn | Efallai |
|---|---|---|
| 77 | 4 | 19 |

**Ffigur 12.2: Yr amser mwyaf cyfleus ar gyfer gweithgareddau**




**Ffigur 12.3: Gweithgareddau gwyliau**



**Sylwadau rhieni:**

- "*I fod yn onest, ar ôl y 19 mis diwethaf, byddem yn ddiolchgar o gael unrhyw beth!"*
- *"Does dim llawer o weithgareddau fforddiadwy a chlybiau ar ôl ysgol yn yr ardal. Byddai'n braf i'r plant gael pethau i'w gwneud ar ôl ysgol y maen nhw'n eu mwynhau ac i'w helpu i gadw'n heini."*
- *"Buasai teilwra dechrau gweithgareddau i derfyn dydd yr ysgol yn ddefnyddiol h.y. clwb ar ôl ysgol gyda gweithgareddau chwaraeon penodol."*
- *"Ychydig iawn o ddarpariaeth chwaraeon gyda'r nos sydd ym Mro Teifi ar ôl iddi agor er y dywedwyd wrth y gymuned y byddai mynediad i'r cyfleusterau yno – dyw hynny byth wedi digwydd"*

O ganlyniad i adborth, trefnwyd gweithgareddau hanner tymor mis Hydref mewn rhai lleoliadau ac roeddent yn llwyddiannus. Ers hanner tymor yr hydref mae Swyddog Datblygu'r Urdd wedi sefydlu clybiau ar ôl ysgol yn Nhalybont, Tregaron ac yn gobeithio dechrau clybiau yn ardal Aberystwyth a Llangrannog yn y flwyddyn newydd. Roedd galw o ardaloedd Llandysul ac Aberystwyth – ond doedd dim cyfleusterau ar gael bryd hynny i gynnal unrhyw Glwb Urdd.

**CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS (CPCKC)**

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn aelodau o fudiad ambarél CWLWM ac yn cefnogi'r Sector Clybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol sy'n cynnwys Clybiau Ar Ôl Ysgol a Chynlluniau Chwarae Gwyliau.

Yn ystod mis Mehefin 2021 gwahoddodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs holl rieni/gofalwyr plant o dan 12 oed sy'n byw yng Nghymru i gwblhau arolwg byr dienw i helpu i ganfod agweddau tuag at Ofal Plant, y galw posibl am Ofal Plant yn y dyfodol a'r rhesymau dros amrywiadau yn y galw o'i gymharu â'r cyfnod cyn mis Mawrth 2020.

Yn ôl data AGC ym mis Mehefin 2021 dim ond 50% o leoliadau Ceredigion oedd wedi ailagor yn ystod y cyfnod hwn ar ôl iddynt gau oherwydd y pandemig. Roedd y mwyafrif o'r lleoliadau a oedd yn dal i fod ar gau yn glybiau ar ôl ysgol.


**YMATEB RHIENI**

O gyfanswm o 2050 o ymatebion ar draws Cymru roedd 10.3% o ymatebion o Geredigion. Cafwyd nifer anghymesur o fawr o ymatebion gan rieni Ceredigion – y 4ydd sir uchaf yng Nghymru o ran nifer yr ymatebion, ac mae'n debyg eu bod wedi'u cymell i ymateb oherwydd y sefyllfa ar draws y sir ym mis Mehefin gan nad oedd lleoliadau'n gallu agor ar safleoedd ysgol. Erbyn Tymor yr Hydref, roedd y ddarpariaeth ar ôl ysgol yn gwella'n araf, ond mae rhai ardaloedd heb ddarpariaeth ar ôl ysgol o hyd yn bennaf oherwydd prinder staff yn hytrach na mynediad i leoliadau.

| | |
|---|---|
| | |
| 13 | **TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD Â RHIENI /GOFALWYR** |
| | O'r rhai a ddechreuodd gwblhau arolwg Rhieni/Gofalwyr Llywodraeth Cymru dim ond 60.9% oedd wedi cwblhau'r arolwg ar lefel genedlaethol.<br><br>Yng Ngheredigion, cwblhaodd 633 o rieni/gofalwyr yr arolwg a oedd yn cyfrif am 7.35% o'r holl ymatebion (y trydydd uchaf yng Nghymru ar ôl Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf) gyda lledaeniad daearyddol da. Mewn cymhariaeth, dim ond 2.5% o ddarparwyr Gofal Plant cofrestredig y wlad sydd yng Ngheredigion.<br><br>Mae'r nifer uchel o ymatebion yn yr arolwg hwn ac yn arolwg CKCPC (10%) o'i gymharu â Gofal Plant cofrestredig (2.5%) yn adlewyrchu'r pryder sydd gan rieni/gofalwyr am argaeledd y ddarpariaeth Gofal Plant yn y sir.<br><br>O'r ymatebion, gellid mapio 554 o godau post rhieni/gofalwyr. Nid oedd 79 wedi darparu digon o fanylion cod post i gael eu mapio. Roedd y codau post yn cwmpasu pob un o'r 40 ward etholiadol yn y 9 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Ymdriniwyd â holl ardaloedd Ceredigion o'r arolwg rhieni.<br><br>Oherwydd cyfyngiadau lleol COVID-19, nid oedd swyddogion yn gallu ymweld ag unrhyw ganolfannau i deuluoedd neu fannau cyhoeddus i gynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb â rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, gyda rhanddeiliaid cefnogol o Ganolfannau i Deuluoedd a sefydliadau partner, roeddem yn hyderus bod y neges wedi cael ei rhannu'n eang. Dylid nodi na atebodd yr holl ymatebwyr bob cwestiwn. Mae ymatebion rhieni wedi'u mapio fel a ganlyn: |


DRAFT

**Ffigur 13.1: Dosbarthiad ymatebion rhieni**




Mae tystiolaeth bellach o adborth gan rieni i'w gweld yn Atodiad 2. Cofnodir yr adborth y ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.

**Ffigur 13.2: Canran yr ymatebion fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG)**




**Tabl 13.1: Disgrifiad o'r cartref**

| Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cartref orau? | Ie | % |
|---|---|---|
| Fi sy'n llwyr gyfrifol am fy mhlant | 103 | 16.3 |
| Rwy'n rhannu cyfrifoldeb ar gyfer fy mhlant gyda rhywun rwy'n byw gydag ef/hi | 491 | 77.6 |
| Rwy'n rhannu cyfrifoldeb ar gyfer fy mhlant gyda rhywun nad wyf yn byw gydag ef/hi | 53 | 8.4 |
| Rwy'n ddarpar riant | 11 | 1.7 |
| Rwy'n ofalwr maeth | 4 | 0.6 |
| Rwy'n nain neu'n daid | 9 | 1.4 |
| Arall (eglurwch os gwelwch yn dda): | 7 | 1.1 |


DRAFT

- Roedd 77.6% o ymatebwyr yn rhannu cyfrifoldeb ar gyfer eu plentyn/plant â rhywun y maent yn byw gydag ef/hi. Roedd 16.3% yn llwyr gyfrifol am eu plentyn.
- Roedd 1.7% o'r ymatebwyr yn cael eu cydnabod fel darpar rieni.

**Tabl 13.2: Statws cyflogaeth cartref:**

| Beth yw eich statws presennol? | Chi | Eich partner (os yw'n berthnasol) |
|---|---|---|
| Chwilio am swydd ond ddim yn gweithio eto | 47 | 11 |
| Cyflogedig | 498 | 370 |
| Hunan-gyflogedig | 79 | 139 |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 54 | 10 |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd | 22 | 5 |
| Ddim yn gallu gweithio | 33 | 8 |

**Ffigur 13.3: Statws cyflogaeth cartref:**



- Roedd y nifer uchaf o ymatebwyr (498) a'u partneriaid (370) wedi'u cyflogi, ac roedd 22 o ymatebwyr a'u partneriaid (5) ddim yn gweithio neu'n chwilio am swydd. Roedd 79 o ymatebwyr a'u partneriaid (139) yn hunangyflogedig.

Ymatebwyr yn ôl incwm blynyddol y cartref


**C. Beth yw incwm gros eich cartref yr wythnos (cyn didyniadau/treth)? Adiwch at ei gilydd eich incwm chi, eich partner ac unrhyw un arall sy'n byw gyda chi. Yn ogystal ag incwm cyflog, peidiwch ag anghofio cynnwys unrhyw fudd-daliadau a gewch, incwm o gynilion a buddsoddiadau, ac unrhyw ffynonellau incwm eraill.**

**Tabl 13.3: Incwm Blynyddol y Cartref:**

| **Incwm y cartref gros wythnosol** | **Nifer** | **Incwm y cartref blynyddol** |
|---|---|---|
| Heb ateb | 38 | Heb ateb |
| hyd at £100 | 5 | hyd at £5200 |
| £100 – £149 | 15 | £5200 – £7748 |
| £150 i £249 | 29 | £7800 – £12948 |
| rhwng £250 a £349 | 53 | £13000 – £18148 |
| rhwng £350 a £499 | 75 | £18200 – £52948 |
| rhwng £500 a £580 | 60 | £26000 – £30160 |
| rhwng £581 a £750 | 104 | £30212 – £39000 |
| £750 i £999 | 84 | £39000 – £51948 |
| Mwy na £1000 | 81 | Mwy na £52000 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 89 | Gwell gennyf beidio â dweud |

DRAFT

**Ffigur 13.4: Incwm cartref gros yr wythnos**





- Dywedodd ychydig dros 100 o ymatebwyr fod eu hincwm y cartref wythnosol rhwng £581 a £750 cyn didyniadau. Ymatebodd 5 gan ddweud bod eu hincwm wythnosol hyd at £100 yr wythnos.

**Tabl 13.4: Materion gofal plant sy'n effeithio ar waith:**

| **Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a yw problemau'n ymwneud â Gofal Plant wedi effeithio arnoch chi neu'ch partner (os yw'n berthnasol) mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol (ticiwch bob un sy'n berthnasol):** | **Ydy** |
|---|---|
| Wedi achosi problemau yn y gwaith | 337 |
| Wedi atal parhad â gwaith | 146 |
| Wedi eich atal rhag gweithio/cael swydd | 147 |
| Wedi eich atal rhag hyfforddi | 130 |
| Arall (eglurwch os gwelwch yn dda): | 60 |

**Ffigur 13.5: Materion gofal plant sy'n effeithio ar waith:**



- Dywedodd 337 o ymatebwyr fod Gofal Plant wedi achosi problemau yn y gwaith, a dywedodd 147 arall ei fod wedi eu hatal rhag gweithio neu rhag cael swydd. Dywedodd 146 fod problemau Gofal Plant wedi eu hatal rhag parhau i weithio.
- Mae'r graff uchod yn dangos bod y mwyafrif o'r problemau yn ymwneud â Gofal Plant i'w gweld yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Rheidol, Ystwyth a Charon, Y Borth a Bont-goch a De Aberystwyth.

Pan ofynnwyd am adborth ar broblemau Gofal Plant, mae'r ymatebion i'w gweld isod. Y rhai oedd yn achosi'r pryder mwyaf oedd y sylwadau gan rieni a ddywedodd fod diffyg Gofal Plant yn effeithio ar eu horiau gwaith a'u hincwm, a materion fforddiadwyedd:

- *"Dim byd ar gael felly rwy'n gweithio llai o oriau"*
- *"Byddwn pe bai ar gael er mwyn i mi allu gweithio mwy"*
- *"Rwy'n mynd ag ef i'r gwaith oherwydd dwi ddim yn gallu fforddio Gofal Plant"*
- *"Yn ffodus dyw tad fy mhlant ddim yn gweithio felly mae'n cael y plant o gwmpas oriau ysgol tra fy mod i'n gweithio ond os oedd e'n gweithio, byddai'n rhaid i mi roi'r gorau i weithio oherwydd diffyg Gofal Plant"*
- *"Rwyf wedi gorfod ac ar hyn o bryd mae'n rhaid i mi golli dosbarthiadau ar gyfer MA oherwydd diffyg Gofal Plant."*
- *"Roedd fy nhrefniadau Gofal Plant yn achosi problem yn fy swydd flaenorol. Ers hynny dwi wedi newid cyflogwr – gyda llai o gyflog"*
- *"Dyw hi ddim yn edrych yn dda gorfod mynd â'ch plentyn i'r gwaith gyda chi"*
- *"Mae fy mhartner yn hunangyflogedig felly mae wedi colli oriau yn y gwaith pan nad oedd unrhyw Ofal Plant "*
- *"Problemau cyrraedd gwaith ar amser. Trefnu rhywun i fynd a'r plant i'r ysgol a chasglu plant am 3.30 achos does dim clybiau wedi bod"*
- *"Gorfod rhannu ein gwyliau fel nad ydym i ffwrdd ar yr un pryd yn ystod gwyliau'r ysgol"*
- *"Dim clwb ar ôl ysgol ar gael. Mae'r rhieni yn ddarlithydd ac yn arweinydd tîm iechyd felly mae'n rhaid iddyn nhw fod yn y gwaith. Mae dim clwb ar ôl ysgol yn cael effaith andwyol iawn ar weithio."*
- *"Bu'n rhaid i mi gwtogi fy oriau gan nad yw'r clwb ar ôl ysgol wedi ailagor ers Covid a dyw e ddim yn mynd i ailagor"*
- *"Mae fy nghyflogwr yn dda ond dyw darpariaethau Gofal Plant yr ysgol heb ddychwelyd i'r lefel cyn Covid ac mae'n annerbyniol o ran cefnogi rhieni sy'n gweithio'n galed a ddim yn derbyn budd-daliadau."*
- *"Mae'r clwb ar ôl ysgol ar gau oherwydd prinder staff. Cawson ni wybod bythefnos cyn i'r ysgol ddychwelyd ar ôl gwyliau'r haf. Bu'n rhaid i ni leihau ein horiau gwaith a newid cytundebau gwaith i ymdopi â'r diffyg hwn."*
- *"Yn ystod y pandemig roeddwn i a'r gŵr yn gweithio i'r GIG, allen ni ddim gweithio ein horiau dan gontract"*
- *"Yn ystod y pandemig roedd yn anodd iawn jyglo ymrwymiadau gwaith gyda Gofal Plant"*
- *"Mae'n anodd jyglo gwaith a Gofal Plant oherwydd meithrinfa sy'n codi tâl yw'r unig ddewis, nid yw ffrindiau a theulu yn gallu helpu gyda phlentyn bach. Ond mae'r gost yn broblem gyda Gofal Plant amser llawn, er bod safon y Gofal Plant yn ardderchog."*


DRAFT

- *"Doedd fy mhartner ddim yn gallu gweithio tan yn ddiweddar oherwydd cost ffioedd meithrinfa (fel rhywun nad oedd yn gweithio, doedden ni ddim yn gallu cael yr arian i dalu am Ofal Plant er mwyn iddo allu gweithio a chael y budd-daliadau ar gyfer plant 3-4 oed.)"*
- *"Mae cost Gofal Plant yn golygu llawer o jyglo rhyngom ni i gadw costau mor isel â phosibl er mwyn cael budd gwirioneddol o weithio. Mae Gofal Plant i blant o dan 3 oed yn ddrud iawn. Ond oherwydd fy nghyflog dydyn ni ddim yn gymwys ar gyfer Credyd Cynhwysol."*
- *"Roedd fy mhartner a minnau'n weithwyr allweddol ond roedd Gofal Plant yn dal yn brin iawn felly bu'n rhaid i ni ddibynnu ar aelodau eraill o'r teulu."*
- *"Methu derbyn lle yn y Brifysgol oherwydd nid yw Gofal Plant ar ôl ysgol ar gael trwy'r wythnos neu tan 6pm dim ond 3 diwrnod yr wythnos a than 4.30pm nid 6pm"*
- *"Mae ysgolion ar gau ac mae ynysu yn ei gwneud hi'n anodd cael y plant adref a gweithio yr un pryd hefyd"*

**Tabl 13.5: Nifer o blant gan ymatebwyr**

| Faint o blant (0 i 17 oed) sydd gennych chi? | Nifer yr ymatebion | Cyfanswm y plant |
|---|---|---|
| Heb ateb | 68 | - |
| 0 | 2 | 0 |
| 1 | 188 | 188 |
| 2 | 266 | 532 |
| 3 | 82 | 246 |
| 4 | 20 | 80 |
| 5 + plentyn | 7 | 41 |
| | **633** | **1087** |

**Ffigur 13.6: Nifer o blant gan ymatebwyr**





- Roedd gan 188 o ymatebwyr o leiaf un plentyn 0-17 oed, gyda'r nifer uchaf o ymatebwyr (288) yn dweud bod ganddynt ddau o blant.

**Tabl 13.6: Plant ymatebwyr yn ôl grŵp oedran**

| Oedran | Nifer |
|---|---|
| O dan 2 oed | 162 |
| 2 oed | 101 |
| 3 oed | 110 |
| 4 oed | 88 |
| 5 i 8 oed | 337 |
| 9 i 11 oed | 185 |
| 12 i 17 oed | 105 |
| **CYFANSWM** | **1088** |

**Ffigur 13.7: Plant ymatebwyr yn ôl grŵp oedran**





- Dywedodd 337 o ymatebwyr fod ganddynt blentyn 5 i 8 oed, ac roedd gan 185 blentyn 9 i 11 oed. Roedd gan ganran uchel o'r ymatebwyr blant oedran ysgol. Roedd gan 162 o ymatebwyr blentyn o dan 2 oed. Y prif bryderon a nodwyd oedd darpariaeth ar ôl ysgol.

**Tabl 13.7: Plant ymatebwyr yn ôl grŵp oedran fesul AGEHG**

| | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | Anhysbys | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O dan 2 oed | 21 | 9 | 20 | 17 | 12 | 13 | 10 | 12 | 42 | 6 | **162** |
| 2 oed | 14 | 8 | 16 | 8 | 3 | 4 | 8 | 12 | 24 | 4 | **101** |
| 3 oed | 22 | 4 | 20 | 12 | 5 | 8 | 5 | 11 | 19 | 4 | **110** |
| 4 oed | 8 | 5 | 13 | 13 | 7 | 4 | 11 | 8 | 13 | 6 | **88** |
| 5 i 8 oed | 49 | 25 | 39 | 27 | 29 | 22 | 31 | 31 | 66 | 18 | **337** |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 i 11 oed | 18 | 9 | 21 | 13 | 14 | 22 | 17 | 13 | 42 | 16 | **185** |
| 12 i 17 oed | 13 | 3 | 12 | 5 | 10 | 13 | 12 | 5 | 23 | 9 | **105** |
| **CYFANSWM** | | | | | | | | | | | **1088** |

**Ffigur 13.8: Plant ymatebwyr yn ôl grŵp oedran fesul AGEHG**




**Gwasanaethau a Ariennir gan Lywodraeth Cymru**

**Tabl 13.8: Cael mynediad i addysg gynnar**

| C. A yw eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn cael mynediad at le addysg gynnar a ariennir yn yr ysgol neu'r feithrinfa? | Cyfanswm |
|---|---|
| Ydy, yn yr un awdurdod lleol â lle rydw i'n byw | 141 |
| Ydy mewn awdurdod lleol gwahanol i le rydw i'n byw | 2 |
| Bydd yn dechrau cyn bo hir | 14 |
| Nac ydy | 24 |
| Ddim yn siŵr | 7 |
| Amherthnasol | 6 |
| CYFANSWM | 194 |

**Ffigur 13.9: Cael mynediad i addysg gynnar**




- Dywedodd 141 o ymatebwyr eu bod wedi cael mynediad at le addysg gynnar a ariennir yn yr ysgol neu'r feithrinfa yn yr awdurdod lleol lle maent yn byw sy'n cynrychioli 25% o blant 3 oed yn cael mynediad at ddarpariaeth feithrin yn y Cyfnod Sylfaen fel y'i cofnodwyd yn nata PLASC yn yr hydref 2021.


| **Os dewiswch beidio, pam?** |
|---|
| • *Oherwydd dydw i ddim yn gwybod sut i wneud cais i'r ysgol lle rydw i am i'm fynd.*<br>• *Oherwydd y cyfnod clo a Chyngor Ceredigion yn gweithredu rheolau llymach ar ailagor, dwi'n methu mynd i gylchoedd meithrin neu blant bach gyda fy mhlentyn er mwyn ei helpu i ddod i arfer â'r sefyllfa newydd. Rwy'n teimlo ei fod yn naid fawr o fod gyda rhiant 24/7 i adael plentyn ar ei ben ei hun mewn lle newydd.*<br>• *Mae'n cael y 10 awr ond wedi gwneud cais am y 30 awr gan fod fy ngŵr yn hunangyflogedig ac mae'n anodd cael y gwaith papur i gwblhau'r ffurflen.* |

DRAFT

**Tabl 13.9: Defnyddio Cynnig Gofal Plant**

| C. Ydy eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn defnyddio Gofal Plant a ariennir gan y llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant)? | Cyfanswm |
|---|---|
| Ydy, yn yr un awdurdod lleol â lle rydw i'n byw | 106 |
| Ydy, mewn awdurdod lleol gwahanol i'r lle rydw i'n byw | 3 |
| Nac ydy – ond efallai y bydd yn ei ddefnyddio cyn bo hir / yn y dyfodol | 30 |
| Nac ydy – dim cynlluniau i wneud hynny | 25 |
| Ddim yn siŵr | 8 |
| Amherthnasol | 24 |
| CYFANSWM | 196 |

**Ffigur 13.10: Defnyddio Cynnig Gofal Plant**




- Dywedodd 109 o ymatebwyr eu bod eisoes yn manteisio ar y cynnig yn yr awdurdod lle maent yn byw neu mewn awdurdod cyfagos.
- Nid oedd gan 25 unrhyw gynlluniau i fanteisio ar y cynnig.
- O'r rhieni oedd â phlant 2 oed, ymatebodd 93 gan ddweud eu bod yn dymuno manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. O'r rhai nad oeddent yn mynd i'w ddefnyddio, nodwyd y rhesymau canlynol:


> - *"Dyw'r cynnig Gofal Plant ddim yn helpu rhieni, mae'n cael ei hysbysebu fel Gofal Plant am ddim ond dyw hyn ddim yn wir gan fod meithrinfeydd preifat yn cynyddu cost Gofal Plant i blant sy'n gymwys ar gyfer y cynnig hwn."*
> - *"Ddim yn gweithio digon o oriau efallai – dylai'r trothwy fod yn is er mwyn annog merched i fynd yn ôl i'r gwaith"*
> - *"Mae fy mab yn 3 oed ym mis Tachwedd felly bydd yn gallu gwneud cais o fis Ionawr.*
> *Ond mae fy ngwraig yn fyfyriwr amser llawn. Rwy'n gweithio'n amser llawn ac felly dydyn ni ddim yn gymwys. Dydyn ni ddim yn cael unrhyw help gyda Gofal Plant ac yn teimlo bod hynny'n annheg.*
> *Dylai bod yn fyfyriwr amser llawn gael ei ystyried yr un peth â gweithio'r 16 awr ac felly dylem ni fod yn gymwys.*
> *Mae angen edrych ar hyn o ddifrif"*

DRAFT

Rhoddodd rhieni plant 3 oed y rhesymau canlynol dros beidio â manteisio ar y cynnig:

| **Os ydych yn dewis peidio, pam?** |
|---|
| • *"Does dim digon o feithrinfeydd addas yn yr ardal, ar ôl gweithio yn y blynyddoedd cynnar ers 20 mlynedd dwi'n gweld bod y safon yng Ngheredigion yn wael iawn."*<br>• *"Rwy'n chwilio am swydd ran-amser (12) awr yr wythnos ond wedyn yn meddwl beth yw'r pwynt oherwydd fyddwn i ddim yn gallu cael y 30 awr o Ofal Plant am ddim os ydw i'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos. Dwi eisiau mynd yn ôl i'r gwaith i helpu fy iechyd meddwl, ond byddai'n rhaid talu am Ofal Plant wedyn a byddai fy nghyflog (a mwy) yn mynd ar hynny a dwi'n methu fforddio gwneud hynny. Mae angen newid y canllawiau (lleihau'r oriau)"*<br>• *"Derbyn credydau Treth Plant ar gyfer 52 wythnos y flwyddyn o'i gymharu â llai o wythnosau gyda'r Cynnig Gofal Plant. Plentyn 3 oed yn dechrau'r ysgol yn amser llawn cyn bo hir "*<br>• *"Dwi ddim mewn swydd amser llawn felly dwi'n methu ei hawlio "*<br>• *"Dim lleoedd ar gael oherwydd diffyg lleoedd mewn Gofal Plant"* |

**Tabl 13:10: Defnyddio Gofal Plant Dechrau'n Deg**




Mae adborth pellach gan rieni ar Ddechrau'n Deg wedi'i gynnwys yn ATODIAD 1.

**Tabl 13:11: Defnyddio Gofal Plant Dechrau'n Deg**

| Methu ei gael /ddim yn yr ardal/ddim yn gymwys | Ddim yn gwybod amdano | Yn mynd i'w ddefnydd dio | Wedi ei ddefnyddio ond yn anhapus | Arall |
|---|---|---|---|---|
| 22 | 16 | 3 | 1 | 3 |


Roedd llawer o rieni'n ymwybodol nad oedden nhw mewn ardal Dechrau'n Deg ac felly ddim yn gymwys. Nid oedd rhai yn ymwybodol o Ddechrau'n Deg, ond yn gyffredinol nid oeddent mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, felly ni fyddent wedi cael eu targedu gyda'r wybodaeth.

*“Heb gael yr opsiwn, byddwn i wedi'i ddefnyddio pe bai'n deg i bob teulu, nid oherwydd cod post yn unig, dylid newid hyn”*

Mae'n bosibl na fydd rhai rhieni'n gwybod am gynlluniau gwahanol nes eu bod yn dechrau mynychu Gofal Plant:
*“Dwi ddim yn siŵr beth mae hyn yn ei olygu? mae fy mhlentyn dwy oed yn dechrau yn y Meithrin ym mis Ionawr felly dwi'n talu amdani!”*
*“Beth yw hwnna? Rydw i a fy mhartner yn gweithio felly rwy'n cymryd nad ydym yn gymwys i gael cymorth”*

**Cymorth Ariannol i rieni:**


**Ffigur 13.11: Cymorth ariannol tuag at gost Gofal Plant:**




| | Elfen gofal plant Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol | Talebau gofal plant / Gofal plant di-dreth | Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr | Cyfraniad cyflogwr |
|---|---|---|---|---|
| NO | 562 | 525 | 630 | 628 |
| YES | 71 | 108 | 3 | 5 |

- Dywedodd 71 eu bod yn derbyn elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol ac mae 108 yn defnyddio talebau Gofal Plant neu'r cynllun Gofal Plant Di-dreth.
- Mae'r nifer sy'n manteisio ar gymorth ariannol yn isel o'i gymharu â nifer yr ymatebwyr sy'n defnyddio Gofal Plant.

**Ffigur 13.12: Cymorth arall tuag at gost Gofal Plant**




Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo cymorth gyda chostau Gofal Plant. Mae pob darparwr yn cael ei annog i gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM er mwyn i rieni allu manteisio ar y cynllun Gofal Plant Di-dreth gyda nhw. Mae angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo'r cynllun. Mae'r tudalennau gwe Gofal Plant ar wefan Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd [Cymorth a Chefnogaeth gyda Chostau Gofal Plant - Cyngor Sir Ceredigion]

**Ymatebwyr gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd**

**Tabl 13.12: Plant gydag anabledd neu salwch tymor hir**

| | |
|---|---|
| | |

**Tabl 13.13: Plant sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u dysgu**

| | |
|---|---|
| **A oes gan unrhyw un o'ch plant anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu** | |

| A oes gan unrhyw un o'ch plant anabledd neu salwch tymor hir? | |
|---|---|
| Oes | 41 |
| Nac oes | 582 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5 |

| ychwanegol (mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu)? | |
|---|---|
| Oes | 79 |
| Nac oes | 537 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 9 |

## 14 DEFNYDD PRESENNOL O OFAL PLANT

**Tabl 14.1: Defnydd presennol o bob math o Ofal Plant – Yn ystod y Tymor fesul AGEHG:**

| Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o Ofal Plant neu addysg gynnar YN YSTOD TYMOR | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | Anhysbys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 5 | 2 | 7 | 8 | 9 | 9 | 16 | 16 | 8 | 6 | 86 |
| Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast | 29 | 8 | 14 | 13 | 13 | 12 | 21 | 15 | 37 | 11 | 173 |
| Clwb ar ôl Ysgol | 28 | 8 | 13 | 8 | 8 | 6 | 3 | 4 | 27 | 2 | 107 |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 22 | 7 | 20 | 12 | 1 | 7 | 4 | 5 | 29 | 2 | 109 |
| Meithrinfa Ysgol | 5 | 3 | 7 | 3 | 0 | 0 | 2 | 3 | 5 | 2 | 30 |

DRAFT

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwp Chwarae | 4 | 5 | 3 | 0 | 1 | 1 | 3 | 2 | 1 | 1 | 21 |
| Cylch Meithrin | 22 | 2 | 11 | 10 | 6 | 8 | 8 | 14 | 27 | 4 | 112 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 3 |
| Nani | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| Au Pair | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Teulu/ffrindiau (cyflogedig) | 7 | 2 | 2 | 1 | 8 | 3 | 4 | 1 | 3 | 1 | 32 |
| Teulu/ffrindiau (di-dâl) | 41 | 17 | 35 | 25 | 25 | 23 | 30 | 22 | 63 | 17 | 298 |
| Dim yn ystod y tymor ysgol | 11 | 5 | 10 | 6 | 5 | 8 | 5 | 8 | 18 | 2 | 78 |
| Arall (eglurwch): 37 o sylwadau eraill | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 3 | 4 | 8 | 3 | 1 | 37 |
| **CYFANSWM** | **178** | **63** | **127** | **89** | **79** | **81** | **101** | **99** | **223** | **50** | **1090** |

- Mae'r ddibyniaeth ar Ofal Plant anffurfiol yn parhau i fod yr uchaf o'r ymatebion gyda 298 yn nodi eu bod yn defnyddio teulu/ffrindiau (di-dâl).
- Clwb Brecwast oedd y dewis uchaf ond un o Ofal Plant a ddefnyddiwyd gan 173 o ymatebwyr. Rhaid bod yn ofalus yma gan ei bod yn debygol mai dyma'r ddarpariaeth am ddim sydd ar gael trwy ysgolion ac nid mewn darpariaeth Gofal Plant gofrestredig.
- Roedd 112 o ymatebwyr yn defnyddio Cylch Meithrin.

DRAFT

**Tabl 14.2: Defnydd presennol o bob math o Ofal Plant – Gwyliau Ysgol fesul AGEHG:**


| C. Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o Ofal Plant neu addysg gynnar YN YSTOD GWYLIAU YSGOL? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol): | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | Anhysbys | Ymatebodd y cyfanswm Do |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 6 | 2 | 5 | 6 | 7 | 5 | 14 | 16 | 8 | 7 | 76 |
| Gofal Gwyliau | 21 | 9 | 7 | 4 | 0 | 1 | 1 | 1 | 17 | 0 | 61 |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 21 | 5 | 19 | 13 | 1 | 8 | 4 | 6 | 29 | 1 | 107 |
| Ysgol Cyn Paratoi (Preifat). | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grwp Chwarae | 2 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 | 0 | 9 |
| Cylch Meithrin | 2 | 0 | 3 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 9 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Nani | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 1 | 5 |
| Au Pair | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun Chwarae | 2 | 1 | 3 | 2 | 1 | 2 | 0 | 0 | 2 | 2 | 15 |
| Teulu / Ffrindiau (cyflogedig) | 7 | 2 | 4 | 1 | 9 | 1 | 8 | 1 | 3 | 4 | 40 |
| Teulu / Ffrindiau (di-dâl) | 45 | 16 | 38 | 27 | 24 | 20 | 30 | 20 | 71 | 15 | 306 |

DRAFT


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim yn ystod Gwyliau Ysgol | 8 | 6 | 12 | 4 | 6 | 7 | 7 | 5 | 18 | 7 | 80 |
| **CYFANSWM** | **114** | **42** | **92** | **60** | **49** | **47** | **66** | **50** | **154** | **37** | **711** |

- Y ddibyniaeth ar deulu a ffrindiau yw'r dewis mwyaf poblogaidd o hyd ar gyfer Gofal Plant yn ystod y gwyliau gyda 306 o ymatebwyr.
- Dywedodd 107 eu bod yn defnyddio Meithrinfa Ddydd Breifat.

**Ffigur 14.1: Defnydd presennol o bob math o Ofal Plant – Yn ystod y Tymor**



**Ffigur 14.2: Defnydd presennol o bob math o Ofal Plant – Yn ystod y Gwyliau'r Ysgol**




Mynegodd rhieni bryder ynghylch diffyg Clybiau ar ôl Ysgol neu warchodwyr plant:

- *"Dyw'r clwb ar ôl ysgol ddim yn rhedeg yn Ysgol Bro Teifi. Byddwn yn ei ddefnyddio ac angen gwneud hynny"*
- *"Byddwn i'n defnyddio clwb ar ôl ysgol os oedd un ar gael. Rwy'n grac bod ddim un ar gael."*
- *"Clwb ar ôl ysgol cyfyngedig ar yr amserau arferol. Does dim clybiau cyn ysgol nac ar ôl ysgol wedi rhedeg ers y cyfnod clo CV19 cyntaf."*
- *"Dim clwb ar ôl ysgol ar gael a dim lle gyda gwarchodwyr plant."*
- *"Dyw ein darparwr clwb ar ôl ysgol arferol ddim wedi gallu cynnal sesiynau ers mis Medi 2021 oherwydd prinder staff ac mae'n ymddangos ei fod yn cael trafferth i recriwtio staff priodol i ailsefydlu'r clwb. Felly rhaid i ni gasglu ein plant a gofalu amdanyn nhw ar ôl 3pm bob dydd, sy'n golygu bod rhaid gwneud rhywfaint o waith gyda'r nos, ac ati."*

- *"Does dim unrhyw glybiau ar ôl ysgol yn ein hardal ni. Daeth y gwasanaeth hwn i ben ychydig cyn dechrau'r tymor ysgol oherwydd problemau staffio. Dyw'r ddarpariaeth ar gyfer clybiau ar ôl ysgol ddim yn bodoli sy'n ei gwneud yn anodd iawn i rieni sy'n gweithio."*
- *"Dim oherwydd does dim Gofal Plant yn Aberteifi heblaw am warchodwyr plant, sydd i gyd yn llawn"*


**Oriau Gofal Plant a ddefnyddir**
Gofynnodd yr arolwg Rhieni/Gofalwyr i rieni am yr oriau a ddefnyddir ar gyfartaledd bob wythnos ar gyfer unrhyw fath ar gyfer Ofal Plant. Roedd yr arolwg yn caniatáu i rieni fewnbynnu oriau ac roedd yr amrywiadau mawr yn heriol i'w dadansoddi. Roedd yr oriau a ddefnyddiwyd yn amrywio o 1 i 50+.
Ar gyfer arolygon yn y dyfodol, byddai'n well darparu opsiynau i rieni ddewis o ystod benodol o oriau a gallu cofnodi oriau fesul plentyn ar gyfer rhieni sydd â mwy nag un plentyn yn defnyddio Gofal Plant. O'r ymatebion i'r arolwg gallwn weld bod rhieni'n parhau i ddibynnu ar ddarpariaeth ran-amser gyda'r nifer cyfartalog o oriau yn ystod y tymor yn 19 awr a 26 awr yn ystod y gwyliau.

Felly nid yw'r ffigurau hyn yn ystadegol gywir gan inni gymhwyso 'oriau cyfartalog a ddefnyddiwyd' â llaw.


**Tabl 14.3: Oriau Gofal Plant Cyfartalog a ddefnyddir:**

| Oriau Gofal Plant Cyfartalog a ddefnyddir | Cyfartaledd |
|---|---|
| Yn ystod y tymor ysgol? | 19 |
| Yn ystod gwyliau ysgol? | 26 |

**Ffigur 14.3: Ffioedd cyfartalog a delir yr wythnos am Ofal Plant**





**Ffigur 14.4: Bodlonrwydd gyda'r darparwr Gofal Plant presennol**




- Dywedodd 118 o ymatebwyr eu bod yn talu rhwng £10 a £49 yr wythnos ar gyfer Gofal Plant gydag ychydig llai na 100 yn talu rhwng £100 a £199.
- Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn hapus gyda'u darparwr Gofal Plant presennol. Roedd gwahaniaethau rhanbarthol o ran y galw am rai gwasanaethau e.e. roedd y galw am ofal plant gyda'r hwyr ac ar y penwythnos yn uchel mewn rhai ardaloedd, neu roedd lleoliadau'n rhy brysur neu'n rhy llawn i gynnig yr holl oriau gofynnol. Rhaid bod yn ofalus oherwydd efallai na fydd y ffigurau'n cynrychioli'r union ddarpariaeth sydd ar gael, ond cânt eu defnyddio gyda'r wybodaeth arall sydd ar gael cyn dod i unrhyw gasgliadau.

**Ffigur 14.5: Sut y gellid gwella Gofal Plant presennol:**



**Tabl 14.4: Sut y gellid gwella Gofal Plant presennol:**

| **C. Os ydych yn anhapus ag agwedd benodol ar eich trefniadau Gofal Plant, dywedwch wrthym sut y gellid ei wella:** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **Anhysbys** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwy o oriau ar gael (y leoliad yn rhy brysur / llawn) | 2 | | 3 | | 6 | 1 | 3 | 1 | 3 | |
| Estyn oriau agor – boreau cynnar | 3 | | 2 | 1 | 3 | 2 | 3 | 1 | 1 | |
| Estyn oriau agor – gyda'r nos | 2 | | 2 | | 5 | 1 | 3 | 2 | 3 | |
| Estyn oriau agor – i gynnwys y penwythnos | 2 | | | | 3 | 1 | 1 | 1 | | |
| Ymestyn oriau agor – gofal dros nos | 2 | | | | 1 | | 1 | | | |
| Sesiynau mwy hyblyg (gofal ad hoc) | 3 | | 3 | | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| Yn fwy fforddiadwy | 2 | 1 | 3 | 1 | 2 | 3 | 2 | 1 | 4 | |
| Lleoliad gwahanol | 2 | 1 | | | 2 | 1 | 1 | | 3 | |
| Gofal plant sy'n ateb anghenion dysgu ychwanegol fy mhlentyn yn well | | | 1 | 1 | | | | | | |
| Darpariaeth o ansawdd gwell | | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | | 1 | 1 |
| Dim angen gwneud gwelliannau | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **18** | **3** | **16** | **4** | **25** | **11** | **16** | **9** | **18** | **1** |

DRAFT

- Roedd y gyfradd ymateb yn gymharol isel pan ofynnwyd a ydych yn anhapus ag agwedd benodol ar eich trefniadau Gofal Plant, sut y gellid ei gwella, a allai adlewyrchu bod ymatebwyr yn hapus ar y cyfan.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion (25) o Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Ceinewydd a Phenbryn lle y gwnaed awgrymiadau ar gyfer mwy o oriau (6), oriau agor estynedig (5), a darpariaeth fwy fforddiadwy (2).

**Mynediad i Ofal Plant:**

**Tabl 14.4: Rhesymau am ddim ddefnyddio Gofal Plant fesul AGEHG**

| Os nad ydych yn defnyddio unrhyw Ofal Plant, ticiwch y rheswm/rhesymau pam: | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | Anhysbys | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydym yn aros i le fod ar gael | 2 | 2 | 1 | 2 | 5 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 18 |
| Rwy'n defnyddio Gofal Plant anffurfiol fel aelod o'r teulu neu ffrind | 9 | 5 | 15 | 7 | 14 | 7 | 14 | 8 | 22 | 9 | 110 |
| Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw Ofal Plant | 0 | 1 | 3 | 4 | 2 | 3 | 1 | 2 | 1 | 2 | 19 |
| Rwy'n rhiant sy'n aros gartref a does dim angen Gofal Plant arnaf | 3 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | 1 | 1 | 4 | 2 | 23 |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanyn nhw eu hunain | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 3 | 1 | 0 | 3 | 1 | 14 |

DRAFT


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Does dim Gofal Plant o ansawdd digonol | 3 | 1 | 4 | 2 | 6 | 0 | 8 | 2 | 7 | 4 | 37 |
| Does dim darpariaeth cyfrwng Cymraeg addas | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 6 |
| Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg na Saesneg | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 6 |
| Nid yw'r Gofal Plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 7 | 0 | 6 | 7 | 10 | 3 | 16 | 8 | 13 | 6 | 76 |
| Mae cost Gofal Plant yn rhy ddrud | 11 | 11 | 19 | 4 | 8 | 7 | 19 | 7 | 28 | 5 | 119 |
| Mae amseroedd Gofal Plant yn anaddas | 9 | 0 | 5 | 2 | 8 | 1 | 12 | 3 | 7 | 5 | 52 |
| Nid oes Gofal Plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn | 4 | 3 | 6 | 3 | 9 | 4 | 8 | 4 | 23 | 3 | 67 |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 5 | 1 | 3 | 1 | 3 | 2 | 5 | 1 | 6 | 1 | 28 |
| Nid oes Gofal Plant lle mae angen iddo fod | 5 | 3 | 11 | 4 | 12 | 3 | 10 | 5 | 22 | 6 | 81 |
| Nid oes Gofal Plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 3 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | 3 | 2 | 13 |
| Dim ond ad hoc y bydda i'n defnyddio Gofal Plant ac mae'n amhosibl cynllunio | 3 | 0 | 3 | 1 | 0 | 4 | 3 | 3 | 6 | 1 | 24 |
| Arall (eglurwch os gwelwch yn dda): | 6 | 5 | 4 | 6 | 4 | 4 | 4 | 8 | 8 | 2 | 51 |
| **CYFANSWM** | **72** | **37** | **85** | **48** | **88** | **45** | **105** | **56** | **156** | **52** | **744** |

- Pan ofynnwyd beth oedd y rheswm dros beidio â defnyddio Gofal Plant, ymatebodd y rhan fwyaf trwy ddweud ei fod yn rhy ddrud (119), a nododd 110 eu bod yn defnyddio teulu a ffrindiau sydd am ddim neu'n fwy hygyrch i rieni yn gyffredinol.
- Dywedodd 81 o ymatebwyr nad oedd unrhyw Ofal Plant lle roedd ei angen arnynt. Y Rheidol, Ystwyth a Charon; Ceinewydd a Phenbryn; a De Aberystwyth oedd y tair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol uchaf lle nad oedd unrhyw Ofal Plant ar gael.
- Dywedodd 67 nad oedd unrhyw Ofal Plant ar gael a oedd yn addas ar gyfer oedran y plentyn – eto nodwyd hyn yn ardal Rheidol, Ystwyth a Charon.

DRAFT

- Dywedodd 52 fod amseroedd Gofal Plant yn anaddas. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Aberteifi ac Aber-porth.
- 

**Ffigur 14.6: Rhesymau am ddim ddefnyddio Gofal Plant fesul AGEHG**



**Os nad ydych yn defnyddio unrhyw Ofal Plant, ticiwch y rheswm/rhesymau pam:**

- *"Rwy'n defnyddio Gofal Plant pan fydd ar gael. Mae gwyliau ysgol yn anodd iawn gan nad yw Gofal Plant ar gael bob amser a heb deulu yn byw gerllaw mae'n rhaid i mi ddibynnu ar ffrindiau a dyw hynny ddim bob amser yn gweithio"*
- *"Hoffen ni ddefnyddio clwb ar ôl ysgol ar gyfer y ddau blentyn bedwar diwrnod yr wythnos ond ar hyn o bryd mae ein darparwr arferol yn dioddef o brinder staff a ddim yn gallu darparu hyn. Does dim lleoedd am ddim gan bob darparwr posibl arall."*
- *"Dim Gofal Plant ar gael i blant hŷn a gwyliau ysgol"*
- *"Ers Covid does dim darpariaeth Gofal Plant ar ôl ysgol yn yr ysgol, ac roedd gwasanaeth da iawn ar gael o'r blaen. Hefyd, er bod y clwb brecwast wedi dychwelyd ers Covid mae wedi'i gyfyngu i bwcio lle ymlaen llaw y diwrnod cynt."*
- *"Fforddiadwyedd: Rwy'n warchodwr plant ond yn teimlo bod fy newisiadau gwaith wedi'u lleihau'n sylweddol oherwydd cost Gofal Plant ac felly roedd rhaid i mi ddewis rhywbeth oedd yn gweddu i'm plant"*

**Dywedodd rhai rhieni nad oedd angen iddynt ddefnyddio Gofal Plant:**

- *"Rwy'n gweithio'n rhan-amser o ddewis i fwynhau tra bod fy mhlant yn ifanc. Mae fy mhartner yn gweithio oriau hyblyg ac yn gallu casglu'r plant ar y 2 ddiwrnod o'r wythnos pan nad ydw i ar gael."*
- *"Dim angen gan fod oriau gwaith yn siwtio amser gollwng a chasglu plant o'r ysgol"*
- *"Rwy'n gweithio o fewn oriau ysgol felly does dim angen Gofal Plant ychwanegol ar hyn o bryd."*
- *"Rwy'n gweithio gyda'r nos ac mae fy mhartner yn gweithio yn y dydd felly dim angen Gofal Plant"*
- *"Mae ein swyddi yn golygu nad oes angen Gofal Plant arnom, dim ond defnyddio'r teulu pan fydd plentyn yn sâl"*
- *"Mae fy mhartner yn rhiant sy'n aros gartref felly does dim angen defnyddio Gofal Plant*

**Tabl 14.5: Datganiadau o foddhad gyda Gofal Plant a ddefnyddir**

| Gan feddwl am yr holl Ofal Plant a ddefnyddiwch ar gyfer eich plant, neu rydych yn ymwybodol ohono, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol: | Tueddu i Gytuno | Cytuno'n Gryf | Tueddu i Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n fodlon ar fy Ngofal Plant yn ystod y tymor ysgol | 160 | 254 | 59 | 65 |
| Rwy'n fodlon ar fy Ngofal Plant yn ystod gwyliau'r ysgol | 134 | 153 | 99 | 87 |
| Mae ansawdd Gofal Plant yn uchel | 191 | 268 | 32 | 21 |
| Mae dewis da o Ofal Plant yn fy ardal i | 126 | 57 | 170 | 224 |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae Gofal Plant mewn lleoliad da | 191 | 134 | 121 | 124 |
| Mae Gofal Plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant | 188 | 202 | 47 | 71 |
| Hoffwn i'm plentyn fynychu mwy o Ofal Plant cofrestredig | 149 | 169 | 73 | 28 |
| Mae Gofal Plant yn rhy ddrud | 172 | 307 | 59 | 12 |
| Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer Gofal Plant | 126 | 96 | 182 | 75 |
| Mae gen i broblem gyda threfniadau Gofal Plant sy'n annibynadwy (e.e. canslo sesiynau ar fyr rybudd) | 48 | 41 | 94 | 158 |
| Mae Gofal Plant yn rhwystr i mi gael swydd neu hyfforddiant | 147 | 160 | 73 | 79 |
| Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am Ofal Plant | 231 | 120 | 161 | 67 |
| Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer Gofal Plant | 178 | 71 | 178 | 138 |

- Roedd 254 yn cytuno'n gryf eu bod yn fodlon â'r Gofal Plant yn ystod y tymor, ond mae 65 yn anghytuno'n gryf. Fodd bynnag, mae hyn yn llai yn ystod y gwyliau gyda dim ond 153 o ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'cytuno'n gryf' â Gofal Plant yn y gwyliau.
- Roedd 268 yn cytuno'n gryf bod ansawdd Gofal Plant yn uchel yng Ngheredigion.
- Pan ofynnwyd a oedd dewis da o Ofal Plant, roedd 224 o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn sy'n tynnu sylw at y bwlch sydd gennym yn y math o ddarpariaeth sydd ar gael.
- Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn mae cost Gofal Plant yn parhau i fod yn broblem gan fod (307) yn cytuno'n gryf fod Gofal Plant yn ddrud.
- Pan ofynnwyd "Rwy'n gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am Ofal Plant", dywedodd 231 o ymatebwyr eu bod yn "tueddu i gytuno" tra bod 161 yn "tueddu i anghytuno".

**Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o Ofal Plant arnoch chi yn y blynyddoedd nesaf?**


DRAFT

**Ffigur 14.7: Defnydd Rhiant/Gofalwr o Ofal Plant yn y dyfodol**





- Mae'r graff uchod yn dangos y bydd galw am fwy o ddarpariaeth Gofal Plant ym mhob un o'r 9 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, yn arbennig yn ardal Rheidol, Ystwyth a Charon. Dyma lle mae'r galw mwyaf am ddarpariaeth, ac mae yn y 4 isaf ar gyfer nifer y lleoedd cofrestredig (6ed safle o'r 9 ardal ar gyfer lleoedd Gofal Plant cofrestredig). Rhaid bod yn ofalus yma gan mai Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Rheidol, Ystwyth a Charon yw ardal fwyaf y sir o bell ffordd. Felly, bydd angen dadansoddiad mwy lleol yn yr ardaloedd hyn i nodi lle yn union y mae angen y ddarpariaeth.
- Mae'r Borth a Bont-goch a De Aberystwyth hefyd wedi'u nodi fel ardaloedd lle mae'n debygol y bydd angen mwy o Ofal Plant yn y ddwy flynedd nesaf.

**Ffigur 14.8: Nifer y Plant sydd Ar hyn o bryd wedi'u Cofrestru i Ofalu Am fesul AGEHG**





**Ffigur 14.9: Rhiant/Gofalwr yn defnyddio llai o Ofal Plant**



*"Bydd y plentyn ieuengaf yn dechrau yn yr ysgol gynradd mewn ychydig flynyddoedd felly tra bydd anghenion Gofal Plant yn ystod y tymor yn llai, bydd trefnu Gofal Plant yn ystod y gwyliau yn anodd iawn gan nad oes darpariaeth Gofal Plant yn ystod y gwyliau ar gyfer plant oedran cynradd yn y sir."*

**Ffigur 14.10: Math o ddefnydd gofal plant neu addysg gynnar yn y dyfodol**




Clwb Brecwast a Darpariaeth ar Ôl Ysgol yw'r gofynion gofal y bydd y galw mwyaf amdanynt yn y blynyddoedd nesaf, ac mae'n dangos mai'r gofal 'cofleidiol' mewn ysgolion yw'r prif bryder i rieni a gofalwyr.

| 15 | GOFAL PLANT TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG |
|---|---|

**Tabl 15.1: Mynediad presennol i Ofal Plant cyfrwng Cymraeg**

| Ydych chi'n defnyddio Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg? | |
|---|---|
| Heb ateb | 337 |
| Nac ydw | 84 |
| Ansicr/Ddim yn gwybod | 10 |
| Ydw | 202 |
| CYFANSWM | 633 |

**Tabl 15.2: Yn dymuno cael mynediad i Ofal Plant cyfrwng Cymraeg**

| Os na, hoffech chi ddefnyddio Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg? | |
|---|---|
| Heb ateb | 547 |
| Ddim yn gwybod | 3 |
| Efallai | 17 |
| Nac ydw | 49 |
| Ydw | 17 |
| CYFANSWM | 633 |

- Atebodd 202 gan ddweud eu bod yn defnyddio Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd 337 wedi ateb y cwestiwn hwn.
- Pan ofynnwyd a hoffech ddefnyddio mwy o Ofal Plant cyfrwng Cymraeg, atebodd 58% (49) gan ddweud nad oeddent am gael mwy o ofal, 20% efallai ac ydw.

**Tabl 15.3: Materion yn ymwneud â chael mynediad at Ofal Plant cyfrwng Cymraeg:**

| Dywedoch chi wrthym nad ydych yn defnyddio Gofal Plant cyfrwng Cymraeg, ond efallai yr hoffech wneud hynny. Pa broblemau ydych chi'n eu hwynebu o ran defnyddio Gofal Plant cyfrwng Cymraeg? Ticiwch bob un sy'n berthnasol | Ie |
|---|---|
| Pellter | 7 |
| Argaeledd | 17 |
| Ansawdd Gofal | 6 |
| Gallu ieithyddol staff | 7 |
| Cost | 7 |
| Dim digon o oriau gofal | 2 |

- *Dydw i ddim yn siarad Cymraeg ond byddwn i wir yn hoffi dysgu a byddwn wrth fy modd yn gweld fy mhlant yn dysgu hefyd. Y rhwystr yw nad wyf yn siarad yr iaith fy hun.*

DRAFT

- *Roedd fy merch yn mynychu Cylch Meithrin yn Aberystwyth, ond roedd rhaid i ni newid lleoliad oherwydd doeddwn i ddim yn gallu cyrraedd gwaith mewn pryd gyda'i oriau agor. Felly roedd rhaid i mi newid i leoliad Saesneg oherwydd dyma'r unig gylch chwarae oedd ar gael oedd yn agor yn ddigon cynnar. Wedi dweud hynny mae'r gofal a'r amrywiaeth o brofiadau heb eu hail.*
- *Gallwn i fod wedi cofrestru fy mhlentyn mewn meithrinfa darpariaeth Gymraeg ac er fy mod yn frwd dros y Gymraeg, dewisais ansawdd y ddarpariaeth dros ddarparwr Cymraeg.*
- *Dewisais ein meithrinfa bresennol gan ei bod yn feithrinfa fach, gyda theimlad clyd, teuluol. Mae'n drueni nad oes llawer o staff yn siarad Cymraeg yno.*


**Tabl 15.4: Gofal Plant Cymraeg a ddefnyddir yn ystod y tymor**

| **Gofal Plant Cymraeg a ddefnyddir yn ystod y TYMOR YSGOL** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **Anhysbys** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 3 | 0 | 4 | 5 | 5 | 5 | 11 | 7 | 5 | | **45** |
| Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast | 12 | 1 | 5 | 6 | 3 | 3 | 4 | 3 | 9 | 1 | **47** |
| Clwb ar ôl Ysgol | 13 | 1 | 6 | 5 | | 2 | | | 7 | 2 | **36** |
| Meithrinfa Gofal Dydd Breifat | 12 | 4 | 13 | 10 | 1 | 6 | 2 | 2 | 20 | 1 | **71** |
| Meithrinfa Ysgol | 2 | 1 | 2 | 1 | | | 1 | 2 | 4 | | **13** |
| Grwp Chwarae | 1 | 1 | | | | 1 | 1 | | | | **4** |
| Cylch Meithrin | 17 | 2 | 8 | 7 | 6 | 6 | 5 | 8 | 21 | 1 | **81** |
| Crèche | | | | | | 1 | | | 1 | | **2** |
| Nani | | | 1 | | | | | 1 | | | **2** |


DRAFT

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Au Pair | | | | | | | | | | | **0** |
| Teulu/ffrindiau (cyflogedig) | 3 | 1 | | 1 | 1 | 1 | | | | | **7** |
| Teulu/ffrindiau (di-dâl) | 20 | 3 | 12 | 10 | 8 | 7 | 7 | 8 | 22 | 2 | **99** |
| Dim yn ystod y tymor ysgol | | | | | | | | | | | **78** |
| **CYFANSWM** | **83** | **14** | **51** | **45** | **24** | **32** | **31** | **31** | **89** | **7** | **485** |

**Ffigur 15.1: Gofal Plant Cymraeg a ddefnyddir yn ystod y tymor**




**Ffigur 15.2: Gofal Plant Cymraeg a ddefnyddir yn ystod Gwyliau Ysgol**



**Tabl 15.5: Gofal plant a ddefnyddir yn ystod Gwyliau Ysgol**

| **Gofal Plant Cymraeg a ddefnyddir yn ystod GWYLIAU YSGOL** | **Y Borth a Bont-goch** | **Aberystwyth – Gogledd** | **Aberystwyth – De** | **Aberaeron a Llanrhystud** | **Ceinewydd a Phenbryn** | **Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad** | **Aberteifi ac Aber-porth** | **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **Rheidol, Ystwyth a Charon** | **Anhysbys** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 4 | | 4 | 4 | 3 | 3 | 8 | 6 | 5 | | **37** |
| Gofal Gwyliau | 12 | 2 | 3 | 2 | | | | | 4 | | **23** |
| Meithrinfa Gofal Dydd Breifat | 11 | 3 | 15 | 11 | 1 | 5 | 1 | 3 | 20 | 1 | **71** |
| Ysgol Cyn Paratoi (Preifat) | | | | | | | | | | | **0** |
| Grwp Chwarae | 1 | | | 1 | | | | | 1 | | **3** |
| Cylch Meithrin | 1 | | 3 | 1 | 1 | | | | 1 | | **7** |
| Crèche | | | | 1 | | 1 | | | | | **2** |
| Nani | | | 1 | | | | | 1 | | | **2** |
| Au Pair | | | | | | | | | | | **0** |
| Cynllun chwarae | 2 | 1 | | 1 | | 1 | | | | | **5** |
| Teulu / Ffrindiau (cyflogedig) | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | | | | | 1 | **8** |
| Teulu / Ffrindiau (di-dâl) | 23 | 4 | 15 | 12 | 7 | 6 | 8 | 7 | 26 | 3 | **111** |
| Dim yn ystod Gwyliau Ysgol | 4 | 1 | 3 | | 1 | 4 | 1 | 2 | 9 | 1 | **26** |
| Arall (eglurwch): 32 o sylwadau | 2 | | 3 | 1 | | 1 | 1 | | | 1 | **9** |
| **CYFANSWM** | **63** | **12** | **48** | **35** | **14** | **21** | **19** | **19** | **66** | **7** | **304** |

DRAFT


**Iaith yr Ymatebwyr (prif iaith a siaredir gartref)**

Cwblhaodd 53 yr arolwg yn Gymraeg – 8.37% o ymatebwyr (91.63% yn Saesneg – 580 o ymatebwyr)

**Tabl 15.6: Iaith yr Ymatebwyr**

| Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg? | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Deall | 455 | 178 |
| Siarad | 372 | 261 |
| Darllen | 364 | 269 |
| Ysgrifennu | 320 | 313 |

**Ffigur 15.3: Iaith yr Ymatebwyr**




**Sylwadau rhanddeiliaid:**

*Rwy'n gwybod pa mor galed y mae'r uned Gofal Plant wedi gweithio, gyda Cered, i gynyddu lefel y Gymraeg a ddefnyddir gan ddarparwyr Gofal Plant. Daliwch ati i wneud yr hyn rydych chi wedi bod yn ei wneud hyd yn hyn!*

*Mae angen sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn ystyried gweithio ym maes Gofal Plant fel bod digon o staff ar gael i weithio yn y maes hwn. Angen sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol e.e. therapyddion iaith yn gallu siarad Cymraeg gyda theuluoedd Cymraeg eu hiaith.*

*Sicrhau bod cymorth ac asesiadau ar gael yn Gymraeg.*

*Cynnig bod y Gymraeg yn iaith bob dydd, ddim yn rhy ffurfiol.*

*Mae Cylchoedd Meithrin Mudiad Meithrin a Meithrinfeydd Gofal Dydd ac amrywiaeth eang o leoliadau yn darparu Gofal Plant cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel.*

*Mae anawsterau ar hyn o bryd o ran penodi staff, yn enwedig staff cymwysedig sy'n gallu siarad Cymraeg.*

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **Sylwadau darparwyr:**<br>• *Mwy o hysbysebu ar gyfer Gwarchodwyr Plant sy'n siarad Cymraeg.*<br>• *Gwersi Cymraeg am ddim a thempledi i'w defnyddio yn y lleoliadau*<br>• *Mae nifer y gwarchodwyr plant yn cael eu heffeithio gan y Cylch Meithrin lleol sy'n derbyn plant o 2 oed. Mae rhieni'n aml yn chwilio am ofal cofleidiol ar gyfer y plant hyn sy'n effeithio ar y cymarebau plant.*<br>• *Problem recriwtio.*<br>• *Rhieni sengl ddim eisiau gweithio mwy nag 16 awr oherwydd ofn colli eu budd-daliadau a diogelwch.*<br>• *Gweithwyr rhan-amser ddim am gymryd ail swydd oherwydd bydden nhw'n cael eu trethu'n drwm.*<br>• *Mae'n bryder yn y sector isafswm cyflog hwn pan rydym yn clywed sylwadau fel 'Rwy'n well fy myd ar fudd-daliadau'.*<br>• *Gallem ni ehangu i gynnig mwy o le ond mae staffio yn ormod o bryder i hyd yn oed ystyried hyn.* |
| **16** | **RHWYSTRAU I DDARPARIAETH GOFAL PLANT** |
| | Mae angen Gofal Plant ar deuluoedd sy'n gweithio er mwyn i rieni allu gweithio neu fynychu addysg neu hyfforddiant. Rhaid i Ddarparwyr Gofal Plant hefyd sicrhau bod eu ffioedd a'u hincwm yn ddigonol i dalu gorbenion a sicrhau bod yr holl staff (os yw'n berthnasol) yn cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Un rhwystr i Ddarparwyr Gofal Plant ar hyn o bryd yw'r gofynion cymwysterau sy'n newid yn gyson gan olygu bod angen i'r gweithlu ddiweddaru neu ychwanegu at eu cymwysterau presennol. Mae darparwyr Gofal Plant yn ei chael hi'n anodd cydbwyso gorbenion ag amrywiadau rhanbarthol yn y galw am ddarpariaeth Gofal Plant, sy'n arwain at niferoedd isel mewn rhai ardaloedd a mathau o ddarpariaeth a rhestrau aros mewn ardaloedd eraill.<br><br>Roedd yr heriau hyn yn bod cyn y pandemig sydd wedi gwaethygu'r problemau sy'n wynebu'r sector ymhellach. Mae cael cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd a chynaliadwyedd busnes yn un na all y sector ei ddatrys ar ei ben ei hun.<br><br>**Sylwadau darparwr Gofal Plant:**<br>*"Mae lleoedd ar gael yn ein clwb ar ôl ysgol ers y pandemig a gyda rhieni sy'n gweithio gartref mae gennym lai o blant sydd angen gofal ar hyn o bryd. Mae'n anodd cynnal cydbwysedd wedyn i baru niferoedd staff â chymarebau plant a cheisio peidio â cholli arian ar bob sesiwn. Mae'n costio mwy i'r busnes ddarparu Gofal Plant un i un hefyd."*<br><br>*"Gall fod yn her cynnal cymarebau staff cymwysedig o 50%, mae'n debyg y bydd hyn yn cynyddu wrth i'r cymhwyster Gwaith Chwarae gael ei gyflwyno hefyd."* |

DRAFT

*"Mae holl warchodwyr plant Ceredigion yn llawn ar hyn o bryd a fydd yn effeithio ar fy swydd newydd yn y GIG"*

*"Yr hyn sydd ei angen arna i fwyaf yw Gofal Plant ar ôl ysgol lle gall y darparwr gofal ei gasglu o'r ysgol er mwyn i mi allu gweithio trwy amser codi plant o'r ysgol. Hefyd byddai cael clwb brecwast yn yr ysgol yn ddefnyddiol (mae e ym Mlwyddyn 5 a does dim clwb brecwast wedi bod erioed, ond roedd 'clwb' cyn ysgol yn cael ei redeg ar un amser)."*

*"Mae Gofal Plant yn gyfyngedig a does dim byd ar gael o gwbl ar gyfer plentyn 11 oed yng Ngheredigion. Ers i fy mam farw y llynedd, mae'n golygu fy mod i'n gorfod ystyried gweithio yn ystod y tymor ysgol oherwydd does dim darpariaeth Gofal Plant yn ystod y gwyliau ysgol ar gyfer fy mhlentyn 11 oed, a does dim wedi bod ar gael yn yr ysgol."*

*"Mae'r clwb ar ôl ysgol yn codi plant tan 6pm. Nid yw'r ieuengaf yn gallu mynd i'r clwb brecwast nes y bydd yn 4 oed er ei fod yn yr ysgol ar gyfer y sesiwn bore"*

*"Argaeledd Gofal Plant/oriau addas"*

*"Mae un plentyn mewn Gofal Plant am 4 diwrnod. Mae plentyn arall yn mynd 2 ddiwrnod, ar restrau aros amrywiol ar gyfer 2 ddiwrnod arall yr wythnos"*
*"Dim ond newydd ddechrau yn y feithrinfa yr wythnos hon, rydyn ni wedi bod ar restr aros ers amser ac mae lle newydd gael ei gynnig."*


*"Diffyg Gofal Plant yn fy ardal i"*
*"Byddai'n dda cael yr opsiwn ar gyfer darpariaeth Saesneg"*

Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn werthfawr a chafodd y cyfan ei ystyried wrth nodi'r rhwystrau i Ofal Plant.


Mae'r rhwystrau rhag cael mynediad at Ofal Plant yn cynnwys yr wybodaeth sydd gan rieni neu sydd heb gan rieni am yr hyn sydd ar gael yn lleol a pha gymorth ariannol sydd ar gael iddynt. O'r ymateb yn yr Arolwg i Rhanddeiliaid, mae'n amlwg bod llawer yn gwybod am y Cynnig Gofal Plant, a nodwyd bod hyn yn helpu teuluoedd i gael cyflogaeth. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod rhanddeiliaid yn hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ymysg teuluoedd.

DRAFT


**Ffigur 16.1: Gwybodaeth rhanddeiliaid am y Cynnig Gofal Plant**





**Ffigur 16.2: Rhanddeiliaid – Mae Gofal Plant yn cynnig help i gael cyflogaeth**




**Ffigur 16.3: Gwybodaeth rhanddeiliaid am Ofal Plant Di-dreth**




**Ffigur 16.4: Defnydd rhanddeiliaid o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**



**(i) Rhieni sy'n Gweithio**

Cafwyd yr ymatebion mwyaf i'r arolwg rhieni/gofalwyr gan rieni sy'n gweithio. Mae adborth trwy'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y problemau sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio o ran Gofal Plant sy'n cynnwys cost, argaeledd a hyblygrwydd y ddarpariaeth. Darpariaeth gofleidiol o ran gofal cyn ac ar ôl ysgol a gofal gwyliau yw un o'r rhwystrau mwyaf i Ofal Plant a nodwyd yn yr asesiad hwn.

**Sylwadau rhanddeiliaid:**
*"…mae rhai aelodau o staff yn gweithio gyda mi sy'n gweithio oriau hyblyg oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu cael Gofal Plant, yn ffodus mae ganddyn nhw aelodau o'r teulu gerllaw a all ofalu am y plant neu eu casglu o'r ysgol, ac fel cyflogwr gallwn ni fod yn eithaf hyblyg, ond nid yw'n sefyllfa berffaith."*

*"… Mae nifer y lleoliadau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr wedi lleihau'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig/difreintiedig (lle mae llai o Ofal Plant ar gael yn barod), sy'n golygu ei fod yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm is/gwledig o ran gallu dechrau/aros/symud i gyflogaeth (lle mae darpariaeth a reolir yn breifat yn disodli'r lleoliadau hyn, bydd angen ffioedd uwch yn aml i dalu costau). Er enghraifft, mae ffioedd un clwb gwyliau gwirfoddol yng Ngheredigion yn codi £26 y dydd, tra bod un darparwr preifat yn yr ardal yn codi £46 y dydd am wasanaeth tebyg, er bod rhywfaint o wrthwynebiad gan grwpiau gwirfoddol i godi ffioedd ar gyfer eu teuluoedd i lefelau mwy cynaliadwy."*

*"Gall gwarchodwyr plant fod mewn sefyllfa dda i ddarparu Gofal Plant hyblyg, o safon i deuluoedd sy'n gweithio oriau anarferol, shifftiau, neu hyd yn oed ddarparu gofal dros nos. Gall gwarchodwyr plant hefyd ofalu am blant o enedigaeth hyd at 14 oed (neu 16 oed os oes gan blant anghenion dysgu ychwanegol). Gall gwarchodwyr plant ddarparu gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal yn ystod y gwyliau, yn ogystal â'r Cynnig Gofal Plant a darpariaeth Dechrau'n Deg, yn enwedig mewn ardaloedd lle gallai'r galw fod yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael."*

**Sylwadau rhieni:**
*"Rydym yn ceisio dod o hyd i ofal er mwyn i ni allu gweithio ond yn methu gwneud hynny"*
*"Treuliodd y rhan fwyaf o'r cyfnod clo ar safle adeiladu oherwydd doeddwn i ddim yn cael fy ystyried yn 'weithiwr allweddol'"*
*"Roeddwn i'n arfer gweithio yn ystod y tymor ysgol yn unig oherwydd doedd dim opsiynau gwyliau ar gyfer unrhyw grŵp oedran yn fy ardal i."*
*"Hoffwn i er mwyn i mi allu gweithio, ond does dim byd ar gael"*
*"Gorfod cymryd absenoldeb di-dâl o'r gwaith"*
*"Mam-gu sy'n byw awr i ffwrdd a chymryd gwyliau blynyddol."*

*"Lleihau oriau a chymryd gwyliau"*
*"Dim Gofal Plant ar ôl ysgol. Dyw'r ysgol ddim yn darparu Gofal Plant a dim gwarchodwyr plant ar gael yn yr ardal. Mae'n achosi problemau enfawr i deuluoedd sy'n gweithio a dwi wedi clywed nifer o famau yn dweud y bydd rhaid iddyn nhw orffen gweithio oherwydd y sefyllfa."*
*"Mae cyfyngiadau Covid yn fy ardal i wedi cael goblygiadau enfawr ar ddarpariaethau Gofal Plant. Mae fy ymrwymiadau gwaith yn golygu y byddwn yn cael trafferth i reoli'r pwysau ychwanegol o orfod gollwng a chodi'r plant o'r ysgol"*
*"Methu fforddio unrhyw Ofal Plant a gorfod dibynnu ar y teulu sy'n eu hatal nhw rhag gweithio"*

**Mynegodd rhai rhieni oedd yn weithwyr shifft eu bod yn wynebu heriau gyda Gofal Plant:**
*"Fel nyrs a gyrrwr HGV rydyn ni'n dau yn gweithio shifftiau"*
*"Mae angen Gofal Plant arna i ar gyfer babi ar system rota gan fod fy mhartner yn gweithio shifftiau. Does dim darparwyr Gofal Plant yn addasu i batrymau shifft"*

**Sylwadau darparwyr:**

- Dim sylwadau wedi dod i law

**(ii) Rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi**

Mae rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar hyn o bryd yn gallu cael 12.5 awr o Ofal Plant yr wythnos ar gyfer plant 2-3 oed. Mae hyn wedi'i gyfyngu i godau post penodol. Fodd bynnag, wrth i'r adroddiad hwn gael ei lunio mae ymrwymiad gan y Llywodraeth Lafur a Phlaid Cymru wedi cyhoeddi y bydd 12.5 awr o Ofal Plant wedi'i ariannu ar gael i bob plentyn 2 oed. Nid yw sut a phryd y bydd hyn yn cael ei gyflwyno wedi'i gadarnhau eto. Fodd bynnag, bydd angen talu am unrhyw oriau ychwanegol sy'n fwy na'r 12.5 awr.

Mae pob plentyn tair oed hefyd yn gymwys i gael 10 awr o ddarpariaeth addysg gynnar a ariennir mewn lleoliad nas cynhelir neu hyd at 12.5 awr mewn lleoliad a gynhelir.

Gall Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) hefyd helpu aelwydydd di-waith i ddychwelyd i'r farchnad lafur trwy eu cynorthwyo gydag unrhyw gyfleoedd hyfforddi ac ati a thalu am gost Gofal Plant. Mae'n brosiect Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac fe'i hariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae'r prosiect wedi cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2023.

DRAFT

Gall y Cynnig Gofal Plant gefnogi rhieni gyda hyd at 20 awr o Ofal Plant yn ogystal ag addysg y blynyddoedd cynnar. Cyn belled â bod rhiant yn gallu dangos ei fod ar fin dechrau gweithio gyda chadarnhad gan gyflogwr yna efallai y bydd yn gymwys ar gyfer y cynnig.

**Sylwadau rhanddeiliaid:**

*Mae'n ymddangos bod prosiect PaCE yn gweithio o'r adroddiadau a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ond dwi ddim wedi clywed unrhyw dimau yn siarad am y cynllun, dyw hi ddim yn teimlo bod yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Uned Gofal Plant yn gweithio ar y cyd ar y cynllun hwn ac efallai y gellid gwella hyn.*

*Gall costau Gofal Plant oedran ysgol dal i fod yn rhwystr i rieni/gofalwyr sydd am gynyddu oriau gwaith / datblygu eu gyrfaoedd / dechrau cyflogaeth.*

*Mae PACEY Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â JCP, PaCE, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill i gefnogi recriwtio i fod yn warchodwr plant, sydd nid yn unig yn darparu opsiynau Gofal Plant ehangach i deuluoedd yn eu hardal leol ond yn helpu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith.*

**Sylwadau rhieni:**
*"Rwy'n fyfyriwr ôl-raddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth a dydyn nhw ddim yn darparu unrhyw fath o Ofal Plant. Dyna fy mhroblem i."*
*"Yn ffodus, dyw tad fy mhlant yn gweithio felly mae fe'n cael y plant o gwmpas oriau ysgol tra fy mod i'n gweithio, ond os oedd e'n gweithio, byddai'n rhaid i mi roi'r gorau i weithio oherwydd diffyg Gofal Plant"*

**Sylwadau darparwyr:**
- Dim sylwadau wedi dod i law

**(iii) Aelwydydd Di-waith**

Mae llawer o'r mentrau a nodir uchod hefyd yn berthnasol i aelwydydd di-waith.

**Sylwadau rhanddeiliaid:**

*Mae'r "top ups" yn annheg ar rieni sydd ddim yn derbyn incwm felly dyw'r plant ddim yn mynychu, ddim yn mynychu'n amser llawn / yn rheolaidd, mae hyn yn effeithio ar eu datblygiad.*

*Dyw llawer o blant yn enwedig o ardal Llanbedr Pont Steffan ddim n mynychu unrhyw ddarpariaeth cyn ysgol, mae llawer ohonyn nhw'n agored i niwed. Mae angen lleoliad nas cynhelir ar y dref hon.*

*Rydym ni'n gweld mwy a mwy o blant sydd angen ymyrraeth gynnar mewn lleoliadau Gofal Plant felly mae'n hanfodol bod cyllid ar gael i gefnogi'r plant yma. Mae'r allgymorth sydd wedi ei gynnig yn ystod Covid wedi cael effaith bositif ar y plant a'r teuluoedd. ond rhaid sicrhau bod y plant yma wedi eu hadnabod a'u hatgyfeirio, ac os daw'r cyllid i ben bydd bwlch mawr unwaith eto.*

**Sylwadau rhieni:**

- Dim sylwadau wedi dod i law

**Sylwadau darparwyr:**

- *Cyllid ar gael i'r rhai sy'n fyfyrwyr.*

**(iv) Teuluoedd incwm isel**


Ymddengys mai'r rhwystr mwyaf i rieni rhag cael mynediad at Ofal Plant yw cost Gofal Plant. Roedd 307 o ymatebwyr yn cytuno'n gryf bod Gofal Plant yn rhy ddrud, a dywedodd 172 eu bod yn 'tueddu i gytuno'.

**Tabl 16.1: Darparwyr - fforddiadwyedd gan rieni**

| Adborth Darparwyr | Ie | Weithiau | Yn aml | Na/Byth |
|---|---|---|---|---|
| Rhieni yn methu talu ffioedd | 1 | 17 | 1 | 13 |
| Dyledion rhieni heb eu talu/hwyr yn talu ffioedd dros 4 wythnos | 2 | 18 | 2 | 10 |

DRAFT

**Ffigur 16.5: Darparwyr - fforddiadwyedd gan rieni**




Mae fforddiadwyedd Gofal Plant wedi'i nodi fel problem gan ddarparwyr a rhieni/gofalwyr. Mae nifer y plant mewn tlodi wedi cynyddu 2.7% ers 2014/15 gyda 3 o bob 10 o blant yn byw mewn tlodi a 6.9% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. (*Mae canran y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith yng Ngheredigion yn seiliedig ar faint sampl isel, ac felly dylid defnyddio'r ffigurau hyn yn ofalus*).

Yr enillion blynyddol canolrifol yng Ngheredigion yn ôl man preswylio yw £23,576, ac mae'n is na chanolrif Cymru (Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg blynyddol o oriau ac enillion 2020).

Mae nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol wedi cynyddu 112% ers mis Mawrth 2020, gyda 10.5% o bobl oedran gweithio yng Ngheredigion yn derbyn Credyd Cynhwysol.

Mae 32.4% o gartrefi yng Ngheredigion yn byw mewn tlodi o'i gymharu â 35% yng Nghymru.
*Ffynonellau**:** Yr Adran Gwaith a Phensiynau, NOMIS, Llywodraeth Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Cyfrifiad 2011


**CAM GWEITHREDU: Gweithio gyda'r grŵp Trechu Caledi / sefydlu grŵp gorchwyl i wneud gwaith ymchwil pellach i nodi problemau neu feysydd lle mae fforddiadwyedd rhieni hefyd yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau Gofal Plant. Ymchwil i'r 20 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ac unrhyw gydberthynas â chynaliadwyedd lleoliadau, a chysylltiad â datblygiadau tai arfaethedig.**

**CAM GWEITHREDU: Mae angen hyrwyddo cynlluniau cymorth Gofal Plant ymysg rhieni/gofalwyr a busnesau, a chynigiwn fynd â hyn i'r Grŵp Strategaeth Trechu Caledi sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith yng Ngheredigion.**

**Tabl 16.1: Darparwyr – incwm a chyllid**

| Adborth Darparwyr - incwm a chyllid | Ie | Weithiau | Yn aml | Na/Byth |
|---|---|---|---|---|
| Digon o incwm i dalu costau staff a rhent/gorbenion | 14 | 7 | 5 | 6 |
| Digon o gyllid ar gyfer adnoddau | 14 | 14 | 2 | 2 |

**Ffigur 16.6: Darparwyr – incwm a chyllid**




Mae cymorth ariannol ar gyfer lleoliadau wedi bod ar gael trwy gyllid Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf trwy Gynllun Grantiau Bach Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant yn ogystal â grantiau Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen ar gyfer adnoddau ac ati. Fodd bynnag, mae talu costau refeniw yn parhau i fod yn heriol ar gyfer lleoliadau, yn benodol y Cylchoedd Chwarae statws elusennol, lle mae Pwyllgorau'n aml yn dibynnu ar weithgareddau codi arian i dalu costau, ac mae'r rhain wedi'u cwtogi'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd y pandemig. Mae grantiau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru wedi bod ar gael, ac er bod y rhain wedi darparu llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer y lleoliadau, maent wedi golygu y gall y rhan fwyaf talu'r costau refeniw ychwanegol.

Mae lleoliadau nas cynhelir sydd hefyd yn darparu addysg y Cyfnod Sylfaen wedi elwa ar gael cyllid ychwanegol ar gyfer adnoddau.

**Sylwadau rhanddeiliaid:**
*"Allwch chi plîs sefydlu cynllun Gofal Plant cymorthdaledig er mwyn i rieni sy'n gweithio ac ar incwm isel allu cael gwaith, mae'r Cynnig Gofal Plant yn dda ond dyw llawer o rieni ddim yn gymwys. Mae cyfraddau tlodi mewn gwaith yn cynyddu ac mae cost Gofal Plant yn golygu bod llawer o rieni ddim yn gallu fforddio gweithio, hyd yn oed gyda'r Cynnig Gofal Plant."*

*Rydym ni'n gweld mwy a mwy o blant sydd angen ymyrraeth gynnar mewn lleoliadau Gofal Plant felly mae'n hanfodol bod cyllid ar gael i gefnogi'r plant hyn. Mae'r allgymorth sydd wedi ei gynnig dros Covid wedi cael effaith bositif ar y plant a'r teuluoedd, ond rhaid sicrhau bod y plant hyn wedi cael eu hadnabod a'u hatgyfeirio, ac os daw'r cyllid i ben bydd bwlch mawr unwaith eto.*
*Mae sibrydion bod y cyflog byw yn codi eto, mae hyn yn mynd i gael effaith negyddol ar ffioedd ac effeithio ar gynaliadwyedd y lleoliadau.*

**Sylwadau Rhanddeiliaid:**

*"Rwy'n teimlo bod plant 2 i 2½ oed yn ardal Llanbedr Pont Steffan yn colli cyfle i gael addysg gynnar fel yn yr ardaloedd eraill. Mae ardaloedd eraill yng Ngheredigion fel Felinfach, Dyffryn Cledlyn yn cynnig Ysgol Feithrin ac rwy'n meddwl bod y gwasanaeth hwn yn gyfle gwych ac yn dechrau da i daith addysgiadol y plant. Byddai hyn yn lleihau atgyfeiriadau hwyrach ar gyfer lleferydd ac iaith trwy gael eu hadnabod yn gynharach. Mae hwn hefyd yn wasanaeth rhatach ac addas ar gyfer teuluoedd incwm isel sydd ddim yn gallu fforddio anfon eu plant i feithrinfeydd neu warchodwyr plant"*

*Mae angen sicrhau bod systemau yn eu lle fel bod rhieni yn gwybod ble i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Ofal Plant a pha gymorth sydd ar gael iddynt, h.y. Gofal Plant Di-dreth, Cynnig Gofal Plant, Cefnogaeth Dechrau'n Deg."*

*Mae angen grantiau hefyd er mwyn i leoliadau allu cynnig gwasanaeth fforddiadwy.*
*Mae lleoliadau yn ystyried eu cwsmeriaid ac yn cynnig gwasanaeth sy'n bodloni anghenion cymaint o rieni â phosibl.*

*Mae PACEY Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â JCP, PaCE, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill i gefnogi recriwtio i fod yn warchodwr plant, sydd nid yn unig yn darparu opsiynau Gofal Plant ehangach i deuluoedd yn eu hardal leol ond yn helpu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith.*

**Sylwadau rhieni:**
*"Rwy'n mynd ag ef i'r gwaith oherwydd dwi ddim yn gallu fforddio Gofal Plant"*

*"Rhywbeth wedi'i leoli yn Aberteifi heblaw gwarchodwyr plant. Mae llawer o deuluoedd yn yr ardal ac nid yw llawer ohonyn nhw'n gyrru neu'n gallu defnyddio car. Mae angen bod yn lleol ar gyfer gwaith a'r ysgol"*

**Sylwadau darparwyr:**
- *Ehangu'r Cynnig Gofal Plant i gynnwys y teuluoedd hynny sydd ar incwm is.*
- *Mae rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd i dalu am ddarpariaeth Clwb Ar Ôl Ysgol er ein bod yn cadw ffioedd mor isel â phosibl h.y. £3.25 yr awr.*

**(v) Teuluoedd unig riant**

Problemau tebyg i deuluoedd incwm isel, gweler uchod.

**Sylwadau rhanddeiliaid:**

*Mae angen sicrhau bod systemau yn eu lle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am y cymorth sydd ar gael iddynt dalu am Ofal Plant a bod grantiau ar gael i leoliadau allu cynnig gwasanaeth fforddiadwy.*

*Mae lleoliadau yn ystyried eu cwsmeriaid ac yn cynnig gwasanaeth sy'n bodloni anghenion cymaint o rieni â phosibl.*

**Sylwadau rhieni:**

*"Dwi ddim yn gallu fforddio anfon fy mhlentyn i'r clwb gwyliau mwyach. Un flwyddyn fe gostiodd £600 i mi am y 6 wythnos o wyliau. Rwy'n rhiant sengl. Rwy'n gorfod mynd â fy mab i'r gwaith gyda mi os nad yw'r teulu ar gael i'm helpu gyda Gofal Plant. Dyma beth ddigwyddodd dros y rhan fwyaf o'r cyfnodau clo. "*

*"Clwb ar ôl ysgol dim ond 3 diwrnod yr wythnos a dim ond tan 4:30pm. Does fawr ddim Gofal Plant yng Ngheredigion. Mae'n amhosib i riant sengl weithio swydd 9-5. Hollol amhosib. Does dim darpariaeth ar ôl 4:30 ac mae'r fwyaf o swyddi awr i ffwrdd mewn car felly rhaid gadael gwaith erbyn 2:30 3 diwrnod yr wythnos a 3:30 2 ddiwrnod yr wythnos. Os ydych yn rhiant sengl rydych yn llythrennol sownd mewn tlodi nes bod y plant ddim yn ddibynnol mwyach, mae wedi bod bron i 14 mlynedd fod mewn tlodi a methu gweithio fel yr hoffwn i oherwydd diffyg darpariaeth Gofal Plant. Mae 10 mlynedd arall nes bod fy ieuengaf yn 17 oed. Dyna 23 mlynedd mewn tlodi heb unrhyw obaith o bethau'n gwella oherwydd fy mod yn rhiant sengl a bod diffyg difrifol o Ofal Plant cofleidiol yng Ngheredigion. Mae'n cael effaith wael ar fy iechyd meddwl i weld bod pobl eraill gyda phartner neu deulu i ofalu am eu plant yn gallu cael swyddi da gydag incwm da tra fy mod i'n hollol gaeth oherwydd diffyg Gofal Plant cofleidiol."*

*"Dim Gofal Plant cofleidiol. Clwb ar ôl ysgol dim ond ar gael 3 diwrnod yr wythnos a dim ond tan 4:30. Mae hyn yn gweithio i barau neu'r rhai gyda theulu sy'n helpu ac yn gallu rhannu amseroedd casglu, ond mae'n ei gwneud yn amhosibl i rieni sengl sy'n rhaid bod ar gael ar gyfer yr holl anghenion Gofal Plant"*

DRAFT

## (vi) Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

| Tabl 16.2: Ymatebwyr fesul Grŵp Ethnig | Nifer | % | Cyfrifiad 2011 (%) | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cymraeg/Saesneg/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 582 | 91.9 | 93.1 | - |
| 2. Gwyddelig | 1 | 0.2 | 0.6 | - |
| 3 Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0 | 0.1 | - |
| 4. Unrhyw gefndir Gwyn arall, nodwch: | 8 | 1.3 | 2.9 | - |
| 5 Gwyn a Du Caribïaidd | 6 | 0.9 | 0.3 | + |
| 6 Gwyn a Du Affricanaidd | 3 | 0.5 | 0.1 | + |
| 7 Gwyn ac Asiaidd | 4 | 0.6 | 0.3 | + |
| 8 Unrhyw gefndir Cymysg/neu Amlethnig arall, nodwch | 1 | 0.2 | 0.3 | - |
| 9 Indiaidd | 4 | 0.6 | 0.5 | + |
| 10 Pacistanaidd | 0 | 0 | 0.1 | - |
| 11 Bangladeshaidd | 0 | 0 | 0.1 | - |
| 12 Tsieineaidd | 1 | 0.2 | 0.4 | - |
| 13 Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch | 1 | 0.2 | 0.3 | - |
| 14 Affricanaidd | 4 | 0.6 | 0.2 | + |
| 15 Caribïaidd | 0 | 0 | 0.1 | - |
| 16 Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, nodwch | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 17 Arabaidd | 2 | 0.3 | 0.3 | 1 |
| 18 Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch | 3 | 0.5 | 0.2 | + |
| CYFANSWM | 633 | 100 | | |

Mae'r ymatebion yn cynrychioli poblogaethau Ceredigion yn fras. Mewn gwirionedd, mewn nifer o gefndiroedd gwahanol mae'r nifer sy'n ymateb yn uwch nag a dderbynnir fel arfer wrth ymgysylltu/mewn ymgynghoriadau, er enghraifft y cefndir Cymysg, sy'n gadarnhaol iawn. Mae rhai grwpiau heb eu cynrychioli o gwbl, gan gynnwys Sipsiwn neu Deithwyr, Pacistanaidd a Bangladeshaidd, ond mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd y niferoedd bach iawn sydd yng Ngheredigion.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynhyrchu ei Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2022 newydd yn ddiweddar, yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safleoedd awdurdod lleol i Sipsiwn a Theithwyr a dim ond un safle preifat awdurdodedig sydd yn y Sir; nid oes unrhyw ddarpariaeth barhaol ar gyfer Siewmyn. Mae tair aelwyd Sipsiwn/Teithwyr hysbys y mae eu hanghenion llety yn cael eu diwallu ar hyn o bryd gan lety brics a morter. Cydnabyddir y gallai'r nifer hwn fod yn uwch a bod angen ymgysylltu ymhellach â'r gymuned Sipsiwn/Teithwyr. Mae nifer o fentrau wedi cael eu cynnal i

DRAFT

ddatblygu'r ymgysylltu a ffurfio deialog barhaus, ond roedd dechrau pandemig COVID-19 yn ystod 2020/21 wedi effeithio ar y cynnydd y gellid ei wneud oherwydd y cyfyngiadau oedd yn eu lle.

Rheolir Cefnogi Ffoaduriaid Syria ac Adfer Cysylltiadau Teuluol gan y Groes Goch Brydeinig, ac o fewn eu hymateb i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae nodwyd bod teuluoedd o fewn y cynllun ailsefydlu yn ei chael hi'n anodd gwybod beth oedd ymlaen o ran cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, yn enwedig os nad oeddent ar y cyfryngau cymdeithasol. Roeddent wedi dweud bod ymgeiswyr ail iaith o dan anfantais oherwydd eu rhwystrau cyfathrebu wrth gofrestru ar gyfer rhai cynlluniau ynghyd â'r gystadleuaeth i gofrestru cyn bod lleoedd yn llenwi, gan nad oedd rhai diwylliannau'n byw yn ôl y cysyniad o 'ymrwymo ymhell ymlaen llaw' i weithgaredd hamdden.

Nodwyd hefyd bod trafnidiaeth yn broblem wrth orfod teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig os oedd angen codi/gollwng plant, a byddai hyn yn berthnasol i bob teulu sy'n byw mewn ardaloedd gwledig oedd heb eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus.

**Sylwadau rhanddeiliaid:**

*Rwy'n gweithio gyda ffoaduriaid ac maen nhw'n cael trafferth i gael pobl i'w deall, maen nhw'n dysgu Saesneg ond mae'n broses araf. Gallai rhywfaint o hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch gweithio gyda phobl ag ieithoedd eraill fod yn ddefnyddiol.*

**Sylwadau rhieni:**
Dim sylwadau wedi dod i law.

**Sylwadau darparwyr:**
*Cyfieithydd os oes angen a gwybodaeth am ddiwylliannau unigol i'w parchu.*


**(vii) Teuluoedd sydd â phlant ag anghenion addysgol arbennig, neu anabledd**

Adroddodd lleoliadau fod angen cymorth ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol:

DRAFT

**Tabl 16.3: Darparwr – Cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol**

| Adborth Darparwyr | Ie | Weithiau | Yn aml | Na/Byth |
|---|---|---|---|---|
| Angen cymorth ar gyfer staff ychwanegol i blant ag anghenion ychwanegol | 6 | 12 | 6 | 8 |
| Adnoddau, offer a hyfforddiant i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 5 | 18 | 3 | 6 |




Darperir y gefnogaeth bresennol ar gyfer plant cyn oed ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol gan y Cynllun Cyfeirio mewn Cylchoedd Chwarae a Meithrinfeydd Dydd. Mae'r cynllun yn cael ei gydnabod a'i ddeall yn dda gan y sector gyda swyddogion ymroddedig yn cael eu cyflogi gan Fudiad Meithrin a Dechrau'n Deg, i gyd wedi'u hariannu gan grantiau Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn ystod y 18 mis diwethaf yn nodi cynnydd yn nifer y plant sydd angen cymorth a allai fod oherwydd na allai plant fynychu Gofal Plant rheolaidd yn ystod cyfnod y pandemig a'r cyfyngiadau ar ganiatáu i weithwyr proffesiynol allweddol asesu'r plant. Mae'r anallu i recriwtio staff i ddarparu'r cymorth sydd ei angen mewn lleoliadau yn effeithio ymhellach ar ddarpariaeth ymyrraeth gynnar.

Elfen hanfodol o fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yw cynnal darpariaeth Gofal Plant sydd eisoes yn gweithredu ac yn cael ei rhedeg / staffio gan ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol. Mae pob math o leoliadau Gofal Plant yn profi morâl isel a blinder yn dilyn y pandemig, ac yn adrodd hyn i'r Uned Gofal Plant.

| | |
|---|---|
| | Mae darparwyr Gofal Plant yn wynebu'r cynnydd ychwanegol o ran nodi angen a rhoi darpariaeth ar waith i fynd i'r afael ag anghenion plant ag oedi datblygiadol ac anghenion ychwanegol neu ddatblygol. Caiff hyn ei waethygu gan y tasgau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau diogelwch COVID, a gwaith papur ychwanegol sydd angen ei wneud mewn perthynas â hyn ac wrth wneud cais am grantiau.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Angen comisiynu ymchwil i'r galw a'r ddarpariaeth ADY, recriwtio a chadw staff cymwysedig, gan gynnwys dadansoddiad ardal a chyswllt â datblygiadau tai i fynd i'r afael â'r problemau a brofir gan leoliadau o ran cymorth ADY.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Angen sicrhau bod pob lleoliad Gofal Plant yn bodloni gofynion y cod ADY.**<br><br>Mewn ymateb i'r Cod ADY newydd mae pecyn hyfforddi o fodiwlau wedi cael ei ddatblygu gan Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar. Mae hwn yn gyfres o 9 modiwl sydd wedi cael eu cyflwyno fesul cam i'r sector Gofal Plant. Mae hyfforddiant wedi cael ei gynnig i bob math o ddarparwr Gofal Plant gyda chanran uchel o staff yn manteisio ar yr hyfforddiant. Mae'r adborth gan ddarparwyr wedi bod yn gadarnhaol i'r hyfforddiant gan fod llawer wedi dweud ei fod wedi rhoi'r hyder iddynt drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt am blentyn gyda rhiant. Trwy gynnig yr hyfforddiant i warchodwyr plant maent bellach yn teimlo'n fwy hyderus i gysylltu â'r Swyddog os oes angen rhagor o gyngor arnynt ynghylch sut i ddarparu ar gyfer plentyn os oes ganddynt unrhyw bryderon.<br><br>Mae Gofal Plant yn parhau i fod yn broblem i rai teuluoedd sy'n defnyddio Gofal Plant ar gyfer plentyn ag anabledd neu angen dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nododd canlyniadau'r arolwg rhieni fod (71) o rieni'n teimlo nad yw'n darparu ar gyfer anghenion eu plentyn. Nid yw'n glir o'r arolwg beth yw'r anghenion penodol hyn.<br><br>Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ei adroddiad cenedlaethol ar **yr Adolygiad Cenedlaethol o gymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a phontio i blant anabl yng Nghymru yn hydref 2021** yn dilyn adolygiad o'r cymorth a gynigir i blant anabl yng Nghymru. Cynhaliodd AGC arolygiadau hefyd o wasanaethau plant anabl mewn 4 ardal Awdurdod Lleol gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, a nododd bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi cael ei hystyried. Mae'r Gwasanaeth Ysgolion wedi penodi Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i fod yn gyfrifol am y plant cyn ysgol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Mae'r cyllid grant Plant a Chymunedau yn cefnogi 2 gynllun chwarae gwyliau arbenigol ar gyfer plant ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol – un yng ngogledd ac un yn ne'r sir yn yr haf, yn ogystal â gweithgareddau'r Pasg. Yn anffodus, oherwydd pandemig Covid-19, amharwyd yn ddifrifol ar y gwasanaethau hyn, gyda darpariaeth wedi'i thargedu'n unig yn cael ei chaniatáu, ac nid oedd modd darparu cynlluniau chwarae'r haf lle gallai brodyr a chwiorydd fod yn bresennol hefyd. |

DRAFT

Fodd bynnag, mae ymrwymiad cryf gan yr Awdurdod Lleol i barhau i gefnogi'r ddarpariaeth pan fydd rheoliadau a chyfyngiadau'n caniatáu.

Mae cau dau o'n lleoliadau y tu allan i oriau ysgol wedi effeithio ar blant a arferai gael mynediad at gymorth ychwanegol trwy gyllid Ymuno gan DASH yn y clybiau hyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Mudiad Meithrin i ailsefydlu clybiau newydd yn Aberteifi a Llwyn yr Eos gan ganiatáu i blant gael mynediad at y ddarpariaeth unwaith eto.

Mae'r pandemig wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant sydd ag oedi yn eu datblygiad. Bydd hyn yn rhoi straen ar adnoddau gan fod angen mwy o gymorth i sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn cael ei rhoi ar waith i gefnogi'r plant hyn i gael mynediad at Ofal Plant.

**Sylwadau rhanddeiliaid:**

Mae angen mwy o Ofal Plant i blant ag anableddau oherwydd nid yw teuluoedd â phlant anabl yn teimlo y gallant ddefnyddio darparwyr Gofal Plant prif ffrwd. Mae'r cynllun Ymuno i'w weld yn gweithio'n dda ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n dda, yn enwedig yn ystod y pandemig (a allai fod oherwydd y canfyddiad o risg uwch i blant agored i niwed).

Yn naturiol, dylai gofal mwy arbenigol fod ar gael i deuluoedd â phlant yn y categori hwn ac sy'n dibynnu ar anghenion y plentyn. Er bod hwn ar gael mewn rhai lleoliadau yn y sir, gall fod yn broblem o ran trafnidiaeth ac ati.

Mae lleoliadau Ceredigion yn cael cynnig nifer o sesiynau hyfforddi gan wahanol wasanaethau e.e. Mudiad Meithrin, Addysg, Dechrau'n Deg, Adran Lleferydd ac Iaith ac ati.

Mae'r lleoliadau hefyd yn cael eu cefnogi'n dda gan asiantaethau amrywiol sy'n cydweithio'n agos e.e. Cynllun Cyfeirio, Therapyddion Iaith, Arweinydd ADY y Blynyddoedd Cynnar, Tîm o Amgylch y Teulu ac ati.

Mae angen sicrhau bod arfer da yn gyson ar draws y Sir ym mhob lleoliad.

Mae cymorth ar gyfer lleoliadau gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd ar gael fel arfer trwy'r Cynllun Atgyfeirio pan fydd plant yn 2 oed a hyd nes y byddant wedi dechrau mewn lleoliad Addysg, oni bai eu bod ar y Cynnig Gofal Plant. Nid oes cymorth ar gyfer lleoliadau cyn bod plant yn 2 oed. Nid yw plant yn cael mynediad at yr un cymorth mewn lleoliad addysg ag y byddent mewn lleoliad Gofal Plant.

**Sylwadau rhieni:**
*"Does dim angen Gofal Plant arna i ar hyn o bryd ond roeddwn ei angen ar gyfer 11+ gan fod fy mab yn dioddef o ADHD a doeddwn ni ddim yn gallu ei adael adref ar ei ben ei hun"*
*"Does dim Gofal Plant ar gyfer fy mhlentyn 3 oed na fy mhlentyn 5 oed ag AAA yn ystod gwyliau'r ysgol."*

| | |
|---|---|
| | *"Mae ein un ni wedi cau. Dim byd arall ar gyfer plant oedran uwchradd anabl o gwbl"*<br><br>**Sylwadau darparwyr:**<br>*Hyfforddiant ychwanegol ar gyfer gweithwyr Gofal Plant i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, adnabod plant ag anghenion ychwanegol yn gyflymach, gwrando ar weithwyr Gofal Plant o dan 2 oed y blynyddoedd cynnar, fel gwarchodwyr plant, gan ein bod ni wedi cael hyfforddiant i ddatblygu ein sgiliau ond ddim yn teimlo bod pobl yn gwrando arnom ni.*<br>*Mwy o gymorth ychwanegol ar gael o ran cyllid ar gyfer problemau staffio* |
| | (viii) Unrhyw grwpiau targed penodol eraill sy'n berthnasol i ardal yr Awdurdod Lleol<br><br>Mae byw mewn ardal wledig yn broblem i lawer o deuluoedd – yn enwedig y rhai sy'n gorfod dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>**Sylwadau rhieni:**<br>*"Does dim Gofal Plant ar ôl ysgol ar gael yn y pentref gwledig lle dwi'n byw"*<br>*"Angen cael clybiau gwyliau ar gyfer y diwrnod cyfan – rhaid teithio awr yn y car i gael un "*<br><br>*"Mae diffyg Gofal Plant yn Aberteifi mewn unrhyw gyfrwng [iaith]! Mae'n rhaid i ni yrru i Gastellnewydd Emlyn ddwywaith y dydd i gael mynediad at feithrinfa, sy'n cymryd cyfanswm o tua 2 awr bob dydd. Mae'n hollol hurt bod Aberteifi ddim yn gallu darparu Gofal Plant heblaw gwarchodwyr plant, sydd heb lefydd gwag beth bynnag. Mae'r Meithrin ar gyfer plant 2+ oed yn unig a dim ond am ychydig oriau y dydd. Ar gyfer 2 riant syn gweithio'n amser llawn heb deulu i helpu, mae'n anodd ac yn ddrud iawn! Mae'r llywodraeth yn gwneud dim byd i helpu mamau i ddychwelyd i'r gwaith."* |
| | **Mae tystiolaeth bellach o'r adborth gan rieni i'w gweld yn Atodiad 2. Cofnodir yr adborth yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.** |

DRAFT

| 17 | ADDYSG FEITHRIN A ARIENNIR A DARPARIAETH DECHRAU'N DEG |
|---|---|

## 17 ADDYSG FEITHRIN A ARIENNIR A DARPARIAETH DECHRAU'N DEG

### ADDYSG FEITHRIN A ARIENNIR

Mae pob plentyn tair oed yn gymwys i gael 10 awr o addysg gynnar wedi'i hariannu os yw rhiant/gofalwr yn dymuno ei chael. Yng Ngheredigion mae'r hawl i addysg gynnar ar gael trwy'r sector a gynhelir (dosbarth meithrin o fewn ysgol gynradd fawr) sy'n darparu hyd at 12.5 awr yr wythnos, neu'r sector nas cynhelir (Cylchoedd Meithrin/Cylchoedd Chwarae/Meithrinfeydd Dydd) sy'n darparu 10 awr yr wythnos ar gyfer y tymor ar ôl ei ben-blwydd plentyn yn 3 oed. Nid yw unrhyw warchodwyr plant yn darparu addysg gynnar.

Mae addysg amser llawn mewn ysgolion ar gael i bob plentyn y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 4 oed.

Mae'r elfen addysg a ariennir wedi'i chynnwys yng Nghynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru o 30 awr o Ofal Plant wedi'i ariannu ar gyfer rhieni cymwys sy'n gweithio. Mae'r 10 neu'r 12.5 awr ar gael i BOB rhiant, ond mae'r marchnata a'r negeseuon wedi creu rhywfaint o ddryswch ymhlith rhieni ynglŷn â'r hyn y maent yn gymwys i'w gael, a pha oriau yw addysg neu Ofal Plant.

**Tabl 17.1: Nifer y darparwyr Gofal Plant a ariannwyd i ddarparu Addysg Ran-Amser y Blynyddoedd Cynnar: Hydref 2021**

| **Math o ddarparwr**<br>**Mae darparwyr wedi newid categorïau i'r canlynol:** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm y lleoedd sydd ar gael** | **Cyfanswm y lleoedd a ddefnyddiwyd**<br>**(202 mewn lleoliadau Gofal Plant)** |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau Gofal Dydd Sesiynol | 6 | 101 | 54 |
| Lleoliadau Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 13 | 243 | 139 |
| Meithrinfeydd Gofal Dydd Llawn | 2 | 40 | 9 |
| Ysgolion | 14 | 469 | 362 |
| **Cyfanswm** | **35** | **853** | **564** |

DRAFT

Ers cwblhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, mae nifer y lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg tair oed wedi gostwng. Mae hyn wedi gostwng o 24 lleoliad i 21 lleoliad, gostyngiad o 3, tra bod nifer yr ysgolion sy'n cynnig yr addysg ran-amser a ariennir wedi cynyddu o 13 i 14.

Mae Ysgol Gynradd Llanddewi Brefi ac Ysgol Gynradd Tregaron wedi symud i un safle ar dir Ysgol Henry Richard, sef ysgol 3 – 16. Mae'r ysgol yn darparu'r addysg tair oed tra bod y Cylch Meithrin yn cynnig y ddarpariaeth Gofal Plant gofleidiol. Mae cyllid o Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant wedi galluogi'r Cylch i symud o gaban i adeilad pwrpasol ym mis Ionawr 2022.

Agorodd ysgol bro newydd Ysgol Dyffryn Cledlyn ym mis Medi 2017 gan gynnig addysg 3 oed o fewn dosbarth meithrin yr ysgol ac mae darpariaeth y Cylch Meithrin yn cynnig y cyfleuster Gofal Plant cofleidiol.

Mae cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif a Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant wedi'i ymrwymo i ddatblygu Ysgol Gynradd 3-11 newydd yn ardaloedd Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad (canolbarth Ceredigion). Bydd hyn yn golygu y gall y Cylch Meithrin lleol symud i safle mwy (wedi'i gofrestru ar gyfer 12 ar hyn o bryd ac yn cynnig dwy sesiwn ar gyfer 24 o leoedd). Ni fydd yr ysgol newydd hon yn effeithio ar unrhyw leoliadau eraill nas cynhelir.

Gallai unrhyw gynigion ad-drefnu yn y dyfodol sy'n tynnu addysg plant 3 oed i mewn i ysgolion gael effaith ar ddarparwyr Gofal Plant. Bydd angen ystyried cymryd camau gweithredu priodol i leihau unrhyw ostyngiad mewn lleoedd Gofal Plant a fydd yn golygu nad ydym yn sicrhau Gofal Plant digonol yn unol â'n dyletswydd statudol.

Yn hydref 2021, derbyniodd 202 o blant yr hawl blynyddoedd cynnar mewn lleoliad nas cynhelir a derbyniodd 362 o blant yr hawl rhan-amser mewn ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r addysg a ariennir yng Ngheredigion yn cael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae 3 lleoliad Gofal Plant lle cyflwynir darpariaeth yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.

DRAFT

**Tabl 17.2: Proffil presenoldeb plant sy'n mynychu darpariaeth (darparwyr Gofal Plant ac ysgolion):**

| | **Rhyw** | **Cyfanswm y plant 3 oed mewn Cylch Meithrin** | **Cyfanswm y plant 3 oed yn yr ysgol** | **Cyfanswm y plant 4 oed yn yr ysgol** |
|---|---|---|---|---|
| **PLASC Ebrill 2021* – *Derbyniwyd data PLASC tymor yn hwyrach nag arfer, felly ni ddylid ei gymharu â'r blynyddoedd blaenorol** | Cyfanswm | 180 | 346 | 983 |
| | Gwryw | | 170 | 501 |
| | Benyw | | 176 | 482 |
| **Data PLASC Tymor yr Hydref 2021** | **Rhyw** | **Cyfanswm y plant 3 oed mewn Cylch Meithrin** | **Cyfanswm y plant 3 oed yn yr ysgol** | **Cyfanswm y plant 4 oed yn yr ysgol** |
| | Cyfanswm | 202 | 362 | 576 |
| | Gwryw | 103 | 163 | 318 |
| | Benyw | 97 | 199 | 258 |
| | | | | |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys ffigurau Gwanwyn 2021 a oedd yn is na'r cyfartaledd oherwydd dychwelyd yn raddol ar ôl y pandemig. Mae'r ffigurau ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn seiliedig ar ddata ar gyfer Tymor yr Hydref 2021 sy'n adlewyrchu presenoldeb cyfartalog yn well.

**Tymor yr Hydref 2021**

Mae 21 o leoliadau nas cynhelir yn darparu addysg tair oed ac mae'r rhain wedi'u categoreiddio yn 9 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Ceredigion.

DRAFT

**Tabl 17.3: Nifer y lleoedd Gofal Plant sydd ar gael ac a lenwyd, iaith darparwr y gwasanaeth:**

| Enw'r Cylch Meithrin (CM) /Grwp Chwarae | MATH O OFAL PLANT | Cyfanswm y lleoedd cofrestredig/ lleoedd sydd ar gael | Cyfanswm y plant a fynychodd Hydref 2021 | Iaith y Darparwr Categorïau AGC: Cymraeg; Saesneg neu'r ddwy iaith | Ardal Gynnyrch Ehangach Ganol Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol |
|---|---|---|---|---|---|
| Llangwyryfon | Gofal Dydd Sesiynol | 15 | 3 | Cymraeg | Aberaeron a Llanrhystud |
| Glan y Mor Llanrhystud | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 16 | Cymraeg | Aberaeron a Llanrhystud |
| Gofal Plant Mes Bach / Little Acorns | Gofal Dydd Llawn sesiynol | 20 | 6 | Saesneg | Aberystwyth – Gogledd |
| St Padarn's Playgroup | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 7 | Y ddwy | Aberystwyth – Gogledd |
| Camau Bach | Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 24 | 2 | Cymraeg | Aberystwyth – De |
| Trefeurig | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 12 | Cymraeg | Y Borth a Bont-goch |
| Tal-y-bont | Gofal Dydd Sesiynol | 20 | 7 | Cymraeg | Y Borth a Bont-goch |
| Meithrinfa Plas Gogerddan | Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 16 | 7 | Y ddwy | Y Borth a Bont-goch |
| Aber-porth Dwyieithog | Gofal Dydd Sesiynol | 21 | 8 | Y ddwy | Aberteifi ac Aber-porth |
| Llechryd | Gofal Dydd Sesiynol | 14 | 8 | Cymraeg | Aberteifi ac Aber-porth |
| Penparc | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 13 | Cymraeg | Aberteifi ac Aber-porth |
| Ffrindiau Bach Tegryn | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 11 | Cymraeg | Aberteifi ac Aber-porth |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys y Plant Felinfach | Gofal Dydd Sesiynol | 12 | 18 | Cymraeg | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad |
| Ceinewydd | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 9 | Cymraeg | Ceinewydd a Phenbryn |
| Llanarth | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 20 | 16 | Cymraeg | Ceinewydd a Phenbryn |
| Talgarreg | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 15 | 6 | Cymraeg | Ceinewydd a Phenbryn |
| Llanfarian | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 20 | 7 | Cymraeg | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Llanilar | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 10 | Cymraeg | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Penllwyn | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 19 | 13 | Cymraeg | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Pontrhydfendigaid | Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 16 | 13 | Cymraeg | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Llangeitho | Gofal Dydd Sesiynol | 19 | 10 | Cymraeg | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| **21 lleoliad** | | **384** | **202** | | |

Ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf mae 3 lleoliad wedi cau – Cylch Meithrin Gwennog (addysg wedi symud i'r ysgol), Cylch Meithrin y Borth ac mae 1 lleoliad Meithrinfa Gofal Dydd wedi rhoi'r gorau i ddarparu addysg gynnar.

DRAFT

**Tabl 17.4: Nifer y lleoedd Ysgol sydd ar gael ac a lenwyd ar gyfer addysg tair oed, iaith y darparwr gwasanaeth:**

| Enw'r Ysgol: | Cyfanswm y lleoedd sydd ar gael *Nifer a Gofrestrwyd* | Cyfanswm y plant sy'n mynychu | Iaith y darparwr | Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol |
|---|---|---|---|---|
| Aberaeron | 28 | 27 | Cymraeg | Aberaeron a Llanrhystud |
| Llwyn yr Eos (Penparcau) | 31 | 22 | Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg | Aberystwyth – De |
| Plascrug | 58 | 41 | Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg | Aberystwyth – De |
| Ysgol Gymraeg Aberystwyth | 52 | 51 | Cymraeg | Aberystwyth – De |
| Bro Teifi (Llandysul) | 51 | 42 | Cymraeg | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Cenarth | 10 | 12 | Cymraeg | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Rhydypennau | 27 | 21 | Cymraeg | Y Borth a Bont-goch |
| Aberteifi | 60 | 46 | Cymraeg | Aberteifi ac Aber-porth |
| Bro Pedr (Llanbedr Pont Steffan) | 53 | 30 | Cymraeg | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad |
| Dyffryn Cledlyn (Drefach) | 17 | 13 | Cymraeg | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad |
| Y Dderi (Llangybi) | 19 | 10 | Cymraeg | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad |
| Bro Sion Cwilt (Synod Inn) | 21 | 13 | Cymraeg | Ceinewydd a Phenbryn |
| T. Llew Jones (Brynhoffnant) | 25 | 19 | Cymraeg | Ceinewydd a Phenbryn |
| Henry Richard (Tregaron) | 17 | 15 | Cymraeg | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| **40 ysgol gynradd – 14 yn cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen** | **469** | **362** | | |


DRAFT

**Tabl 17.5: Crynodeb o Ddarpariaeth Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen (Addysg 3 oed) ar gyfer plant 3 oed fesul AGEHG:**

| Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 oed | Nifer yr ysgolion cynradd yn yr ardal | Nifer yr ysgolion cynradd sy'n cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen | Nifer y lleoliadau Gofal Plant sy'n cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen |
|---|---|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 4 | 1 | 3 |
| Aberystwyth – Gogledd | 2 | 0 | 2 |
| Aberystwyth – De | 3 | 3 | 1 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 5 | 1 | 2 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 5 | 2 | 3 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 5 | 3 | 1 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 4 | 1 | 4 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 2 | 2 | 0 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 10 | 1 | 5 |
| CYFANSWM | 40 | 14 | 21 |

DRAFT

**Ffigur 17.1: Darpariaeth Addysg Feithrin Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 oed fesul AGEHG mewn Ysgolion a lleoliadau Gofal Plant**




**Tabl 17.6: Ysgolion a Gofal Plant fesul AGEHG**

| | | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion Cynradd** | | 4 | 2 | 3 | 5 | 5 | 5 | 4 | 2 | 10 | **40** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gofal Dydd Sesiynol** | Tymor Ysgol yn unig | 1 | | | 2 | 1 | 1 | 2 | | 1 | **8** |
| **Gofal Dydd Llawn Sesiynol** | Tymor Ysgol yn unig | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 3 | 1 | 5 | **18** |
| **Gofal Dydd Llawn Sesiynol** | Tymor Ysgol a gwyliau | | 1 | | | 2 | | | | | **3** |
| **Meithrinfa Gofal Dydd Llawn** | Tymor Ysgol a gwyliau | 1 | 1 | 1 | 1 | | 2 | | | | **6** |
| **Gwarchodwr plant** | Tymor Ysgol yn unig | | | 1 | | | | | | | **1** |
| **Gwarchodwr plant** | Tymor Ysgol yn unig / Ar ôl ysgol | | | | | | | | 1 | | **1** |
| **Gwarchodwr plant** | Tymor Ysgol a gwyliau | 5 | | 5 | 6 | 3 | 3 | 12 | 7 | 2 | **43** |
| **Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol** | Tymor Ysgol yn unig | | | 1 | | | 1 | | 1 | 2 | **5** |
| **Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol** | Tymor Ysgol a gwyliau | 1 | | | 1 | | | | | | **2** |

DRAFT


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol** | Gwyliau yn unig | | | 1 | | 1 | | | | | **2** |
| **Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau** | Tymor Ysgol a Gwyliau | | | | 1 | | | | | | **1** |
| **Crèche** | Tymor Ysgol yn unig | | | | | | | 1 | | | **1** |
| | **CYFANSWM lleoliadau Gofal Plant** | **10** | **3** | **11** | **12** | **9** | **8** | **18** | **10** | **10** | **91** |

**Ffigur 17.2: Ysgolion a Gofal Plant fesul AGEHG**



Mae 14 o ysgolion yn darparu addysg tair oed ar draws y sir. Mae 12 o'r ysgolion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda dwy ysgol yng ngogledd y sir wedi eu hadnabod fel rhai cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

**Ffigur 17.3: Ysgolion a lleoliadau gofal plant sy'n darparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen:**




**Nifer y rhieni nad ydynt yn hawlio eu darpariaeth am ddim a'r rhesymau**

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn casglu gwybodaeth am nifer y plant nad ydynt yn hawlio eu darpariaeth am ddim. Fodd bynnag, gofynnodd yr Arolwg Rhieni/Gofalwyr *"ydy eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn cael mynediad i le addysg gynnar wedi'i ariannu mewn ysgol neu feithrinfa?"* Roedd 157 yn defnyddio'r gwasanaeth neu ar fin dechrau ac roedd 37 heb ddechrau.

Roedd dryswch rhwng hawl i addysg gynnar a'r Cynnig Gofal Plant yn yr adran hon; ond roedd gan rai ymatebwyr bryderon megis ddim yn gwybod sut i wneud cais i'r ysgol, ac nid oedd Cylch yn yr ysgol i'r plentyn ei fynychu.

**Tabl 17.7: Rhieni/Gofalwyr sy'n cael mynediad i addysg blynyddoedd cynnar:**

| **A yw eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn cael mynediad i le addysg gynnar a ariennir mewn ysgol neu feithrinfa?** | |
|---|---|
| Ydy, yn yr un awdurdod lleol â lle rwy'n byw | 141 |
| Ydw, mewn awdurdod lleol gwahanol i le rwy'n byw | 2 |
| Bydd yn dechrau cyn bo hir | 14 |
| Nac ydy | 24 |
| Ddim yn siŵr | 7 |
| Amherthnasol | 6 |
| **CYFANSWM** | **194** |

| **C. Os dewiswch beidio, pam? (16 ymateb) gan gynnwys** |
|---|
| *Oherwydd Covid, nid oedd cyfle mewn gwirionedd, ac mae'n 4 oed cyn bo hir, felly doedd hi ddim yn werth gwneud e* |
| *Byddaf pan fydd yn 3 oed* |
| *Does dim cylch yn yr ysgol* |
| *Yn cael y 10 awr ond wedi gwneud cais am y 30 awr gan fod y gŵr yn hunangyflogedig ac mae'n anodd cael y gwaith papur i gwblhau'r ffurflen.* |
| *Cafodd ei wrthod* |

DRAFT

**Gofal plant sydd ei angen ar rieni i'w galluogi i hawlio eu darpariaeth lawn**

Roedd pandemig COVID wedi effeithio ar allu plant i fynychu lleoliad addysg, ond roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn nodi'r rhwystredigaeth gan rieni hunangyflogedig a oedd am fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant 30 awr llawn.

Y gobaith oedd y byddai'r Cynnig Gofal Plant yn rhoi eglurder i rieni ynghylch y gwahaniaeth rhwng addysg gynnar a Gofal Plant, ond mae rhywfaint o ddryswch o hyd ynghylch cymhwysedd, a'r gwahaniaeth rhwng dwy elfen y Cynnig.

**CAM GWEITHREDU: Y tymor cyn bod y plentyn yn gymwys trefnu sesiynau gwybodaeth i rieni â lleoliadau Gofal Plant er mwyn iddynt allu egluro'r Cynnig i rieni/gofalwyr.**

**Tabl 17.8: Ysgolion sydd â darpariaeth Gofal Plant ar gael ar y safle neu gerllaw mewn lleoliad cyfagos a ddarperir gan Feithrinfa Gofal Dydd neu ddarparwr arall.**

**TABL CRYNO**

| Enw'r Ysgol | Yr ysgol yn darparu'r addysg tair oed | Iaith | Clwb Brecwast yr Ysgol wedi'i ariannu gan LlC / ALl | Bwyd Clwb Brecwast yr Ysgol wedi'i ariannu gan gyllideb yr ysgol | Gofal Clwb Brecwast yr Ysgol yn unig | Cylch Meithrin / Grwp Chwarae | Lleoliad y Cylch / Grŵp Chwarae | Cylch Clwb Cinio | Clwb Ar Ôl Ysgol Cofrestredig | Darpariaeth gofleidiol ar gael yn yr ysgol | Darpariaeth gofleidiol ar gael yn y Feithrinfa gyfagos | Darpariaeth Gwyliau yn yr ardal | Gwarchodwyr plant sy'n cynnig gofal ar ôl ysgol | Gwarchodwyr plant sy'n cynnig gofal cyn ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **40 o ysgolion** | **Mae 14 ysgol yn cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen** | | **16** | **4** | **10** | **27 + 1 heb ei gofrestru + 1 Sesiwn Awyr Agored** | | **14** | **10 ar y safle – 2 yn y feithrinfa** | | **3** | **12 darparwr gwyliau (ar draws 13 o ardaloedd ysgol gan gynnwys DASH x 2 arbenigol)** | **25** | **14** |

DRAFT

*12 darparwr gwyliau (yn cynnwys 13 o ardaloedd ysgol gan gynnwys DASH arbenigol x 2)
Mae 14 ysgol yn cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen
10 Clwb ar ôl Ysgol ar y safle gyda 2 mewn Meithrinfeydd Gofal Dydd lleol

**Tabl 17.9: Ysgolion sydd â darpariaeth Gofal Plant ar gael ar y safle neu gerllaw mewn lleoliad cyfagos a ddarperir naill ai gan Feithrinfa Ddydd neu ddarparwr arall -**
**CANLYNIADAU LLAWN yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol:**

| Cymuned Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | Enw'r Ysgol: | Yr ysgol y darparu'r addysg tair oed | Iaith | Clwb Brecwast yr Ysgol wedi'i ariannu gan LIC / ALI | Bwyd Clwb Brecwast yr Ysgol wedi'i ariannu gan gyllideb yr ysgol | Gofal Clwb Brecwast yr Ysgol yn unig | Cylch Meithrin / Grwp Chwarae | Lleoliad y Cylch / Grŵp Chwarae | Cylch Clwb Cinio | Clwb Ar Ôl Ysgol Cofrestredig | Darpariaeth gofleidiol ar gael yn yr ysgol | Darpariaeth gofleidiol ar gael yn y Feithrinfa gyfagos | Darpariaeth Gwyliau yn yr ardal | Gwarchodwyr plant sy'n cynnig gofal ar ôl ysgol | Gwarchodwyr plant sy'n cynnig gofal cyn ysgol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberaeron a Llanrhystud | Aberaeron | Ie | C | Ie | | | Ie | Ysgol | | Ie | | | Ie | 1 | | |
| | Ciliau Parc (Ciliau Aeron) | | C | | | Ie | | | | | | | | | | Mynychu CM Ynys y Plant |
| | Llangwyryfon | | C | | Ie | | Ie | Neuadd Bentref | | | | | | | | |
| | Llan-non | | C | | | Ie | | | | | | | | | | Mynychu CM Glan y Mor |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Myfenydd Llanrhystud | | C | | | Ie | Ie | Safle'r ysgol | Ie | | | | | | | |
| Aberystwyth – Gogledd | Comins Coch | | CS | | Ie | | Ie | Safle'r ysgol | | Ie | | | Ie | | | |
| | St Padarn | | CS | Ie | | | Ie | Safle arall | Ie | Ie | | | Ie | | | |
| De Aberystwyth | Llwyn yr Eos (Penparcau) | Ie | CS | Ie | | | Ie | Safle'r ysgol | Ie | | | | DASH | 1 | 1 | Mynychu Ffrindiau Bach yr Eos ar gyfer gofal cofleidiol – Caban Newydd wedi ei agor 2022 |
| | Plascrug | Ie | CS | Ie | | | | | | | Clwb ar ôl Ysgol heb ei gofrestru | | | | | Mynychu CM Aberystwyth neu St Padarns ar gyfer gofal cofleidiol |
| | Ysgol Gymraeg Aberystwyth | Ie | C | Ie | | | | Safle arall | | Ie | | Ie | Ie | 1 | 1 | Mynychu CM Aberystwyth ar gyfer gofal cofleidiol |
| Beulah, Troed-yr-aur & Llandysul | Bro Teifi (Llandysul) | Ie | C | Ie | | | Ie | Ysgol | Ie | Ie | | | Ie | 7 | 4 | |
| | Cenarth | Ie | C | Ie | | | Ie | Ysgol – heb | | | | | | | | Cylch Meithrin newydd |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | gofrestru eto | | | | | | | | (Aros i'w gofrestru |
| Borth & Bont-goch | Craig yr Wylfa (Y Borth) | | C | | | | | | | | | | | | | |
| | Penrhyn-coch | | C | | | Ie | Ie | Safle'r ysgol | Ie | Ie | | | | 1 | | |
| | Rhydypennau | Ie | C | | | Ie | Ie | Safle'r ysgol | | Ie | | | Ie | | | |
| | Tal-y-bont | | C | | | Ie | Ie | Safle'r ysgol | | | Clwb ar ôl Ysgol heb ei gofrestru | | | | | |
| Aberteifi ac Aber-porth | Aber-porth | | C | Ie | | | Ydy x 2 | Neuadd y Pentref ac adeilad Dechrau'n Deg | | | | | | 2 | 1 | |
| | Aberteifi | Ie | C | Ie | | | Ie | Canolfan Plant Integredig | Ie | | | | | 7 | 4 | |
| | Llechryd | | C | | | | Ie | Ysgol | | | Clwb ar ôl Ysgol heb ei gofrestru | | | | | |
| | Penparc | | C | Ie | | | Ie | Safle'r ysgol | Ie | | | | | | | |
| Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad | Bro Pedr (Llanbedr Pont Steffan) | Ie | C | Ie | | | | | | | | Ie | Ie | 1 | | Gofal Cofleidiol ym Meithrinfa Seren & Y Dyfodol |

DRAFT

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dihewyd | | C | | | | | | | | | | | | | Mynychu CM Ynys y Plant |
| | Dyffryn Cledlyn (Drefach) | Ie | C | Ie | | | Ie | Ysgol | Ie | Ie | | | | | | Ysgol newydd ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf |
| | Felinfach | | C | | | | Ie | Safle'r ysgol | | | | | | 1 | 1 | |
| | Y Dderi (Llangybi) | Ie | C | Ie | | | | | | | | Ie | Ie | | | Gofal Cofleidiol yn Y Dyfodol |
| Ceinewydd a Phenbryn | Bro Sion Cwilt (Synod Inn) | Ie | C | | | Ie | | | | | | | DASH | | | |
| | Ceinewydd | | CS | Ie | | | Ie | Ger Neuadd y Pentref | Ie | | Clwb ar ôl Ysgol heb ei gofrestru | | Ie | | | |
| | Llanarth | | C | Ie | | | Ie | Safle'r ysgol | Ie | | | | | | | Caban Newydd |
| | T. Llew Jones (Brynhoffnant) | Ie | C | | Ie | | Ie | Ysgol | | | | | Ie | | | |
| | Talgarreg | | C | Ie | | | Ie | Neuadd Bentref | | | | | | 2 | 1 | |
| Rheidol, Ystwyth & Caron | Henry Richard (Tregaron) | Ie | C | | | | Ie | Safle'r ysgol | Ie | | | | | | | Adeilad newydd ei adeiladu ar gyfer Cylch |

DRAFT

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | Meithrin ar y Campws | |
| | | | Llanfarian | | C | | | | Ie | Safle'r ysgol | Ie | | | | | | | | |
| | | | Llanfihangel y Creuddyn | | C | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | Llanilar | | C | | Ie | | Ie | Safle'r ysgol | | Ie | | | | | | | |
| | | | Mynach (Pontarfynach) | | C | | | | | | | | | | | 1 | 1 | Mynychu CM Penllwyn | |
| | | | Penllwyn (Capel Bangor) | | C | | | Ie | Ie | Safle'r ysgol | | Ie | | | | | | | |
| | | | Pontrhydfendigaid | | C | | | | Ie | Neuadd Bentref | Ie | | | | | | | | |
| | | | Rhos Helyg (Llangeitho) | | C | | | Ie | Ie | Safle'r ysgol | | | | | | | | Mynychu CM Llangeitho | |
| | | | Rhos y Wlad (Bronant) | | C | | | Ie | | | | | | | | | | | |
| | | | Syr John Rhys (Ponterwyd) | | C | | | | | | | | | | | | | Mynychu CM Penllwyn | |

DRAFT

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CANLYNIADAU / CYFANSWM** | **40 o ysgolion** | **Mae 14 ysgol yn cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen** | | **16** | **4** | **10** | **27 + 1 heb ei gofrestru** | | **14** | **10 ar y safle – 2 yn y feithrinfa** | | **3** | **12 darparwr gwyliau (ar draws 13 o ardaloedd ysgol gan gynnwys DASH x 2)** | **25** | **14** | |

**ALLWEDD** C = Cymraeg CS = Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg CM = Cylch Meithrin

**Ffynhonnell: data SASS Gorffennaf 2021**

Nid oes Cylch Meithrin ar y safle gan rai ysgolion. Fodd bynnag, mae'r plant yn mynychu Cylchoedd Meithrin cyfagos ond yna byddant yn mynd i'w hysgol leol yn hytrach na'r ysgol lle y lleolir y Cylch. Mae nifer o rieni yn gwerthfawrogi'r fantais o gadw eu plant yn yr ysgol leol. Mae'r tabl canlynol yn grynodeb o'r canlyniadau o'r tabl uchod.

**Tabl 17.10: Crynodeb o'r wybodaeth o'r tabl uchod:**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr ysgolion cynradd (gan gynnwys ysgolion 3-16 a 3-19) | 40 |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda chlwb brecwast | 20 |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda chlwb brecwast (dim bwyd) | 10 |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda Chlwb ar ôl Ysgol COFRESTREDIG | 8 (ddim i gyd ar agor) |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda Chlwb ar ôl Ysgol ANGHOFRESTREDIG | 3 |
| Cyfanswm y Clybiau ar ôl Ysgol mewn Meithrinfa Gofal Dydd | 4 |
| Cyfanswm yr ysgolion sy'n darparu addysg 3 oed | 14 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr ysgolion gyda darpariaeth gofleidiol | 19 |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda Chylch Meithrin | 29 |
| Cyfanswm y Cylchoedd Meithrin ANGHOFRESTREDIG | 1 |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda lleoliad Gofal Sesiynol yn yr Ysgol | 5 + 1 anghofrestredig |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda lleoliad Gofal Sesiynol ar safle'r ysgol | 15 |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda lleoliad Gofal Sesiynol mewn lleoliad arall | 8 + Gofal Dydd Awyr Agored Sesiynol |
| Cyfanswm yr ysgolion gyda gwarchodwr plant sy'n casglu plant | 25 yn darparu gofal ar ôl ysgol<br>14 yn darparu gofal cyn ysgol |

**Sylwadau rhanddeiliaid:**
*Mae angen ystyried Gofal Plant ar safleoedd ysgol o'r camau cynllunio cynnar, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod y gofod wedi'i ddylunio mewn ffordd y gellir ei chofrestru gyda AGC, ac mae angen parhau i weithio mewn partneriaeth rhwng Addysg a Gofal Plant i sicrhau y gellir diwallu anghenion cymunedol o ran addysg A Gofal Plant. Mae angen i hyn gynnwys ystyriaeth o Ofal Plant lleol na ellir ei leoli ar safleoedd ysgol i sicrhau nad yw dadleoli yn digwydd.*

*Cynhaliwyd cyfarfod Pontio y tymor diwethaf yn Ysgol Bro Pedr ac nid oedd dros 12 o blant a ddechreuodd ym mis Medi 2021 mewn unrhyw ddarpariaeth Gofal Plant felly nid oedd unrhyw wybodaeth flaenorol amdanynt. Teimlwn yn gryf fod angen lleoliad nas cynhelir yn Llanbedr Pont Steffan.*
*Mae lleoliadau yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff newydd heb gymwysterau heb sôn am staff sydd â chymwysterau NVQ L3 a 5.*

DRAFT

| 17.1 | ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) |
|---|---|
| | Disgwylir i bob lleoliad Gofal Plant ateb anghenion pob plentyn o fewn ei ddarpariaeth. Mae'r dadansoddiad canlynol yn egluro'r cymorth sydd ar gael yng Ngheredigion i sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth Gofal Plant prif ffrwd.<br><br>Yn sgil cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, rhaid i'r Awdurdod Lleol benodi Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i fod yn gyfrifol am y plant cyn ysgol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Dechreuodd y swydd hon ar ôl hydref 2020. Mae'r Ddeddf ADY yn ymwneud â sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith i helpu plentyn/person ifanc a sicrhau bod ysgolion/lleoliadau Gofal Plant yn fwy cynhwysol, gan wneud addasiadau rhesymol i ateb anghenion pob plentyn.<br><br>Mae'r Uned Gofal Plant wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i gyflwyno hyfforddiant penodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol Gofal Plant, ac mae hyn wedi cynnwys pob lleoliad a llawer o warchodwyr plant. Mae'r adborth i'r hyfforddiant wedi bod yn gadarnhaol gyda darparwyr yn dweud eu bod bellach yn fwy ymwybodol o'r Cod ADY ac yn teimlo'n fwy hyderus i godi pryder ynghylch datblygiad plentyn gyda rhieni.<br><br>**Plant Anabl**<br>Hyd at fis Mehefin 2021, roedd Tîm Plant Anabl Ceredigion yn gweithredu fel tîm ar y cyd o staff y bwrdd iechyd a staff gofal cymdeithasol, gan gefnogi plant a theuluoedd gyda'u hanghenion a nodwyd, boed yn rhai cymdeithasol, iechyd neu addysgol, trwy neilltuo'r cymorth mwyaf priodol.<br><br>Cafodd Tîm Plant Anabl Ceredigion ei ad-drefnu ym mis Mehefin 2021 a symudodd yr Ymarferwyr Iechyd Arbenigol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol / anableddau **ac** anghenion iechyd ychwanegol i dîm newydd o'r enw **Tîm Iechyd Plant Anabl / Children's Disability Health Team (TIPA/CDHT).** Roedd hyn er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau'r tîm bach o adnoddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gyflawni'r agenda iechyd a chefnogi'r rhai ag anawsterau iechyd sylweddol.<br>Er nad yw'r Tîm Iechyd Plant Anabl a'r Tîm Plant Anabl bellach yn dîm integredig, maent yn parhau i gydweithio'n agos ac yn cwrdd yn wythnosol i frysbennu a thrafod pob atgyfeiriad newydd.<br><br>**CYNLLUN CYFEIRIO**<br><br>Mae'r rhaglen atgyfeirio Cynllun Cyfeirio yn cefnogi plant 2-4 oed sydd ag anabledd a/neu anghenion ychwanegol i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae a dysgu addysgol yn ystod y tymor mewn lleoliad cofrestredig cyn ysgol. |

Gwneir cyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol, rhieni neu staff lleoliadau cyn ysgol i Banel aml-asiantaeth i'w cymeradwyo.

Ariennir y cynllun gan Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru (rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf) a chyllid Cyngor Sir Ceredigion (Porth Cymorth Cynnar a Gwasanaethau Ysgolion), ac fe'i rheolir gan Fudiad Meithrin (cytundeb newydd wedi'i ddyfarnu hyd at fis Mawrth 2024). Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am ymyrraeth gynnar neu staff cymorth ychwanegol (Dwylo Ychwanegol). Mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, mae staff Craidd yn monitro cynnydd plant gan ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen a Sgrin Wellcomm (ar gyfer iaith).

Gwelodd y cynllun nifer cynyddol o blant ag oedi wrth ddatblygu yn dod i mewn i leoliadau cyn ysgol yn ystod 2021/22 oherwydd effaith cyfyngiadau Covid yn ôl pob tebyg. Arweiniodd hyn at bwysau ariannol cynyddol ar y cynllun. Roedd angen 24.8% ychwanegol o gyllid i sicrhau y gallai pob plentyn a gyfeiriwyd at y cynllun elwa ohono.

Gyda'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol, Yswiriant Gwladol ac argostau yn 2022-2023, efallai na fydd hyn yn ddigon i ddarparu'r lefel bresennol o gymorth mewn lleoliadau cyn ysgol. Bydd y cymorth a'r cyllid ychwanegol a dderbynnir ar gyfer y rhaglen adfer wedi Covid ar gael am flwyddyn arall yn unig.

**Lleferydd ac Iaith mewn lleoliadau a gynhelir**
Dros y blynyddoedd, roedd y rhan fwyaf o blant cyn oed ysgol yng Ngheredigion yn mynychu Cylchoedd Meithrin ar draws y sir nes iddynt droi'n 4 oed. Wrth fynychu Cylchoedd Meithrin, roedd plant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn cael eu cyfeirio at y Cynllun Cyfeirio ac yn cael mynediad at gymorth dwylo ychwanegol. Cynigwyd cyllid i gylchoedd er mwyn i aelod o staff allu dilyn rhaglen therapi lleferydd ac iaith o fewn y lleoliad yn rheolaidd. Roedd hyn wedi helpu i ddatblygu Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu plant cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol yn amser llawn yn 4 oed.

Erbyn hyn, mae llawer o blant yn mynychu un o'r 14 o ddosbarthiadau meithrin 3-4 oed yn yr ysgol sy'n rhan o ysgolion prif ffrwd ar draws Ceredigion, ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod. Nid yw cyllid ar gael i gefnogi cynllun fel Cynllun Cyfeirio yn y lleoliadau a gynhelir. Felly, mae angen cefnogi staff mewn lleoliadau a gynhelir i ddatblygu eu sgiliau ymhellach i helpu i gefnogi plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae cyllid trwy'r Grant Datblygiad Plant yn golygu y gall Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar sefydlu 'Rhwydwaith Meithrin', a ddechreuodd yn hydref 2021. Pwrpas y rhwydwaith yw rhannu arfer da, darparu hyfforddiant ac ati ymysg Athrawon Dosbarth Meithrin yn y sector a gynhelir.

**Cryfderau**

- Mae gan Geredigion nifer uchel o leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg y Blynyddoedd Cynnar o safon trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond 3 lleoliad sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf gyda pheth defnydd o'r Gymraeg.

DRAFT

- Mae digon o leoedd ar gael i blant gael mynediad at yr addysg ran-amser a ariennir naill ai drwy leoliad nas cynhelir neu mewn lleoliad a gynhelir.
- Ymatebodd y lleoliadau'n gadarnhaol i gyflwyniad y Cynnig Gofal Plant yn 2018 trwy ymestyn eu sesiynau a'u horiau agor yn unol â'r galw gan rieni, ac ailgofrestru fel Gofal Dydd Llawn Sesiynol.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yng Ngheredigion yn mynychu darpariaeth cyn ysgol. Ychydig iawn sy'n mynychu ysgol amser llawn heb fod wedi mynychu unrhyw ddarpariaeth cyn ysgol.
- Mae nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau nas cynhelir wedi codi yn ôl i'r niferoedd cyn-bandemig
- Gall yr ysgolion bro a grëwyd yn ddiweddar ddarparu'r addysg tair oed ochr yn ochr â'r ddarpariaeth gofleidiol o glwb cinio a Chylch Meithrin yn y prynhawn a rhoi mynediad i rieni at ddarpariaeth gofal 'dydd llawn' (oriau ysgol). Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar ôl ysgol wedi bod mor llwyddiannus, gyda rhai heb ailagor ers pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn trwy gydweithio rhwng yr ysgolion a'r Uned Gofal Plant.
- Mae'r cymorth a gynigir gan Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn hollbwysig i'r sector nas cynhelir.
- Gall plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu addysg gynnar nas ariennir gael mynediad at gymorth ychwanegol ar gyfer hyd at 10 awr yr wythnos mewn lleoliadau cyn ysgol yn ystod y tymor yn unig.

**Gwendidau**

- Mae cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg tair oed yn effeithio ar gynaliadwyedd y sector nas cynhelir.
- Mae'r model presennol o bwyllgorau gwirfoddol i fod yn gyfrifol am bob agwedd ar redeg lleoliad Gofal Plant yn fwy anodd i'w gynnal. Disgwylir i bwyllgorau fod yn gyfrifol am faterion cyflogaeth a staffio, codi arian, sicrhau cydymffurfiaeth cofrestru ac ati, ac nid yw hyn yn gynaliadwy.
- Nid oes unrhyw gymorth i blant sy'n cael mynediad i addysg gynnar trwy'r lleoliadau a gynhelir. Mae hwn yn fwlch sylweddol yn y cymorth a nodwyd gan y Tîm Therapi Iaith a Lleferydd.
- Mae'r dryswch rhwng elfen addysg a Gofal Plant y Cynnig Gofal Plant mewn lleoliadau yn parhau i fod yn heriol gan fod pob blwyddyn yn cyflwyno carfan newydd o rieni, a gall y trosiant staff uchel ychwanegu at y bwlch gwybodaeth.
- Diffyg dealltwriaeth yn y boblogaeth gyffredinol o bwysigrwydd darpariaeth Gofal Plant o safon uchel yn y blynyddoedd ffurfiannol. Mae hyn yn arwain at ddiffyg statws a pharch at gymwysterau a phroffesiynoldeb ymarferwyr.

Oherwydd bod y lleoliadau mewn perygl o gau, mae staff cymwysedig yn chwilio am swyddi mwy diogel mewn mannau eraill. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau hefyd yn sefydliadau gwirfoddol, gyda baich enfawr ar aelodau gwirfoddol/pwyllgor i reoli'r ddarpariaeth nawr ac yn y dyfodol, a darparu Gofal Plant cofrestredig, wedi'i reoleiddio i rieni sy'n gweithio.
Mae cynaliadwyedd y lleoliadau yn y dyfodol yn ymwneud mwy ag aelodaeth a rheolaeth Pwyllgorau yn hytrach na'r galw gan rieni.


**CAM GWEITHREDU: Angen gweithio gyda Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynllun peilot i gael strwythur cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.**

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU: Gorddibyniaeth ar ddarpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan bwyllgor gwirfoddol. Mae yna botensial i Sefydliadau Ambarél Gofal Plant ystyried cymryd rhai o'r cyfrifoldebau oddi wrth y lleoliadau.**<br><br>Mae llawer o ddarparwyr Gofal Plant wedi gweithredu o dan y model Pwyllgor Gwirfoddol ers degawdau. Fodd bynnag, mae'r galwadau a ddaeth yn sgil rheoliadau cofrestru o dan AGC yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf a gofynion Estyn i'r rhai sy'n darparu addysg i blant 3 oed, a rheoli busnes wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod hwn, ac mae angen ystyried a yw'r model yn addas at y diben oherwydd busnesau /mentrau cymdeithasol ydynt bellach.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Ymgyrch dymhorol i staff/rhieni lleoliadau er mwyn egluro'r Cynnig Gofal Plant**. |
| **17. 2** | **DECHRAU'N DEG A PHROSIECT BRAENARU** |
| | Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ac mae'r cyllid wedi'i gynnwys o fewn Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.<br>Mae'r rhaglen wedi bod yn rhedeg ers 2006 a chafodd ei chyflwyno'n wreiddiol mewn tair ardal yn y sir yn 2007 – Penparcau, Llanarth ac Aberteifi. Yn 2013 ehangwyd y rhaglen ymhellach i ddau leoliad yn Aber-porth a Llandysul. O'r pum ardal yng Ngheredigion mae 4 wedi'u lleoli yn ne'r sir ac 1 yn y gogledd.<br><br>**Prosiect Peilot Braenaru**<br>Ym mis Ebrill 2019 crëwyd Cynllun y Blynyddoedd Cynnar Integredig yn seiliedig ar waith amlasiantaethol, gan ddatblygu porth data a TG effeithiol i gydgysylltu caniatâd ar gyfer cymorth amlasiantaethol a gweithwyr allweddol gyda theuluoedd.<br>Mae'r prosiect peilot 'Braenaru' yn ddull aml-asiantaeth o wella canlyniadau ar gyfer carfannau a dargedwyd gyda 'dull seiliedig ar le' wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion sydd i gyd o fewn ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.<br><br>Nodwyd pum ardal yng Ngheredigion. Caiff teuluoedd agored i niwed eu hatgyfeirio gan Ymwelydd Iechyd ar gyfer Cymorth i Deuluoedd. Mae'r ardaloedd hyn yn adeiladu ar seilwaith presennol Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Mae wedi llwyddo i wella perthnasoedd rhwng y sectorau, gwella ymgysylltiad cymunedol ac adeiladu amgylcheddau diogel a chefnogol a fydd yn lliniaru neu'n lleihau effaith hirdymor Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a bydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth mewn Amgylcheddau Cymunedol Niweidiol |

DRAFT

**Ffigur 17.2.1: Map o Dechrau'n Deg, Cynllun Peilot Braenaru; Homestart, Canolfannau Teuluoedd a Chanolfannau Plant Integredig**




Nod y dull aml-asiantaeth yw adeiladu gwydnwch unigol a chymunedol er mwyn i deuluoedd allu byw bywydau diogel, iach a llawn lle gallant fagu eu plant yn llwyddiannus a manteisio i'r eithaf ar eu potensial.

Mae'r rhaglen beilot wedi cael ei groesawu gan asiantaethau sy'n gweithio ar draws yr ardaloedd, ac mae hyn wedi arwain at rai canlyniadau da, e.e. mae mwy o ymgysylltu â Chanolfannau i Deuluoedd, cyflwyno cynlluniau aml-asiantaeth integredig i gefnogi teuluoedd agored i niwed wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae'r Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol ochr yn ochr â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill e.e. Ymwelwyr Iechyd, a byddant yn gweithio gyda theuluoedd, gofalwyr, Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd, staff Canolfan i Deuluoedd, staff lleoliadau Gofal Plant a gweithwyr proffesiynol eraill i helpu plant i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.
Mae plant yn cael eu hadnabod trwy amrywiaeth o ddulliau, h.y. gan staff Gofal Plant hyfforddedig WellComm, archwiliadau Ymwelwyr Iechyd, ymholiadau gan rieni.

Bydd staff Gofal Plant a Chanolfannau i Deuluoedd yn cael cynnig hyfforddiant e.e. Elklan i roi strategaethau iddynt gefnogi datblygiad cyfathrebu pob plentyn ac i addasu'r amgylchedd fel eu bod yn lleoliadau sy'n gyfeillgar i gyfathrebu. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael cynnig hyfforddiant trwy fynychu grwpiau e.e. Babbling Babies.

Ariannodd y prosiect Swyddog Cymdeithasol Emosiynol Llesiant a Hyfforddiant. Mae Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg a'r Swyddog Cymdeithasol, Emosiynol a Hyfforddiant yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig hyfforddiant i staff o bob lleoliad o fewn ardaloedd y prosiect braenaru.

Bydd ***pontio*** yn rhan bwysig o Swyddog Cymdeithasol Emosiynol Llesiant a Hyfforddiant, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a staff lleoliadau Gofal Plant mewn partneriaeth ag Ymwelwyr Iechyd a Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd, pontio o'r cartref i'r feithrinfa a phontio o'r feithrinfa i'r ysgol. Bydd arferion da Dechrau'n Deg yn cael eu mabwysiadu. Yn ystod y cyfnod pontio bydd presenoldeb da a rhannu gwybodaeth hanfodol yn hollbwysig

**Tabl 17.2.1: Gwasanaethau fesul AGEHG:**

| **Gwasanaeth** | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg | | | 1 | | 1 | | 3 | 1 | | **6** |
| Canolfan i Deuluoedd | 1 | | | 1 | | 1 | | 1 | 1 | **5** |
| Canolfan Plant | | | | | | | 1 | | | **1** |
| Prosiect Braenaru | 1 | | | 1 | 1 | 2 | | | 2 | **7** |
| Canolfan Integredig Plant | | | 1 | | | | 1 | 1 | | **3** |

DRAFT

**Nifer y darparwyr Gofal Plant a gyllidir i ddarparu Dechrau'n Deg, gan gynnwys darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig**

Nod Dechrau'n Deg yw darparu lle Gofal Plant sesiynol wedi'i ariannu o fewn lleoliadau Gofal Plant cymeradwy i bob plentyn 2 – 3 oed sy'n byw yn ardaloedd daearyddol Dechrau'n Deg. Mae Ceredigion yn cynnig darpariaeth gymysg yn amrywio o feithrinfeydd dydd preifat, cylchoedd chwarae Gofal Dydd Llawn Sesiynol/Sesiynol Cymraeg a dwyieithog a gwarchodwyr plant. Mae gan rieni ddewis o ble i anfon eu plentyn, ac mae'r cyllid yn dilyn y plentyn.

Yn ystod 2020/21 derbyniodd **27 o leoliadau Gofal Plant** gyllid trwy Ddechrau'n Deg (gan **32 o ddarparwyr** sy'n cael cymorth Dechrau'n Deg pan fydd angen). Mae hyn yn amrywio o dymor i dymor yn dibynnu ar ddewis rhieni.
O'r 27 hynny, roedd 6 yn lleoliadau Dechrau'n Deg Craidd (h.y. maent o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg), roedd 9 yn darparu gofal sesiynol, mae 2 yn feithrinfeydd gofal dydd llawn ac mae 10 yn warchodwyr plant.


**CAM GWEITHREDU: Yr Uned Gofal Plant i rannu ymatebion o'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr gyda'r Tîm Dechrau'n Deg i'w defnyddio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.**

**Tabl 17.2.2: Lleoliadau gofal plant a darpariaeth Dechrau'n Deg:**

| Data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS). **Cyllid Gwasanaeth – Ariannu Gwasanaeth** **Dechrau'n Deg** | **A yw'r Gwasanaeth yn derbyn cyllid i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg?** | **Ydych chi'n Wasanaeth sy'n cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig?** | Y Borth a Bont-goch | Aberystwyth – Gogledd | Aberystwyth – De | Aberaeron a Llanrhystud | Ceinewydd a Phenbryn | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Aberteifi ac Aber-porth | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rheidol, Ystwyth a Charon | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 2 | 0 | | | | | 1 | | 1 | | | 2 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 13 | 0 | 1 | 2 | 2 | 0 | 2 | 0 | 3 | 1 | 2 | 13 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 4 | 0 | 1 | 1 | 1 | | | 1 | | | | 4 |
| Gwarchodwr plant | 13 | 0 | 1 | 0 | 4 | 2 | 0 | 0 | 4 | 2 | 0 | 13 |
| CYFANSWM | 32 | | | | | | | | | | | 32 |

DRAFT

**Ffigur 17.2.2: Nifer y rhai a fanteisiodd ar raglen Dechrau'n Deg 2011-2021:**





**Proffil presenoldeb wythnosol plant sy'n mynychu darpariaeth Dechrau'n Deg**

Mae pob plentyn Dechrau'n Deg yn cael cynnig lle Gofal Plant wedi'i ariannu gan ddarparwr o'i ddewis. Yn gyffredinol, mae 89% o blant yn derbyn lle Gofal Plant sydd naill ai wedi'i ariannu gan Ddechrau'n Deg neu drwy ffynonellau eraill e.e. credydau Treth Cynhwysol, Talebau Gofal Plant, Grant Gofal Plant Cyllid Myfyrwyr. Mae'r graff canlynol yn dangos cyfraddau presenoldeb da y plant sy'n mynychu Gofal Plant a ariennir gan Ddechrau'n Deg. Rhaid cofio mai plant ifanc iawn yw'r rhain ac mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi effeithio ar y 2 flynedd ddiwethaf. Mae'r cyfraddau presenoldeb yn uwch na'r targed.

Mae newidiadau yn y boblogaeth hefyd yn effeithio ar yr amrywiad yn y niferoedd – gan fod cyfraddau geni wedi bod yn gostwng ers 2015 (data ONS).

**Ffigur 17.2.3: Cyfraddau Presenoldeb Dechrau'n Deg 2008-2021**



**Tabl 17.2.3: Gwerthusiad Dechrau'n Deg:**

| How much did we do? | 2020/21 |
|---|---|
| **Indicators** | **#** |
| # of children offered a full offer of childcare | 102 |
| # of sessions funded | 7,678 |
| # of sessions attended | 6,188 |
| # of children taking up a full offer of childcare funded by Flying Start | 89 |
| # of children taking up a part offer of childcare funded by Flying Start | 3 |
| # of children taking up an offer of childcare **not** funded by Flying Start | 1 |


| How well did we do it? | 2020/21 |
|---|---|
| **Measures** | **%** |
| % of children offered childcare | 100% |
| % taking up full offer of childcare | 87% |
| % taking up part offer of childcare | 3% |
| % total uptake of childcare places funded by Flying Start | 90% |
| % total uptake of childcare places funded by FS and other agencies | 91% |
| % unauthorised absence rates | 1% |

Roedd presenoldeb y llynedd yn llawer gwell na'r disgwyl yn enwedig gan fod COVID-19 yn achosi pryder i rieni.
Cyflwynwyd 12 o gyrsiau hyfforddi cysylltiedig â Gofal Plant yn ystod 2020-21 gyda 124 o weithwyr Gofal Plant yn cwblhau'r hyfforddiant.
Cafodd 23 o leoliadau eu cefnogi gan Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg a Swyddog Cymorth Llesiant a Hyfforddiant.

Mae Ffigur 17.2.4 isod yn dangos canran y plant Dechrau'n Deg sy'n derbyn cymorth ychwanegol trwy'r Cynllun Cyfeirio.

DRAFT

**Ffigur 17.2.4 : Plant Dechrau'n Deg sy'n derbyn Dwylo Ychwanegol trwy'r Cynllun Cyfeirio**




**ALLWEDD:** SALT – Therapydd Lleferydd ac Iaith ASD – Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig S&L – Lleferydd ac Iaith

Ymwelwyr iechyd – Mae heriau recriwtio o fewn y sector Ymwelwyr Iechyd yn risg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Dechrau'n Deg ac wedi'i nodi fel ffactor risg sylweddol i gyflawni Rhaglen Plant Iach Cymru. Mae effaith hefyd ar y sector Gofal Plant lle mae'n rhaid i staff nodi a mynd i'r afael â phroblemau oedd heb eu nodi'n flaenorol oherwydd diffyg ymweliadau Ymwelwyr Iechyd.

Mae cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at bryderon. Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol (+ Darganfod Cymru) yn 2021, ond mae prinder o hyd.

**CAM GWEITHREDU: Gweithio gyda Phartner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – mae Prifysgol Aberystwyth yn lansio gradd nyrsio ac yn ymchwilio i'r opsiwn o ddatblygu cymhwyster Ymwelydd Iechyd er mwyn cadw'r dysgwyr sy'n mynd ar leoliad yng Ngheredigion tra eu bod yn astudio yn Aberystwyth.**

**Allgymorth Gofal Plant.**

Rhan o gyllid Dechrau'n Deg yw cefnogi teuluoedd trwy gyllid Allgymorth. Mae hwn ar gael i deuluoedd sy'n byw o fewn 5 km i Ardal Dechrau'n Deg yn unig. Cefnogwyd 27 o'r 28 o achosion a atgyfeiriwyd trwy Allgymorth Gofal Plant y Cyfnod Sylfaen yn ystod 2020-21.

Er mwyn mynd i'r afael â'r effaith fawr a gafodd y Coronafeirws ar ein plant a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Datblygiad Plant yn hydref 2020 i gynorthwyo gydag adfer wedi COVID ac sy'n cael ei fonitro trwy ein fframwaith Rhianta a Chymorth i Deuluoedd. Defnyddiwyd rhan o'r cyllid ar gyfer Allgymorth, ac mae wedi bod yn amhrisiadwy o ran cefnogi plant sy'n agored i niwed mewn lleoliadau Gofal Plant y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi bod o fudd i deuluoedd ar draws Ceredigion gyfan ac ardaloedd Braenaru, ac wedi'i ddefnyddio i uwchsgilio'r gweithlu o ran gwybodaeth am y cod ADY newydd. Rheolir elfen ariannu Allgymorth gan Ddechrau'n Deg.

I ddechrau roedd hwn yn grant i'r Awdurdodau Lleol am gyfnod o 6 mis i ddatblygu pecyn o gymorth i helpu ein teuluoedd mwyaf agored i niwed. Defnyddiwyd cyllid i ddarparu cymorth i blant a theuluoedd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch oedi datblygiadol mewn meysydd fel lleferydd, iaith a chyfathrebu, sgiliau echddygol, a datblygiad personol a chymdeithasol yn ystod y pandemig. Estynnwyd y cyllid hwn tan fis Mawrth 2022.

Derbyniodd 31 o'r 34 a atgyfeiriwyd gymorth Allgymorth yn ystod 2020-21.

Roedd rhaglenni eraill a gefnogwyd gan y Gronfa Datblygiad Plant yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer y sector Chwarae (i gefnogi'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae) ac ariannu adnoddau ar gyfer gwarchodwyr plant i gefnogi'r hyfforddiant ADY yr oeddent wedi'i dderbyn trwy Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar.

**Cryfderau**

- Mae nifer y plant tair oed sy'n manteisio ar eu hawl y blynyddoedd cynnar yn uchel.
- Mae ansawdd y ddarpariaeth yn y lleoliadau nas cynhelir yn dda neu'n rhagorol.
- Caiff lleoliadau eu cefnogi'n dda gan Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg, yr Uned Gofal Plant a swyddogion datblygu sefydliadau ambarél.
- Mae'r nifer sy'n manteisio ar Ofal Plant Dechrau'n Deg yn uchel gyda chyfraddau presenoldeb da.

DRAFT

- Mae'r Gronfa Datblygiad Plant wedi bod o fudd mawr o ran cefnogi teuluoedd agored i niwed i gael mynediad at gymorth ychwanegol a oedd yn cynnwys mynediad at ddarpariaeth Gofal Plant.

**Gwendidau**


- Bydd cynaliadwyedd lleoliadau Gofal Plant yn cael ei effeithio os bydd mwy o ysgolion yn darparu addysg tair oed.
- Mae'r Gronfa Datblygiad Plant yn fesur dros dro i fynd i'r afael â'r oedi datblygiadol a nodwyd oherwydd COVID-19 pan nad oedd plant yn gallu mynychu Gofal Plant/cymdeithasu trwy gyfleoedd eraill.
- Gwasanaeth cod post yw Dechrau'n Deg ac nid yw'n dibynnu ar brawf modd. Mae llawer o deuluoedd mewn ardaloedd o amddifadedd ar y cyrion yn colli allan ar gymorth ychwanegol.

**18 CREDYD TRETH GWAITH/CREDYD CYNHWYSOL A GOFAL PLANT A GEFNOGIR GAN Y CYFLOGWR/GOFAL PLANT DI-DRETH/Y CYNNIG GOFAL PLANT**


O'r ymateb i'r arolwg rhieni nododd 29.5% eu bod yn derbyn cymorth tuag at gostau Gofal Plant gan un neu fwy o'r canlynol – Elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol; Talebau Gofal Plant / Gofal Plant Di-dreth; Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr neu Gyfraniad Cyflogwr.

Dywedodd 63% o leoliadau fod rhieni'n derbyn Gofal Plant di-dreth neu'n defnyddio talebau Gofal Plant yn eu lleoliad. Ni chasglwyd y data ar niferoedd rhieni yn y ffurflenni SASS.

**Ffigur 18.1 - Canran y rhieni a gafodd gymorth tuag at gostau Gofal Plant**





**Ffigur 18.2 - Canran y lleoliadau a ddywedodd eu bod yn defnyddio gofal plant di-dreth neu dalebau gofal plant**



**CREDYD CYNHWYSOL**

| Tabl 18.1: Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol: Hawl i Ofal Plant | Nifer |
|---|---|
| Maw-19 | 9 |
| Meh-19 | 18 |
| Medi-19 | 25 |
| Rhag-19 | 30 |
| Maw-20 | 44 |
| Meh-20 | 9 |
| Medi-20 | 38 |
| Rhag-20 | 55 |
| Maw-21 | 57 |
| Meh-21 | 62 |
| Awst-21 | 66 |

**Ffigur 18.3: Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol: Hawl i Ofal Plant**




Ffynhonnell: Stat-Xplore: Ceredigion: Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol – Hawl i Ofal Plant fesul mis 2019-2021

Mae nifer yr aelwydydd sy'n derbyn yr Hawl i Ofal Plant wedi'i nodi uchod. Mae'r niferoedd wedi cynyddu ers y pandemig (66 o aelwydydd) a allai fod oherwydd bod mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ers y pandemig. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi nifer y teuluoedd mewn gwaith, mae nifer y teuluoedd fesul mil sy'n ddi-waith neu'n derbyn Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant wedi gostwng rhwng 2015 a 2020. Nid yw'r ffigurau ar gael ar gyfer 2020/2021.

**CAM GWEITHREDU: Codi ymwybyddiaeth o'r fenter Gofal Plant Di-dreth ymhlith darparwyr Gofal Plant a chyda rhieni gan fod hyn yn cefnogi costau Gofal Plant i blant 0-12 oed.**

**CAM GWEITHREDU: Ymchwilio i weld a yw'r nifer isel sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant i'w briodoli i'r ffaith nad ydynt am effeithio ar fanteisio ar elfen Gofal Plant cymorth Credyd Cynhwysol.**

DRAFT

**Tabl 18.2: Nifer cyfartalog y teuluoedd sy'n elwa ar yr hawliau blynyddol yng Ngheredigion** (mewn miloedd, oni nodir yn wahanol):

| miloedd, oni nodir yn wahanol | Cyfanswm teuluoedd di-waith | Teuluoedd mewn gwaith | | | | Cyfanswm sy'n ei dderbyn (teuluoedd allan o waith ac mewn gwaith) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gyda phlant | | O'r rhain, unig rieni | Heb blant | |
| | | derbyn CTG a CTP | Derbyn CTP yn unig | | Yn derbyn CTG yn unig | |
| 2019/20 | **0.7** | **1.2** | **0.8** | 0.8 | **0.7** | 3.4 |
| 2018/10 | **0.9** | **1.5** | **0.9** | 0.9 | **0.8** | 4.2 |
| 2017/18 | **1.0** | **1.6** | **1.0** | 1.0 | **0.9** | 4.5 |
| 2016/17 | **1.0** | **1.7** | **1.0** | 1.0 | **1.0** | 4.7 |
| 2015/16 | **1.0** | **1.8** | **1.0** | 1.0 | **1.1** | 5.0 |

**ALLWEDD:** CTG – Credyd Treth Gwaith CTP – Credyd Treth Plant

Ffynhonnell: Stat-Xplore

**Tabl 18.3: Nifer y plant mewn teuluoedd sy'n derbyn:**

| miloedd, oni nodir yn wahanol | Nifer y plant mewn teuluoedd sy'n ei dderbyn | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm teuluoedd di-waith | Teuluoedd mewn gwaith | |
| | | Derbyn CTG a CTP | Derbyn CTP yn unig |
| 2019/20 | 1.4 | 2.3 | 1.7 |
| 2018/10 | 1.7 | 2.8 | 2.0 |
| 2017/18 | 1.9 | 3.0 | 2.1 |
| 2016/17 | 1.8 | 3.1 | 2.2 |
| 2015/16 | 1.8 | 3.3 | 2.2 |

**Tabl 18.4: Teuluoedd sy'n elwa o'r elfen Gofal Plant:**

| miloedd, oni nodir yn wahanol | Teuluoedd sy'n manteisio arno | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Elfen Gofal Plant | | | elfen gweithiwr anabl |
| | unig rieni | parau | gwerth wythnosol cyfartalog (£) | |
| 2019/20 | 0.1 | 0.1 | £51.73 | 0.2 |
| 2018/10 | 0.2 | 0.2 | £50.92 | 0.2 |
| 2017/18 | 0.2 | 0.2 | £49.62 | 0.3 |
| 2016/17 | 0.2 | 0.2 | £45.50 | 0.3 |
| 2015/16 | 0.2 | 0.2 | £47.51 | 0.3 |

**Tabl 18.5: Gwerth blynyddol cyfartalog (£ y flwyddyn)**

| miloedd, oni nodir yn wahanol | Gwerth blynyddol cyfartalog (£ y flwyddyn) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm teuluoedd di-waith | Teuluoedd mewn gwaith | | | | | Cyfanswm sy'n (teuluoedd allan o waith a theuluoedd mewn gwaith) |
| | | Gyda phlant | | | Heb blant | Pob teulu mewn gwaith | |
| | | Derbyn CTG a CTP | Derbyn CTP yn unig | Pob teulu gyda phlant | Derbyn CTG yn unig | | |
| 2019/20 | £6,316 | £9,128 | £3,951 | £7,098 | £2,969 | £6,012 | £6,077 |
| 2018/10 | £6,101 | £9,042 | £3,915 | £7,098 | £2,880 | £6,007 | £6,028 |
| 2017/18 | £6,163 | £9,048 | £3,811 | £7,074 | £2,892 | £5,992 | £6,030 |
| 2016/17 | £6,176 | £8,958 | £3,875 | £7,055 | £2,853 | £5,930 | £5,983 |
| 2015/16 | £6,228 | £9,047 | £3,884 | £7,166 | £2,913 | £5,938 | £5,996 |

**Y CYNNIG GOFAL PLANT**

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru Llywodraeth Cymru yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a ariennir ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed cymwys sy'n gweithio hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Cyflwynwyd y Cynnig yng Ngheredigion ym mis Medi 2018, a chynyddodd y cyfleoedd i rieni weithio mwy o oriau, gan gynnig mwy o gyfle i blant fanteisio ar gyfleoedd chwarae a dysgu, yn ogystal â newid tirwedd y sector Gofal Plant. Telir £5.00 yr awr (ers 1 Ebrill 2022 – i fyny o £4.50) i ddarparwyr Gofal Plant am yr oriau a archebir ar gyfer Gofal Plant.

Cynigir Darpariaeth Feithrin y Cyfnod a elwir hefyd yn Addysg Tair Oed yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir yng Ngheredigion. Mae hyn yn golygu bod ysgolion yn cynnig 12½ awr o Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen tra bod y Cylchoedd Meithrin/Cylchoedd Chwarae yn cynnig 10 awr o Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yr wythnos. Mae nifer yr oriau Gofal Plant y mae plentyn yn eu derbyn yn dibynnu ar faint o oriau Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen y mae'n eu derbyn.

**Tabl 18.6: Dadansoddiad o'r Cynnig Gofal Plant a'r HCB:**

| Elfen | Cylch Meithrin / Grwp Chwarae | Dosbarth meithrin o fewn ysgol |
|---|---|---|
| Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen | 10 awr yr wythnos | 12.5 awr yr wythnos |
| Cynnig Gofal Plant | 20 awr yr wythnos | 17.5 awr yr wythnos |
| Cyfanswm | 30 awr yr wythnos | 30 awr yr wythnos |

Mae Grant Cymorth Ychwanegol ar gael i gefnogi lleoliadau ac ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol i gael cymorth ychwanegol os oes angen. Gwneir atgyfeiriadau i'r panel Cynllun Cyfeirio i ystyried y cymorth sydd ei angen.

| | |
|---|---|
| | Er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol o ran y dull gweithredu ar gyfer y Cynnig Gofal Plant mae LIC wedi comisiynu datblygu platfform digidol cenedlaethol a fydd yn golygu y bydd gan rieni a darparwyr ar draws Cymru fynediad at yr un gwasanaeth. Bydd Ceredigion yn treialu'r prawf byw yn ystod tymor yr hydref 2022 a disgwylir ei gyflwyno'n genedlaethol erbyn Ionawr 2023.<br><br>Mae'r gyfradd o £4.50 wedi parhau ers i'r cynnig ddechrau yn 2017. Fodd bynnag, mae adolygiad cyfradd ar y gweill i edrych ar gynyddu'r gyfradd fesul awr. Mae disgwyl cyhoeddiad yn yr wythnosau nesaf. Mae'r adolygiad yn cynnwys aliniad â'r gyfradd Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen.<br><br>Rhaid i Rieni/Gofalwyr wneud cais am y Cynnig Gofal Plant, darparu tystiolaeth ar gyfer gwiriadau cymhwystra a sicrhau bod lle i'w plentyn trwy gysylltu â'r darparwr Gofal Plant yn uniongyrchol.<br><br>Mae'r Cynnig Gofal Plant yn gwneud taliadau'n uniongyrchol i'r darparwr Gofal Plant. Mae tîm y Cynnig Gofal Plant yn darparu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys yn ogystal â theuluoedd Ceredigion.<br><br>Effeithiodd pandemig COVID-19 ar y Cynnig Gofal Plant wrth i dderbyn plant newydd ar gyfer tymor yr haf 2020 gael ei atal dros dro. Disodlwyd y Cynnig Gofal Plant dros dro gan y Cynllun Cymorth Gofal Plant trwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) yn ystod cyfnod clo cyntaf y pandemig o fis Ebrill i fis Awst 2020 gan ddarparu Gofal Plant wedi'i ariannu i blant o dan bump oed gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed. Nid yw'r plant a dderbynnir i'r cynllun hwn i gyd wedi'u cynnwys yn y ffigurau isod gan fod y cynllun yn agored i blant o dan 5 oed.<br><br>Mae cyflogau Ceredigion yn is na chyfartaledd Cymru wrth edrych ar incwm cyfartalog ac mae tlodi 'mewn gwaith' hefyd yn broblem. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yng Ngheredigion gan nad yw rhieni'n cyrraedd y trothwy incwm. Mae gennym hefyd ganran uchel o weithwyr hunangyflogedig a chanran uchel o weithwyr rhan-amser sydd eto'n ei chael yn anodd dangos cymhwystra ar gyfer y cynnig. Mae'r cyflogau isel yn yr ardal yn awgrymu na all rhieni ddangos eu bod yn cyrraedd y trothwy incwm o 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw. Mae gennym nifer o fusnesau teuluol hefyd lle nad yw aelodau'r teulu yn derbyn slip cyflog wythnosol ac ati gan y busnes teuluol sy'n golygu nad ydynt yn gallu dangos eu cymhwystra o ran incwm.<br><br>Mae tystiolaeth a gasglwyd o'r ceisiadau ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn dangos bod rhieni yng Ngheredigion yn byw mewn ardal sy'n seiliedig ar yr isafswm cyflog. Ceir lefel uchel o hunangyflogaeth ond ni all llawer gyrraedd yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr o gyflog byw ac nid oes ganddynt fawr o le i gynyddu eu horiau. Felly nid ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi (Gweler Adrannau 5,6 a 18). Mae rhieni hefyd yn dweud wrth dîm y Cynnig Gofal Plant fod aros ar y Credyd Cynhwysol / Gofal Plant Di-dreth yn fwy buddiol na gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant.<br><br>Gan ein bod yn darparu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer pedair sir, mae'n amlwg bod rhieni Ceredigion yn ennill llai o incwm nag awdurdodau cyfagos. Ychydig iawn o rieni sy'n anghymwys ar gyfer y Cynnig oherwydd eu bod yn ennill mwy na £100k. Mae'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer |

plant 3-4 oed wedi amlygu'r gwahaniaeth mewn incwm rhwng rhieni yn y 4 awdurdod lleol. Mae cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant wedi helpu rhai darparwyr i fod yn fwy cynaliadwy lle'r oedd y darparwyr Gofal Plant mewn sefyllfa ariannol fregus yn y gorffennol.

**CAM GWEITHREDU: Monitro niferoedd lleol sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, cymharu tueddiadau cenedlaethol. Gweithredu ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod pob rhiant cymwys yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. Mae angen i Lywodraeth Cymru edrych ar gymhwystra i gefnogi rhieni sy'n gweithio ar incwm isel.**

**CAM GWEITHREDU: Gweithio gyda LIC i hyrwyddo'r canllawiau newydd sy'n cael eu datblygu i roi gwybod i deuluoedd amaethyddol pa wybodaeth sydd ei hangen yn barod i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant.**


**CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod pob darparwr Gofal Plant yn barod ar gyfer y platfform digidol newydd.**

**CAM GWEITHREDU: Mae angen mynediad at blatfform y cyfryngau cymdeithasol ar yr Uned Gofal Plant er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Gofal Plant. Cyfle i ymgysylltu â darparwyr Gofal Plant, rhieni a chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a mentrau eraill i helpu gyda chostau Gofal Plant i leihau tlodi mewn gwaith a lleihau canran y plant sy'n byw mewn tlodi.**

**Tabl 18.7: Nifer y plant 3-4 oed a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant 2018-2021**

| **Ceredigion** | **Nifer y plant 3-4 oed sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant** | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn academaidd** | **Medi 2018 – Awst 2019** | **Medi 2019 – Mawrth 2020*** | **Medi 2020 – Awst 2021** |
| Nifer y plant | 476 | 359 | 339 |

**Ffigur 18.4: Nifer y plant 3-4 oed a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant 2018-2021**




Dechreuodd y Cynnig Gofal Plant yng Ngheredigion ym mis Medi 2018, ac roedd nifer fawr o ymgeiswyr o fewn dwy garfan ar ddechrau'r cynllun. Cafodd pandemig Covid-19 effaith ar y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020, ond mae'r ffigurau wedi gwella ac yn dechrau ffurfio patrymau ar gyfer y nifer sy'n ei dderbyn bob tymor.

DRAFT

**Tabl 18.8: Cynnig Gofal Plant Cymru a Cheredigion:**

| | CYMRU | CEREDIGION |
|---|---|---|
| Nifer y plant a fanteisiodd ar y Cynnig ym mhob awdurdod lleol rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020<br><br>Ffynhonnell: [Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3 (llyw.cymru)]() | 16,377 | 359<br>(2.19% o Gymru yn ei dderbyn) |
| Gorffennaf 2021<br>% o'r plant hynny yr amcangyfrifir eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig | 48% | *45%*<br><br>*Yn seiliedig ar ddata PLASC ar gyfer plant 3 oed sy'n derbyn* Darpariaeth Feithrin y *Cyfnod Sylfaen Ebrill 2021 (Cyfanswm o 526 yn derbyn* Darpariaeth Feithrin y *Cyfnod Sylfaen)* |
| % y plant sy'n manteisio ar y Cynnig yn Gymraeg neu'n ddwyieithog | 23% | 77% (184 o blant) |
| Nifer yr oriau a archebir ac a ddefnyddir bob mis ar gyfartaledd | Ychydig llai na 72 awr | Ychydig dros 80 awr |
| Nifer y ceisiadau ar gyfer plant ag AAA/anghenion ychwanegol | Ychydig dros 3% | 0% |
| Canran y plant (%) sy'n cael Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant | Ddim ar gael | 2% |

**Y fantais i leoliadau Gofal Plant:**

Mae cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant wedi newid tirwedd y ddarpariaeth Gofal Plant. Roedd llawer o leoliadau 'gofal dydd sesiynol' blaenorol megis Cylchoedd Meithrin/Cylchoedd Chwarae yn gallu agor oriau hwy / sesiynau bore a phrynhawn oherwydd y galw cynyddol hwn gan rieni a chymorth ariannol o £4.50 yr awr fesul plentyn cymwys. Roedd hyn yn golygu y gallai lleoliadau gofrestru fel 'Gofal Dydd Llawn' gydag AGC sydd wedi newid y ffordd rydym yn gallu mesur lleoedd Gofal Plant yng Ngheredigion. Roedd y gyfradd fesul awr hefyd yn uwch na'r hyn yr

| | |
|---|---|
| | oedd y lleoliadau sesiynol yn ei godi ar rieni. Fodd bynnag, roedd y swm yn debyg neu'n llai na'r ffioedd a godwyd gan Feithrinfeydd Dydd a Gwarchodwyr Plant.<br><br>Yn ystod Tymor yr Hydref 2021, mae'r Cynnig Gofal Plant wedi talu £198,009.49 i 82 o leoliadau Gofal Plant yng Ngheredigion (sy'n cynnwys cymorth i blant ag anghenion ychwanegol) sy'n arbediad sylweddol mewn costau Gofal Plant ar gyfer pob teulu ar y Cynnig.<br><br>Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd gan Athrawon Ymgynghorol yn y Gwasanaeth Ysgolion, ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant bu effaith gadarnhaol ar y gweithlu. Wrth i oriau gwaith gynyddu yn y lleoliad, bu modd i staff aros a chael un swydd yn lle llawer o swyddi mewn lleoliadau amrywiol. Mae'r staff yn y lleoliad trwy'r dydd, maent yn hapusach, ac mae ganddynt fwy o amser i wella'r adnoddau a'r arddangosfeydd.<br><br>Fodd bynnag, mae bwlch cynyddol rhwng cyrhaeddiad plant difreintiedig na allant fforddio'r sesiynau Gofal Plant a'r plant sy'n mynychu'r elfen Gofal Plant h.y. mynychu trwy'r dydd.<br><br>**Ehangu'r Cynnig Gofal Plant**<br><br>Cyhoeddwyd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2026 ym mis Mehefin 2021 gyda dau ymrwymiad; un i ehangu'r cymorth y mae Gofal Plant yn ei gynnig i rieni mewn addysg a hyfforddiant ac un arall i gynnal ei hymrwymiad at Ddechrau'n Deg.<br><br>Yn hydref 2021, lluniwyd 'cytundeb cydweithredu' rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n cael ei rhedeg gan Lafur (Rhagfyr 2021 – 2024). Roedd y cytundeb yn cynnwys cynlluniau i ymestyn Gofal Plant wedi'i ariannu i gynnwys pob plentyn dwy oed (manylion i'w cadarnhau ar adeg ysgrifennu'r Asesiad hwn). Cefnogir y cam gweithredu hwn gan Adroddiad Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd Blynyddol Plant yng Nghymru a nododd '*ehangu'r Cynnig Gofal Plant i blant iau'* yn ei grynodeb *'i gefnogi'r cynnydd o ran tlodi mewn gwaith'*<br><br>Yr ail darged sy'n effeithio ar Ofal Plant yw'r un ar *'Ddiwygio Ysgolion'* sy'n ystyried newid dyddiadau tymhorau ysgol ac oriau ysgol a fydd yn ei dro yn effeithio ar rieni a'r ddarpariaeth Gofal Plant.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Awdurdod Lleol Ceredigion i weithio gyda LIC ar sut i weithredu'r Gofal Plant a ariennir ar gyfer plant 2 oed ar draws Ceredigion a helpu gyda chynllunio unrhyw ddarpariaeth ychwanegol.**<br>**Ymchwilio i gyfleoedd cyllid grant cyfalaf posibl yn unol ag ehangu'r Cynnig Gofal Plant neu gyllid 2 oed ymhellach.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Cyfrannu at ymgynghoriadau ac adolygiadau Diwygio Ysgolion Llywodraeth Cymru a rhoi unrhyw gamau ar waith.** |

DRAFT

| |
|---|
| **Adborth o'r Ymgynghoriad Darparwyr Gofal Plant:** |
| *"Dim digon o wybodaeth am y lleoedd sydd wedi'u hariannu ar gyfer rhieni. Dydyn nhw ddim yn cael gwybod am y gwyliau a sut mae'n gweithio, a dydyn nhw ddim yn deall sut mae'r cyllid yn gweithio."* |
| *"Rwy'n gweithio o fewn y gymuned lle rwy'n byw ac mae "argymhellion personol" a'm henw da wedi bod yn ddigon i fy nghadw i'n brysur. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn mynd yn ôl i'r gwaith rhwng 9 mis a blwyddyn ar ôl geni babi ac mae lleoliadau Ysgol a Meithrin bellach yn darparu lleoedd trwy'r dydd ar gyfer plant 3 oed. Mae hyn yn golygu bod yr ystod oedran y mae gwarchodwyr plant yn gofalu am blant yn cael ei gwasgu mwy a mwy nawr. Mae rhieni eisiau rhannu lleoliadau rhwng Cylchoedd Chwarae a Meithrin ac mae lleoedd ar gael o fewn fy lleoliad am y tro cyntaf bellach."* |
| *"Mae gen i restr aros ar gyfer plant o dan 5 hyd at 2023. Gyda 2 [o blant] fy hun yn yr ystod oedran yma mae'n golygu y gallai i ofalu am un plentyn arall yn unig o dan 5 oed yn dilyn y cymarebau. Dwi ddim yn cael unrhyw ddiddordeb/ymholiadau ar gyfer plant dros 5 oed. Mae llawer mwy o angen am leoedd Gofal Plant i blant iau."* |

Mae rhai Gwarchodwyr Plant wedi nodi bod y Cynnig Gofal Plant yn cael effaith negyddol ar eu gwasanaeth gan fod rhieni'n ffafrio defnyddio'r Cynnig o fewn un lleoliad (sydd hefyd yn cynnig yr Addysg 3-oed) sy'n tueddu i fod yn ddarpariaeth gofal dydd llawn:

*"Mae niferoedd gwarchodwyr plant yn cael eu heffeithio gan y Cylch Meithrin lleol sy'n derbyn plant o 2 oed. Mae rhieni'n chwilio'n aml am ofal cofleidiol ar gyfer y plant hyn sy'n effeithio ar y cymarebau plant."*

**TLODI**

Diffinnir aelwydydd sy'n byw mewn tlodi fel rhai lle mae incwm y cartref yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr. Yn 2020, roedd hyn yn £19,967. (Ffynhonnell: CACI Paycheck)

Yn ôl Llywodraeth Cymru roedd 31% o blant mewn teuluoedd yng Nghymru yn byw mewn tlodi rhwng 2017 a 2020. Mae cael eich magu mewn tlodi yn effeithio ar lesiant plant, datblygiad yn y blynyddoedd cynnar, iechyd corfforol a meddyliol, cyflawniad addysgol a chyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Mae cydnabod a deall effeithiau tlodi ar blant a theuluoedd yn hanfodol i wella eu canlyniadau.

Yng Ngheredigion mae 3 o bob 10 plentyn yn byw mewn tlodi neu 31.8% (*Ffynhonnell: Clymblaid Dileu Tlodi Plant yn 2019/20*), diweddariad nesaf i'w gyhoeddi ym mis Mai 2022). Mae hyn nid yn unig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond mae Ceredigion hefyd wedi gweld y cynnydd uchaf ond un yn genedlaethol ar 2.7 pwynt canran dros y pum mlynedd flaenorol. Mae tlodi yn parhau i fod yn un o heriau mwyaf y sir.

| | |
|---|---|
| | Enillion ac incwm isel, Gofal Plant fforddiadwy, gostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a chostau tai uchel/fforddiadwyedd tai sy'n sbarduno tlodi yng Ngheredigion.<br><br>Nododd yr adroddiad cynnydd diweddar *'Strategaeth Trechu Caledi Ceredigion 2020-2022'* y problemau canlynol yn ymwneud â Gofal Plant:<br>• Mae incwm isel yng Ngheredigion yn golygu na all rhai teuluoedd ddangos eu bod yn cyrraedd y trothwy incwm ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.<br>• Mae prinder staff, gan gynnwys staff sy'n siarad Cymraeg, o fewn y sector yn ei gwneud yn anodd recriwtio a chynnal cymarebau staff i blant. Mae hyn yn effeithio ar allu rhai lleoliadau i gynnig lleoedd i blant ychwanegol.<br>• Roedd y Strategaeth yn cydnabod bod patrymau gwaith rhieni wedi newid ac mae hyn wedi lleihau'r galw am Ofal Plant ar ôl ysgol. Mae dau leoliad, yng ngogledd a de'r sir, a oedd yn cefnogi llawer o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cau'n barhaol.<br><br>Nid yw mesurau economaidd yn datgelu'r broblem o dlodi mewn gwaith yn syth. Er enghraifft, mae'r gyfradd gweithgarwch economaidd, y gyfradd cyflogaeth a chyfran yr aelwydydd di-waith yng Ngheredigion i gyd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Eto i gyd, mae 32.4% o aelwydydd yn dal i fyw mewn tlodi yng Ngheredigion* o'i gymharu â 35% yng Nghymru. Mae'r ffigurau hyn, ynghyd ag enillion ac incwm cyfartalog isel yn y sir yn awgrymu'n gryf bod tlodi mewn gwaith yn parhau i fod yn broblem sylweddol yng Ngheredigion.<br><br>Mae 6.9% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith (*Mae canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith yng Ngheredigion yn seiliedig ar faint sampl isel ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn*).<br><br>***Ffynonellau:** Yr Adran Gwaith a Phensiynau, NOMIS, Llywodraeth Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Cyfrifiad 2011*<br><br>Enillion blynyddol canolrifol yng Ngheredigion (yn ôl man preswylio yw £23,576 ac mae'n is na chanolrif Cymru.<br>(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg blynyddol ar gyfer oriau ac enillion 2020).<br><br>Mae nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol wedi cynyddu 112% ers mis Mawrth 2020, gyda 10.5% o bobl oedran gweithio yng Ngheredigion yn derbyn Credyd Cynhwysol.<br><br>• Y data diweddaraf sydd ar gael: Mae plant sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd yn 31.8% ar gyfer 2019/20, diweddariad nesaf Mai 2022.<br>• Mae gweithwyr hunangyflogedig yn 1 ym mhob 6 ym mis Mawrth 2021 ac yn cael ei ddiweddaru bob 3 mis.<br>• Cymhareb hunangyflogaeth Ceredigion yw 14.9% o'i gymharu â ffigur Cymru, sef 8.9%.<br>• Roedd y nifer sy'n manteisio ar y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) yn ystod y pandemig yn amrywio o 76% ar gyfer y grant cyntaf i 22% erbyn y pumed grant (5500 o hawlwyr posibl), ond roedd yn is na chyfradd hawlio Cymru.* |

DRAFT

- Roedd 23,700 o weithwyr yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi trwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) lle oedd gweithwyr a roddwyd ar wyliau yn derbyn 80% o'u cyflog, hyd at uchafswm o £2,500 y mis. Roedd y nifer a fanteisiodd ar y cynllun ffyrlo yn amrywio o 6500 ym mis Mai 2020 i 700 o weithwyr ym mis Medi 2021. Roedd hyn yn cyfateb i gyfradd o 3% o'i gymharu â chyfradd Cymru, sef 3.3%.*
- Cododd y nifer sy'n hawlio Credyd Cynhwysol 112% rhwng mis Mawrth 2020 a mis Tachwedd 2021 gyda 4,477 o bobl ar Gredyd Cynhwysol (12% o'r boblogaeth o'i gymharu â 18% yng Nghymru**

* **Ffynonellau:** Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogedig (Ffyrlo) – Cyllid a Thollau EM, Hunangyflogedig – Proffil Awdurdod Lleol NOMIS

**Ffynonellau: Credyd Cynhwysol – Adran Gwaith a Phensiynau; Gweithgarwch Economaidd – NOMIS; Cyfradd Cyflogaeth – NOMIS

**Tabl 18.9: Canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi (llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr):**

| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol / Ardal Gymunedol | Canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi (llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr £19,967) |
|---|---|
| **Aberystwyth – Gogledd** | **37.8%** |
| **Aberteifi ac Aber-porth** | **36.7%** |
| **Aberystwyth – De** | **36.6%** |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 35.9% |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 33.8% |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 29.0% |
| Aberaeron a Llanrhystud | 28.9% |
| Ceinewydd a Phenbryn | 28.4% |
| Y Borth a Bont-goch | 25.6% |
| *Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.* | |

Mae gan Ogledd Aberystwyth boblogaeth uchel o fyfyrwyr felly rhaid bod yn ofalus wrth edrych ar y ffigurau hyn. Efallai fod y tabl isod yn fwy cynrychioliadol o lefel tlodi, wedi'i ategu gan y ffaith bod Dechrau'n Deg ar gael yn y 3 ardal uchaf a restrir isod. Fodd bynnag, mae ardal

Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad yn 4ydd yn y ddwy restr sy'n awgrymu bod hon yn ardal lle mae angen i ni ddatblygu cymorth ychwanegol.

**CAM GWEITHREDU: Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth Gofal Dydd Sesiynol ar gyfer plant 2-3 oed heb effeithio ar y ddau Ddarparwr Gofal Dydd Llawn a Gwarchodwyr Plant yn Llanbedr Pont Steffan.**
**Ymchwil pellach i anghenion Gofal Plant teuluoedd sy'n byw yng nghymuned Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad.**

**Tabl 18.10: Pobl mewn Amddifadedd Incwm %**

| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol / Ardal Gymunedol | Pobl mewn Amddifadedd Incwm % |
|---|---|
| **Aberteifi ac Aber-porth** | **19%** |
| **Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul** | **14%** |
| **Aberystwyth – De** | **13%** |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 12% |
| Ceinewydd a Phenbryn | 12% |
| Aberaeron a Llanrhystud | 11% |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 10% |
| Y Borth a Bont-goch | 10% |
| Aberystwyth – Gogledd | 6% |
| **CYFANSWM** | |
| *Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.* | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Yn ystod gwanwyn 2021 cynhaliodd Plant yng Nghymru ei Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd blynyddol ac fe'i cyhoeddwyd yn hydref 2021. Daeth 6% o'r ymatebion i'r arolwg o Geredigion gan nodi bod cost/argaeledd Gofal Plant ymhlith ei 5 prif fater yn ymwneud â thlodi. Roedd materion cysylltiedig eraill yn cynnwys effaith budd-daliadau, cyflogau isel, rhwystrau dyled a thai a chostau byw cynyddol.<br><br>Dangosodd yr arolwg sut y bu'n rhaid i rai rhieni roi'r gorau i'w swyddi oherwydd diffyg Gofal Plant ychwanegol neu fforddiadwyedd Gofal Plant ychwanegol, neu y bu'n rhaid iddynt ddewis rhwng gweithio neu ddarparu Gofal Plant. Ni allai gweithwyr incwm isel weithio gartref.<br><br>Arweiniodd effaith pandemig COVID-19 at ddiswyddiadau, colli swyddi yn y diwydiannau tymhorol, y sector Gofal Plant a'r rhai ar gontract dim oriau. Fodd bynnag, roedd tlodi yno cyn y pandemig (er yn waeth nawr) ac ni ellir ei ddefnyddio fel esgus.<br><br>O ran *Costau Gofal Plant ac argaeledd* a nodwyd gan ymatebwyr yn yr adroddiad fel problem, roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar gost uchel Gofal Plant o'i gymharu â chyflogaeth incwm isel, yn ogystal ag argaeledd Gofal Plant. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio nid yn unig ar argaeledd daearyddol ond pryd yn ystod y dydd yr oedd Gofal Plant ar gael.<br><br>*"Rwy'n gweithio gyda llawer o famau sengl a hoffai weithio, ond mae dod o hyd i Ofal Plant yn anodd iawn a hefyd cost y Gofal Plant pan fydd ar gael."*<br><br>**Astudiaeth Achos:**<br>Cynigwyd oriau ychwanegol o fewn lleoliad i weithiwr Gofal Plant proffesiynol oedd yn gweithio 16 awr yr wythnos ar Isafswm Cyflog Byw. Ar ôl ymchwilio ymhellach, byddai'r unigolyn a oedd yn rhiant sengl yn waeth ei fyd yn ariannol pe bai'n gweithio mwy nag 16 awr ar yr isafswm cyflog oherwydd byddai'n colli ei Gredyd Cynhwysol, Budd-daliadau Treth Tai, Prydau Ysgol am Ddim (a grant gwisg ysgol cysylltiedig). Roedd y gweithiwr yn fodlon gweithio mwy o oriau, ond nid oedd yn benderfyniad ariannol gynaliadwy. Yn y cyfamser, mae'r lleoliad yn parhau i wynebu problemau staffio er mwyn bodloni'r cymarebau a'r oriau gofynnol. |
| | **Crynodeb:**<br>Mae galw clir am Ofal Plant mwy fforddiadwy gyda ffocws arbennig ar ehangu'r Cynnig Gofal Plant i blant iau.<br>Mae angen i Ofal Plant fod yn fwy hygyrch gydag oriau mwy hyblyg. Er bod tystiolaeth yn dangos bod angen i Ofal Plant fod yn fwy hyblyg, mae angen inni ymchwilio i weld a yw'r galw yno i'w wneud yn gynaliadwy. Heb nifer y teuluoedd sy'n defnyddio'r ddarpariaeth nid yw'n gynaliadwy i ofyn i ddarparwyr ymestyn oriau agor ac ati. Byddai hyn yn annog gweithio oriau mwy hyblyg ac yn cefnogi patrymau shifft yn ogystal â thâl gwell i'r gweithlu Gofal Plant. |

DRAFT

**Cryfderau:**

- Mae cynlluniau fel Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a'r Cynnig Gofal Plant i gyd yn ddarpariaeth Gofal Plant wedi'i hariannu y gall rhai rhieni fanteisio arni.
- Bydd cyflwyno Gofal Plant rhan-amser a ariennir ar gyfer plant dwy oed yn helpu teuluoedd i gael mynediad at Ofal Plant heb orfod poeni am y gost.

**Gwendidau:**

- Mae cyfradd tlodi a thlodi mewn gwaith yn cynyddu yng Ngheredigion ac mae hyn yn debygol o effeithio ar allu rhieni i fforddio Gofal Plant o ganlyniad i gostau cynyddol. Ar yr un pryd mae'n rhaid i ddarparwyr Gofal Plant ystyried cynyddu ffioedd er mwyn sicrhau y gallant gynnal y ddarpariaeth gyda'r holl argostau ychwanegol y mae'n rhaid iddynt barhau i'w talu.

## 19 CYNALIADWYEDD

Gellir disgrifio cynaliadwyedd fel y gallu i gael ei gynnal ar gyfradd neu lefel benodol. Wrth edrych ar gynaliadwyedd o ran y farchnad Gofal Plant, rydym yn ystyried y gallu i gynnal y ddarpariaeth sydd gennym a pha ffactorau all effeithio neu ddylanwadu ar fodolaeth darpariaeth Gofal Plant.

Gofynnodd arolwg SASS i ddarparwyr 'yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, a ydych yn weddol hyderus y byddai'n gynaliadwy yn ariannol i barhau i redeg eich darpariaeth Gofal Plant?' Mae'r tabl canlynol yn nodi canlyniadau'r arolwg.


**Tabl 19.1: Hyder Darparwr Gofal Plant i barhau**

| | % ddim yn gwybod | % chwe mis | % blwyddyn arall neu'n hwy | % nifer |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 0 | 25 | 75 | 0 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 14 | 0 | 81 | 5 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 50 | 0 | 50 | 0 |
| Gwarchodwr plant | 20 | 0 | 78 | 0 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 33 | 0 | 67 | 0 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 100 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Crèche | 100 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **22%** | **2%** | **74%** | **1%** |

Mae'n galonogol gweld bod 74% yn bwriadu aros yn weithredol am 6 mis neu fwy. Fodd bynnag, mae'n destun pryder nad yw 50% o'n darpariaeth gofal dydd llawn yn gwybod pa mor hir y byddant yn gynaliadwy. Mae gennym nifer isel o ddarparwyr gofal dydd llawn yng Ngheredigion, felly pe bai darparwr yn cau byddai hyn yn cael effaith arwyddocaol ar leoedd Gofal Plant i rieni yn enwedig gan ein bod yn gweld bod y darparwyr gofal dydd llawn yn gymharol lawn, a bod un ddarpariaeth Gofal Dydd Llawn wedi cau yn 2021 a effeithiodd ar lawer o deuluoedd.

**Ffigur 19.1: Hyder mewn cynaliadwyedd i barhau**





Gofynnwyd i ddarparwyr hefyd fel rhan o'r SASS 'oherwydd COVID-19, ydych chi'n gweithredu i gapasiti llawn ar hyn o bryd?' Mae'r tabl canlynol yn dangos yn glir na ddywedodd yr un o'n darparwyr eu bod yn gweithredu i gapasiti llawn, gyda'r sector y tu allan i oriau ysgol yn amlwg yn cael ei effeithio waethaf gyda dim ond 22% yn gweithredu i gapasiti llawn. Gofal dydd llawn sesiynol ar 76% a gofal sesiynol ar 75% oedd yn gweithredu agosaf at eu capasiti llawn ym mis Mehefin 2021. Efallai fod y ffigur hwn wedi newid ers y SASS.

**Tabl 19.2: Canran sy'n gweithredu hyd at gapasiti llawn**


| | % yn gweithredu i gapasiti llawn |
|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 75 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 76 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 67 |
| Gwarchodwr plant | 69 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 22 |

**Ffigur 19.2: Canran sy'n gweithredu ar gapasiti llawn**




Mae'r graff canlynol yn dangos yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar staffio yn y sector. Unwaith eto, mae'r sector y tu allan i oriau ysgol wedi nodi bod angen mwy o gymarebau staff i blant. Y rheswm am hyn oedd y cyfnod pan oedd rhaid cadw plant mewn swigod.

**Ffigur 19.3: Effaith pandemig ar gymarebau staffio**



Mae'r sector wedi gorfod ymdopi â llawer dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio, diweddaru asesiadau risg, gweithredu trefniadau glanhau ychwanegol, cyflwyno mesurau diogel COVID-19 tra ar yr un pryd yn ceisio darparu'r gofal gorau posibl ar gyfer y plant.

Un effaith fawr ar gynaliadwyedd yw'r cyflogau. Mae Gofal Plant wedi bod yn broffesiwn â chyflog isel yn rhy hir, ac eto mae'r disgwyliadau ar staff yn parhau i godi a sicrhau bod y cymwysterau cywir ganddynt. Os ydym am sicrhau ansawdd o fewn lleoliad mae angen i'r tâl adlewyrchu'r dyletswyddau o fewn y swydd.

Dyfernir grantiau cynaliadwyedd yn flynyddol trwy gyllid Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol sy'n cydnabod pa mor fregus yw'r sector, ac mae argaeledd grantiau yn allweddol o ran sicrhau nad yw costau Gofal Plant yn cael eu trosglwyddo i deuluoedd. Fodd bynnag nid yw'n gynaliadwy i ddyfarnu grantiau bob blwyddyn i'r darparwyr.

**Cyflog Byw Cenedlaethol; Cyfraddau Fesul Awr ac Yswiriant Gwladol:**

Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi i £9.50 o 1 Ebrill 2022. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 59 ceiniog neu 6.6 y cant.
Bydd y codiadau yn cefnogi cyflogau a safonau byw gweithwyr ar gyflog isel ar adeg lle mae twf cyflog yn gadarn ar draws yr economi yn ôl Cynnydd mawr yn yr isafswm cyflog i hybu incwm gweithwyr ar gyflog isel - GOV.UK (www.gov.uk).

**Tabl 19.3: Cyflog Byw Cenedlaethol:**

| | Cyfradd o Ebrill 2022 | Cyfradd gyfredol (Ebrill 2021 i Fawrth 2022) | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cyflog Byw Cenedlaethol | £9.50 | £8.91 | 6.6% |
| Cyfradd 21-22 oed | £9.18 | £8.36 | 9.8% |
| Cyfradd 18-20 oed | £6.83 | £6.56 | 4.1% |
| Cyfradd 16-17 oed | £4.81 | £4.62 | 4.1% |
| Cyfradd Prentis | £4.81 | £4.30 | 11.9% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrthbwyso Llety | £8.70 | £8.36 | 4.1% |

Ffynhonnell: [Cyfraddau isafswm cyflog ar gyfer 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)]


Ynghyd â chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cynyddu 1.25% ym mis Ebrill 2022 bydd y cynnydd cyfartalog mewn costau staff fesul diwrnod fesul cyflogai ar yr isafswm cyflog yn cynyddu, a bydd rhaid i bob darparwr Gofal Plant dalu'r costau ychwanegol hyn, boed yn lleoliadau preifat neu wirfoddol. Gyda chostau cyfleustodau a gorbenion hefyd yn cynyddu nid yw hyn yn rhywbeth y bydd darparwyr yn gallu eu talu heb ystyried cynyddu'r ffioedd a godir ar rieni.

Rhaid ystyried argostau pan fydd cyfradd fesul awr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cynyddu, ac os yn gweithio 16+ awr, rhaid ystyried cyfraniad pensiwn a gwyliau. Fodd bynnag, ni all lleoliadau Gofal Plant drosglwyddo'r cynnydd cost ychwanegol hwn i rieni.
Mae cyllid addysg Meithrin Cyfnod Sylfaen yn cael ei gynyddu'n raddol i gyrraedd £4.50 yr awr, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Lleol, ond bydd yn cymryd dwy flynedd arall i gyrraedd y trothwy hwn. Os yw cyfradd y Cynnig Gofal Plant am gynyddu, bydd angen cyllid pellach i sicrhau bod y gyfradd Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn cynyddu hefyd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwahaniaeth mewn cyfraddau fesul awr ar gyfer staff yn y sector Gofal Plant o'i gymharu â chyflog cychwynnol Athro y Blynyddoedd Cynnar, sef £14.00 yr awr. Mae arweinydd Cylch Meithrin yn ennill tua £9.50 yr awr ar gyfartaledd tra bod cymhorthydd ar yr isafswm cyflog cenedlaethol yn unig. Gellir cymharu hyn â'r gyfradd fesul awr ar gyfer staff manwerthu a gellir deall pam mae'r sector mewn argyfwng ar hyn o bryd gyda staff cymwys yn gadael y proffesiwn i fynd i weithio mewn ysgolion neu hyd yn oed y tu allan i'r sector Gofal Plant yn gyfan gwbl.

DRAFT

**Ffigur 19.4: Tâl fesul awr 2021-2022**




**<u>Dyfyniad darparwr:</u>**

> *"Mae lleoedd ar gael yn ein clwb ar ôl ysgol ni ers y pandemig a gyda rhieni sy'n gweithio gartref mae gennym ni lai o blant sydd angen gofal ar hyn o bryd. Felly mae'n anodd cael cydbwysedd rhwng nifer y staff â chymarebau plant a cheisio peidio â cholli arian ar bob sesiwn. Mae'n costio mwy i'r busnes ddarparu Gofal Plant 1 i 1 hefyd."*

**<u>Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar gyfer safleoedd Gofal Plant cofrestredig</u>**

Ers mis Ebrill 2019, mae darparwyr Gofal Plant cofrestredig yng Nghymru wedi cael rhyddhad ardrethi busnesau bach o 100%. Roedd y cynllun hwn am dair blynedd i ddechrau ac fe'i cadarnhawyd hyd at 31 Mawrth 2022. Ym mis Medi 2021 cyhoeddodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru estyniad tair blynedd i Ryddhad Ardrethi Annomestig o 100% ar gyfer Gofal Plant cofrestredig am dair blynedd ychwanegol tan 2025 yn dilyn adolygiad ym mis Gorffennaf 2021. Croesawyd ymestyn y rhyddhad ardrethi gan ddarparwyr tan 31 Mawrth 2025. Bydd hyn yn darparu £9.7m o gymorth ychwanegol ar gyfer safleoedd Gofal Plant cofrestredig yng Nghymru.

**Cyllid Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru**

Dyfernir Grant Plant a Chymunedau LlC i gefnogi gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys Cymorth a Chefnogaeth Gynnar. Un o'r ffrydiau ariannu yw cefnogi'r rhaglen Gofal Plant a Chwarae sydd wedi'i hanelu'n bennaf at y sector y Tu Allan i Oriau Ysgol, a mynd i'r afael â bylchau yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Defnyddir cyllid ar gyfer amser y Swyddog Datblygu, cefnogi plant ag anghenion ychwanegol i fynychu clwb ar ôl ysgol/Cynllun Chwarae yn ystod y gwyliau (Ymuno), cymorthdalu costau hyfforddi, a chefnogi'r sector drwy gynnig Grantiau Cynaliadwyedd blynyddol i dalu costau staff a gorbenion.

Oherwydd COVID-19 dyfarnwyd cymorth grant ychwanegol ar ffurf grant CWTCH yn 2020 o £135,486.00.
Gwelwyd cynnydd o 0.49% yn 2021-2022 gyda grant CWTCH pellach wedi'i ddyrannu ym mis Medi 2021 fel grantiau cynaliadwyedd ar raddfa fach i helpu lleoliadau Gofal Plant i adfer wedi effaith COVID-19.

**Tabl 19.4: Cyllid Cynaliadwyedd:**

| **Grant Gofal Plant a Chwarae (Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol)** | | **Cyllid ychwanegol COVID-19** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|
| 2017-2018 | £58,796 | | £58,796 |
| 2018-2019 | £58,796 | | £58,796 |
| 2019-2020 Grant Gofal Plant | £58,796 | | £58,796 |
| 2020-2021 | £58,796 | £58,796 + £76,690<br>£135,486.00 | £194,282 |
| 2021-2022 – cynnydd o 0.49%. | £59,084.46 | £89,472 | £158,556.46 |
| 2022-2023 | £58,796.00<br>+ Cymorth Cynnar o 5% o<br>£2,939.80 | | |

**GRANTIAU CYFALAF Y CYNNIG GOFAL PLANT**

Roedd cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn gyfle i ALlau wneud cais am gyllid cyfalaf i ddatblygu darpariaeth Gofal Plant newydd neu gyllid i ddefnyddio cynllun grantiau bach a fyddai'n helpu darparwyr Gofal Plant i wella'r amgylchedd yn eu lleoliad. Mae'r cyllid hwn wedi bod ar gyfer gwaith cyfalaf yn unig. Fodd bynnag, mae wedi bod o fudd mawr i ddarparwyr Gofal Plant yng Ngheredigion. Mae cyllid wedi golygu bod modd codi estyniad i Ysgol Cenarth i ddatblygu Gofal Plant cofleidiol, adeilad pwrpasol ar gyfer Cylch Meithrin Tregaron, adeilad parhaol yn lle'r caban ar gyfer darpariaeth Ffrindiau Bach yr Eos (Dechrau'n Deg), caban newydd ar gyfer Cylch Meithrin Llanarth (cyfalaf Dechrau'n Deg), estyniad i Gylch Meithrin Llanilar, gwelliannau i gaban Cylch Meithrin Rhydypennau a Phenllwyn. Disgwylir i'r gwaith ddechrau'n fuan ar ysgol 3-11 Ysgol Dyffryn Aeron a fydd hefyd yn cynnwys darpariaeth gofleidiol ar gyfer y Cylch Meithrin. Disgwylir i hyn agor erbyn mis Medi 2023.

Mae'r cynllun **Grantiau Bach y Cynnig Gofal Plant** Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyllid grant i ddarparwyr a gwarchodwyr plant i wella'r amgylchedd ffisegol y tu mewn neu'r tu allan i'w lleoliad. Ynghyd â chyllid ychwanegol ar gyfer COVID-19, mae cyfanswm o £502,000 wedi bod ar gael ers 2019.

**<u>Diwygio'r Diwrnod Ysgol</u>**

Mae cytundeb LIC rhwng Plaid Cymru a'r Llywodraeth Lafur wedi ymrwymo i ystyried diwygio'r diwrnod ysgol a dyddiadau'r flwyddyn ysgol er mwyn cefnogi llesiant dysgwyr a staff, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol a gweddu mwy i batrymau bywyd teuluol a chyflogaeth. Nid yw'n glir eto beth fydd hyn yn ei olygu i ddarpariaeth Gofal Plant a pha effaith y bydd yn ei chael. Fodd bynnag, bydd angen inni ystyried y goblygiadau fel rhan o'n cynllun pum mlynedd.

**20 TRAWSFFINIOL**

Ers 2018 mae Uned Gofal Plant Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithredu fel yr awdurdod cyflenwi ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yng Ngorllewin Cymru, ac mae'n gweithio'n agos gydag awdurdodau ymgysylltu Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys. O ganlyniad, mae perthynas waith agos wedi datblygu gyda swyddogion cyfatebol o fewn yr Awdurdodau hyn. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda darparwyr Gofal Plant ar y ffiniau sirol lle mae materion trawsffiniol yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw gan swyddogion.

Oherwydd pandemig COVID-19, mae'r holl Awdurdodau Lleol ac Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru wedi bod yn cwrdd yn fwy rheolaidd gan ychwanegu gwerth gwirioneddol at y gwaith. Cytunodd Llywodraeth Cymru i arwain ar yr Arolwg Rhieni/Gofalwyr.

| | |
|---|---|
| | Rydym yn gweithio gydag Awdurdodau cyfagos ar y Cynnig Gofal Plant ond rydym hefyd yn helpu ein gilydd gyda materion eraill yn ymwneud â Gofal Plant. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ymchwilio i'r posibilrwydd o gomisiynu cwmni allanol i gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, rhannu arfer da o ran ADY, ceisiadau Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant ac ati.<br><br>Rydym yn ymwybodol o'n hymateb i'r arolwg Rhieni/Gofalwyr bod rhai rhieni'n defnyddio Meithrinfa Ddydd yng Nghastell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin sy'n ffinio â Cheredigion. Mae'r un peth yn wir hefyd am fynediad at warchodwyr plant a lleoliadau Gofal Sesiynol yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin, Gogledd Sir Benfro gan fod tair tref fawr wedi'u lleoli ar Afon Teifi sydd ar ffin y sir. Mae'n anochel bod defnyddwyr gwasanaeth o'r ddwy ochr i'r afon yn cael mynediad at leoliadau Gofal Plant ar bob ochr o'r afon. Gwyddys fod nifer gymharol isel o rieni o ogledd Ceredigion yn defnyddio Gofal Plant yn ardal Machynlleth, Powys oherwydd ymrwymiadau gwaith. |
| **21** | **DATBLYGU A HYFFORDDI'R GWEITHLU** |
| | **RECRIWTIO A CHADW STAFF**<br><br>Mae recriwtio a chadw staff wedi cael ei nodi fel gwir bryder gan y sector yn ystod y 18 mis diwethaf gyda darparwyr yn dweud eu bod yn cael anawsterau wrth recriwtio staff cymwysedig ac yn enwedig staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Uned Gofal Plant wedi codi'r pryderon gyda LIC.<br><br>Mae'r risg hon yn cynyddu ac mae'n gysylltiedig â chyfraddau tâl a statws cymwysterau yn ogystal â morâl staff. Ni chafodd staff y sector Gofal Plant eu gwobrwyo pan dderbyniodd staff y sector gofal daliadau bonws cenedlaethol, er eu bod hefyd yn aros ar agor ac yn gweithio trwy gydol y cyfnodau clo er mwyn i rieni allu gweithio. Nid ydynt wedi cael yr un statws a diogelwch â staff ysgol, ac mae hyn wedi arwain at lawer o staff â chymwysterau Gofal Plant yn gadael y sector.<br><br>Mae'r colegau AB lleol yn adrodd bod llai o fyfyrwyr yn astudio Gofal Plant, ac nid yw'r ysgolion uwchradd yng Ngheredigion yn cynnig cymwysterau Gofal Plant lefel 2 neu 3 mwyach.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Mae angen ymchwilio ymhellach i ganfod pa gyfleoedd hyfforddi Gofal Plant a Chwarae sydd ar gael yng Ngheredigion. Mae angen gwneud mwy o waith yn lleol i hyrwyddo gyrfa ym maes Gofal Plant.**<br><br>Fodd bynnag, hyd nes y gwneir mwy i gynyddu'r cyflog o fewn y sector, rydym yn annhebygol o weld gwelliant am beth amser.<br><br>**Dyfyniad Darparwr** |

DRAFT

*"Gall fod yn heriol i gynnal cymarebau staff cymwys o 50%, mae'n debyg y bydd hyn yn cynyddu wrth i'r cymhwyster Gwaith Chwarae gael ei gyflwyno hefyd."*

**LEFELAU STAFFIO, TROSIANT A SWYDDI GWAG**

**Tabl 21.1: Lefelau staffio, trosiant, swyddi gwag, yn ôl math o ddarparwr**

| Rhedeg eich Gwasanaeth – Eich Staff<br>Staff sy'n gweithio yn eich gwasanaeth | Nifer y lleoliadau | Nifer y staff unigol sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd | Nifer y staff sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos | Nifer y staff sydd wedi gadael y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf | Nifer y swyddi Gofal Plant neu chwarae sy'n wag ar hyn o bryd | Nifer yr oriau Gofal Plant neu chwarae yr wythnos y mae'r swyddi gwag hyn yn cyfateb iddynt | Nifer y staff a gyflogir ar hyn o bryd ar gontractau dim oriau | Ydych chi'n cael anhawster i gynnig cytundebau 16 awr neu fwy i'ch staff? YDW | Ydych chi'n ymgymryd â Chynllunio'r Gweithlu? YDW | Os ydych yn ymgymryd â Chynllunio'r Gweithlu, faint o staff ychwanegol ydych chi'n rhagweld y bydd eu hangen arnoch yn ystod y 24 mis nesaf? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 8 | 32 | 14 | 7 | 5 | 181 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 21 | 115 | 36 | 15 | 3 | 113 | 24 | 5 | 18 | 16 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 6 | 111 | 4 | 15 | 15 | 126 | 22 | 1 | 4 | 10 |
| Gwarchodwr plant | 45 | 37 | 7 | 1 | 0 | 0 | 4 | 3 | 4 | 0 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 9 | 40 | 20 | 0 | 0 | 10 | 22 | 2 | 4 | 6 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 1 | 5 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Crèche | 1 | 5 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **91** | **345** | **87** | **45** | **23** | **430** | **77** | **16** | **34** | **35** |

- Yn seiliedig ar ganlyniadau'r SASS, nodwyd bod 345 o bobl yn gweithio ym maes Gofal Plant yng Ngheredigion. Er i 45 o warchodwyr plant gwblhau'r SASS dim ond 37 a gynrychiolir yma.
- Adroddir bod cyfanswm o 45 o staff wedi gadael eu swydd o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, ni chesglir unrhyw wybodaeth i olrhain i ble y maent wedi mynd. Mae lleoliadau wedi adrodd bod rhai wedi mynd i weithio mewn ysgolion tra bod eraill wedi gadael y sector yn gyfan gwbl.
- Dywedir bod 23 o swyddi'n wag. Mae hyn yn bryder yn wyneb yr argyfwng staffio presennol o fewn Gofal Plant, a'r gallu i recriwtio a llenwi swyddi.
- Dywedodd 16 o ddarparwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd cynnig mwy nag 16 awr yr wythnos i staff; roedd hyn wedi'i ledaenu ar draws y mathau o ddarparwyr.
- Dywedodd darparwyr y bydd angen 35 o staff ychwanegol dros y 12 mis nesaf.

**Tabl 21.2: Trosiant Staff**

| Trosiant staff yn ôl math % | Nifer y staff unigol sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd | Nifer y staff sydd wedi gadael y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf | % trosiant staff |
|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 32 | 7 | 22 |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 115 | 15 | 13 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 111 | 15 | 14 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 37 | 1 | 3 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 40 | 0 | 0 |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 5 | 4 | 80 |
| Crèche | 5 | 3 | 60 |
| **Cyfanswm** | **345** | **45** | **13** |
| | | | |
| **Gofal Sesiynol wedi'i gyfuno** | **147** | **22** | **15** |

Pan ofynnwyd yn yr ymgynghoriad â darparwr a yw cymwysterau staff yn broblem, nododd yr ymatebwyr:

*"Gall fod yn heriol i gynnal cymarebau staff cymwys o 50%, mae'n debyg y bydd hyn yn cynyddu wrth i'r cymhwyster Gwaith Chwarae gael ei gyflwyno hefyd."*

*"Cytundebau byr ac oriau isel ddim yn denu staff o safon i'r swydd yn ogystal â'r cyflog isel iawn o'i gymharu â gwaith arall yn yr ardal sydd angen llai o gymwysterau a chyfrifoldeb"*

*"Ydy. Mae'r nifer sy'n astudio cyrsiau Gofal Plant yn y coleg wedi gostwng yn sylweddol. Nid yw ysgolion uwchradd yr ardal yn cynnig y cwrs mwyach."*

*"Fel meithrinfa Gymraeg, mae angen siaradwyr Cymraeg rhugl arnom ni hefyd. Felly, mae argaeledd gweithwyr cymwysedig sy'n siarad Cymraeg yn fwy o broblem."*

**HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU**


Mae gan 87% o'r staff sy'n gweithio ym maes Gofal Plant gymhwyster Gofal Plant ac mae gan ychydig llai na 58% o ymarferwyr chwarae gymhwyster chwarae.

**Tabl 21.3: Cymwysterau Gwarchodwyr Plant**

DRAFT

| Rhedeg eich Gwasanaeth – Eich Cymwysterau (Gwarchodwyr Plant yn unig) | | CYPOP 5 uned neu IHC & PCP | Cymhwyster, Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 2 (OES neu'n parhau) | Cymhwyster, Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 3 (OES neu'n parhau) | Cymhwyster, Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 5 | Cymhwyster sy'n berthnasol i Ofal Plant ond heb ei restru | Dim un o'r cymwysterau a restrwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 45 | 20 | 6 | 32 | 5 | 24 | 10 |


**Ffigur 21.1: Cymwysterau Gwarchodwyr Plant**



**Tabl 21.4: Cymwysterau Ymarferydd Gofal Plant:**

| Cymhwyster, Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 2 | Cymhwyster, Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 3 | Cymhwyster, Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 5 | Cymhwyster sy'n berthnasol i Ofal Plant ond heb ei restru | Dim cymwysterau Ymarferydd Gofal Plant ffurfiol | Cyfanswm y staff sy'n Ymarferwyr Gofal Plant | Cyfanswm y staff sy'n Ymarferwyr Gofal Plant CYMWYSEDIG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 209 | 33 | 34 | 43 | 328 | 285 |


**Ffigur 21.2: Cymwysterau Ymarferydd Gofal Plant:**



**Tabl 21.5: Cymwysterau Ymarferwyr Chwarae**

| Dyfarniad Lefel 2 Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | Diploma Lefel 2 Gwaith Chwarae | Diploma Lefel 2 Gwaith Chwarae; Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) – yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | Dyfarniad Lefel 3 Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau | Dyfarniad Lefel 3 Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae | Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae; Rhoi Egwyddorion ar Waith. (P3) – yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | Diploma Lefel 5 Gwaith Chwarae | Cymhwyster sy'n berthnasol i chwarae, ond heb ei restru | Ymarferwyr Chwarae heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | Cyfanswm y staff sy'n ymarferwyr chwarae | Cyfanswm y staff sy'n ymarferwyr chwarae CYMWYSEDIG |
|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| 2 | 2 | 3 | 1 | 22 | 22 | 9 | 0 | 7 | 52 | 118 | 68 |

**Ffigur 21.3: Cymwysterau Ymarferwyr Chwarae**



Rydym yn dal i weld trosiant uchel staff yn y sector Gofal Plant sy'n dangos pwysigrwydd sicrhau bod rhaglen hyfforddi effeithiol gennym ar waith. Fel Awdurdod Lleol, mae'r Uned Gofal Plant yn sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar gyfer y cyrsiau gorfodol (Cymorth Cyntaf Paediatreg, diogelu a hylendid bwyd) yn ogystal ag unrhyw gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Mae'r pandemig wedi'i gwneud hi'n anodd sicrhau parhad hyfforddiant gan fod rhaid addasu cyrsiau i'w cyflwyno ar-lein. Cymorth Cyntaf Pediatrig sydd wedi bod yn fwyaf heriol gan fod hyfforddiant wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn ofynnol, felly mae cwrs hybrid yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gyda diwrnod 1 fel cwrs ar-lein, ac mae diwrnod 2 yn parhau i fod wyneb yn wyneb gyda mesurau diogelwch ychwanegol a llai o bresenoldeb i gydymffurfio â chyfyngiadau Covid-19.

Mae cyllid ychwanegol ar gael ar hyn o bryd trwy'r Grant Gwella Addysg – Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol sydd wedi rhoi cyfle i gynnig rhaglen hyfforddi helaeth i ddarparwyr Gofal Plant nad ydynt yn lleoliadau addysgol ac i warchodwyr plant. Bydd yr hyfforddiant sydd ar gael yn cynnwys Jabadao, Wellcomm, ymwybyddiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ati.

**Cymorth CWLWM**

Mae holl bartneriaid CWLWM wedi gallu cynnig aelodaeth am ddim i ddarparwyr o fewn eu sefydliad ar gyfer 2021-2022 ac roedd hyn ar gael trwy gyllid LIC. Fodd bynnag, mae Ceredigion wedi helpu Gwarchodwyr Plant gydag aelodaeth wedi'i ariannu ac yswiriant am y pum mlynedd diwethaf.

Mae CWLWM hefyd wedi gallu cynnig amrywiaeth o sesiynau hyfforddi, mae CPCKC wedi gallu cynnig hyfforddiant 'Pontio i Waith Chwarae', ac mae Pacey Cymru yn gallu darparu'r cwrs gwarchod plant am bris gostyngol tan ddiwedd mis Mawrth. Mae'r holl gefnogaeth yma yn cael ei groesawu gan y sector er y gall arwain at ddryswch i ddarparwyr ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth.

Ym mis Rhagfyr 2021 cynhaliodd partneriaid CWLWM eu harolwg Gwaith Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar eu hunain ar recriwtio, cyflogau a swyddi gwag. Bydd y canlyniadau'n bwydo i mewn i'w cynlluniau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod CWLWM yn nodi casgliadau'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gweithio gydag ALlau i gefnogi'r sector.**

**HYFFORDDIANT IAITH GYMRAEG**

Mae **Camau – Cynllun Dysgu Cymraeg ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant** yn gwrs rhad ac am ddim sydd wedi'i deilwra ar gyfer ymarferwyr Gofal Plant ac sy'n agored i bawb o dan gynllun Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru Camau | Dysgu Cymraeg. Ers Covid mae hwn bellach yn cael ei gynnig fel cwrs Hunan Astudio Ar-lein ar lefel Mynediad (addas i ddechreuwyr a'r rhai sydd wedi cwblhau'r Cyrsiau Blasu).

Cyn pandemig – erbyn mis Mawrth 2020 roedd 12 wedi cofrestru ar-lein gyda dim ond 9 yn mynychu sesiynau wythnosol a gynhelir gan leoliad yng ngogledd Ceredigion.
Wedi'r pandemig – mae'r cynllun yn gweithio gyda phartneriaid CWLWM i hyrwyddo'r cwrs, ac mae'r partneriaid yn cadw'r wybodaeth am ddysgwyr fesul sector.

**Tabl 21.6: Camau - Cynllun Dysgu Cymraeg ar gyfer Addysg Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant**

| Dyddiad | Math o leoliad | Cwrs | Nifer y staff a fynychodd |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2020 | Grwp Chwarae | Sesiwn wythnosol wyneb yn wyneb – Gogledd Ceredigion | 6 |
| | Meithrinfa Ddydd | Sesiwn wythnosol wyneb yn wyneb – Gogledd Ceredigion | 1 |
| | Cylch Meithrin | Sesiwn wythnosol wyneb yn wyneb – Gogledd Ceredigion | 1 |
| | Gwarchodwr plant | Sesiwn wythnosol wyneb yn wyneb – Gogledd Ceredigion | 1 |
| Mehefin 2021 – Mawrth 2022 | Pawb | Ar-lein – Mynediad Lefel 1 | 30 |

## 22 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn 2017 ac un o'r targedau uchelgeisiol yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn ategu'r gwaith o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. O dan y strategaeth hon mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob awdurdod lleol gael Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'n ofynnol cynllunio yn unol â 7 canlyniad statudol i ddatblygu a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn addysg.

*Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Bydd derbyn sylfaen ragorol wrth siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cynyddu ar ddewis a hyder y disgybl i ddilyn trywydd cwbl ddwyieithog drwy weddill ei yrfa addysgol ac wrth wynebu byd gwaith a bywyd cymdeithasol y dyfodol. Bydd hyn nid yn unig yn llesol i'r unigolyn ac i sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion fel iaith gymunedol, bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at nodau llesiant cenedlaethol Cymru ac at nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.*

**Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**.

DRAFT

Tua diwedd y cynllun strategol hwn, mae angen cynyddu canran y plant 3 oed mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dim ond trwy ddatblygu dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg pellach y mae hyn yn bosibl

Noda'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg "Ym mis Medi 2020 nodwyd bod 72.9% o ddisgyblion Blwyddyn 1 ysgolion Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Erbyn 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion, a hynny drwy ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid ar hyd y daith, yw bod y targed o 87% (Ystod Uchaf) a awgrymwyd gan Llywodraeth Cymru yn cael ei ragori ymhellach i 100%."

Yng Ngheredigion mae 73% o'r holl leoliadau Gofal Plant yn Gymraeg neu'n darparu gwasanaeth Cymraeg ac yn gyffredinol dim ond 17% o'r staff oedd yn siarad ychydig neu ddim Cymraeg.

Mae 87.5% o'r ysgolion cynradd yn rhai cyfrwng Cymraeg.
Fel yr eglurwyd yn yr adran Cyflenwi Gofal Plant mae AGC wedi newid y categori Iaith Gymraeg.
Mae 93% o leoliadau Gofal Sesiynol yn rhai cyfrwng Cymraeg – gweler y tabl isod am y ffigurau llawn.

**Tabl 22.1: Prif iaith y lleoliadau:**

| Prif Iaith/ieithoedd y darperir eich gwasanaeth drwyddynt Ieithoedd eraill a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth | Cymraeg / Y ddwy % | Saesneg % |
|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol/Gofal Dydd Llawn | 93 | 7 |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 83 | 17 |
| Gwarchodwr plant | 51 | 49 |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol, Cynllun Chwarae Gwyliau a Crèche | 100 | 0 |
| **CYFANSWM** | **73** | **27** |

**Tabl 22.2: Nifer y plant sy'n derbyn Addysg Feithrin Cyfnod Sylfaen Hydref 2021:**

| Nifer y plant sy'n derbyn Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen Hydref 2021 | Bechgyn | Merched | CYFANSWM nifer y plant |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau a gynhelir (14 ysgol) | **164** | **199** | **363** |
| Lleoliadau nas cynhelir (21 lleoliad Gofal Plant) | **103** | **98** | **202** |
| **CYFANSWM** | | | **565** |

Erbyn hyn Aberystwyth a Cheinewydd yw'r unig fannau lle mae modd creu twf yn nifer y plant 3 oed sy'n derbyn addysg drochi. Trwy ymgynghori a chydweithio gyda phenaethiaid, cyrff llywodraethu a holl randdeiliaid Ysgol Ceinewydd, Ysgol Plascrug, Ysgol Padarn Sant,

DRAFT

Ysgol Llwyn yr Eos ac Ysgol Comins Coch, roedd modd datblygu'r system bresennol er mwyn iddi gynnig dewis ieithyddol ehangach i bob plentyn yn yr ysgolion hyn.

**Y cynnig a aeth allan ar gyfer ymgynghoriad trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg oedd:**

- Creu dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg newydd 3 oed yn Ysgol Comins Coch, Ysgol Padarn Sant ac Ysgol Ceinewydd
- Datblygu'r ddarpariaeth feithrin bresennol yn Ysgol Plascrug a Llwyn yr Eos i fod yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

**Beth allai hyn ei olygu i'r sector nas cynhelir?**

- Bydd pob plentyn sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth meithrin/derbyn ac yna'r cyfnod statudol yn ysgolion Ceredigion o'r sector nas cynhelir a'r sector gofal yn dilyn continwwm o drochi ieithyddol trwy gyfrwng y Gymraeg hyd nes eu bod yn saith oed.
- Gallai unrhyw gynigion ad-drefnu yn y dyfodol sy'n tynnu addysg plant 3 oed i mewn i ysgolion gael effaith ar ddarparwyr gofal plant. Bydd angen ystyried camau gweithredu priodol i liniaru unrhyw ostyngiad mewn lleoedd gofal plant a fydd yn golygu nad ydym yn sicrhau gofal plant digonol fel sy'n ddyletswydd statudol.

Ar ddiwedd y cynllun 10 mlynedd, yn ddieithriad bydd holl blant Ceredigion yn cael mynediad llawn at addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar (3 oed) i 7 oed, gan adeiladu ar y dewis hwnnw wrth iddynt symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu haddysg a bywyd cymdeithasol yn 11 oed a thu hwnt.

Mae Mudiad Meithrin yn credu bod "Adeiladu capasiti Gofal Plant cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i gael niferoedd uwch o siaradwyr Cymraeg a chyflawni'r targedau yn y strategaeth Cymraeg 2050. Mae Gofal Plant cyfrwng Cymraeg yn darparu pont i addysg cyfrwng Cymraeg, ac ar hyn o bryd mae bron i 90% sy'n mynd i Gylch yn symud ymlaen i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y "Gymraeg".

Roedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd wedi nodi'r targedau canlynol sy'n ymwneud â Gofal Plant. Fodd bynnag, oherwydd amseriad y Cynllun a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, mae'r casgliadau hyn yn seiliedig yn bennaf ar Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017-2022.

**Rhai camau gweithredu perthnasol eraill a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022/32**

- Llunio ymgyrch flynyddol er mwyn annog mwy o warchodwyr Cymraeg eu hiaith (o fis Medi 2022 ymlaen)
- Ehangu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob darpariaeth gofal plant yn ardal Aberystwyth (gan gynnwys gwarchodwyr, Meithrinfeydd Dydd, Gofal Sesiynol a Chlybiau ar ôl Ysgol/Gwyliau (gofal cofleidiol)
- Sicrhau partneriaeth agos gydag ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach Ceredigion a chynlluniau/prentisiaethau Mudiad Meithrin er mwyn cael gweithlu digonol cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant (mis Medi 2022 ymlaen).
- Uned Gofal Plant – trwy'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, nodi a chynllunio mesurau i gryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i sicrhau llwybr di-dor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn sicrhau bod Gwasanaethau


DRAFT

Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg gartref trwy wefan DEWIS Cymru a FIS

Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r camau hyn ychydig wrth symud ymlaen o ganlyniad i gasgliadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn.

Ceir dadansoddiad o ddarparwyr darpariaeth Gymraeg yn Adran 9.1

**Ffigur 22.1: Iaith Lleoliad – canran Cymraeg / Saesneg a Saesneg**




**Tabl 22.3: Dadansoddiad o leoliadau yn ôl prif iaith**

**Cyfanswm y lleoliadau nas cynhelir sesiynol:**

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 83% |
| Cymraeg a Saesneg | 10% |
| Saesneg | 7% |
| Arall | 0% |

**Lleoliadau nad ydynt yn darparu addysg:**

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 86% |
| Cymraeg a Saesneg | 7% |
| Saesneg | 7% |

**Gwarchodwyr plant:**

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 16% |
| Cymraeg a Saesneg | 36% |
| Saesneg | 49% |
| Arall | 0% |

| | |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU: Cefnogi'r sector gyda hyfforddiant iaith Gymraeg. Mae'r anawsterau o ran recriwtio gweithlu Gofal Plant a chwarae cymwys yn her i'r sector, a rhaid inni sicrhau bod lefelau'r Gymraeg yn cael eu cefnogi.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod pob lleoliad yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg Arolygiaeth Gofal Cymru.** |
| **23** | **PANDEMIG COVID-19** |
| | Adroddir ar yr effaith y mae Covid wedi'i chael ar y sector Gofal Plant trwy gydol yr adroddiad hwn. Roedd Gofal Plant wedi parhau'n wasanaeth hollbwysig trwy gydol y pandemig gan angen Gofal Plant ar deuluoedd o hyd i weithio.<br><br>Caeodd y mwyafrif o ddarparwyr yng Ngheredigion eu gwasanaethau yn y cyfnod clo cyntaf. Nid oedd y negeseuon i bawb aros gartref yn ei gwneud yn gynaliadwy i ddarparwyr aros ar agor. Gorfodwyd lleoliadau sy'n gweithredu o fewn ysgol i gau. Fodd bynnag, nid oedd gweithio o gartref yn ddewis i bob teulu ac roedd angen Gofal Plant ar rai i'w galluogi i weithio. Roeddem yn ffodus bod 11 o warchodwyr plant wedi aros ar agor trwy'r cyfnod hwn ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth i deuluoedd gweithwyr allweddol.<br><br>Roedd holl leoliadau Mudiad Meithrin wedi cau, ond roedd Dechrau'n Deg wedi comisiynu Mudiad Meithrin i redeg tri lleoliad Gofal Plant yng Ngheredigion. Oherwydd y diffyg Gofal Plant sydd ar gael, roedd yr Uned Gofal Plant wedi gweithio gyda Dechrau'n Deg a Mudiad Meithrin i ailagor dau o'r lleoliadau Dechrau'n Deg fel canolfannau Gofal Plant Brys i blant o dan 4 oed a ariannwyd gan Gynllun Cymorth Gofal Plant trwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) LIC. Bu'n rhaid i ni ddod o hyd i staff gwahanol i weithio yn y canolfannau gan fod y staff rheolaidd yn gyndyn neu'n methu gweithio yng nghamau cynnar y pandemig. Trefnwyd rotâu staffio i sicrhau bod digon o staff ar gael i fodloni'r cymarebau plant yn y canolfannau. O fewn ychydig wythnosau dychwelodd staff rheolaidd y lleoliadau i'r gwaith.<br><br>Mae darparwyr Gofal Plant wedi cael gwybod am yr holl newidiadau i ganllawiau a Chynllun Cadw Swyddi trwy gyfnod y Coronafeirws ac ati trwy'r pandemig ac mae amrywiaeth o ffrydiau cymorth ariannol wedi bod ar gael drwy gynlluniau'r Llywodraeth a thrwy gyllid LIC trwy'r ALI.<br><br>Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi roedd yn galonogol gweld y sector Gofal Plant yn dechrau ailagor ac yn dechrau gweithio tuag at y 'normal newydd'. Nid yw'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn hawdd iddynt ond mae'n bwysig bod y sector yn cael y gwerthfawrogiad y mae'n ei haeddu am gadw pethau i fynd. |

**Tabl 23.1: Nifer y lleoliadau sydd wedi cau a nodwyd yn y SASS.**

| Wedi cau dros dro | Oedd eich gwasanaeth wedi cau dros dro ar unrhyw adeg oherwydd COVID-19? | Sawl gwaith oedd eich gwasanaeth wedi cau dros dro hyd at ddyddiad SASS |
|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | 8 | 3 wedi cau unwaith; 3 wedi cau dwywaith; 2 wedi cau 3 tair gwaith |
| Gofal Dydd Llawn Sesiynol | 20 | 8 wedi cau unwaith; 8 wedi cau dwywaith; 4 wedi cau tair gwaith |
| Meithrinfa Gofal Dydd Llawn | 6 | 1 Gofal Dydd wedi cau tair gwaith; 4 Gofal Dydd wedi cau unwaith; 1 anhysbys |
| Gwarchodwr plant | 24 | |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 6 | |
| Crèche a Chynllun Chwarae Gwyliau | 1 | |
| Crèche | - | |
| **CYFANSWM** | **65** | |

**CAM GWEITHREDU: Parhau i fonitro effaith COVID-19 ar blant cyn oed ysgol, plant a staff mewn lleoliadau Gofal Plant**

Dylid ystyried Astudiaeth Delphi ac effaith COVID-19 ar blant o dan 5 oed | LLYW. CYMRU a'r effaith ar Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar https://www.childreninwales.org.uk/news/ECECKeyfindings/

Roedd rhanddeiliaid wedi gwneud y sylwadau canlynol mewn perthynas ag effaith Covid-19 ar ddarpariaeth Gofal Plant:

*Mae'n ymddangos bod darparwyr Gofal Plant cyn ysgol a gwarchodwyr plant yn ymdopi â'r pandemig yn weddol dda ond mae'r sector y tu allan i oriau ysgol/cynlluniau chwarae gwyliau ar gyfer plant 4-11 oed, sydd bob amser wedi cael pethau'n anodd, wedi cael ei daro'n wael iawn. Rwy'n meddwl bod pobl bellach yn gwneud eu trefniadau eu hunain mwy nag erioed o'r blaen ac mae plant yn colli allan ar y cyfle i gymdeithasu a chwarae ar ôl ysgol gyda'u cyfoedion.*

*Ydy "Nid yw'r pwyllgor am godi ffioedd gan ein bod yn elusen a dyw hi ddim yn deg ar y rhieni sy'n defnyddio'r clwb, ond mae'n anodd iddynt dalu costau oherwydd y gostyngiad yn nifer y plant sy'n mynychu."*

DRAFT

*Ers y pandemig, nid yw unrhyw un yn gwneud cais am swyddi yn y sector, swyddi rhan-amser neu amser llawn, yn ystod y tymor ysgol neu drwy gydol y flwyddyn. Nid yw'r sector yn denu gweithwyr newydd ond mae'n colli llawer i swyddi sy'n cynnig amodau gwaith gwell e.e. caniatáu gweithio o gartref, gweithio oriau hyblyg, talu cyflogau gwell neu allu mynd ar wyliau yn ystod y tymor pan fydd yn rhatach.*

## 24 DADANSODDIAD O'R BYLCHAU A MEYSYDD I'W GWELLA

**Ar ôl dadansoddi'r cyflenwad o ddarpariaeth Gofal Plant yng Ngheredigion a'i gymharu â'r galw am Ofal Plant gallwn weld nad oes digon o leoedd Gofal Plant ar gael i ateb y galw gan rieni**. Mae ardaloedd lle mae teuluoedd yn dweud eu bod nhw'n cael problem dod o hyd i rai mathau o Ofal Plant, yn enwedig darpariaeth ar ôl ysgol, darpariaeth gwyliau a darpariaeth gofal dydd llawn. Ers yr asesiad diwethaf 2017-2022 mae 375 o leoedd Gofal Plant wedi cael eu colli ar draws pob math o Ofal Plant. Mae Gofal Plant hygyrch o safon uchel a fforddiadwy yn hanfodol i deuluoedd gan ei fod yn galluogi rhieni i gael mynediad at addysg / hyfforddiant neu gyfleoedd cyflogaeth sy'n cyfrannu at economi Ceredigion gan fod rhieni yn gallu bod yn economaidd weithgar.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth o bob oed, a fesul 1000 o'r boblogaeth 0-12 oed fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Mae'r tabl hwn yn dangos mai ardal Aberaeron a Llanrhystud a Gogledd Aberystwyth sydd â'r ganran uchaf o blant 0-12 oed yn ôl Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020. Mae 20% o'r holl blant yn mynychu lleoliad Gofal Plant cofrestredig.

**Tabl 24.1: Poblogaeth a lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth fesul MSOA:**


| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | Pob Oed | Nifer y lleoedd cofrestredig | Nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth | % o'r boblogaeth | Poblogaeth 0-12 oed | Nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed | % o'r boblogaeth 0-12 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 7,466 | 199 | 26.7 | 2.7 | 973 | 204.5 | 20.5 |
| Aberystwyth – Gogledd | 9,001 | 120 | 13.3 | 1.3 | 479 | 250.5 | 25.1 |
| Aberystwyth – De | 6,629 | 215 | 32.4 | 3.2 | 932 | 230.7 | 23.1 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 7,113 | 198 | 27.8 | 2.8 | 776 | 255.2 | 25.5 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 6,579 | 117 | 17.8 | 1.8 | 740 | 158.1 | 15.8 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 8,191 | 180 | 22 | 2.2 | 1170 | 153.8 | 15.4 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 8,873 | 201 | 22.7 | 2.3 | 1174 | 171.2 | 17.1 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 7,420 | 157 | 21.2 | 2.1 | 887 | 177 | 17.7 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 11,623 | 183 | 15.7 | 1.6 | 1481 | 123.6 | 12.4 |
| *Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.* | **72,895** | **1570** | **21.5** | **2.2** | **8612** | **182.3** | **18.2** |

**Tabl 24.2: Lleoedd fesul 1000 o boblogaethau 0-12 oed – yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol:**

| **Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** | Nifer y lleoedd cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth 0-12 oed |
|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | 204.5 |
| Aberystwyth – Gogledd | 250.5 |
| Aberystwyth – De | 230.7 |
| Aberaeron a Llanrhystud | 255.2 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 158.1 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 153.8 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 171.2 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 177 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 123.6 |
| *Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.* | **182.3** |

**Ffigur 24.1: Lleoedd fesul 1000 o boblogaethau 0-12 oed – yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol:**





DRAFT

**Tabl 24.3: Lleoedd fesul % o'r boblogaeth 0-12 – fesul AGEHG**:


| Enw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | % o'r boblogaeth 0-12 |
|---|---|
| Aberaeron a Llanrhystud | 25.5 |
| Aberystwyth – Gogledd | 25.1 |
| Aberystwyth – De | 23.1 |
| Y Borth a Bont-goch | 20.5 |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | 17.7 |
| Aberteifi ac Aber-porth | 17.1 |
| Ceinewydd a Phenbryn | 15.8 |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | 15.4 |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | 12.4 |
| *Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS, 2020.* | 18.2 |

**Ffigur 24.2: Lleoedd fesul % o'r boblogaeth 0-12 – fesul AGEHG:**




Mae presenoldeb mewn gofal plant ar ei uchaf ar gyfer plant 2-3 oed - tra bod ymatebion yr arolwg rhieni gan rieni plant 5-8 oed pryderus.

**Ffigur 24.3:**





Yn Mehefin 2021 - roedd 22.44% o'r holl blant 0-12 oed yn mynychu gofal plant.

Mae cyfran y lleoedd sydd ar gael i blant 0-12 oed wedi gostwng o 22% yn 2017 i 19% yn 2020, ac mae'n parhau i ostwng.

**Tabl 24.4:**

| Oedran | % y plant sy'n defnyddio Gofal Plant canol 2021 |
|---|---|
| **0** | **9.62** |
| **1** | **36.73** |
| **2** | **86.46** |
| **3** | **76.9** |
| **4** | **23.31** |
| **5 i 7** | **9.63** |
| **8 i 11** | **7.91** |
| **CYFANSWM** | **22.44** |

**Ffigwr 24.4 - % o blant oed 0-12 a % lleoedd cofrestredig fesul AGEHG**




- Mae'r asesiad wedi nodi y bydd galw am fwy o ddarpariaeth Gofal Plant ym mhob un o'r 9 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.

- Awgrymodd yr arolwg Rhieni/Gofalwyr fod y Rheidol, Ystwyth a Charon yn ardal lle mae angen mwy o ddarpariaeth. Fodd bynnag, ardal Aberaeron a Llanrhystud sydd â'r ganran uchaf o blant 0-12 oed, ac mae darparwyr Gofal Plant yn yr ardal hon wedi nodi'r angen am fwy o ddarpariaeth yn yr ardal hon.

- Rhaid bod yn ofalus yma gan mai Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol Rheidol, Ystwyth a Charon yw'r ardal fwyaf yn y sir o bell ffordd, a rhaid ystyried amser teithio hefyd. Felly, bydd angen dadansoddiad mwy lleol yn yr ardaloedd hyn i nodi lle yn union y mae angen y ddarpariaeth.

- Clwb Brecwast a Darpariaeth ar Ôl Ysgol yw'r gofynion gofal y bydd y galw mwyaf amdanynt yn y ddwy flynedd nesaf, ac mae'n dangos mai'r gofal 'cofleidiol' mewn ysgolion yw'r prif bryder i rieni a gofalwyr.

| | |
|---|---|
| | • Rydym yn dal i weld dibyniaeth uchel ar ddefnyddio teulu a ffrindiau i ddarparu Gofal Plant ar draws y sir. Y rheswm am hyn yw fforddiadwyedd – mae cyflogau'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Ngheredigion sy'n effeithio ar y gallu i fforddio Gofal Plant neu argaeledd Gofal Plant. Os nad yw'r ddarpariaeth ar gael neu os nad yw lleoedd ar gael, mae teuluoedd yn dychwelyd i ddibynnu ar deulu a ffrindiau.<br><br>• Mae darparwyr preifat (Meithrinfeydd Dydd a Gwarchodwyr Plant) yn ei chael hi'n anodd i dalu costau, ond yn gwybod os ydynt yn cynyddu eu ffioedd dyddiol ni fydd rhieni'n gallu fforddio rhoi eu plant mewn gofal dydd. Mae angen gofal rhan-amser ar lawer o rieni sy'n anodd i leoliadau ei lenwi e.e. mwy o leoedd gwag yn y prynhawn yn y lleoliadau. Mae angen adolygu cyllid ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac Addysg Gynnar yn unol â gorbenion uwch.<br><br>• Mae gweithwyr proffesiynol y sector Gofal Plant wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r plant yn eu gofal. Maent yn weithlu ymroddedig sy'n ymdrechu'n barhaus i wella eu sgiliau eu hunain, gyda'r mwyafrif yn cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol yn unig. Mae'r pandemig wedi dangos bod darparwyr yn ddyfeisgar, yn addasu i newid ac yn gweithio yn y 'normal newydd' bellach. Fodd bynnag, mae gweithwyr proffesiynol cymwysedig, sy'n wynebu nodau newydd (gofynion o ran cymwysterau cynyddol ac ati) yn chwilio am gyflogaeth mewn sectorau eraill am dâl ac amodau gwell.<br><br>• Mae'r sector yn wynebu heriau recriwtio a chadw. Parhaodd y sector ar agor i alluogi gweithwyr allweddol i weithio yn ystod y pandemig – ond ni chawsant eu cydnabod ar yr un lefel â'r sector addysg na'u gwobrwyo fel y sector iechyd a gofal. Felly, mae angen cydraddoldeb y gweithlu Gofal Plant yn genedlaethol.<br><br>• Mae darparwyr yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff sydd â'r cymwysterau priodol ac sy'n gallu sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gallu gweithio mewn lleoliad Gofal Plant. Mae'r disgwyliadau ar staff yn debyg i'r hyn sy'n ofynnol gan ysgolion ond nid yw'r gyfradd tâl, statws a chydnabyddiaeth yn gyfartal. Mae lefel y swyddi gwag a heriau recriwtio yn ddangosyddion o iechyd y sector. Dylai staff mewn lleoliadau gofal sesiynol a dydd llawn sy'n darparu addysg gynnar gael eu gwobrwyo a'u cydnabod yn yr un modd â'r rhai mewn lleoliadau ysgol. Yn ogystal â'r un gofynion ac arolygiadau Estyn maen nhw hefyd yn cael arolygiadau AGC dirybudd, rhywbeth nad oes rhaid i ysgolion eu hystyried.<br><br>• Gall unrhyw gynigion ad-drefnu yn y dyfodol sy'n tynnu addysg plant 3 oed i mewn i ysgolion gael effaith ar ddarparwyr Gofal Plant. Bydd angen ystyried camau gweithredu priodol i rwystro unrhyw ostyngiad yn y lleoedd Gofal Plant a fydd yn golygu nad ydym yn sicrhau Gofal Plant digonol yn unol â'n dyletswydd statudol.<br><br>• Mae dyletswydd statudol ar LIC ac ALlau i sicrhau digon o Ofal Plant i alluogi rhieni a gofalwyr i weithio neu fynychu hyfforddiant, felly mae angen ystyried ffordd newydd o weithio. Mae angen ailwampio'r model presennol i sicrhau nad yw mwy o weithwyr proffesiynol cymwysedig yn cael eu colli o'r gweithlu. Mae'r sector Gofal Plant yn gallu, ac wedi addasu i newid, fel y profwyd yn y blynyddoedd |

DRAFT

diwethaf. Nid yw pwyllgorau sy'n cael eu rhedeg yn wirfoddol yn fodel cynaliadwy os yw Gofal Plant i gael ei redeg fel model busnes. Mae Pwyllgorau gwirfoddolwyr yn wynebu heriau a disgwyliadau cynyddol, ond mewn gwirionedd mae eu llwyth gwaith wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

- Mae LIC yn gwneud newidiadau i'r cwricwlwm sy'n cael eu dylanwadu gan fodelau o gwricwla'r blynyddoedd cynnar effeithiol o wledydd eraill. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd bod modelau o'r fath yn cael eu mabwysiadu o ran cyllid, strwythur rheoli a modelau pwyllgor ar gyfer darparwyr Gofal Plant y blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

  Mae llawer o ddarparwyr Gofal Plant wedi gweithredu o dan y model Pwyllgor Gwirfoddol ers degawdau. Fodd bynnag, mae'r galwadau a ddaeth yn sgil rheoliadau cofrestru o dan AGC yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf a gofynion Estyn i'r rhai sy'n darparu addysg i blant 3 oed, a rheoli busnes wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod hwn, ac mae angen ystyried a yw'r model yn addas at y diben oherwydd busnesau /mentrau cymdeithasol ydynt bellach.

**Tabl 24.4: Model ysgol: Model Gofal Sesiynol:**

| **Model Ysgol** | **Model Gofal Sesiynol Cyfredol** |
|---|---|
| • Awdurdod Lleol (ALI) yn talu ac yn rheoli staff<br>• Athrawon ymgynghorol yr ALI yn cefnogi athrawon y blynyddoedd cynnar<br>• ALI yn talu gorbenion eiddo<br>• Pwyllgor gwirfoddol (Cymdeithas Rhieni ac Athrawon) yn codi arian ar gyfer incwm ychwanegol i dalu am offer chwarae ychwanegol ac ati. | • Pwyllgor gwirfoddol yn talu ac yn rheoli staff, ond mae'n rhaid i staff drefnu digwyddiadau codi arian i dalu costau yn aml.<br>• Cefnogaeth gan yr Uned Gofal Plant, cyrff ambarél ac Athrawon Ymgynghorol ALI<br>• Grantiau'n cael eu cynnig i gefnogi cynaliadwyedd a chostau gorbenion eiddo<br>• Pwyllgorau gwirfoddol yn gyfrifol am yr holl waith rheoli, gweinyddu a chodi arian |

- Mae clybiau gweithgareddau anghofrestredig i blant yn symud Gofal Plant cofrestredig allan o'r farchnad. Mae angen i AGC ailedrych ar y rhestr eithriadau fel rhan o'r adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2022.

- Bydd angen i Gynllun Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ystyried mentrau LIC a fydd yn effeithio ar ddarparwyr Gofal Plant sydd eto i'w cadarnhau e.e. Gofal Plant wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 oed a Diwygio'r Diwrnod Ysgol, a sicrhau bod darparwyr Gofal Plant yn ymgysylltu â'r broses ymgynghori.

DRAFT

**Materion cenedlaethol – y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol**

- Mae angen Gofal Plant Di-dreth / cymorth ariannol gwell ar rieni i'w ddefnyddio i dalu am Ofal Plant sy'n cael ei reoli gan CThEM ac nad yw o dan reolaeth LlC. Mae angen mwy yn genedlaethol i hyrwyddo'r holl gymorth ariannol i rieni. Mae'r nifer sy'n hawlio'r cynllun Credyd Treth Plant wedi gostwng yng Ngheredigion yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae angen ymchwilio i hyn.

- Nid yw staff Gofal Plant yn gallu gweithio mwy nag 16 awr neu maent mewn perygl o golli eu Credyd Treth Gwaith eu hunain a budd-daliadau cysylltiedig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ac nid yw gweithio mwy o oriau yn eu gwneud yn 'well eu byd'. Mae hon yn her i gyflogwyr y sector. Nid yw'r system budd-daliadau gyfan yn caniatáu'r hyblygrwydd i rywun gweithio mwy.

Fel y nodir yn yr Asesiad o Anghenion Llesiant Lleol yn Adran 5, rhaid ystyried y ffactorau economaidd-gymdeithasol ynghyd â'r bylchau a nodir isod.

**Darpariaeth Gofal Plant i blant rhieni sy'n gweithio oriau anarferol**

**Sylwadau rhanddeiliaid**

- *"Mae angen Gofal Plant y tu allan i oriau gwaith arferol ond efallai bod ddim digon o angen i wneud y math yma o ddarpariaeth yn ariannol gynaliadwy. Mae angen dirfawr am fwy o Ofal Plant yn ystod y gwyliau ysgol, yn enwedig yn Aberystwyth ac Aberteifi sydd wedi colli clwb ar ôl ysgol yn ddiweddar a darpariaeth cynllun chwarae clwb yn ystod y gwyliau. Mae angen mwy o Ofal Plant i blant ag anableddau hefyd oherwydd mae teuluoedd gyda phlant anabl yn teimlo na allan nhw ddefnyddio darparwyr Gofal Plant prif ffrwd."*

- Galw wedi'i nodi i'r darparwr gynnig oriau gwasanaeth hwy e.e. o 8am – 6pm.

**Darpariaeth Gofal Plant cyfrwng Cymraeg**

- Mae lefel uchel o Ofal Plant cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws pob math o Ofal Plant. Serch hynny, mae galw am fwy o Warchodwyr Plant Cymraeg eu hiaith ar draws y sir.

**Darpariaeth Gofal Plant ar gyfer categorïau iaith gwahanol**

O ran iaith, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn uchel. Fodd bynnag, rhaid i ddarpariaeth Gofal Plant fod ar gael i bob teulu. Mae Aberystwyth yn arbennig yn croesawu nifer fawr o deuluoedd am gyfnodau byr iawn o fewn poblogaeth gweithwyr a myfyrwyr y Brifysgol a

DRAFT

gweithwyr yr Ysbyty er enghraifft. Mae angen darpariaeth ar gyfer teuluoedd sydd heb y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf gan gynnwys y teuluoedd o ffoaduriaid y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi'u croesawu yn y blynyddoedd diwethaf o dan y cynllun ailsefydlu.

**Sylwadau'r Arolwg Rhieni:**
*"Rhaid cael o leiaf un lleoliad dwyieithog oherwydd nifer o blant tramor sy'n dod i Aberystwyth ac mae eu rhieni'n dechrau gweithio yma."*

*"Ie, mae'n rhaid i leoliad dwyieithog neu Saesneg fod ar gael i'r plant hyn a rhaid i ddosbarthiadau Saesneg/Cymraeg fod ar gael i'r rhieni."*

**Mathau o Ofal Plant sydd ar gael**

- *"Mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda lle mae ar gael, ond yn gyffredinol, does dim digon! Mae teuluoedd sy'n gweithio yn cael eu heffeithio'n arbennig oherwydd does dim clybiau ar ôl ysgol, dim darpariaeth yn ystod y gwyliau a niferoedd cyfyngedig o warchodwyr plant. Mae hefyd yn rhy ddrud i deuluoedd sy'n gweithio ar incwm isel orfod talu am le gyda gwarchodwr plant gan y byddai'n rhaid iddyn nhw dalu am hanner diwrnod gan amlaf, ac mae hynny'n dibynnu ar ddod o hyd i warchodwr plant sydd â lle ar gael! Hefyd, ychydig iawn o feithrinfeydd sydd yn y Sir, a does dim mewn rhai ardaloedd."*

- *"Mae diffyg darpariaeth Gofal Plant i'w weld yn Ne Ceredigion ac ardaloedd gweledig Ceredigion, yn enwedig yn ardal Llanarth i lawr i ardal Aberteifi. Mae darparwyr Gofal Plant neu warchodwyr plant sy'n casglu plant o'r ysgol hefyd yn broblem."*

- Ceisiodd un darpar ddarparwr preifat fynd i'r afael â'r bwlch yn 2021 ond oherwydd bod caniatâd cynllunio ar lan afon Teifi wedi'i atal dros dro mae'r cais hwn wedi'i ohirio. Os na fydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn bo hir gallai'r darpar berchennog busnes hwn benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r datblygiad.

**CAM GWEITHREDU: Gofyn i'r Gwasanaethau Economi ac Adfywio e.e. gwasanaethau cynllunio ac eiddo ystyried ceisiadau lleoliadau Gofal Plant fel mater o frys.**

- *"Mae PACEY Cymru yn nodi bod gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant ledled Cymru, sy'n fater o bryder, ac wedi bod yn adrodd ar hyn am y pum mlynedd diwethaf. Yng Ngheredigion bu pedwar achos o ddadgofrestru yn y chwe mis rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021. Rydym hefyd yn bryderus am y nifer isel o gofrestriadau newydd ar draws Cymru; yng Ngheredigion bu un cofrestriad newydd yn ystod yr un cyfnod".*

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae'r sector y tu allan i oriau yn fregus iawn. Nid yw'r model o glybiau sy'n cael eu rhedeg gan bwyllgor yn gynaliadwy. Mae tri chlwb wedi dadgofrestru yn ystod y 18 mis diwethaf ac mae clwb arall ar gau ar hyn o bryd ac yn chwilio am rywun i redeg y clwb. Mae gwaith ar y gweill i geisio ailagor dau o'r clybiau sydd wedi cau trwy fodel newydd.<br><br>• Angen cyllid ychwanegol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol e.e. nid yw oriau Cynllun Cyfeirio yn ddigon i gefnogi pob plentyn. |
| | **Oedran y plant y mae Gofal Plant ar gael iddynt**<br><br>• *"Gall mynychu Gofal Plant o safon uchel wella canlyniadau i blant. Mae ein Hadroddiad "State of the Sector" gyda 2050 o ymatebion gan rieni ar draws Cymru hefyd yn dweud wrthym fod plant yn dysgu sgiliau newydd (59%), yn meddu ar sgiliau cymdeithasol gwell (78%), yn cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd, (61%) a bod plant yn hapusach (43%)." (CPCKC)*<br><br>• "Mae angen Gofal Plant cofrestredig o hyd ar gyfer plant oedran ysgol. Rydym yn amcangyfrif er enghraifft bod 23 o Ysgolion Cynradd cyfrwng Cymraeg sydd yn parhau heb fynediad at Ofal y Tu Allan i Oriau Ysgol. I gefnogi nod Cymraeg 2050 LIC mae hwn yn faes sydd angen twf. Gall cael Gofal Plant cofrestredig ar safle'r ysgol fod yn ffactor pan fydd rhieni yn dewis ysgol – mae angen i ddarpariaeth gofleidiol fod ar gael ym mhob ysgol fro." |
| | **Fforddiadwyedd Gofal Plant**<br><br>• *O ran fforddiadwyedd nid oes cysondeb o ran ffioedd, mae rhai lleoliadau'n codi tâl "ychwanegol" tra bo eraill yn cadw prisiau'n isel. Mae'r taliadau atodol yn annheg ar rieni sydd ar gyflog isel / di-dâl felly dyw plant ddim yn mynychu'n llawn amser / yn rheolaidd ac mae hyn yn effeithio ar eu datblygiad.*<br><br>• *Angen sicrhau bod lleoedd Gofal Plant yn cael eu hariannu ar lefel sy'n sicrhau cynaladwyedd.* |
| | **Amseroedd y mae Gofal Plant ar gael**<br><br>• Galw wedi'i nodi i'r darparwr gynnig oriau hwy o wasanaeth e.e. o 8am – 6pm. |
| | **Lleoliad Gofal Plant** |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • *Mae lleoliad yn ffactor pwysig (gweler y bennod Trafnidiaeth) oherwydd natur wledig y sir a diffyg rhai mathau o Ofal Plant mewn rhai ardaloedd ar gyfer plant o dan 2 oed, yn enwedig lle mae rhestrau aros. Rydym yn ymwybodol o rieni sy'n defnyddio Gofal Plant sydd angen teithio i'r cyfeiriad arall i'r gwaith, neu wneud taith hir dwyffordd i Feithrinfa Ddydd ac yna yn ôl i'r lleoliad gwaith. Mae llawer o ddarpariaeth ar gyfer plant 3-4 oed yn ystod y tymor ysgol, ond mae bylchau ar gyfer darpariaeth gwyliau ym mhob grŵp oedran.*<br><br>• *Yn Llanbedr Pont Steffan does dim darpariaeth cyn ysgol wedi'i hariannu. Mae angen datblygu darpariaeth i baratoi ar gyfer cyllid 2 oed. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus i beidio ag effeithio'n negyddol ar gynaliadwyedd y ddwy Feithrinfa Ddydd a Gwarchodwyr Plant yn yr ardal honno drwy ddatblygu system lle mae gwasanaeth wedi'i ariannu ar gael yn y lleoliadau Meithrinfa Ddydd ar gyfer rhieni sy'n gweithio, a darpariaeth arall i deuluoedd sy'n dymuno defnyddio gofal sesiynol yn unig.*<br><br>• *"Mae hefyd yn fantais pan fydd Gofal Plant ar gael yn yr ardaloedd mwy gwledig oherwydd gall fod yn fwy cyfleus i rieni a gall helpu i leihau'r gost o fynd â phlant i'w tref agosaf."*<br><br>• *"Mae diffyg darpariaeth Gofal Plant yn Ne Ceredigion ac ardaloedd gwledig Ceredigion, yn enwedig yn ardal Llanarth i lawr i ardal Aberteifi. Mae darparwyr Gofal Plant neu warchodwyr plant sy'n casglu plant o'r ysgol hefyd yn broblem."* |
| **25** | **CYNLLUN GWEITHREDU** |
| | Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu yn dilyn unrhyw argymhellion a'i gymeradwyo gan y *Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu* cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Bydd aelodau Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn datblygu camau gweithredu yn seiliedig ar y casgliadau a'r themâu a nodwyd, gyda chyfrifoldebau, blaenoriaethau ac amserlenni wedi'u nodi. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **ATODIADAU** |
| **ATODIAD 1** | **DARPARIAETH DECHRAU'N DEG** |

**Ymatebion i'r Arolwg Rhieni (Hydref 2021):**


O 633 o ymatebion – roedd 211 wedi nodi plentyn 2-3 oed ac wedi ymateb i'r cwestiwn ynghylch Dechrau'n Deg


**C9. A yw eich plentyn/plant 2 neu 3 oed yn manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg?**

**Q9. Is your age 2 or 3 year old child(ren) accessing Flying Start Childcare?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydy/Ydyn | 23 | Yes |
| Nac ydy/Nac ydyn | 158 | No |
| Ddim yn siŵr | 18 | Not sure |
| Amherthnasol | 12 | Not Applicable |
| CYFANSWM | 211 | TOTAL |

DRAFT




**Q10. Os ydych wedi dewis peidio â manteisio, pam? 46 ymateb**

**Q.10 If choose not to, why? 46 responses**

| Methu cael mynediad/ddim yn yr ardal/ddim yn gymwys | Ddim yn gwybod amdano | Mynd i'w ddefnyddio | Wedi ei ddefnyddio ond yn anhapus | Arall |
|---|---|---|---|---|
| 22 | 16 | 3 | 1 | 3 |

| Methu cael mynediad/ddim yn yr ardal/ddim yn gymwys | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol |
|---|---|
| Ddim yn gymwys | Aberaeron a Llanrhystud |
| Ddim yn byw yn ardal Dechrau'n Deg | Aberaeron a Llanrhystud |

| | |
|---|---|
| Ddim yn gymwys gan fod fy mhartner yn ennill gormod / ddim yn y cod post cywir | Aberystwyth – Gogledd |
| Amherthnasol | Aberystwyth – Gogledd |
| Dim yn gymwys. | Aberystwyth – Gogledd |
| Ddim ar gael i mi | Aberystwyth – De |
| Ddim yn y dalgylch | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Ddim ar gael i ni | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Ddim yn byw yn yr ardal | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Ddim o fewn ardal Dechrau'n Deg | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Dim byd addas yn lleol | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Ddim yn byw yn ardal Dechrau'n Deg | Y Borth a Bont-goch |
| Ddim yn yr ardal | Y Borth a Bont-goch |
| Ddim yn gymwys | Y Borth a Bont-goch |
| Ddim yn yr ardal | Y Borth a Bont-goch |
| Ddim yn gymwys | Y Borth a Bont-goch |
| Heb gael yr opsiwn byddwn i wedi ei ddefnyddio pe bai'n deg i bob teulu, nid oherwydd cod post yn unig, dylid newid hyn | Aberteifi ac Aber-porth |
| Ddim yn y dalgylch | Aberteifi ac Aber-porth |
| Ddim yn y cod post Dechrau'n Deg | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Ddim mewn ardal Dechrau'n Deg. | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Ddim ar gael yn fy ardal i ond byddwn yn ei ddefnyddio pe byddai | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Ddim ar gael yn fy ardal i | Rheidol, Ystwyth a Charon |

| **Ddim yn gwybod amdano** | **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** |
|---|---|
| Heb glywed amdano. | Aberaeron a Llanrhystud |
| Ddim yn siŵr beth yw e, ydyn ni'n gymwys neu ydym ni ei angen e. Ddim yn gymwys ar gyfer oriau am ddim ar hyn o bryd | Aberystwyth – De |
| Heb glywed amdano | Aberystwyth – De |
| Ddim yn ymwybodol ohono | Aberystwyth – De |

| | |
|---|---|
| Ddim yn siŵr beth yw Gofal Plant Dechrau'n Deg | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Ddim yn gwybod amdano | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Ddim yn siŵr beth mae Dechrau'n Deg yn ei olygu.<br>Mae'n mynd i gylch chwarae ddwywaith yr wythnos ac rwy'n talu amdano | Y Borth a Bont-goch |
| Beth yw hwn? | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad |
| Beth yw Dechrau'n Deg? Erioed wedi clywed amdano | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad |
| Dydw i ddim yn siŵr beth mae hyn yn ei olygu? Mae fy mhlentyn dwy oed yn dechrau yn y meithrin ym mis Ionawr felly dwi'n talu amdani! | Ceinewydd a Phenbryn |
| Beth yw hwnna? Rydw i a fy mhartner yn gweithio felly rwy'n cymryd nad ydym yn gymwys i gael cymorth | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Heb glywed amdano | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Heb gael gwybod am hyn | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Ddim yn gwybod dim byd amdano | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Ddim yn gwybod beth yw hwn | Rheidol, Ystwyth a Charon |
| Ddim yn gwybod am hyn a ddim yn meddwl y galla i ei gael yn fy ardal i | Rheidol, Ystwyth a Charon |

| **mynd i'w ddefnyddio** | **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** |
|---|---|
| Byddan nhw unwaith y byddan nhw'n troi'n 3 | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Ddim eto | Y Borth a Bont-goch |
| Bydd pan fydd hi'n 3 oed | Aberteifi ac Aber-porth |

| **Wedi ei ddefnyddio ond yn anhapus** | **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** |
|---|---|
| Rydym wedi defnyddio Gofal Plant Dechrau'n Deg ond oherwydd ei fod yn myn yn dost yn y feithrinfa mae'n tarfu'n fawr ar fy ngwaith ac yn ddrud oherwydd rhaid talu am ddiwrnodau llawn. Roedd fy mhlentyn wedi mynd am 3 diwrnod allan o'i 5 wythnos gyntaf, ac | Aberystwyth – De |

DRAFT

| | |
|---|---|
| mae wedi bod i ffwrdd yn sâl am weddill yr amser. Oherwydd bod rhaid i mi ei adael e wrth y drws dydw i ddim wedi gallu ei helpu i setlo. Roedd yn haws peidio â defnyddio Gofal Plant oherwydd doedd dim rhaid i ni newid cynlluniau ar y funud olaf. | |

| **Arall** | **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** |
|---|---|
| Agwedd staff y cynllun | Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul |
| Mae hi yn y cynllun ariannu sylfaen | Y Borth a Bont-goch |
| Ddim digon o oriau ar gael | Y Borth a Bont-goch |
| Mynd i feithrinfa | Rheidol, Ystwyth a Charon |

| Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | C. A oedd unrhyw anawsterau penodol o ran dod o hyd i Ofal Plant ar gyfer un neu ragor o'ch plant? Os felly, pam? Cwblhewch y blwch hwn hefyd os ydych wedi cael anhawster dod o hyd i Ofal Plant ar gyfer plentyn anabl sy'n 18 oed neu'n hŷn. |
|---|---|
| Aberystwyth – De | Roedd rhaid i mi wrthod cynnig swydd gan nad oedd lle i fy mhlentyn mewn meithrinfa Dechrau'n Deg ar gyfer cinio a sesiwn prynhawn |
| Aberteifi ac Aber-porth | 1. Dyw'r Cylch Meithrin ddim yn cynnig digon o oriau na hyblygrwydd i mi allu gweithio (h.y. dim ond 2 awr dwywaith yr wythnos a dim byd yn ystod gwyliau ysgol).<br><br>2. Dim ond un feithrinfa breifat sydd o fewn 30 munud yn y car a dydyn nhw ddim yn gallu agor oherwydd bod ei chais cynllunio wedi bod yn aros am benderfyniad ers mis Chwefror. Mae fy merch wedi'i chofrestru i fynychu dau ddiwrnod yr wythnos cyn gynted ag y gallan nhw agor ond tan hynny dwi ddim yn gallu dychwelyd i'r gwaith.<br><br>Mae cynlluniau Cymru yn ddryslyd iawn (Dechrau'n Deg, system Cylch). Hoffwn i gael mwy o feithrinfeydd preifat yn hytrach na'r duedd tuag at Ofal Plant sy'n cael ei redeg gan awdurdodau lleol. |

DRAFT

| ATODIAD 2 | SYLWADAU YCHWANEGOL AROLWG RHIENI/GOFALWYR |
|---|---|

| Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol | C. A oedd unrhyw anawsterau penodol o ran dod o hyd i Ofal Plant ar gyfer un neu ragor o'ch plant? Os felly, pam? Cwblhewch y blwch hwn hefyd os ydych wedi cael anhawster dod o hyd i Ofal Plant ar gyfer plentyn anabl sy'n 18 oed neu'n hŷn. |
|---|---|
| Aberaeron a Llanrhystud | Does dim darpariaeth yn Aberaeron |
| Aberaeron a Llanrhystud | Mae gan y rhan fwyaf o leoliadau Gofal Plant restr aros. Dim llawer yn yr ardal leol. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn targedu plant o dan 5 oed, dim llawer o opsiynau ar gyfer plant hŷn 10+. |
| Aberaeron a Llanrhystud | Mae pawb yn fy ardal yn llawn, dim lleoedd ar gyfer Gofal Plant |
| Aberaeron a Llanrhystud | Mae gan fy mab anableddau ac roedd Gofal Plant yn anodd. Mae'n hŷn nawr a gall ei frawd helpu. Roedd rhaid i mi weithio mewn ysgol oherwydd does dim Gofal Plant ar gyfer plant hŷn sydd angen goruchwyliaeth. Does dim clybiau gwyliau a dim byd sy'n fforddiadwy gan fod arian yn brin beth bynnag heb sôn am dalu am Ofal Plant yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer 2 o blant. |
| Aberaeron a Llanrhystud | Diffyg gwasanaethau gwarchodwyr plant. Anhawster cael Gofal Plant ar gyfer fy anghenion Gofal Plant a fy mhatrwm gwaith (rwy'n gweithio shifftiau tan 8pm, mae Gofal Plant yn cau am 6pm) |
| Aberaeron a Llanrhystud | Yn anffodus does dim digon o ddewis yn ein hardal ni sef Aberaeron.<br>Mae un feithrinfa sy tua 15 munud i ffwrdd o'r ardal yn llawn dop. Wedi dod ben a chael un diwrnod yn y feithrinfa. Mae galw mawr o fewn yr ardal!! |
| Aberaeron a Llanrhystud | Dim problemau dod o hyd i Ofal Plant ond roedd mor ddrud felly fe wnes i roi'r gorau i weithio i ofalu am fy nhrydydd plentyn ac rydw i'n hunangyflogedig nawr. Mae angen i mi ddod o hyd i waith cyflogedig ond mae'n anodd cael unrhyw beth yn ystod y tymor yn unig. |
| Aberaeron a Llanrhystud | Roedd yr anawsterau a gawson ni yn ymwneud â gofal ar ôl ysgol, rhwng 3.30pm a 5.30pm. Does dim clwb ar ôl ysgol yn yr ysgol a dim ond un gwarchodwr plant ar ôl ysgol, sy'n llawn ar hyn o bryd. Rydym ni'n gofyn i nain neu daid unwaith yr wythnos ac mae'n rhaid i mi orffen gwaith am 3pm 3 diwrnod yr wythnos er mwyn gallu codi'r plant ar ôl ysgol. Mae hyn wedi fy atal rhag gweithio oriau llawn amser gan fod fy ngŵr yn hunangyflogedig ac yn gweithio i ffwrdd. |
| Aberystwyth – Gogledd | I ddechrau fe ddefnyddion ni feithrinfa sy'n cael ei rhedeg gan y Brifysgol pan oedd ein plant yn iau ond yn anffodus bu'n rhaid iddi gau oherwydd trafferthion ariannol. Dim ond dau opsiwn arall oedd gennym ni wedyn ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Aberystwyth, aethom ni gyda chylch chwarae elusennol a dyna'r unig opsiwn gan fod diffyg sesiynau yn y feithrinfa arall. Roedd y staff yn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | fedrus ac yn creu amgylchedd cartrefol iawn i'r plant. Ond, roedd y natur elusennol yn golygu bod rhaid i ni chwarae mwy o ran fel rhieni na'r amser oedd gennym ni, a doedd y safle ddim (ac nid yw'n dal i fod) yn addas gan ei fod yn fach, yn llaith ac mae llwydni'n tyfu i fyny'r waliau, ddim yn ddelfrydol ar gyfer plant bach na staff o ran hynny. Yn gyffredinol, roeddem yn teimlo nad oedd digon o ddewis ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg ar gyfer plant oedran cyn ysgol. Er ein bod yn gadarnhaol iawn tuag at y Gymraeg rydym yn anghytuno'n gryf â'r syniad o roi ein plant mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg pan nad oes siaradwyr Cymraeg yn eu cartrefi i'w helpu. I ni fel rhieni mae'r Gymraeg yn sgil ychwanegol ac nid yn sgil hanfodol ar gyfer ein plant fel dinasyddion y dyfodol mewn byd sy'n gynyddol fyd-eang. |
| Aberystwyth – Gogledd | Pan oeddwn i'n gwneud fy ngradd israddedig yn Aberystwyth, roedd rhaid i mi ddal bws yn ôl ac ymlaen rhwng y campws a meithrinfa fy mab hynaf ac yna ei ysgol gan fod y feithrinfa orau allan o'r dref.<br>Nawr rwy'n fyfyriwr ôl-raddedig gydag ail blentyn, gyda'r un broblem, ond does dim lle yn y feithrinfa i lawr y ffordd. Roedd meithrinfa ei hun ar y campws ar un adeg, ond doedden nhw ddim yn gallu fforddio ei chadw ymlaen.<br>Mae angen i'r llywodraeth gefnogi prifysgolion yn well i ddarparu opsiynau Gofal Plant. Byddai hyd yn oed Crèche i ollwng plant ar y campws er mwyn i mi allu rhedeg seminar yn newid fy mywyd. |
| Aberystwyth – Gogledd | Does dim clwb ar ôl ysgol ar gael ar hyn o bryd i fy mhlant oherwydd ddiffyg staff. |
| Aberystwyth – Gogledd | Tra'n chwilio am swydd, dim ond clwb ar ôl ysgol tan 5:30 sydd yn ysgol fy merch ac roedd y rhan fwyaf o'r swyddi roeddwn i'n edrych arnyn nhw yn gorffen am 6. Mae fy mhartner yn gweithio i ffwrdd weithiau felly alla i ddim gwneud cais oherwydd does dim Gofal Plant gen i am y 30 munud olaf hwnnw. Hefyd mae'r Cylch Meithrin yn cychwyn am 8:45, er bod y staff yn wych, byddai'n well pe bai'n dechrau am 8:30 er mwyn rhoi amser i mi ollwng y plant a chyrraedd fy swydd mewn pryd. |
| Aberystwyth – Gogledd | Mae pob clwb gwyliau wedi cau yn Aberystwyth neu yn ne'r dref. Mae'r clwb ar ôl ysgol wedi cau. Sut mae rhieni sengl i fod i weithio'n llawn amser? |
| Aberystwyth – De | Llawer o warchodwyr plant yn llawn. Mae Gofal Plant mor ddrud roedd rhaid i mi leihau fy ngwaith ym maes gofal iechyd i arbed rhai costau. |
| Aberystwyth – De | Methu â chael yr oriau yr oedden ni am eu cael yn y feithrinfa, roedd y cymorth ariannol oedd ar gael yn gymhleth iawn. |
| Aberystwyth – De | Mae darpariaeth ar ôl ysgol yn bwysig iawn ar gyfer ein hamgylchiadau arbennig ni. Mae ein gwaith yn golygu bod fy mhartner a minnau yn gweithio o dan gontract tan 5:30pm. Yn anffodus, dim ond tan 5:00pm y mae'r rhan fwyaf o glybiau ar ôl ysgol yn rhedeg, sydd i bob pwrpas yn golygu gorfod |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | gadael gwaith am 4:45pm. Does dim modd dechrau yn gynharach i wneud lan yr oriau gwaith oherwydd amserau gollwng ysgolion. |
| | Aberystwyth – De | Wedi cael trafferth dod o hyd i Ofal Plant ar gyfer fy mhlentyn anabl ar ôl i feithrinfeydd ailagor yn ystod haf 2020 – roedd staff wedi colli swydd yn y feithrinfa breifat a dywedon nhw nad oedd ganddyn nhw unrhyw un i weithredu fel ei 1:1 hyd yn oed os oedd cyllid ar gael drwy'r Cynnig Gofal Plant. Yn ffodus, dwi wedi dod o hyd i ddarparwr arall, ond gydag oriau agor byrrach.<br><br>Rydym hefyd yn cael trafferth dod o hyd i Ofal Plant ar gyfer gwyliau ysgol canol tymor ysgol ac ar ôl 3.30 yn ystod y tymor ar hyn o bryd. |
| | Aberystwyth – De | Un darparwr ar ôl ysgol yn Aberystwyth, heb weithredu ers mis Gorffennaf. Dim Gofal Plant rheolaidd yn ystod y gwyliau felly yn gorfod dibynnu ar glybiau'r Urdd, chwaraeon, gwersylloedd pêl-droed ac ati. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi rhoi'r gorau i weithredu yn Aberystwyth ers mis Mawrth 2020. Wedi methu dod o hyd i unrhyw beth ar gyfer fy mhlentyn 13 oed yn ystod gwyliau'r ysgol. Dim ond pêl-droed ar gae'r dref leol sydd wedi bod ar gael am 5 awr y dydd yn ystod peth o'r gwyliau ysgol ar gyfer fy machgen 8 oed. |
| | Aberystwyth – De | Ar hyn o bryd nid oes clwb ar ol ysgol ar gael. Ar hyn o bryd mae fy nghyflogwr yn caniatau i mi adael y gwaith i nol y plant trwy ddefnyddio oriau "flexi" ac rydym i gyd yn gweithio o adref ond yn teimlo fod hyn yn hynnod anymarferol. Rwyf hefyd yn dechrau swydd newydd mis Tachwedd ac yn poeni ni fyddant mor hyblyg a mae clwb ar ol ysgol wedi stopio ar hyn o bryd achos diffyg staffio |
| | Aberystwyth – De | Rwy'n gweithio mewn rôl gyda chleifion yn y GIG a wnes i ddim stopio gweithio yn ystod y pandemig. Ymatebodd Cyngor Ceredigion yn dda i sicrhau bod gweithwyr hanfodol yn gallu cael mynediad at Ofal Plant i ddechrau. Wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, roedd un adeg yn ystod yr ail gyfnod clo oedd yn anodd iawn oherwydd doedd Gofal Plant ychwanegol ddim ar gael y tu allan i oriau ysgol. Oherwydd fy ngwaith, roedd yn anodd cael Gofal Plant. Yn y diwedd, fe wnes i gyfnewid Gofal Plant gyda rhieni eraill a oedd hefyd yn weithwyr hanfodol ond doeddwn ni ddim yn eu hadnabod cystal o'r blaen. Gweithiodd hyn yn iawn, ond roedd yn teimlo fel jyglo pethau. |
| | Aberystwyth – De | Rydym ar restr aros i gynyddu ein darpariaeth Gofal Plant. Does dim digon o ddarpariaeth Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cost Gofal Plant yn faich enfawr arnom ni fel teulu. Rydym yn ei chael hi'n anodd talu'r gost am Ofal Plant rhan-amser hyd yn oed. Does dim teulu gerllaw i helpu gyda'r trefniadau Gofal Plant – a hyd yn oed os oeddent nhw'n agos, mae neiniau a theidiau yn gweithio'n llawn amser hefyd. Mae'r ffaith ein bod ni ar incwm uchel ac yn cael trafferth i dalu costau Gofal Plant yn tynnu sylw at gostau anferth cael plentyn yng Nghymru. Mae'r costau hyn yn atal llawer o fenywod rhag dychwelyd i'r gwaith. Alla i ddim cael ail fabi hyd nes y gallwn ni gael y Cynnig Gofal Plant 30 awr yr wythnos oherwydd does dim ffordd y byddwn ni'n gallu fforddio costau cyn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ysgol ar gyfer 2 blentyn ar yr un pryd. Mae hyn ynghyd â'r ffaith bod y gyfradd geni yn gostwng ar draws y DU gyfan, a bod ardaloedd fel Ceredigion yn cael eu taro'n arbennig o wael yn cyfrannu at argyfyngau economaidd cynyddol ar ben yr argyfwng cymdeithasol a gofal iechyd sydd eisoes yn digwydd!! |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Rwy'n gweithio shifftiau, dechrau'n gynnar neu'n gorffen yn hwyr. Does dim Gofal Plant sy'n fodlon cael fy mhlant ar yr adegau hynny. Mae fy mhartner yn gweithio oriau anghymdeithasol hefyd. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal ar ôl ysgol ar gyfer fy mhlentyn. Dyw'r ysgol ddim yn darparu'r gwasanaeth hwn ers COVID-19. Mae hyn wedi ei gwneud yn anodd i ni fel teulu yn ogystal â llawer o deuluoedd eraill yn yr ardal. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Ie. Ar ôl COVID-19 fel cartref roeddem ni'n dibynnu ar glwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol gan ein bod yn gweithio'n llawn amser. Cafodd y cyfleuster hwn ei gymryd i ffwrdd gan yr Awdurdod Lleol yn 2020. Mae clwb brecwast wedi'i ailgyflwyno'n ddiweddar. Ond nid yw darpariaeth clwb ar ôl ysgol wedi ailgychwyn, sy'n ei gwneud yn fwyfwy anodd i rieni sy'n gweithio'n llawn amser, yn enwedig i'r rhai sydd dal angen gweithio gartref. Mae pob gwarchodwr plant naill ai'n llawn neu ddim yn gallu codi plant o'r ysgol. Mae hefyd yn fwyfwy anodd dibynnu ar deulu a ffrindiau oherwydd y cynnydd yn yr achosion o COVID-19 yn y sir. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Does dim cynlluniau chwarae yn yr ardal ar hyn o bryd. Os yw ein Cynorthwyydd Personol ar wyliau neu'n sâl does neb arall i wneud y gwaith. Does dim clybiau ar ôl ysgol ar gyfer plant anabl. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Dim clwb ar ôl ysgol ar gael o hyd!! |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Ceisio dod o hyd i wybodaeth am ysgolion a phryd i wneud cais, pryd maen nhw'n dechrau a beth sydd ar gael. Anodd iawn dod o hyd i'r wybodaeth hon heb ffonio'r ysgolion a gyda gweithio mae'n anodd dod o hyd i amser i wneud hyn yn ystod oriau ysgol |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Oherwydd dyw'r ysgol, Ysgol Bro Teifi, ddim yn darparu gofal ar ôl ysgol ar hyn o bryd, a heb gynnig unrhyw gefnogaeth yn ystod pandemig COVID-19. Ond roedd nifer o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin wedi cynnig yr opsiynau hyn ar gyfer myfyrwyr sy'n rhieni. Mor siomedig ac anodd. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Dim darpariaeth ar ôl ysgol na gwyliau mewn ysgol 3-19. Achosi llawer o broblemau. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Dim clwb ar ôl ysgol yn yr ysgol ac mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar yr oriau rwy'n gallu gweithio. Dim darpariaeth gwyliau ysgol hefyd yn cael effaith ar yr oriau rwy'n gallu gweithio yn ystod y gwyliau. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Cyn cyfnod clo COVID-19 roedd yr ysgol yn arfer cynnig clwb ar ôl ysgol ond nid oedd hwn wedi'i gofrestru ac roeddem ni fel dau riant sy'n gweithio'n llawn amser yn teimlo dan anfantais oherwydd doedden ni ddim yn gallu elwa o'r cynlluniau sydd ar gael i'n cefnogi. Mae angen i Lywodraeth Cymru |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | edrych ar hyn oherwydd ni all y cynlluniau ariannol sydd ar gael i rieni sy'n gweithio gael eu defnyddio i'r eithaf gan nad yw lleoliadau Gofal Plant wedi'u cofrestru. Ychydig iawn o gymorth y mae rhieni sy'n gweithio yn ei gael i dalu cost eu Gofal Plant ac felly byddai cael Gofal Plant cofrestredig amrywiol yn golygu y byddai dewis o wahanol Ofal Plant yn ogystal â gallu manteisio ar y cymorth ariannol. Byddai'n dechrau gwneud pethau'n fwy cyfartal hefyd rhwng rhieni sy'n gweithio a rhieni sydd ddim yn gweithio sy'n gallu cael llawer mwy o gymorth ariannol i ariannu Gofal Plant. Rydym yn cael ein cosbi am fod yn rhieni sy'n gweithio sy'n ceisio bod y modelau rôl gorau posibl a gosod esiamplau da. |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Roeddwn i'n hapus gyda meithrinfa'r ysgol leol ac mae'r Cylch Meithrin o fewn yr ysgol yn wych, mae'r staff yn gwneud cymaint i ofalu am y plant... Byddwn i'n hoffi cael rhai clybiau gwyliau lleol gydag amserau hyblyg ar gyfer fy mhlant 2 a 3 oed oherwydd does dim angen 8-6 arna i, sef yr hyn sy'n ymddangos fel pe bai'n cael ei gynnig, oriau gollwng a chasglu hyblyg er mwyn i'r plant gael ychydig o oriau, byddai'n wych yn ystod y gwyliau |
| Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul | Ar hyn o bryd does dim clwb ar ôl ysgol sy'n broblem enfawr i geisio trefnu pethau o gwmpas gwaith o hyd, gorfod dibynnu ar deulu i helpu. Pa swydd sy'n gorffen am 3:00??? |
| Y Borth a Bont-goch | Mae rhestrau aros ar gyfer meithrinfeydd yn hir. Dim ond 9-12 yw'r cylch lleol heb unrhyw gymorth yn y prynhawn, anobeithiol os yw'r ddau riant yn gweithio a does dim teulu gerllaw i gasglu plant amser cinio a gofal prynhawn. Byddai gofal prynhawn yn yr un lleoliad ar gyfer y rhai sydd ei angen yn ddelfrydol, hyd yn oed pe bai'n rhaid talu amdano. Fel arall, does dim mantais o gwbl i'r rhiant adael gwarchodwr plant / meithrinfa breifat. Eisiau cefnogi'r cylch, hwyluso pontio i'r ysgol trwy fod ar yr un safle ysgol/plant tebyg ac ati, ond methu cyfiawnhau hyn pan fyddai'n rhaid gadael y gwaith amser cinio |
| Y Borth a Bont-goch | Clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol wedi cau yn ystod COVID-19, yn dechrau agor eto sy'n newyddion da. |
| Y Borth a Bont-goch | Mae ein plant wedi cael eu mabwysiadu, nid oes gan lawer o ddarparwyr Gofal Plant ddealltwriaeth dda o drawma plentyndod |
| Y Borth a Bont-goch | Dim Gofal Plant ar gael i blant anabl a phobl ifanc yn eu harddegau naill ai yn ystod y tymor neu wyliau ysgol yng Ngheredigion. Mae hon yn broblem hirdymor ac mae wedi fy atal rhag dychwelyd i weithio yn y sector gofal iechyd |
| Y Borth a Bont-goch | Mae'r Gofal Plant ym Meithrinfa Gogerddan yn ystod gwyliau'r ysgol yn wych ac mae'r oriau'n wych, mae'r staff yn eithriadol o dda. Y broblem sydd gen i yw clwb brecwast yr ysgol, mae'n dechrau am 8.20am, mae'n rhaid i mi ddechrau gweithio am 8:30am. Byddai 8am yn llawer mwy addas o ystyried y ras i gyrraedd yn y bore a chael lle i barcio i gyrraedd fy ngweithle. Rwy'n rhiant sengl sy'n gweithio 48 awr yr wythnos |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Y Borth a Bont-goch | Methu dod o hyd i Ofal Plant i ddechrau pan oeddwn ei angen oherwydd beth oedd ar gael ar gyfer fy nau blentyn. Eisiau cael gofal Cymraeg/dwyieithog ond methu dod o hyd i unrhyw beth addas. |
| Y Borth a Bont-goch | Doeddwn i ddim yn gallu rhoi fy mhlentyn mewn meithrinfa breifat pan symudon ni nôl i'r ardal gan fod rhestrau aros ym mhob un ohonyn nhw. Ond roeddem ni'n ffodus a gallu defnyddio'r Cylch. |
| Y Borth a Bont-goch | Mae gan fy mhlant anghenion meddygol ac mae gan un anawsterau dysgu sy'n ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i leoliad Gofal Plant. Mae'r ddau yn oedran lle gallai'r rhan fwyaf o blant gael eu gadael ar eu pennau eu hunain ond allan nhw ddim gwneud hynny. Nid oes Gofal Plant ar gyfer plant fel hyn. Nid yw unrhyw blant rwy'n eu hadnabod sydd ag anghenion ychwanegol yn gallu cael mynediad at unrhyw fath o Ofal Plant ac eithrio'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau seibiant sydd ddim yr un peth. |
| Y Borth a Bont-goch | Clwb brecwast yr ysgol yn agor am 8:25, allan nhw ystyried dechrau'n gynharach er mwyn i mi allu cyrraedd y gwaith am 8:30am. |
| Y Borth a Bont-goch | Mae'r Gofal Plant sydd gennyn ni yn iawn, yr unig broblem yw nad yw ein clwb Cyn ysgol/Brecwast yn dechrau yn ddigon cynnar am 8.20am. Rwy'n ymwybodol bod ysgolion cynradd eraill yn ein hardal yn dechrau am 8-8.10am |
| Y Borth a Bont-goch | Unwaith y cyrhaeddodd COVID-19, roedd ein meithrinfa breifat yn gwrthod cymryd plant o dan 2 oed pan ddaeth y cyfyngiadau i ben. Roedd fy ngŵr a minnau'n weithwyr allweddol, ac ar ôl i Ofal Plant i weithwyr allweddol ddod i ben a'r ysgolion wedi ailagor roedd rhaid i ni ddibynnu ar deulu a ffrindiau i ofalu am ein plant ieuengaf. Mae hi'n 2 oed nawr ac yn gallu defnyddio'r Gofal Plant, ond roedd yn anodd iawn i ni ar y pryd. |
| Y Borth a Bont-goch | Mae'r gost yn hurt o'i gymharu â'r isafswm cyflog, does dim pwynt gweithio os mai'r cyfan rydw i'n ei wneud yw gweithio er mwyn i rywun arall gael ei dalu i ofalu am fy mhlant. |
| Y Borth a Bont-goch | Mae cymaint o alw am Ofal Plant, mae bron yn amhosibl cael lle |
| Y Borth a Bont-goch | Mae fy mhlentyn yn awtistig |
| Y Borth a Bont-goch | Dim gwarchodwr plant yn y Borth bellach. Dim Cylch Meithrin yn y Borth. Rwy'n gweithio o gartref felly mae darpariaeth Gofal Plant yn yr ardal hon yn fwy cyfleus heb orfod teithio ymhellach i Aberystwyth. |
| Aberteifi ac Aber-porth | Yr oriau Gofal Plant sydd ar gael yw Dydd Llun – Dydd Gwener 9-5. Rwyf wedi gwrthod sawl swydd roeddwn i wir eu hangen oherwydd diffyg Gofal Plant. |
| Aberteifi ac Aber-porth | Rwy'n dibynnu lot ar ffrindiau a theulu am help gyda fy Ngofal Plant gan fod fy oriau'n newid yn wythnosol felly mae'n anodd dod o hyd i le gyda gwarchodwr plant, hefyd gan fy mod i'n gweithio llai nag 16 awr dwi ddim yn siŵr alla i hawlio help gyda chost Gofal Plant, mae'n waeth yn y gwyliau pan fyddwch chi angen hyd yn oed mwy o help gan fod yr oriau'n hirach oherwydd bod y plant ddim yn yr |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ysgol, felly gall fod yn anoddach dod o hyd i deulu a ffrindiau sy'n fodlon helpu pan fydd ganddyn nhw eu plant eu hunain gartref hefyd neu efallai ddim eisiau gwneud yr oriau hirach am ddim |
| Aberteifi ac Aber-porth | Dim meithrinfa yn yr ardal, mae'r agosaf dros 10 milltir i ffwrdd ac ychydig iawn o warchodwyr plant sydd â lleoedd gwag |
| Aberteifi ac Aber-porth | Mae Gofal Plant yn ein hardal yn wael iawn, does dim lleoedd ar gael ar gyfer fy mhlentyn, bydda i'n dechrau fy swydd newydd mis nesaf gyda'r GIG a bydda i'n gweithio pob shifft. Yn ffodus mae ein hysgol leol newydd ddechrau clwb brecwast felly gall fy ngŵr ei ollwng yn yr ysgol, ond ei chael hi'n anodd iawn dod o hyd i Ofal Plant ar ôl ysgol.<br>Os yw'r llywodraeth am i rieni weithio rhaid iddyn nhw ddarparu mwy o gyfleusterau Gofal Plant yn yr ardal hon. |
| Aberteifi ac Aber-porth | Dim byd yn yr ardal heblaw am warchodwyr plant. Mae'r gwarchodwyr plant i gyd yn llawn. Doedd y gwarchodwyr plant ddim yn gallu cymryd y ddau blentyn felly byddai'n rhaid gwahanu nhw a dod o hyd i warchodwyr plant gwahanol. Methu derbyn swydd gan nad oes Gofal Plant, Gofal Plant ar gael dwi'n methu ei dderbyn oherwydd dim cynigion swydd ac ati. Aeth hyn ymlaen am flwyddyn. |
| Aberteifi ac Aber-porth | Dim Gofal Plant ar gael cyn neu ar ôl ysgol i blentyn 4-5 oed. Lleoedd i gyd yn llawn neu ddim ar gael oherwydd cyfyngiadau COVID-19.<br>Mae plant yn y rhan fwyaf o leoliadau Gofal Plant sy'n trosglwyddo o ofal llawn amser i ofal cofleidiol, felly ddim yn derbyn plant newydd. Doedd yr ychydig iawn oedd ar gael ddim yn fy ardal i. |
| Aberteifi ac Aber-porth | Does dim meithrinfeydd yn Aberteifi |
| Aberteifi ac Aber-porth | Cylchoedd meithrin cyfyngedig sy'n gweithio o gwmpas rhieni sy'n gweithio. Fel arfer 9-11.30, fel athro llawn amser mae hyn yn amhosibl. Angen opsiwn Gofal Plant am bris rhesymol ac nid yw ar gael. Angen cylch meithrin drwy'r dydd. Yn gwario £48 y dydd ar Ofal Plant ar hyn o bryd. |
| Aberteifi ac Aber-porth | 1. Dyw'r Cylch Meithrin ddim yn cynnig digon o oriau na hyblygrwydd i mi allu gweithio (h.y. dim ond 2 awr ddwywaith yr wythnos a dim byd yn ystod gwyliau ysgol).<br><br>2. Dim ond un feithrinfa breifat sydd o fewn 30 munud yn y car a dyn nhw ddim yn gallu agor gan fod ei chais cynllunio wedi bod yn aros am benderfyniad ers mis Chwefror. Mae fy merch wedi'i chofrestru i fynychu dau ddiwrnod yr wythnos cyn gynted ag y gallan nhw agor ond tan hynny dwi ddim yn gallu dychwelyd i'r gwaith.<br><br>Mae'r cynlluniau yng Nghymru yn ddryslyd iawn (Dechrau'n Deg, system Cylch). Hoffwn i weld mwy o feithrinfeydd preifat yn hytrach na'r duedd tuag at Ofal Plant sy'n cael ei redeg gan yr awdurdodau lleol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Aberteifi ac Aber-porth | Rwy'n nyrs sy'n gweithio shifftiau 13 awr ac mae fy mhartner yn blymwr ac yn gweithio 8-5 bob dydd. Cyn COVID-19 byddai fy mhartner yn gollwng ein plentyn ieuengaf yn y clwb brecwast cyn mynd i'r gwaith ei hun ac yna byddai fy mab yn aros yn y clwb ar ôl ysgol nes bod fy mhartner wedi gorffen gweithio. Nawr mae'n rhaid i ni ddibynnu ar dacsi i fynd â fy mab ieuengaf adref oherwydd does dim clwb ar ôl ysgol. Weithiau galla i ofyn i ffrindiau helpu ond dyw gofyn ffafr trwy'r amser ddim yn dda. Does dim opsiynau Gofal Plant yn yr ardal, mae'r gwarchodwyr plant i gyd yn llawn. Mae Gofal Plant wedi bod yn anodd iawn am y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda gwasanaethau ddim ar gael, hyd yn oed i mi fy hun fel gweithiwr rheng-flaen a nyrs gofal dwys. Gan nad oedd fy mhartner yn cael ei ystyried yn weithiwr rheng-flaen, doedd dim help ar gael. Roedd hyn wedi arwain at ddiwrnodau i ffwrdd heb dâl neu orfod gadael ein plant ar eu pennau eu hunain. Does dim dwywaith bod Gofal Plant yn broblem yn yr ardal i deuluoedd sy'n gweithio. | |
| | Aberteifi ac Aber-porth | Does dim Gofal Plant yn Aberteifi ac eithrio gwarchodwyr plant sydd i gyd yn llawn! Mae angen gwneud rhywbeth a sefydlu Crèche er mwyn i rieni allu gweithio | |
| | Aberteifi ac Aber-porth | Mae gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg yn cael eu bwcio ymlaen llaw (rhestr aros) ac maen nhw'n gyfyngedig iawn. Mae'n bwysig i ni fel teulu i gael lleoliad Cymraeg iaith gyntaf ar gyfer ein plant gan ein bod yn Gymry Cymraeg, dyw llawer o'r gwarchodwyr plant ddim yn rhugl nac yn hyderus yn y Gymraeg fel iaith gyntaf. Rwy'n gweld cofrestru yn broses hir hefyd ac yn atal llawer rhag bod yn warchodwyr plant oherwydd pa mor hir mae'n ei gymryd a'r hyn sy'n rhaid ei wneud i ddechrau busnes. | |
| | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Mae Gofal Plant yn ddrud a does dim digon o ddarpariaeth ar gyfer fy anghenion. Mae lleoedd yn llenwi'n gyflym. Dwi ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd a bydd fy mab yn 10 mis oed pan fydda i'n dychwelyd i'r gwaith. Does dim llawer o ddarparwyr Gofal Plant sy'n gofalu am blant mor ifanc â hynny. | |
| | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Mae'n well gen i weithgareddau wedi'u trefnu/chwaraeon. Ond, ychydig iawn sydd ar gael a dim ond rhai diwrnodau/amserau yn ystod y gwyliau, a dim yn ystod y tymor.<br>Byddem ni'n hapus i dalu, ond does dim byd ar gael. Hefyd dim clwb ar ôl ysgol ar gael ers COVID-19. Mae diffyg Gofal Plant yn golygu bod rhaid i mi leihau fy oriau gwaith ac rwy'n gweithio i'r GIG. | |
| | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Does dim byd ar gael sy'n addas ar gyfer plant hŷn. Pan oedden nhw'n iau aethon nhw at Ray Ceredigion ond nawr mae'n rhy blentynnaidd a diflas iddyn nhw. Mae ychydig o lefydd fel yr Urdd Llangrannog a chanolfan gweithgareddau Llain sy'n rhedeg gweithgareddau diwrnod llawn i blant hŷn, ond dyn nhw ddim yn cymryd talebau Gofal Plant felly maen nhw'n rhy ddrud i anfon y plant bob dydd yn ystod y gwyliau pan fydd angen i'r gŵr a minnau weithio. | |
| | Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Ie, rydym yn cael problem oherwydd does dim clwb ar ôl ysgol yn ein hardal ni ac mae'n rhaid i ni deithio i glwb gwyliau os ydym ni'n gallu cael lle. Does dim teulu i helpu. | |

| | |
|---|---|
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Pe na bai arweinydd chwarae fy mab yn y meithrin wedi bod mor wybodus am anawsterau ymddygiad, rwy'n meddwl y byddwn i wedi cael problemau o ran ei gael e i aros yn ei leoliad, ond diolch byth roedd ganddi wybodaeth bersonol o hyn ac yn gallu helpu i gael cyllid ychwanegol gan y llywodraeth er mwyn i'm machgen gael cymorth ychwanegol yno. Mae gweithiwr cymorth i helpu'r holl staff yn ystod yr adegau anodd gydag ef. Pe na bai'r arweinydd chwarae wedi adnabod y broblem hon mor gynnar, rwy'n credu y byddai wedi bod yn anodd iawn iddo gadw'r lle yn y Meithrin. |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Mae diffyg darpariaeth gwyliau ysgol a darpariaeth ar ôl ysgol yn ei gwneud hi'n anodd iawn gweithio'n llawn amser |
| Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad | Does dim darpariaeth Gofal Plant yn Nhregaron a dim clwb ar ôl ysgol felly rwy'n dibynnu ar y teulu ac mae hynny'n achosi llawer o straen |
| Ceinewydd a Phenbryn | Mae gwir angen i'r ysgolion agor y cyfleuster clwb ar ôl ysgol, oherwydd COVID-19 alla i ddim gofyn i aelodau bregus o'r teulu helpu gyda chasglu plant o'r ysgol a Gofal Plant. Rwy'n gorfod cymryd amser o'r gwaith i wneud hynny fy hun ac mae'n cael effaith negyddol ar waith, bywyd teuluol ac iechyd meddwl – ddim yn deall pam nad ydyn nhw wedi ailddechrau, mae Sir Gaerfyrddin ac ati wedi gwneud hynny?! |
| Ceinewydd a Phenbryn | Awtistiaeth ddi-eiriau a gorsymudedd, dyw Gofal Plant ddim yn gallu darparu ar gyfer ei anghenion, heb eu hyfforddi |
| Ceinewydd a Phenbryn | Does dim Gofal Plant ar gael felly mae'n amhosib gweithio.<br><br>Mae clwb brecwast yn yr ysgol. Mae clwb ar ôl ysgol 3 gwaith yr wythnos, ond mae o leiaf un sesiwn yr wythnos yn cael ei ganslo felly methu dibynnu arno.<br><br>Does dim gofal gwyliau ar gael. |
| Ceinewydd a Phenbryn | Dim ond 2 warchodwr plant sydd yn fy ardal i ac mae'r ddau yn llawn gyda rhestrau aros hir. Mae'r ysgol yn gwneud clwb brecwast sy'n wych, ond mae clybiau ar ôl ysgol yn cael eu canslo ar fyr rybudd a dim ond yn mynd ymlaen tan 4 30 sy'n ei gwneud hi'n anodd gwneud oriau llawn amser fel rhiant sengl. |
| Ceinewydd a Phenbryn | Dim ond 2 warchodwr plant sydd yn fy ardal i ac mae'r ddau yn llawn. Mae'r ysgol yn gwneud clwb brecwast sy'n wych ond mae clwb ar ôl ysgol yn gorffen am 4.30 sy'n anodd oherwydd dwi'n gweithio 45 munud i ffwrdd tan 5pm. |
| Ceinewydd a Phenbryn | Dim clwb brecwast na chlybiau ar ôl ysgol yn ysgol ein plentyn. Dim gwarchodwr plant sy'n fodlon casglu'r plant. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Dim clybiau gwyliau felly mae gweithio yn ystod y gwyliau yn hynod o anodd ac rydym yn colli llawer o arian. |
| Ceinewydd a Phenbryn | Ie. Pob un ohonynt. Does bron dim ar gael. Dim gofal cofleidiol. Dim ond 3 awr y dydd oedd y Meithrin pan oedd y plant yn fach. Mae'r clwb ar ôl ysgol wedi bod ar gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn unig a dim ond 3 diwrnod yr wythnos a dim ond am 1 awr, yn gorffen am 4:30pm, does dim darpariaeth ar gyfer gofal ar ôl ysgol yn yr ysgol uwchradd. |
| Ceinewydd a Phenbryn | Dyw ein hysgol ddim yn cynnig clwb brecwast na chlwb ar ôl ysgol, a dim ond yn ystod y tymor y mae'r meithrin ar agor, 9-3 (ar y mwyaf).<br>Mae'n amhosibl dod o hyd i warchodwyr plant sy'n gallu casglu plant o'r ysgol, ac mae hyn yn effeithio'n ddifrifol ar yr oriau y galla i eu gweithio oherwydd y diwydiant rwy'n gweithio ynddo. Pe gallwn i gael Gofal Plant tan 6.30 gallwn i gynyddu fy oriau gwaith, ac mae galw am hynny, ond mae gen i Ofal Plant (teulu) annibynadwy am ddim |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | Ychydig neu ddim Gofal Plant ar gael i blant oedran uwchradd – hŷn<br>Lleoedd cyfyngedig ar gyfer fy mhlentyn oedran cynradd |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | Anodd dod o hyd i Ofal Plant fforddiadwy yn ystod y gwyliau.<br>Anodd dod o hyd i leoedd ar gyfer Gofal Plant yn ystod y gwyliau.<br>Anodd dod o hyd i Ofal Plant yn ystod y gwyliau sy'n cyfateb i batrymau shifftiau.<br>Cyflogwr ddim yn hyblyg o ran gwyliau i ddarparu ar gyfer Gofal Plant. |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | Mae Gofal Plant mor ddrud i ddau o blant. Dyw e ddim yn werth gweithio. Mae angen mwy o help gan y llywodraeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio ond sydd ddim yn derbyn credydau cynhwysol |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | Roedd yn anodd yr haf hwn i ddod o hyd i Ofal Plant ar gyfer fy merch, roedd angen lleoliad Cymraeg arnom ni oherwydd oedi gyda lleferydd fy merch, ond doedden ni ddim yn gallu dod o hyd i unrhyw le. Yn y diwedd roedd un lle ar ôl yn St Padarns, er ei fod yn lleoliad dwyieithog mae'r gweithiwr allweddol yn siarad Cymraeg ac maen nhw wedi darparu ar gyfer anghenion fy merch a allen ni ddim fod yn hapusach.<br><br>Roedden ni wedi chwilio am warchodwyr plant Cymraeg hefyd ond doedd dim ar gael – mae prinder mawr o ddarparwyr Gofal Plant yn Gymraeg yn ardal Aberystwyth. |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | Mae gan fy mab anghenion lluosog a chymhleth ac mae'n mynd i leoliad addysgol gydag adnoddau a reolir gan yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd does dim darpariaeth ar ôl ysgol yn fy nhref leol ac er ein bod wedi cael taliadau uniongyrchol i'w helpu i fynychu gweithgareddau cyfoethogi ar ôl ysgol, does dim Cynorthwywyr Personol yn ymgeisio am y swydd. Gan nad yw fy ngŵr a minnau'n byw'n agos at deulu, a dyw ein ffrindiau ddim yn gallu ein helpu gyda Gofal Plant ar ôl ysgol oherwydd ei anghenion meddygol ac ymddygiadol cymhleth, mae'n rhaid i ni naill ai ddefnyddio ein gwyliau blynyddol ar |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfer gofal ar ôl ysgol neu leihau ein horiau gwaith a'r gostyngiad dilynol yn ein hincwm teuluol i ofalu amdano ar ôl ysgol ar y diwrnodau y mae'r ddau ohonom ni'n gweithio.<br>Roedd clwb ar ôl ysgol ar un adeg a allai wneud cais am gyllid ychwanegol i dalu aelod o staff ychwanegol i gefnogi fy mab 1:1 ond caeodd hwnnw cyn COVID-19 oherwydd problemau staffio.<br>Mae gwir angen rhywbeth tebyg yn ein hardal leol er mwyn i rieni barhau i weithio. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Dyw ysgol fy mhlant ddim yn darparu unrhyw glwb ar ôl ysgol sy'n golygu oni bai fy mod i'n talu pobl (rhieni eraill fel arfer) i gymryd a bwydo fy mhlant alla i ddim gweithio oriau llawn amser, a hyd yn oed os ydw i'n talu rhywun i'w cael nhw yna bydda i'n talu cymaint weithiau fel fy mod i allan o boced. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Dibynnu ar i fynd i'r feithrinfa a nôl. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Ar ôl symud o Loegr i Gymru roedden ni am anfon ein merch i feithrinfa ddwyieithog er mwyn iddi allu addasu i'r feithrinfa a dysgu'r iaith yn raddol yn hytrach na chael ei thaflu i mewn i feithrinfa uniaith Gymraeg. Roedd hyn yn cyfyngu ar ddewis yn yr ardal. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Does dim Gofal Plant lle rwy'n byw.<br>Does dim clwb ar ôl ysgol. Felly mae'n rhaid i ni weithio oriau cynharach a hirach. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Pellter hir i deithio i unrhyw ddarparwr Gofal Plant |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Mae fy mhlentyn 11 oed yn rhy hen ar gyfer clybiau gwyliau, ond nid yw'n ddigon hen i gael ei adael gartref ar ei ben ei hun trwy'r dydd.<br>Clwb gwyliau yn anodd oherwydd nid yw rhai yn cael gweithredu oherwydd COVID-19 a nawr mae llai o leoedd felly mae'n anodd cael lle. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Mae'r ddau ohonom ni'n gweithio'n llawn amser – does dim teulu yn byw yn agos atom ni sy'n ddigon iach yn gorfforol i helpu gyda Gofal Plant ein plentyn 4 oed yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae ein plentyn yn dechrau'r ysgol ym mis Ionawr 2022 a rhwng y ddau ohonom ni, does gennym ni ddim gwyliau blynyddol ar gyfer pob un o'r 11 wythnos o wyliau ysgol. Ers y pandemig, mae darpariaeth clybiau gwyliau wedi bod yn ailagor yn araf. Rydym yn bryderus y bydd hyn yn parhau i fod yn wir yn 2022. Os felly man a man i un ohonom ni roi'r gorau i weithio. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Does bron dim Gofal Plant ar ôl ysgol yn Aberystwyth. |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Mae diffyg cludiant yn ei gwneud hi'n anodd mynd â fy mhlant i rai gwarchodwyr plant/Meithrinfeydd/Gofal Plant |
| | Rheidol, Ystwyth a Charon | Dyw [Ysgol Gynradd xx] ddim wedi rhedeg clybiau brecwast na chlybiau ar ôl ysgol ers cyfnod clo COVID-19 yn 2020, mae angen i mi fod yn y gwaith [x]-erbyn 8.30, all fy mab awtistig ddim mynd i'r uned tan 8.45 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Dyw'r oriau ddim yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi. Mewn lleoliad anghysbell, mae'n rhaid i lawer o bobl deithio'n bell i'r gwaith a nôl. Rwy'n athrawes, ond ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar yr isafswm cyflog yn addysgu ar-lein oherwydd dyw'r Gofal Plant sydd ar gael i mi ddim ar gael yn gynnar nac yn hwyrach, felly dwi ddim yn gallu teithio i neu o swyddi addysgu mewn pryd i gasglu fy mab o'r Meithrin. Fe allwn i ei roi e mewn meithrinfa breifat, ond rydw i am iddo fe gael meithrinfa cyfrwng Cymraeg ac rwy'n credu bod ethos y Cylch yr union beth rydw i eisiau ar gyfer fy mab. Rwy'n aberthu fy nghyflog a fy ngyrfa er mwyn iddo gael yr addysg Gymraeg a fydd orau iddo fe fi'n teimlo. |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Dim meithrinfeydd na gwarchodwyr plant yn ardal Tregaron/Pontrhydfendigaid. Mae fy mhlentyn yn 17 mis oed |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Does dim meithrinfeydd/gwarchodwyr plant yn yr ardal ar gyfer fy machgen 18 mis oed! |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Mae fy swydd yn dechrau am 8am sy'n golygu bod rhaid i mi adael y tŷ cyn 7am i fod yno erbyn 7:40 i newid a throsglwyddo'r gwaith. Mae fy merch hynaf yn mynd i'r ysgol gynradd a does dim byd yn yr ardal i ddarparu ar gyfer yr amser hwnnw yn y bore. Mae clwb brecwast yn dechrau ar ôl 8am ac er ei bod yn 10 oed dwi ddim yn teimlo'n gyfforddus yn ei gadael hi gartref ar ei phen ei hun. Ar y diwrnodau pan fydd fy mhartner a minnau yn y gwaith, mae angen rhywbeth arnom ni ar gyfer yr amser hwnnw yn y bore sydd ddim ar gael gan fod gwarchodwyr plant yma yn darparu'n bennaf ar gyfer plant iau ac yn hwyrach yn y bore. |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Does dim digon o ddarparwyr yn ein hardal ar gyfer plant o dan 2 oed.<br>Byddai'n rhaid i ni deithio hanner awr ac mae'n ddrud! |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Roedd rhaid i ni deithio 10 milltir pan oedd ein plant yn iau i gael darpariaeth Gofal Plant Cymraeg – dim darpariaeth leol ar gael |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Dwi ddim yn gallu hawlio credydau treth plant ar gyfer fy nhrydydd plentyn. Dwi ddim yn gallu gweithio oherwydd does dim Gofal Plant lleol ar agor yn ddigon hir ar gyfer yr oriau gwaith sydd eu hangen arna i. |
| | | Rheidol, Ystwyth a Charon | Dwi angen Gofal Plant yn lleol sydd ar agor bob diwrnod o'r wythnos er mwyn i mi weithio swydd 9am-5pm. Gyda fy nhrydydd plentyn alla i ddim hawlio credydau treth plant felly alla i ddim fforddio talu am Ofal Plant i fynd i'r gwaith. |
| | | | Mae prinder mawr o Ofal Plant yng Ngheredigion a diffyg clybiau cyn neu ar ôl ysgol sydd wedi gwaethygu diolch i COVID-19 ac mae darparwyr Gofal Plant cyfyngedig iawn sy'n gallu helpu ar ôl ysgol ac yn y gwyliau yn yr ardal hon, yn enwedig os ydych chi'n weithiwr shifft a hefyd yn rhiant sengl sydd ag ychydig iawn o rwydwaith cymorth, mae'r straen o drefnu'r cyfan a jyglo gwaith ers y pandemig wedi bod yn straen ofnadwy, ond rydych chi'n mynd trwy'r pethau 'ma, does dim dewis arall |

| | |
|---|---|
| | Mae darpariaeth flaenorol wedi cael ei thynnu'n ôl a dyw pethau heb newid nôl ers cv-19- h.y. Gofal plant ar ôl ysgol, sydd wedi achosi problem fawr a dwi wedi gorfod newid fy oriau gwaith a phatrwm gwaith i ddarparu ar gyfer hynny, ac erbyn hyn dwi'n dibynnu'n fawr ar deulu, sy'n golygu bod nhw'n methu gweithio.<br>Mae diffyg clybiau gwyliau hefyd wedi cael effaith ac nid yw gwyliau teuluol h.y. amser i ffwrdd o'r gwaith gyda'n gilydd yn bosib oherwydd bod rhaid i ni jyglo i reoli Gofal Plant. Gall hyn fod yn arbennig o anodd pan fydd cyflogwyr yn amharod i roi gwyliau ychwanegol neu'n ceisio bod yn deg i rannu gwyliau ymysg eu holl weithwyr. |
| | Dyw gwarchodwyr plant yn Aberteifi ddim yn gweithio ar ddydd Gwener fel arfer. Mae darpariaeth Gofal Plant (i ni) yn annibynadwy ar adegau, gyda'r gwarchodwr plant yn cymryd gwyliau yn ystod gwyliau ysgol |
| Aberystwyth – Gogledd | Mae myfyrwyr sy'n rhieni, er eu bod yn y lleiafrif, yn cael eu hanwybyddu'n gyson gan y prifysgolion a'r awdurdodau. Mae angen llawer mwy o gefnogaeth arnom ni, yn ariannol ac yn foesol. |
| Rheidol, Ystwyth a Charon | Bydden ni wedi hoffi gallu ticio rhywbeth a nodi rhiant sy'n aros gartref amser llawn yn hytrach na dim ond di-waith a ddim yn chwilio am waith. |
| | |

## ATODIAD 3 HOLIADUR AROLWG PLANT

**<u>Holiadur Plant 2022</u>**
**<u>Atebwch y cwestiynau yma am chwarae os gwelwch yn dda.</u>**
***<u>Children's Survey 2022</u>***
***<u>Please answer these questions about play.</u>***

1. **Beth yw dy oed di?**
   **How old are you?**

2. **Ble rwyt ti'n byw?**
   **Where do you live?**

3. **Pa mor aml rwyt ti'n chwarae/cwrdd gyda ffrindiau?**
   **How often do you play/meet with your friends?**

DRAFT

| | |
|---|---|
| Bob Dydd / Every Day | |
| 2 neu 4 gwaith yr wythnos<br>2 or 4 times a week | |
| Byth / Never | |

**4. Gyda phwy rwyt ti'n chwarae/cwrdd? (Dewis faint ti eisiau).**
**Who do you play with /meet? (Choose as many as you want).**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffrindiau<br>Friends | | Ar ben fy hun<br>On my own | |
| Teulu e.e. brodyr/chwiorydd<br>Family e.g. brothers/sisters | | Dwi ddim<br>I don't | |
| Oedolion<br>Adults | | | |

**5. Ble yw dy hoff le i chwarae/cwrdd?**
**Where is your favourite place to play/meet?**

| |
|---|
| Adref neu yn yr ardd / Home or garden |
| Stryd, stâd neu pentref / Street, estate or village |
| Ardal chwarae neu parc sglefrio / Play area or skate park |
| Coedwig, traeth neu caeau / Woods, beach or fields |
| Arall / Other |

**6. Os ti ddim yn chwarae tu allan, pam?**
**If you don't play out, why?**

**7. Beth wyt ti'n meddwl am rhain?**
**What do you think about these things?**

| | **Oes/y dw Yes** | **Weithiau / Sometimes** | **Na No** | **Dim yn gwybod / Don't know** |
|---|---|---|---|---|

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf lawer o lefydd da i chwarae a chwrdd ag eraill<br><br>I have lots of places good places to play and meeting others | | | | |
| Rwy'n teimlo'n ddiogel pan yn chwarae a chwrdd ag eraill<br><br>I feel safe when I'm playing and meeting others | | | | |

8. **Oes yna rhywbeth sy'n stopio ti chwarae tu allan?**
   **Is there anything that stops you from playing outside?**

9. **Ble rwyt ti'n mynd pan mae ysgol wedi gorffen?**
   **Where do you go when school is finished?**

| | |
|---|---|
| | Adref / Home |
| | Teulu e.e. Mamgu a Dadcu, anti ayyb. /<br>Family e.g. grandparents, auntie etc. |
| | Ffrindiau / Friends |
| | Clwb e.e. chwaraeon, cerdd ayyb.<br>Club e.g. sports, music etc. |
| | Gofal Plant e.e. Gwarchodwr Plant, Clwb ar ôl Ysgol ayyb<br>Childcare e.g. Childminder, Afterschool Club etc. |
| | Arall / Other |
| | |

10. **Sawl diwrnod?**
    **How many days?**

| | |
|---|---|
| | Bob Dydd / Every day |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Ambell Waith / Sometimes |

**11. Beth wyt ti'n meddwl o'r clwb/gweithgaredd/gofal plant rwyt yn mynd i?**
**What do you think of the club/activity/childcare you go to?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rwy'n ei hoffi<br>I like it | | Mae'n iawn<br>It's ok | |
| Dwi ddim yn ei hoffi<br>I don't like it | | Arall<br>Other | |

**12. A yw'r Coronafeirws (COVID-19) wedi newid beth ti'n gwneud a ble ti'n chwarae/cwrdd?**
**Has the Coronavirus (COVID-19) changed what you do and where you go to play/meet?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy / Yes | | Na / No | | Dim yn gwybod<br>Don't know | |


**13. Os ydy, sut?**
**If yes, how?**

**14. A oes unrhywbeth arall ti eisiau dweud? Diolch am dy help!**
**Is there anything else you would like to say? Thank you for your help!**

Gallwch e-bostio hwn yn ôl atom at gofalplant@ceredigion.gov.uk
(Gallwn dderbyn lluniau o bob tudalen sydd ynghlwm wrth eich e-bost)

You can email this back to us at gofalplant@ceredigion.gov.uk
(We can accept photos of each page attached to your email)

**Uned Gofal Plant /** Childcare Unit; **Cyngor Sir Ceredigion** County Council
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE



# Holiadur Plant 2022
# Children's Survey 2022

Atebwch y cwestiynau yma am chwarae os gwelwch yn dda.
Please answer these questions about play

When you submit this form, the owner will see your name and email address.

1. Faint yw dy oed di?
How old are you?

Enter your answer

2. Ble rwyt ti'n byw?
Where do you live?

Enter your answer

3. Pa mor aml rwyt ti'n chwarae/cwrdd gyda ffrindiau?
How often do you play/meet with your friends?

- Bob dydd/Every day
- 2-4 gwaith yr wythnos/2-4 times a week
- Byth/Never

4. Gyda phwy rwyt ti'n chwarae/cwrdd? (Dewis faint ti eisiau)
Who do you play with/meet? (Choose as many as you want)

- Ffrindiau/Friends
- Teulu e.e. brodyr/chwiorydd/Family e.g. brothers/sisters
- Oedolion/Adults
- Ar ben fy hun/On my own
- Dwi ddim/I don't

5. Ble yw dy hoff le i chwarae/cwrdd?
Where is your favourite place to play/meet?

- Adref neu yn yr ardd/Home or garden
- Stryd, stâd neu pentref/Street, estate or village
- Ardal chwarae neu parc sglefrio/Play area or skate park
- Coedwig, traeth neu caeau/Woods, beach or fields
- Other

6. Os ti ddim yn chwarae tu allan - pam?
If you don't play out - why?

Enter your answer

7. Beth wyt ti'n meddwl am rhain?
What do you think about these things?

| | Oes / Ydw / Yes | Weithiau / Sometimes | Na / No | Dim yn gwybod / Don't know |
|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf lawer o leoedd da i chwarae a chwrdd ag eraill/ I have lots of good places to play and meet others | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dwi'n teimlo'n ddiogel pan yn chwarae a chwrdd ag eraill/ I feel safe when I'm playing and meeting others | ○ | ○ | ○ | ○ |



8. Oes yna rhywbeth sy'n stopio ti chwarae tu allan?
Is there anything that stops you from playing outside?

Enter your answer

9. Ble rwyt ti'n mynd pan mae ysgol wedi gorffen?
Where do you go when school is finished?

- Adref/Home
- Teulu e.e. Mamgu a Dadcu, Anti ayyb./Family e.g. Grandparents, Aunts etc.
- Ffrindiau/Friends
- Clwb e.e. chwaraeon, cerdd ayyb./Club e.g. sport, music etc.
- Gofal Plant e.e. Gwarchodwr Plant, Clwb ar ôl Ysgol ayyb/Childcare e.g. Childminder, After School Club etc.
- Other

10. Sawl diwrnod?
How many days?

- Bob dydd/Every day
- Ambell waith/Sometimes

11. Beth wyt ti'n meddwl o'r clwb/gweithgaredd/gofal plant ar ôl ysgol rwyt ti'n mynd iddo?
What do you think of the after school club/activity/childcare you go to?

- Rwy'n ei hoffi/I like it
- Mae'n iawn/It's ok
- Dwi ddim yn ei hoffi/I don't like it
- Other

12. A yw'r coronafeirws (COVID-19) wedi newid beth ti'n gwneud a ble ti'n chwarae/cwrdd?
Has the coronavirus (COVID-19) changed what you do and where you go to play/meet?

- Ydy/Yes
- Nac ydy/No
- Dim yn gwybod/Don't know

13. Os ydy, sut?
If yes, how?

Enter your answer

14. A oes unrhyw beth arall ti eisiau dweud? Diolch am dy help!
Is there anything else you would like to say? Thank you for your help!

Enter your answer

Submit

| ATODIAD 4 | YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS |
|---|---|

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant i gyfarfod Pwyllgor Cydlynu a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion ddydd Mercher 2 Mawrth. Cytunwyd y gallai'r adroddiad drafft fynd i ymgynghoriad cyhoeddus ar ôl y cyfnod cyn-etholiadol.

Roedd yr Asesiad drafft ar gael ar wefan y awdurdod lleol am 28 diwrnod yn unol â'r cyngor yn y Canllaw ac fe'i dosbarthwyd yn eang i Ddarparwyr Gofal Plant a Rhanddeiliaid. Roedd holiadur ymgynghori ar gael i'w chwblhau ar Word ac yn electronig ar MS Forms.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a gwnaed dolennau i'r ymgynghoriad yn hysbys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yr Awdurdod Lleol unwaith yr wythnos.


Derbyniwyd 17 ymateb, gan gynnwys 8 rhiant/gofalwr; 5 darparwr Gofal Plant a 3 Rhanddeiliad (2 aelod o CWLWM)


| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant / Gofalwr | 8 | Darparwr Gofal Plant | 5 |
| Pennaeth | | Cyflogwr | |
| Person Ifanc | | Arall | |
| Rhanddeiliad (nodwch) | 3 | Preswylydd | 1 |
| • Blynyddoedd Cynnar Cymru | | | |
| • PACEY Cymru | | Ymatebodd 2 Ddarparwr Gofal Plant hefyd fel Rhieni/Gofalwyr | |
| • Dechrau'n Deg | | | |

Ar ôl ystyried yr ymatebion a'r mân newidiadau i'r asesiad drafft, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2022. Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Cabinet ei gymeradwyo ar 5 Gorffennaf 2022.

DRAFT

**Canlyniadau'r Ymgynghoriad:**








| **Unrhyw sylwadau pellach:** |
|---|
| *Ydw, gan ei fod yn tynnu sylw at yr angen am ddarpariaethau pellach o ran gofal plant. Mae yna broblem sylweddol o ran prinder gofal plant i blant o dan 2 flwydd oed, yn enwedig yn ardal Aberaeron/rhanbarthau arfordirol y sir lle mae tipyn llai o ddarparwyr nag yn Aberteifi, Aberystwyth a Llandysul.* |
| *Ychydig iawn o leoliadau sy'n cynnig gofal plant yn yr ardal lle'r wyf yn byw – Ciliau Aeron. Defnyddion ni xxxxx sy'n wych, ond rwy'n gweithio'n llawn amer a dim ond 4 diwrnod o ofal plant yr wythnos yr oedden nhw'n gallu eu cynnig. Yna bu'n rhaid i mi leihau fy oriau gwaith. Erbyn hyn mae fy mhlentyn yn mynd i ysgol gynradd Ciliau Aeron a does dim clwb brecwast, er y gallwn ni ollwng ein plentyn yno am 8.20am sy'n grêt ond does dim clwb ar ôl ysgol yn yr ysgol. Does dim clwb gwyliau chwaith. Mae hyn yn anodd iawn i rieni sy'n gweithio'n llawn amser.* |
| *Yn fwyaf pwysig mae lleoedd gofal plant yn gyfyngedig tu hwnt ac yn gymhleth, yn dibynnu ar wirfoddolwyr nad ydynt yn derbyn unrhyw hyfforddiant na iawndal. Hebddynt ni fyddai gennym unrhyw opsiynau o ran gofal plant.* |
| *Ar hyn o bryd rwy'n gweithio yng Ngheredigion fel nyrs gymunedol sy'n ymdrin ag iechyd plant. Rwy'n gobeithio hyfforddi i fod yn ymwelydd iechyd fis Medi yma ond rwyf wedi gorfod dewis rhwng gwneud cais am rôl hyfforddi ran amser neu roi'r gorau i'm swydd, gan fy mod wedi ei chael hi'n anhygoel o anodd i ddod o hyd i ofal plant llawn amser i'm plentyn sy'n 18 mis oed.* |

| | |
|---|---|
| | *Gadawodd ein gwarchodwr plant ym mis Ebrill a dim ond lle rhan amser y llwyddwyd i ddod o hyd iddo.  Roedd chwilio am warchodwr plant profiadol yn hynod o straenllyd.  Mae'r ardal cael problemau staffio o ran ymwelwyr iechyd a gwarchodwyr plant.  Os ydych chi eisiau cael gweithlu ifanc yn yr ardal, mae'n rhaid i chi ddarparu gofal plant digonol!!* |
| | *Ar hyn o bryd nid oes gan Giliau Aeron, Dihewyd a Felin fach ddarpariaethau gofal plant mewn ysgolion ac nid oes unrhyw ddarpariaethau gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol chwaith.  Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i rieni'r ardal sy'n gweithio.* |
| | *Diffyg gwybodaeth am y gofal plant am ddim sydd ar fin dod i fodolaeth i blant 2 oed.   Sut ydyn ni i fod i ddod o hyd i lefydd neu roi enwau i lawr pan nad oes gwybodaeth ar gael pryd y bydd hyn yn dechrau.  Does dim gofal plant yn fy mhentref ac mae'r meithrinfeydd a'r gwarchodwyr plant lleol i gyd yn llawn.* |
| | *Mae gofal plant yn ddrud i rieni ond nid yw staff gofal plant yn cael eu talu ddigon nac yn cael eu cydnabod yn ddigonol.  Does dim digon o ofal plant mewn rhai lleoedd neu ar adegau y tu allan i 'oriau swyddfa arferol', ond nid oes digon o alw am ofal plant i wneud y ddarpariaeth hon yn gynaliadwy.  Mae'n rhyfeddol bod gennym yr ystod hwn o ofal plant o ansawdd da, er nad yw'n ddigonol.* |
| | *Mae PACEY Cymru yn croesawu'r gydnabyddiaeth ar dudalen 63 sy'n nodi pa mor bwysig yw codi proffil statws proffesiynol darparwyr gofal plant gyda phartneriaid, megis timau gofal cymdeithasol.  Os gallwn gynorthwyo yn hyn o beth, rhowch wybod i ni.  Yn ychwanegol at waith gweinyddol, mae'r holl hyfforddiant yn cael ei gwblhau y tu allan i oriau gofal plant.  Felly, mae mynediad at hyfforddiant y tu allan i oriau ysgol yn arbennig o bwysig i warchodwyr plant cofrestredig a lleoliadau bach sy'n debygol o wynebu heriau tebyg o orfod cwblhau hyfforddiant a gwaith gweinyddol y tu allan i'w horiau gweithredu.*<br><br>*Un o'r camau gweithredu ar dudalen 68 yw "sicrhau bod unrhyw brosiectau datblygu ysgol yn cynnwys darpariaeth Gofal Plant gofleidiol (Clwb Ar Ôl Ysgol, Clwb Gwyliau a Chylch Meithrin/Cylch Chwarae) yn fuan yn y cam cynllunio ac yn cysylltu â'r Uned Gofal Plant (neu'r hyn sy'n cyfateb iddi) er mwyn sicrhau bod pob darpariaeth o'r fath yn addas".   Byddai PACEY Cymru yn awgrymu y dylai hwn hefyd gynnwys cyfeiriad at asesiad lleol o safbwynt y ddarpariaeth,  er mwyn sicrhau nad yw cynlluniau o'r fath yn disodli darpariaeth sy'n bodoli eisoes ac yn cael effaith andwyol ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal plant a dewis rhieni o ran lleoedd gofal plant.  Mae'n gadarnhaol nodi bod man arall yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, lle cydnabyddir pa mor bwysig yw osgoi disodli darpariaeth gofal plant bresennol.* |

DRAFT

Ydych chi'n credu bod yr asesiad yn adlewyrchu'r rhwystrau i Ofal Plant sydd efallai'n rhwystro rhieni/gofalwyr rhag cael mynediad i waith/hyfforddiant/addysg?





| Unrhyw sylwadau pellach: / Any further comments: |
| --- |
| *Rwy'n gyflogedig ac yn disgwyl fy ail blentyn.  Rwy'n ceisio dod o hyd i le gofal plant erbyn yr adeg pan fydd y babi yn flwydd oed.  Rwy'n cael trafferth dod o hyd i unhyw le gofal plant er fy mod yn gwneud ymholiadau dros flwyddyn o flaen llaw.  Mae hyn yn amlygu'r angen am gynnydd sylweddol mewn darpariaeth gofal plant a hynny ar frys.* |
| *Mae hi'n bwysig bod digon o ddarparwyr/staff Cymraeg ar gael ar gyfer rhieni sy'n gweithio.  Mae hwn yn rhwystr arall posibl y gellir anghofio amdano ond mae'n angenrheidiol er mwyn cadw diwylliant gyfoethog ein sir ac annog pobl i aros a byw yn eu hardal leol yn hytrach na symud i ffwrdd i gael cyfleoedd eraill.  Mae angen i'r mater hwn fod yn flaenoriaeth.* |
| *Mae llawer o'r rhwystrau, megis cost, lleoliad ac agosrwydd at waith/cartref, dewis iaith a phwysau'r gweithlu sy'n sail i'r rhwystrau i gael mwy o gapasiti, yn gyffredin ledled Cymru.  Mae pob rhanddeiliad yn y sector yn ymwybodol o'r rhain ac felly nid yw'r heriau yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yr adroddir amdanynt gan Geredigion yn peri syndod.* |
| *Mae gofal plant yn gymhleth ac yn peri gofid i lawer o deuluoedd.  Mae'n anodd cael gwybodaeth berthnasol sy'n addas i unigolion, gan fod y gwasanaeth mor wahanol ledled Cymru a hefyd yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r sir.<br>Mae'n rhaid bod ffordd gyson o wneud hyn i'w gwneud hi'n haws i rieni.* |


*Oherwydd natur wledig Ceredigon, mae PACEY Cymru'n teimlo bod gan y broses o recriwtio gwarchodwyr plant ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o fynd i'r afael â'r angen am ofal plant mewn cymunedau sy'n lleol i deuluoedd, yn arbennig mewn ardaloedd lle nad oes poblogaeth ddigonol fyddai'n galluogi lleoliad mwy i fod yn gynaliadwy yn ariannol.*


*Fel trysorydd Cylch Meithrin, ni allwn gytuno'n fwy gyda'ch argymhellion parthed trefniant elusennol, hen ffasiwn y Cylchoedd. Mae angen diwygio hwn fel mater o flaenoriaeth – rydym yn cael anhawster mawr i gael aelodau i'r pwyllgor ac mae wedi'i drefnu fel pe bai'n rhyw fath o gylch chwarae, felly pan fo pobl yn gwirfoddoli maent yn credu eu bod yn gwirfoddoli i bobi cacennau neu drefnu taith gerdded i godi arian. Yr hyn sydd gennych mewn gwirionedd yw arfarniadau Adnoddau Dynol, biliau i'w llunio, cyfrifon, archwiliadau ayb. Mae'n dir peryglus iawn – heb unrhyw hyfforddiant yn y pynciau hyn rwy'n rhedeg busnes ar fy mhen fy hun, i bob pwrpas, gyda throsiant o dros £60,000 i £70,000 ac 8 aelod o staff. Mae gymaint o bethau a allai fynd o'i le, mae'n codi ofn arnaf. Nid wyf yn deall pam nad yw Mudiad Meithrin yn canoli'r elfennau Adnoddau Dynol, Archwilio a Chyllid a gadael y codi arian i'r pwyllgorau, oherwydd ar hyn o bryd, maen nhw'n disgwyl i bobl redeg busnes mawr heb unrhyw brofiad ac yna newid drosodd unwaith y flwyddyn fel nad oes dilyniant. Nid grwpiau chwarae yw'r Cylchoedd hyn erbyn hyn, maen nhw'n feithrinfeydd y mae pobl yn dibynnu arynynt er mwyn mynd i weithio. Felly, pan fo diwrnod Dewi a Doti yn cael ei drefnu ac mae pob Cylch yn cau er mwyn mynd i'r digwyddiad hwn, mae yna nifer o deuluoedd a phlant nad ydynt yn gallu mynd iddynt na chwaith yn gallu mynd i'r gwaith. Mae'r cyfan yn gawl llwyr. Ar wahân i gylchlythyr misol a phresenoldeb un ohonynt yn ein Cyfarfod Blynyddol, nid wyf yn gwybod beth ar y ddaear y maent yn ei wneud. Rwyf wedi ystyried ysgrifennu'r cyfan hyn mewn llythyr ffurfiol o ryw fath ond nid wyf wedi gwneud hynny hyd yma. Rwy'n hapus i helpu i ddiwygio'r system ym mha bynnag ffordd y gallaf, gan fy mod yn teimlo'n gryf iawn bod y staff druain yn derbyn cyflogau rhy isel, nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi fel y dylent ac maent yn wynebu bygythiad cyson eu bod yn mynd i golli eu swyddi os nad oes modd ffurfio pwyllgor. Yna, maent yn gorfod gweld pwyllgor newydd yn ceisio bracso'i ffordd heb ddim neu ond ychydig o gymorth."*


I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r **Meysydd a'r Themâu a Nodwyd?**


DRAFT



Cynnal a Gwella'r Ddarpariaeth
Rwy'n cytuno
Rwy'n anghytuno
Nid oes gennyf farn benodol
0 2 4 6 8 10 12 14



Recriwtio
Rwy'n cytuno
Rwy'n anghytuno
Nid oes gennyf farn benodol
0 2 4 6 8 10 12 14 16


Economi / Cynaliadwyedd
Rwy'n cytuno
Rwy'n anghytuno
Nid oes gennyf farn benodol
0 2 4 6 8 10 12 14


Tai
Rwy'n cytuno
Rwy'n anghytuno
Nid oes gennyf farn benodol
0 1 2 3 4 5 6 7 8 9




*Pe bai'r cofrestru'n llai cymhleth er mwyn galluogi gwasanaethau anghofrestredig i gael mynediad at gymorth ariannol i deuluoedd, byddai PACEY Cymru yn poeni y byddai'n peryglu ansawdd y ddarpariaeth. Mae'n bwysig ystyried a fyddai'r dull*

| |
|---|
| *hwn yn ogystal â sefydlu darpariaeth wyliau mewn canolfannau hamdden yn disodli'r ddarpariaeth bresennol ac yn lleihau'r nifer o lefydd gofal plant cofrestredig fyddai ar gael drwy gydol y flwyddyn.* |
| *Byddai'n fuddiol hefyd pe bai cyfeiriad yn eich gwaith at godi proffil y cyfleoedd gyrfa yn y sector gofal plant. O safbwynt y sylw ar Cwlwm, noder bod gwaith Cwlwm ar lefel strategol. Bydd gwaith partneriaeth pob rhanddeiliad yn bwysig i gefnogi recriwtio i'r sector, er enghraifft drwy'r gwaith cenedlaethol sy'n archwilio recriwtio a chadw. Mae'r gwaith hwn yn digwydd ar hyn o bryd ac yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru ac yn gysylltiedig â'r ymgyrch #GofalwnCymru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.* |

| **Ydych chi'n credu y gallwch chi ein helpu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y themâu a nodwyd? Esboniwch/Ymhelaethwch yma:** |
|---|
| *Nid wyf yn credu y bydd rhaniad Gogledd/De yn cynnig darlun cywir o'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael o fewn cyrraedd e.e. rwy'n byw yn Aberaeron ac os mai dim ond yn Aberystwyth y byddai gofal plant neu hyd yn oed pe bai ar gael yn Llambed (mae llai o ddarpariaeth ar gael yno bellach), mae'n amhosibl mynd â phlentyn blwydd oed i Aberystwyth a bod yn ôl mewn pryd i fynd â'r plant eraill i'r ysgol yn Ysgol Gynradd Aberaeron. Mae'n hollol anymarferol i rieni sy'n gweithio. Prin iawn yw'r ddarpariaeth yng nghanol y sir i blant o dan ddwy flwydd oed, yn enwedig yn ardal Aberaeron – Ceinewydd mewn lleoliad Gofal Dydd.* |
| *Rydym yn cytuno bod Llywodraeth Cymru a'r adolygiad Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnig cyfle i'r sector fynd i'r afael â'r effaith y mae darpariaeth anghofrestredig yn ei chael ar y sector. Drwy ein cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda Llywodraeth Cymru, rydym yn gallu estyn cymorth yn wyneb pryderon cyffredin a ddaw o du'r Awdurdod Lleol ynghylch yr heriau sy'n wynebu darpariaeth gofrestredig pan fo darparwyr anghofrestredig yn cynnig darpariaethau amgen (sydd yn aml yn rhatach) yn yr ardal.*<br><br>*Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn gallu cynnal yr heriau sy'n bodoli o gwmpas darparwyr sydd wedi'u rheoli'n wirfoddol. Drwy ein gwaith, rydym yn gallu darparu ac yn darparu hyfforddiant i bwyllgorau gwirfoddol ac mae gennym hanes o gyflawni cefnogaeth effeithiol i leoliadau drwy'r broses Sefydliadau Corfforedig Elusennol. Mae meddu ar bolisïau cydnerth, strwythurau a disgrifiadau rôl yn galluogi pwyllgorau sy'n cael eu rheoli'n wirfoddol i redeg darpariaeth gofal plant fforddiadwy ac sy'n ymateb i ofynion lleol, mewn ardaloedd lle byddai grymoedd y farchnad yn golygu na fyddai darparwr corfforaethol yn cael ymroi i ofal plant ac mae gennym lawer o esiamplau sy'n tystio bod hyn yn gweithio'n effeithiol.*<br><br>*Fel sefydliad ambarél, ni fyddai gennym y cyllid ar hyn o bryd na'r capasiti chwaith i reoli lleoliadau unigol neu glystyrau o leoliadau mewn unrhyw Awdurdod Lleol. Pe bai hyn yn digwydd, byddai angen newid sylweddol yn y cyllido a'r allbynnau gwaith i'n staff lleol; gyda chyfrifoldebau cyfreithiol a chyfrifoldebau cyflogaeth ar gyfer y staff yn y lleoliadau yn newid. Blynyddoedd Cynnar Cymru ac nid y sefydliad presennol fyddai'r corff fyddai'n goruchwylio'r cyfrifoldebau cyfreithiol a'r cyfrifoldebau cyflogaeth. Byddai hyn yn cynnwys ystyriaethau megis Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (TUPE), adolygu cyfraddau tâl a thelerau ac amodau ayb. Ein cylch gwaith presennol yw cefnogi ac arwain lleoliadau gyda'u dulliau eu hunain o weithio a* |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | *hyrwyddo'r arfer orau mewn pwyllgorau gwirfoddol; nid gwneud gwaith y cyrff hyn. Os oes diddordeb gan Geredigion i ddilyn yr opsiwn hwn, byddai angen sgwrs strategol a byddai angen cael achos busnes er mwyn rheoli'r llwyth gwaith a bodloni ein Bwrdd Ymddiriedolwyr fod hyn yn gynaliadwy a bod modd ei weithredu.* |
| | *Fel y nodwyd uchod, byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i ystyried sut y gallwn weithio mewn partneriaeth â chi ar nifer o'r pwyntiau uchod. Rydym yn awyddus i weithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi cynaliadwyedd gofal plant yn y cartref a sicrhau nad yw cynlluniau ehangach o fewn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael effaith negyddol ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol. Rydym yn awyddus hefyd i gefnogi recriwtio i'r sector, fel y nodwyd uchod drwy weithio mewn partneriaeth i hybu gyrfaoedd ym maes gwarchod plant.* |
| | *Rwy'n awyddus i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ac yn gobeithio y gallwn wella ar rai o'r pethau hyn. Mae'n amserol i wneud newidiadau yn enwedig o gofio bod y broses o ariannu plant 2-3 blwydd oed yn ehangu ac ers pandemig Covid, mae nifer o heriau newydd wedi codi e.e. prinder staff ayb.* |

DRAFT

# CYNLLUN GWEITHREDU 2022 – 2027

| Maes | Thema | Cam Gweithredu | Llinell Amser | Cyfrifoldeb | Adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnal/Gwella Darpariaeth** | Elfen hanfodol yn y dasg o fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yw cynnal y ddarpariaeth Gofal Plant gofrestredig bresennol sy'n cael ei rheoli a'i staffio gan ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol<br><br>Mae angen gwneud gwaith pellach gan ymchwilio i'r potensial o gynyddu capasiti rhai o'r darparwyr presennol yn hytrach na chreu darpariaeth newydd<br>Nodwyd diffyg lleoedd gofal plant mewn ardaloedd penodol yn y sir. Mae angen i'r Awdurdod Lleol weithio gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â'r galw am ofal plant yn yr ardaloedd hyn | Monitro'r nifer o leoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael yn y sir.<br>• Nifer y lleoedd gofal plant gyda'i gilydd<br>• Nifer y lleoedd gofal diwrnod llawn<br>• Nifer y lleoedd gofal sesiynol<br>• Nifer y lleoedd gofal allan o'r ysgol<br>• Nifer y lleoedd gwarchod plant | Yn dymhorol | Yr Uned Gofal Plant | Grant Plant a Chymunedau a Chyllideb Graidd |
| | | Monitro'r gostyngiad yn y lleoedd cofrestredig a'r rheswm dros y gostyngiad. | Yn dymhorol | | |
| | | Ymchwilio i'r potensial sydd i ddarparwyr presennol gynyddu capasiti - Ffrindiau Bach yr Eos, Clwb Cywion Twts ac Adar Aeron, Cylch Meithrin Tregaron, Camau Bach. | Medi 2024 | Swyddogion Datblygu'r Mudiad Meithrin (o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) | Grant chwarae |
| | | Cylch Meithrin Nawmor (Cenarth) i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. | Medi 2022 | Mudiad Meithrin / CLG Dechrau'n Deg | Angen cyllid i gynnig grantiau cychwynnol |
| | | Ffrindiau Bach yr Eos a Ffrindiau Bach yr Enfys i agor Clybiau Ar Ôl Ysgol i blant 3-11 oed. | Medi 2022 | Uned Gofal Plant/ Addysg | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Anelu at gael pob ysgol 3-11 a 3-19 i gynnwys darpariaeth gofleidiol o fewn eu seilwaith (gan gynnwys lle ar gyfer darpariaeth i blant 2 flwydd oed)<br><br>• Ysgol Bro Teifi i ailagor ei darpariaeth y tu allan i oriau ysgol.<br>• Ysgol Dyffryn Aeron i sicrhau darpariaeth i blant 2 i 4 oed a darapriaeth ar ôl ysgol. .<br><br>Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth Gofal Dydd Sesiynol ar gyfer plant 2-3 oed heb effeithio ar y ddau Ddaraprwr Gofal Diwrnod Llawn a'r Gwarchodwyr Plant yn Llanbedr Pont Steffan.<br>Ymchwil pellach i anghenion Gofal Plant teuluoedd sy'n byw yng nghymuned Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad.<br><br>Mae angen datblygu darpariaeth gofal diwrnod llawn yng nghanol a de'r sir.<br><br>Mae angen grantiau cychwyn yn symbyliad i annog darparwyr newydd i agor cyfleusterau gofal plant yn enwedig mewn ardaloedd a nodwyd yn rhan o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. | Ionawr 2023<br><br>Medi 2024<br><br>2027<br><br>2027<br><br>2027 | Uned Gofal Plant | Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru<br><br>Grantiau Plant a Chymunedau Busnesau Preifat<br><br>Grantiau Cyfalaf Llywodraeth Cymru |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Panel Datblygu Asedau** sy'n trafod y defnydd o asedau'r cyngor ac sydd yn gyffredinol yn awyddus i gefnogi mentrau cymunedol e.e rhandiroedd – gallai'r panel ystyried defnyddio'r hen ysgol ar gyfer busnesau gofal plant.<br><br>Bydd partneriaid yr Awdurdod Lleol yn ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i nodi sut y gall llais a phrofiadau bywyd pobl yn y cymunedau hyn gael eu cipio'n well fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei gynnal. | 2023<br><br>2025 | | |
| | Mae angen gwneud gwaith pellach i archwilio ymatebion i arolygon ar restrau aros a llefydd sydd ar gael, gan fod yr ymateb sampl yn yr arolwg hwn yn rhy fach i ddod i gasgliadau. Sefydlu methodoleg i fonitro rhestrau aros ac argaeledd lle fesul math o ofal plant, gan wneud y cysylltiad ag unrhyw wybodaeth am ddatblygiad tai arfaethedig. | Swyddogion Datblygu i gyflwyno monitro capasiti fel rhan o'r ymweliadau/cysylltiadau tymhorol gyda darparwyr.<br><br>Monitro'r nifer o leoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael yn y sir fesul **Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** – **wedi'u defnyddio/wedi'u llenwi/rhestr aros ar gyfer dechrau'n syth**.<br>• Nifer y lleoedd gofal plant gyda'i gilydd<br>• Nifer y lleoedd gofal diwrnod llawn<br>• Nifer y lleoedd gofal sesiynol<br>• Nifer y lleoedd gofal y tu allan i oriau ysgol | Medi 2022<br><br>Tymhorol | Uned Gofal Plant – Swyddogion Datblygu<br><br>Swyddogion Datblygu'r Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru (o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth) | Grant Plant a Chymunedau a Chyllideb Graidd |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Nifer y lleoedd gwarchod plant a **nifer y dyddiau gweithredol fesul wythnos** | | | |
| | Bydd angen i'r Awdurdod Lleol a Phartneriaid CWLWM dalu sylw i adolygiad Llywodraeth Cymru ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae angen i'r adolygiad ystyried yr effaith y mae'r ddarpariaeth anghofrestredig yn ei chael ar y ddarpariaeth gofal dydd gofrestredig.<br><br>Nid yw rhieni yn gallu hawlio cymorth ariannol tuag at y ddarpariaeth anghofrestredig. Mae angen i Lywodraeth Cymru/Arolygiaeth Gofal Cymru ystyried proses gofrestru ysgafnach ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth, a fyddai'n caniatáu i rieni gael mynediad at gymorth ariannol.<br><br>Ymchwilio i'r posibilrwydd o beilota clwb gwyliau cofrestredig o fewn canolfan hamdden mewn ardal lle mae galw. Byddai hynny'n caniatáu i rieni wneud cais am gymorth ariannol ar gyfer darpariaeth gwyliau ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni lefel o ddisgwyliad o fewn y gwasanaeth. | Partneriaid yr Awdurdod Lleol a CWLWM i ddarparu adborth i adolygiad Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Llywodraeth Cymru.<br><br>Partneriaid yr Awdurdod Lleol a CWLWM i weithio gyda Llywodraeth Cymru i greu cynllun gweithredu yn dilyn adolygiad Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.<br><br>Cael eglurhad ynglŷn â gallu lleoliadau addysg yng Nghymru i gael mynediad at gymorth gofal plant di-dreth gyda'n darparwyr anghofrestredig.<br><br>Ymchwilio i'r posibilrwydd o gofrestru darpariaeth wyliau a gynhelir gan Ganolfan Hamdden gydag Arolygiaeth Gofal Cymru – (1 clwb o bosibl – Plascrug). | 2022/23<br><br>2022/23<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>2026 | Uned Gofal Plant<br><br>Childcare Wales Learning and Working Mutually (CWLWM)<br><br>Swyddogion Chwarae<br><br>Rheolwr Corfforaethol – Canolfan Lles Y Porth | Grant Plant a Chymunedau a Chyllideb Graidd<br><br>Grant chwarae |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae llawer o ddarparwyr gofal plant wedi gweithredu o dan fodel y Pwyllgor Gwirfoddol ers degawdau.<br><br>Fodd bynnag, mae'r galw sy'n codi yn sgil rheoliadau cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf a gofynion Estyn ar gyfer y sawl sy'n darparu addysg i blant 3 oed a rheolaeth fusnes wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn ac mae angen ystyried a yw'r model yn addas i'r diben, gan eu bod bellach yn fusnesau/mentrau cymdeithasol. Gorddibyniaeth ar ddarpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan y Pwyllgor Gwirfoddol. Mae potensial i Sefydliadau Ambarél Gofal Plant ystyried cymryd rhai cyfrifoldebau oddi ar y lleoliadau.<br><br>Mae angen gweithio gyda Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynllun peilot i gael strwythur cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. | Swyddogion Datblygu i ddarparu cyngor Gwiriadau Iechyd Busnes i ddarparwyr er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynaliadwy.<br><br>Swyddogion Datblygu i gefnogi darparwyr i gael mynediad at gyfleoedd **arian grant ychwanegol** yn ogystal â Grantiau Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cymru.<br><br>Llywodraeth Leol, CWLWM a Busnes Cymru i gyflwyno cynhadledd ar gymorth busnes, rheoli cyllid, recriwtio ayb.<br><br>Partneriaid CWLWM i ymchwilio i strwythur newydd i redeg darpariaeth gofal plant – mae pwyllgorau a gynhelir yn wirfoddol yn dod yn fwy bregus wrth i'r pwysau gynyddu.<br><br>Sicrhau bod 100% o leoliadau Gofal Sesiynol yn dod yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol (SCE) o fewn 5 mlynedd.<br><br>Cefnogi dau Glwb y tu allan i Oriau Ysgol er mwyn cael pwyllgor llywodraethiant a rheolaeth cadarn (SCE) sy'n lleihau'r baich ar aelodau'r pwyllgor. | Tymhorol<br><br>Tymhorol<br><br>2025<br><br>2027<br><br>2026<br><br>2023 | Uned Gofal Plant<br><br>Swyddogion Datblygu'r Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru (o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth)<br><br>CWLWM a Busnes Cymru<br><br>Swyddogion Datblygu'r Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru (o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth)<br><br>Swyddog Datblygu yr | Grant Plant a Chymunedau a Chyllideb Graidd<br><br>Grant CWLWM Llywodraeth Cymru |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Uned Gofal Plant | |
| | Mae angen i'r Awdurdod Lleol gynllunio a chefnogi gofal plant digonol, er mwyn bodloni'r galw am ymestyn cynllun Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru i blant 2 oed. | Yr Awdurdod Lleol i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y gwaith o weithredu'r cynllun Gofal Plant a ariennir ar gyfer plant 2 flwydd oed ledled Cymru.<br><br>Ymchwilio i gyfleoedd posibl o ran arian grant cyfalaf yn unol ag ehangu'r Cynnig Gofal Plant neu arian ar gyfer plant 2 flwydd oed. | 2022 (Cam 1)<br>2023 (Cam 2)<br><br>2023 | Dechrau'n Deg /<br><br>Cymorth i Ofalwyr Gydol Oes a Chymorth Cymunedol<br><br>Addysg | Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru |
| | Oherwydd natur wledig Ceredigion, mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu'r nifer o warchodwyr plant sydd ar gael yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol y sir. | Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i ariannu'r hyfforddiant sy'n cynnig **Cyflwyniad i Ofal yn y Cartref** a **phecynnau Ansawdd wrth Ddechrau** ar gyfer gwarchodwyr plant sy'n dechrau ar y gwaith.<br><br>Nifer y gwarchodwyr plant sy'n dilyn y cymhwyster Gofal yn y Cartref<br><br>Nifer yr unigolion sy'n cwblhau'r hyfforddiant ac sy'n mynd ati i gofrestru'n warchodwyr plant.<br><br>Hyrwyddo'r cynllun nani – Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Arolygiaeth Gofal Cymru) | Blynyddol<br><br>Blynyddol<br><br>Blynyddol<br><br>Blynyddol | PACEY Cymru<br><br>Uned Gofal Plant – Swyddog Datblygu | Cyllideb Graidd<br><br>Cyllid Ychwanegol y mae ei angen ar gyfer targedau Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol |
| | | Cyfrannu at ymgyngoriadau ac adolygiadau Diwygio Ysgolion Llywodraeth Cymru a rhoi unrhyw gamau gweithredu ar waith. | Rhagfyr 2022 | Addysg<br><br>Uned Gofal Plant | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Monitro gwerthusiad y cynllun peilot mewn 14 ysgol yng Nghymru. | Rhagfyr 2022 | | |
| **Recriwtio** | Mae wedi dod i'r amlwg bod materion recriwtio a chadw yn faterion sy'n peri pryder mawr o fewn y sector. Mae angen i'r Awdurdod Lleol weithio gyda phartneriaid megis CWLWM, Gofal Cymdeithasol Cymru, colegau ac ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i weithio o fewn maes Gofal Plant.<br><br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r cyfleoedd o gynyddu statws a chyflogau'r Gweithlu Gofal Plant. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn archwilio ansawdd y gofal i blant, ond mae angen rhoi sylw i ansawdd tâl ac amodau gwaith y gweithlu Gofal Plant.<br><br>Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i sicrhau bod y gweithlu gofal plant lleol yn dal i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi gorfodol priodol sydd wedi'u sybsideiddio, er mwyn cyflawni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Mae angen gwneud gwaith yn genedlaethol i edrych ar hyblygrwydd o ran cymwysterau ac iaith cyrsiau – mae angen gwneud mwy i alluogi myfyrwyr i gyflawni'r gwaith | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i statws uwch a chyfleoedd tâl i'r Gweithlu Gofal Plant.<br><br>Sefydlu grŵp gorchwyl Cyflogaeth mewn Gofal Plant a Dysgu i gynnwys Gwasanaethau Cyflogaeth a Hyfforddiant - Gwasanaethau Ysgolion, Coleg Addysg Bellach i sicrhau bod llwybr addas ar gael yng Ngheredigion i weithio ym maes gofal plant a chwarae.<br><br>Mae angen gwaith yn genedlaethol i edrych ar yr hyblygrwydd o amgylch cymwysterau ac iaith y cwrs<br><br>Monitro faint sy'n dilyn cyrsiau hyfforddi gofal plant a chwarae a ddarperir yng Ngheredigion.<br><br>Datblygu rhaglen barhaus o gyfleoedd hyrwyddo er mwyn hyrwyddo gyrfa mewn gofal plant – gan gynnwys:<br>• Nifer y digwyddiadau a fynychwyd<br>• Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• Defnyddio deunydd hysbysebu Gofal Cymdeithasol Cymru | 2023<br><br>2023<br><br>2024<br><br>2024<br><br>Tymhorol | Llywodraeth Cymru<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>CWLWM<br><br>Uned Gofal Plant<br><br>Coleg Ceredigion / Hyfforddiant Ceredigion<br><br>Uned Gofal Plant<br><br>Addysg | Cyllideb digwyddiadau<br><br>Mae angen mwy o arian er mwyn sicrhau |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ysgrifenedig yn y Saesneg ond y gwaith llafar yn y Gymraeg.<br><br>Mae gorfod nodi a yw myfyrwyr yn dilyn y cwrs yn y Saesneg neu'r Gymraeg yn peri nad yw unigolion am y cyfle i astudio yn y Gymraeg. | Gweithio gyda Chymunedau am Waith a Mwy a rhaglenni cyflogadwyedd er mwyn alinio'r cyfleoedd am swyddi a'r hyfforddiant a'r cyngor.<br><br>Sicrhau bod mewnbwn yn cael ei ddarparu i'r adolygiad addysg ôl-16 er mwyn amlygu materion sy'n ymwneud â chymwysterau.<br><br>Parhau i sicrhau bod rhaglen o gyfleoedd hyfforddiant fel bod rhaglen o gyfleoedd ar gael ar gyfer y sector i gael mynediad at gyrsiau gorfodol a chyrsiau datlbygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Cynnwys hyfforddiant neu gamau gweithredu fel y'u hamlinellir gan Lywodraeth Cymru yn y [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol \| LLYW.CYMRU] Cyhoeddwyd ar 07.06.2022 (Targed Rhagfyr 2022), ac unrhyw Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu o eiddo Llywodraeth Cymru e.e Cynllun Gweithredu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar<br><br>Cynnal Archwiliad o Gymwysterau Staff<br><br>Monitro Cymwysterau Chwarae yn y Sector y Tu Allan i Oriau Ysgol – sicrhau bod pob Clwb Ar ôl Ysgol yn | Tymhorol<br><br>2023<br><br>Tymhorol<br><br>2025<br><br>Mawrth 2023<br><br>Mawrth 2023 | Uned Gofal Plant<br><br>Uned Datblygu Gofal Plant a Swyddogion Datblygu Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru (o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth) | bod hyfforddiant ar gael i ddiwallu gofynion newydd Llywodraeth Cymru. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gallu diwallu'r anghenion newydd o fis Medi 2022 ymlaen. | | | |
| | Sicrhau bod CWLWM yn rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau Yr Asiantaeth Cynnal Plant ac yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi'r sector. | Sicrhau bod Swyddogion Datblygu CWLWM yn nodi cafnyddiadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac yn gweithio gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol i gefnogi'r sector gyda chamau gweithredu 'gwerth ychwanegol' drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.<br><br>Sicrhau nad oes dyblygu o ran arian Llywodraeth Cymru ac arian Cyngor Sir Ceredigion yn y gwaith o gyflawni a rhoi'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith ac adrodd amdano.<br><br>Adolygu a diweddaru targedau a chamau gweithredu'r adroddiad chwarterol | Blynyddol<br><br>Blynyddol<br><br>Blynyddol | Uned Gofal Plant a Swyddogion Datblygu'r Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru (o fewn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) | Grant Plant a Chymudedau a Chyllideb Graidd CCG |
| | Ymwelwyr Iechyd – Mae heriau recriwtio o fewn y sector Ymwelwyr Iechyd yn risg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Dechrau'n Deg ac fe'i nodwyd yn ffactor risg sylweddol o ran cyflwyno'r Rhaglen Plentyn Iach yng Nghymru. Adroddwyd ar hyn o fewn mecanwaith adrodd Grant Plant a Chymunedau. Mae'n effeithio hefyd ar y sector Gofal Plant lle mae'n rhaid i staff adnabod materion a mynd i'r afael â materion nas adnabuwyd cyn hyn yn sgil prinder ymweliadau gan Ymwelwyr Iechyd. | Gweithio gyda Chydlynydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd â'r awgrym i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:<br>Mae Prifysgol Aberystwyth yn lansio gradd mewn nysio ac yn gofyn am ymchwilio'r opsiwn o ddatblygu cymhwyster Ymwelydd Iechyd er mwyn cadw'r dysgwyr sy'n mynd ar leoliad yng Ngheredigion wrth iddynt astudio yn Aberystwyth.<br><br>Cefnogi'r ymgyrch recriwtio rhwng yr Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol (a | 2024<br><br>2024 | Uned Gofal Plant – i Gydlynydd y Bwrdd Partneriaethau Cyhoeddus | Amser y swyddogion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Darganfod Cymru) i hybu gyrfa fel Ymwelydd Iechyd. [Gweithio i ni – Bwrdd Iechyd Prifysgol (gig.cymru)]<br><br>Sicrhau bod staff/ymarferwyr yn gwybod i ble i gyfeirio unrhyw bryderon ynghylch datblygiad plentyn i staff allweddol. | <br><br><br>Blynyddol | <br>Dechrau'n Deg | |
| **Economi/ Cynaliadwyedd** | Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i roi sylw gofalus i fonitro effaith y pandemig ar yr holl ddarparwyr gofal plant ac mae angen rhoi cymorth priodol ar waith i gynnal cynaliadwyedd y ddarpariaeth.<br><br>Mae angen i Strategaeth Economaidd yr Awdurdod Lleol roi ystyriaeth i'r effaith sydd gan y ddarpariaeth Gofal Plant ar y gweithlu.<br><br>Mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod cymorth priodol i ddarpariaeth gofal plant er mwyn galluogi rhieni i gael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, sydd yn eu tro yn cyfrannu at yr economi leol. | Strategaeth Economaidd Awdurdod Lleol Ceredigion i ystyried yr effaith y mae prinder darpariaeth gofal plant yn ei chael ar yr economi leol.<br><br>Sicrhau bod prosiectau datblygu Tyfu Canolbarth Cymru yn cynnwys darpariaeth Gofal Plant a Chwarae yn eu hasesiadau effaith a'u datblygiadau.<br><br>Mae amcanion Tyfu Canolbarth Cymru yn edrych ar ffyrdd o gefnogi cyflogau sylfaenol yr economi – mae angen sicrhau bod hyn yn cynnwys ymarferwyr gofal plant<br><br>Codi proffil gofal plant fel rhan o waith economi dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a phrosiectau Tyfu Canolbarth Cymru -– ychwanegu'r Uned Gofal Plant fel ymgynghorai o ran cynllunio Rheoli Datblygiad<br><br>Gwneud cais bod y Gwasanaethau Economi ac Adfywio e.e. y gwasanaethau cynllunio ac eiddo yn ystyried materion eiddo a seilwaith, | 2023<br><br><br><br><br>2023<br><br><br><br><br>2023<br><br><br><br><br><br>2022<br><br><br><br><br><br><br>2023 | Gwasanaethau Economaidd a Datblygu Cymunedol<br><br>Tyfu Canolbarth Cymru<br><br>Tyfu Canolbarth Cymru<br><br><br><br>Addysg / Tîm Economi ac Adfywio, Gwasanaethau Cynllunio | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | taliadau a cheisiadau lleoliadau Gofal Plant o dan amgylchiadau arbennig i adlewyrchu arfer Llywodraeth Cymru. | | Uned Gofal Plant | |
| | | Sicrhau bod unrhyw brosiectau Datblygu Ysgolion newydd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer darpariaeth Gofal Plant cofleidiol (Clwb Ar ôl Ysgol, Clwb Gwyliau a Chylch Meithrin/Grŵp Chwarae) yn gynnar yn y cam cynllunio ac yn cysylltu gyda'r Uned Gofal Plant (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny) er mwyn sicrhau bod darpariaeth o'r fath yn addas a chan roi ystyriaeth hefyd nad yw Darpariaeth Gofal Plant sy'n bodoli eisoes yn cael ei disodli. | 2027 | Gwasanaethau Datblygu Conomaidd a Chymunedol | |
| | | Parhau i gynnig grantiau cynaliadwyedd i'r darparwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. | Blynyddol | Uned Gofal Plant | |
| | | Bydd angen cynrychiolaeth partneriaeth Strategaeth yr Economi ar y Grŵp Strategaeth Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae a sicrhau gwahoddiad i grwpiau cyfarfod Tyfu Canolbarth Cymru. | 2022 | | |
| | | Codi statws y sector a sicrhau cydnabyddiaeth bod gofal plant wrth galon yr economi. | 2023 | | |
| | | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cabinet newydd a Chynghorwyr Sir, gan nodi rhan mor | 2022 | | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | bwysig y mae gofal plant yn ei chwarae yn yr economi leol. | | | |
| **Tai** | Mae angen ymchwil pellach i edrych ar yr effaith a fu/a fydd ar leoliadau lle bu/bydd datblygiad tai allweddol. Nid oes unrhyw leoedd Gofal Plant ychwanegol wedi'u creu mewn Meithrinfeydd Dydd sy'n bodoli eisoes na lleoedd ychwanegol wedi'u creu mewn rhai newydd; na chynnydd mewn Gofalwyr Plant cofrestredig yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond maent wedi nodi bod rhestrau aros i blant o dan 2 oed. Mae tystiolaeth lafar bod cynnydd yn nifer y plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn rhai lleoliadau a bydd angen ymchwilio i'r gydberthynas rhyngddynt er mwyn sicrhau bod cyllid a chymorth digonol ar gael. | Sicrhau bod ystyriaeth i ddarpariaeth Gofal Plant yn cael ei chynnwys yn y Prosbectws (Dogfen Cyflenwi Tai Fforddiadwy yn Strategol).<br><br>Monitro'r angen am ofal plant yn unol â datblygiadau tai (fel rhan o'r dasg Monitro Capasiti a Monitro atgyferiadau Cynllun Cyfeirio fesul lleoliad)<br><br>Ymchwilio i'r defnydd o'r Cynllun Budd i'r Gymuned i gynorthwyo i ddatblygu/cefnogi'r sector (o fewn y Strategaeth Gaffael 2018-2022 [strategaeth-gaffael-2018-2022.pdf (ceredigion.gov.uk)](strategaeth-gaffael-2018-2022.pdf)<br><br>Y Cynllun Datblygu Lleol newydd i gynnwys Gofal Plant/Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn y polisi nesaf unwaith yr ailafaelir yn y gwaith<br><br>Ychwanegu Ymgynghori gyda Gofal Plant/Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant mewn ceisiadau ar gyfer datblygiad pellach fel rhan o'r broses benderfynu | 2023<br><br>2024<br><br>2023<br><br>2027<br><br>Blynyddol | Uned Gofal Plant a Swyddogion Datblygu Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru (o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth)<br><br>Rheolwr Dros Dro Budd i'r Gymuned<br><br>Tîm Polisi Cynllunio | |
| **ADY** | Mae angen i'r Awdurdod Lleol fod yn ymwybodol bod nifer yr atgyfeiriadau am gymorth ychwanegol drwy'r Cynllun Cyfeirio yn cynyddu, yn | Mae angen gwneud gwaith pellach i ymchwilio a yw'r arian a ddynodwyd yn ddigon i allu darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen. | 2023 | | Grant Plant a Chymunedau Addysg – mae'n debygol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | enwedig o ganlyniad i'r pandemig ac mae darparwyr yn dweud bod mwy o oedi yn natblygiad plant. Bydd angen gwaith parhaus i sicrhau bod cymorth ar gael i ddarparwyr i gael mynediad at hyfforddiant, adnoddau a chyfarpar priodol.<br>Mae darparwyr gofal plant yn profi cynnydd yn yr anghenion y maent yn eu hadnabod a'r angen i sicrhau darpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion plant lle mae oedi o ran eu datblygiad ac anghenion ychwanegol neu anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r mater hwn yn fwy cymhleth oherwydd y tasgau ychwanegol y mae angen eu cyflawni er mwyn sicrhau diogelwch yn wyneb COVID, y gwaith papur ychwanegol y mae angen ei gyflawni yn sgil hyn ac wrth wneud cais am grantiau.<br><br>Mae rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio ffioedd atodol wrth gael mynediad at addysg gynnar ac mae hyn yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd difreintiedig, sy'n arwain at lefelau presenoldeb is ac mae'n effeithio ar gyrhaeddiad a datblygiad plant. | • Nifer y cyfeiriadau a gefnogwyd gan Gynllun Cyfeirio (fesul lleoliad)<br><br>Sicrhau bod pob lleoliad Gofal Plant yn bodloni gofynion y cod ADY gyda hyfforddiant blynyddol ar gyfer staff newydd.<br><br>Parhau i fonitro effaith COVID-19 ar blant cyn-ysgol, plant a staff mewn lleoliadau Gofal Plant.<br><br>Monitro'r modd yr ariennir y ddarpariaeth yn erbyn nifer y plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn lleoliadau Gofal Plant.<br><br>Mae angen comisiynu ymchwil i'r galw am ADY a'r ddarpariaeth ADY, ynghyd â recriwtio a chadw staff cymwysedig, gan gynnwys dadansoddiad o'r ardal a'r cyswllt â datblygiad tai er mwyn mynd i'r afael â materion y mae lleoliadau yn eu profi o ran cymorth ADY.<br><br>Ymchwilio i'r galw am gymorth Ymuno mewn lleoliadau allweddol a mynd i'r afael â darpariaeth y gwasanaeth.<br><br>Ymchwilio i'r adnoddau er mwyn sicrhau bod plant o deuluoedd difreintiedig yn gallu cael mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar yn | Blynyddol<br><br>2023<br><br>2024<br><br>2024<br><br>2024<br><br>2022 | CADY'r Blynyddoedd Cynnar a Thîm Blynyddoedd Cynnar - Addysg<br><br>Aelodau panel y Cynllun Cyfeirio<br><br>Uned Gofal Plant/ Partneriaid CWLWM<br><br>Uned Gofal Plant / DASH<br><br>Addysg y Blynyddoedd Cynnar / Dechrau'n Deg | y bydd angen arian ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd a ddisgwylir mewn atgyfeiriadau.<br><br>Angen cyllid ychwanegol i dalu am gostau staff er mwyn sicrhau bod costau staff yn cael eu diwallu<br><br>Y Gronfa Datblygiad Plant (dim ond ar gael 22-23) |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | rheolaidd– ar hyn o bryd mae cynnydd yn nifer y plant sy'n torri ar nifer y dyddiau y maent yn mynychu oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio'r ffi atodol. Yn y tymor hir effeithir ar ddatblygiad plant gan y bydd y bwlch cyrhaeddiad yn cynyddu wrth i blant symud i'r ysgol ayb. | | | Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Mae gan Geredigion lefel uchel o ddarpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae recriwtio staff cymwysedig sy'n siarad Cymraeg yn fwy o broblem y dyddiau hyn. Mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod cymorth ar gael o ran hyfforddiant y Gymraeg yn y gweithle. Mae angen i unrhyw ddatblygiad gofal plant yn yr awdurdod roi ystyriaeth i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) wrth i'r Awdurdod Lleol a'r partneriaid fynd i'r afael â chamau gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. | Sicrhau bod pob lleoliad yn **gweithio tuag at** Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg.<br><br>Cefnogi'r sector gydag hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg.<br><br>Hybu Camau a hyfforddiant yr iaith Gymraeg mewn rhaglen hyfforddi dymhorol.<br>• Nifer y staff sy'n dilyn hyfforddiant Camau<br>• Nifer a (%) y darparwyr Cymraeg<br><br>Gweithio gyda chyrsiau partner Gofal Plant Addysg Bellach gyda chefnogaeth ac adnoddau o ran y Gymraeg<br><br>Ymchwilio i gyflwyno bwrsari gyda Thelerau ac Amodau i weithio mewn darpariaeth yng Ngheredigion.<br><br>Cyflwyno'r fideos Trochi Iaith (Tim Addysg Blynyddoedd Cynnar) fel rhan | 2023<br><br>Blynyddol<br><br>Blynyddol<br><br>2025<br><br>2026<br><br>Blynyddol | Uned Gofal Plant a Swyddogion Datblygu Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru (o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth)<br><br>CSGA<br>Ôl-16 - Addysg Coleg Ceredigion | Mae angen arian ychwanegol i gyflwyno bwrsari bosibl<br><br>Cymraeg i Oedolion / |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | o’r rhaglen hyfforddi flynyddol a’r cwrs gwarchod plant.<br><br>Rhannu ymwybyddiaeth o adnoddau yn y Gymraeg ymhlith y sector – codi ymwybyddiaeth o raglen Cyw, apiau yn y Gymraeg, Tic Toc ayb.<br><br>Gweithio gyda’r tîm Cymraeg i Oedolion i edrych am gyfleoedd i ymgorffori gwarchodwyr plant a rhieni i mewn i’r hyfforddiant sydd ar gael i rieni o ran newidiadau drwy’r CSGA. | <br><br>Blynyddol<br><br><br><br>2023/24 | | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| **Rhannu Gywbodaeth** | Mae angen i’r Awdurdod Lleol sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cael ei gynnal ac yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol . Mae angen gwaith pellach i godi proffil y gwasanaeth. Mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd rôl allweddol i sicrhau bod rhieni’n ymwybodol pa ddewisiadau gofal plant sydd ar gael i’w helpu gyda chostau gofal plant. Mae angen i’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd nodi sut y gall hyrwyddo ei rôl ymhlith cyflogwyr lleol yn ogystal ag ymhlith eu cyflogeion. Mae’r Uned Gofal Plant yn cyflawni dyletswyddau (y tu hwnt i’w chylch gwaith) i sicrhau bod y dyletswyddau statudol yn cael eu diwallu ac maent yn gwneud hynny heb unrhyw adnoddau ariannol. | Yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod y dyletswyddau statudol yn cael eu bodloni ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.<br><br>Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gynnal achrediad Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sicrhau bod 100% o’r wybodaeth am ddarparwyr gofal plant ar gael ar DEWIS Cymru.<br><br>Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ddatblygu systemau addas i gofnodi gwybodaeth ynghylch y mathau o ymholiadau y maent yn eu derbyn yn dymhorol: | 2023<br><br><br><br>2023<br><br>2024<br><br><br><br><br>Blynyddol<br><br><br><br><br>2023 | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Gofalwyr Gydol Oes a Chymorth Cymunedol<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cydlynydd Fforwm Gwybodaeth i Deuluoedd a | Adnoddau/cyllid ychwanegol i ddarparu elfen Gofal Plant Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cyllid y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Nifer yr ymholiadau am ofal plant<br>• Nifer y rhieni sy'n nodi eu bod yn cael anhawster i ddod o hyd i ofal plant<br>• Nifer yr ymholiadau trawsffiniol<br>• Nifer y trawiadau ar y cyfleuster chwilio am ofal plant<br><br>Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ailsefydlu'r bwletinau gwybodaeth rheolaidd y mae darparwyr a rhanddeiliaid wedi nodi eu bod wedi gweld eu heisiau o ran adnoddau/gwasanaeth.<br><br>Y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a'r Uned Gofal Plant i ddatblygu systemau addas i rannu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. | <br><br><br><br><br><br><br>2023<br><br><br><br><br><br><br>2023 | Phlant a Phobl Ifanc<br><br><br><br><br><br><br><br>Yr Uned Gofal Plant a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | |
| **Rhannu Gwybodaeth** | Mae angen i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid wneud gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Gofal Plant Ddi-Dreth. Dylid meithrin cysylltiadau â'r Is-grŵp Tlodi sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi yn y gwaith yng Ngheredigion. | Codi ymwybyddiaeth am y fenter Gofal Plant Di-dreth a rhaglenni cymorth eraill ymysg darparwyr Gofal Plant, rhieni a'r Is-grŵp Tlodi, gan fod hwn yn rhoi cymorth gyda chostau Gofal Plant i blant rhwng 0 a 12 oed.<br><br>Adroddiad am faint sy'n dechrau derbyn Gofal Plant Di-dreth a chynlluniau cymorth eraill, er mwyn monitro llwyddiant y gweithgaredd hyrwyddo<br><br>Cais i ychwanegu at y Dangosfwrdd Tlodi | 2023<br><br><br><br><br><br><br>Blynyddol<br><br><br><br><br>2022 | Yr Uned Gofal Plat<br><br>Ymchwil a Pherfformiad<br><br><br>Is-grŵp Tlodi a Mynd i'r Afael â Chaledi | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gweithio gyda'r Is-grŵp Tlodi a mynd i'r Afael â Chaledi / sefydlu grŵp gorchwyl i gynnal ymchwil pellach i adnabod materion neu feysydd lle mae gallu rhieni i fforddio gofal plant yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau gofal plant.<br>Ymchwilio i 20 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ac unrhyw gyfatebiaeth gyda chynialadwyedd lleoliadau a chyswllt â datblygiad tai arfaethedig. | 2024 | | |
| | Mae angen parhau i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cynllun ac yn gwybod sut i wneud cais amdano.<br><br>Mae angen i'r Awdurdod Lleol ystyried y cyfleoedd i ymgysylltu â darparwyr Gofal Plant, rhieni a chyflogwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a mentrau eraill i helpu gyda chostau Gofal Plant, i liniaru tlodi mewn gwaith a lleihau canran y plant sy'n byw mewn tlodi, drwy ddatblygu llwyfan ar y Cyfryngau Cymdeithasol. | Yr Uned Gofal Plant a phartneriaid i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant ar lefel fwy lleol i fusnesau lleol.<br>• Ymgyrch dymhorol i staff/rhieni'r lleoliad i esbonio'r Cynnig Gofal Plant.<br>Ymchwilio a yw'r nifer isel sy'n cymryd y Cynnig Gofal Plant o ganlyniad i'r awydd i beidio ag effeithio ar fynediad at gymorth Gofal Plant drwy Gredyd Cynhwysol.<br><br>Mae angen i Lywodraeth Cymru edrych ar gymhwysedd cefnogi rhieni sy'n gweithio ond sydd ar incwm isel.<br><br>Hyrwyddo'r canllaw newydd a ddatblygwyd i roi gwybod i deuluoedd amaethyddol pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfere gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant. | Tymhorol<br><br><br><br>2024<br><br><br><br>2024<br><br><br>Tymhorol | Tîm Cynnig Gofal Plant<br><br>Uned Gofal Plant | Grant Gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau bod yr holl ddarparwyr Gofal Plant yn barod ar gyfer y llwyfan digidol newydd.<br><br>Mae angen mynediad at y llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol ar yr Uned Gofal Plant, er mwyn codi proffil y Cynnig Gofal Plant.  Datblygu Achos Busnes. | Rhagfyr 2022<br><br>2023 | | |
| | Mae angen gwella'r ddeialog a'r gwaith partneriaeth rhwng yr Uned Gofal Plant a'r timau Gofal Cymdeithasol.<br>Mae'n bosibl bod baich y llwyth gwaith ychwanegol yn effeithio'n waeth ar ofalwyr plant, gan eu bod yn weithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain ac yn gweithio o'u cartrefi eu hunain. Maent yn darparu eu gwasanaethau dros oriau estynedig ac mae ganddynt eu hymrwymiadau teuluol eu hunain. Mae hyn yn golygu bod eu holl waith gweinyddol yn cael ei gyflawni y tu allan i'r oriau y maent yn darparu Gofal Plant.   Felly, byddent yn elwa'n fawr o gymorth estynedig a chydnabyddiaeth pobl broffesiynol eraill o bwysigrwydd eu cyfraniad i fywydau plant. | Yr Uned Gofal Plant i ddatblygu partneriaeth waith agosach gyda'r Timau Gofal Cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth am statws broffesiynol y darparwyr Gofal Plant.<br><br>Yr Uned Gofal Plant i rannu ymatebion o'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr gyda Thîm Dechrau'n Deg er mwyn eu defnyddio wrth gynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth. | 2023<br><br>2022 | Gofal Cymdeithasol<br><br>Uned Gofal Plat<br><br>Dechrau'n Deg | Cyllideb Graidd |

DRAFT